TAITH
NEU
SIWRNAI
Y
PERERIN,

Tan *Rîth* neu *Gyffelybiaeth*

Bzeuddwyd:

Yn yr hwn y dangosir,

I. *Y Môdd* y mae *Pechadur* yn Cychwyn, neu yn Dechreu ei Siwrnai, o'r Byd hwn tua'r *Nefoedd.*

II. Y *Peryglon* y mae fo 'n cyfarfod ag hwynt, yn ei *Daith.*

III. Ei *Ddyfodiad* o'r diwedd ir *Wlâd ddymunol, neu'r* Nefoedd, *mewn* Diogelwch.

Arferais gyffelybiaethau, trwy Law y Prophwydi. Hosea 12. 10.

Wedi Lisunso gan *R. Midgley*, y 23 o fis *Tachwedd*, 1687.

Printiedig yn *Llundain* gan *J. Richardson*, yn y Flwyddyn 1688.

ER bod rhai beiau llythrenol yn y Llyfr hwn (fel y maent yn arferol o fod ymmhob Llyfr) y rhai wrth y ſens ar yſtyr y fedrwch chwi eich hunain eu gwellháu ; etto deliwch ſulw mai fel hyn y dylai fod y pedair lein ddiweddaf yn y ddalen 66. *O herwydd ei fod ef yn fodion i aros am pethau y goreu i meddiannu nhwy yn y byd y ddaw er ei fod ef etto hebddynt.*

John Owens his hand

992342
839231
05311

LLYFRGELL
GENEDLAETHOL
CYMRU

Lythr at y Cymru.

Fy Anwyl Gyd-wladwyr,

YR wyfi n danfon yn awr Lyfr i'ch myſg, y fu Offeryn i wneuthur llawer o Ddaioni, i fagad o bobl, y ſydd yn deall Saeſneg; yr hwn a gyfieithiwyd, megis ir Ffrangeg a'r Dwtſh, felly hefyd yr-wan ir Gymraeg; mewn Gobaith y bydd e buddiol (trwy Fendith yr Arglwydd) naill a'i i Weithio Grâs lle mae 'n niſſyg; neu yntau i angwanegu Grâs, lle y mae e eiſus.

Gwir yw, fod yn y Llyfr yma Bliſgyn a Chnewllyn; ac am hy ny, rhaid ei ddarllen e yn fynych troſto; fal y gellir torri y Pliſgyn (ſef, deall y Damhegion, y ſy 'n rhedeg trwyddo) ac felly canfod y Cnewllyn (y matter cynhwyſedig yn y cyffflybiaethau) iw fwyta (trwy Fyſyrio arno) megis ymborth melus a iachuſol.

Y mae 'r Cyfieithiad o waith pedwar o honom, ſef Gwr bonheddig o Wynedd (yn yr hanner olaf o'r Llyfr) Gwr o Benkadair, Yſcolhaig icuangc a ddaeth gyda mi ir Ddinas hon, ac o'm gwaith fy hunan (y rhan fwyaf o honaw) gan ſefyll ar yſcwyddau y lleill, fal y gallwn ganfod ym mhellach nag hwynt-hwy.

Ni chedwais i Eiriau, ond yſtyr a meddwl yr Awdwr (mewn amryw fannau) yn y cyfieithiad: Canys fal y gŵyr y Dyſceddig yn ddi-

gon da; nid oes vn Llyfr a gyfieithir, o vn iaith ir llall, Air yng Air, *a dâl ei ddarllain; oblegit bod Phrafes (ymadrodion) a Geiriau yn bryd-ferth mewn vn iaith, y rhai nid ydynt felly mewn iaith arall.*

Mi a adewais allan Ail-adroddiad rhyw bethau, ar a oedd yn y llyfr Saefneg; canys wedi eu gofod hwy ar lawr vnwaith, Beth oedd raid eu mynegi rhw drachefn?

Mi a angwaneegais ym mron fheet at y Llyfr, ynghylch mynediad y Pererin tua Mynydd Sinai; *ynghyd â llawer o egluriadau eraill; fal y gellit ei ddeall e 'n well: Ac mi a adawaf y Dyfcedig i farnu, pa vn nad yw 'r Llyfr yma yn hawddach iw ddirnad ai ddeall nâ r llyfr* Saefneg. *Ac fal na byddem ni yn* Farbariaid *y naill ir llall, mi a agorais eiriau Gwyr Gwynedd â'n geiriau ni o* Ddeheubarth; *a'n geiriau ninne, âi geiriau nhwythau.*

Mi a gynghorwn ir fawl fydd yn chwennychu dyfcu darllen cymraeg, i brynu Primer ac Almanack Mr. Thomas Jones; *canys y mae 'r Llyfrhereinnau a'r Sylattau ynthynt; fal na bo iddynt fyblachad a diwyno y Catechifm, a elwir Fail y Grefydd Chriftianogawl, a phethau da eraill wedi eu pwytho gydag ef, ac a ddaw ar fyrder ir wlâd; nid yn vnic er mwyn* Plant, *ond hefyd er mwyn* Pobl oedrannus; *fal y gallont ddeall Gwyddorion Crefydd yn well, a byw yn fwy Cyfattebol iddynt.*

Os Printier y Bibl cymraeg dracheſn; rhaid i rai

i rai o honoch ſod yn foddlon i dderbyn ef, er na bo yntho ond y Teſtament hên, a'r Newydd, a'r Pſalmau cân, wedi eu beindio ynghyd; canys felly y printier llaweroedd o honynt, ſal y bo 'r Biblau yn rhattach ir tlodion. Ac am y Llyfr Gwaſanaeth, *ynghyd a'r pſalmau iw darllain, a'r pſalmau ar gân, fe ellir eu cael hwynt* yng-Hymraeg, (*wedi eu beindio ynghyd*) *gan y rhai ſy'n gwerthu lyfrau Mr.* Thomas Jones yng-Hymru; *Ac hefyd Dictionary cymraeg wedi ei gaſclu allan o Ddictionary Dr.* Davies *gantho ef.*

Os byth y daw Gwaith Ficcer Llanddyfri *ir wlâd drachefn; na ddiſgwyliwch gael yntho yr* Hiſtoriau, y Diharhebion, *yr* Ymholiad *beunyddiol, a'r* Llythyrau *eraill, ar a oedd yn y Llyfrau a brintiwyd cynt (y cwbl o waith rhai eraill): Ond edrychwch, am gael yntho, yr hyn oll o'i waith ef, ar a ydoedd gynhwyſedig o'r blaen, mewn pedair Rhan; ac hefyd am angwanegiad o ychydig (a gefais i mewn vn o'i yſcrifenniadau ef) nas printiwyd erioed hyd yn hyn. Ac ni chyſt y Llyfr i chwi ond vn-ar-hugain, os myſi, neu vn ffrind i mi a ddenfyn y Llyfr hwnnw ich myſg.* Ac oni fydd e 'r fath Lyfr, ac yr wyn yn crybwyll yn awr am dano yn y llythr hwn, na phrynwch mo honaw mewn môdd yn y Byd; *Canys y mae yma Rai Dynion anoneſt, ac y ſydd yn Sôn am brintio 'r Llyfr hwnnw eilchwaith: Ac yr wi'n rhag-weled, y ſpwylant ac yr anrhithiant hwy 'r Gwaith; ac y mynnant hwy brîs mawr am y Llyfr: A chwedi gwneu-*

thur eu heithaf, heb help yr hwn a'i gosododd ef allan cynt (neu 'r cyfryw vn arall ar y ſydd yn deall y iaith) yr wi 'n rhag-fynegi i chwi, na bydd y Llyfr hwnnw, y ddenfyn y Rhai Digydwybod hynny allan, yn gymmwys i Ddim, ond iw Loſci.

Edryched y wlâd yntau, rhag cael eu twyllo yn y matter yma; na chan wŷr Llundain, na chan ein Gwerthwyr *Llyfrau ni yng-Hymru: y mae Rhan o Lyfr y* Golomen *a'r* Gigfran *wedi ei wnio gyda ſail y Greſydd. Yr oedd Arian yn niffyg i brintio 'r cwbl: A phe buaſei Arian i ddwyn y côſt hynny i Benn; yr oedd y llyfr yn goſyn mwy o amſer iw egluro, nag a allwn i ei hepcor yn breſennol, ir diben hynny. A lle 'rwyſi wedi gadel rhyw bethau heb eu printio (yn yr hyn ſydd yn awr yn dyfod allan) ac wedi anghwanegu pethau eraill atto; ond ir Dyſcedig a'r Pwyllog gwmparo a chyſtadlu yr hên Lyfr a'r newydd ynghyd, hwy a ddeallant yn hawdd fy rheſymmau i, am yr hyn a wnaethum. Duw 'ch Benditho chwi oll. Yr wyf yn* Gorphwys

Llundain y 10 Ionawr, 168⅞.

Eich Gwaſanaethwr yn yr Arglwydd
S. H.

Y mae Llyſr da, a elwir Trugaredd a Barn, o bris 9 d. *heb ei findio, a ſwllt wedi ei findio, yr hwn a brintiwyd yr hâf diwethaf, iw gael ar werth yng-Hymru.*

Fel

Fel na byddei ddalennau gwynion, yn y Llyfr y mae Rheolau duwiol, i Griſtion iw harfer, wedi ei goſod yma.

PAn deffroech di gyntaf yn dy wely, bydd ſiccir i feddwl am yr Arglwydd ; a gâd ith enaid eſcyn i fynu ar aden ffydd, i roddi iddo aberth boreuol o ddiolchgarwch, am ei ddaioni i'ti y nôs a aeth heibio ; a gwna hyn, cyn i'ti feddwl am ddim arall ; rhag drwy hynny ith enaid gael ei lychwino a'i ddiwyno a phechod. *Pſal.* 63. 6.

2. *Pan gyſodech di gyntaf, nac oeda dîw dy dylwyth yng hyd, i roddi diolch ir Arglwydd am ei drugareddau yn gyffredin ; ac yn neilduol i'ti ac ir eiddot*, Joſ. 24. 17. Jer. 10. 25. A gwêl na wnelych mo hynny yn llygoer, yn draddodiadol, ac yn vnig o ran arfer : Ond gwna ef mewn cydwybod a gwîr gariad i Dduw ; gan alaru o'th galon, nad ellit ti gyflawni dy ddyledſwyddau yn fwy yſprydol a nefol ; gan gyfaddef dy bechode, ac yn oſtyngedig ymbil am faddeuant am danynt. Ac ar ôl hynny, mae yn gymmwys i'ti ymbil am y cyfryw bethe, ac ſydd arnat ti eiſiau ith enaid neu ith gorph ; a chan geiſio bendith ar waith y diwrnod ſydd yn canlyn, cais gredu, y bydd Duw er mwyn Criſt yn dy atteb di ; naill ai yn ôl y pethe a oſynnaiſt di ; ai ynte mewn pethe y mae efe yn ei weled yn well ar dy lês di. *Iac.* 1. 6. 7. *Jo.* 14. 14. *Ier.* 29. 13.

3. *Bydd*

3. *Bydd ſiccir a diymmod yn dy feddwl yn waſtado! o hyn ; mai pa le bynnag y byddych di, a pha bêth bynnag y byddych di yn ei wneuthur, dy ſod di ym mhreſennoldeb yr Arglwydd* : A gâd yr yſtyriaeth o hynny, weithio ynot ti barch iw fawrhydi ef, cariad ir rhai ſydd yn ei ofni ef, ac ofn rhag pechu yn ei erbyn ef ; a hynny yn y dirgel, yn gyſtal ac yn yr amlwg, gan nad oes le nad yw efe yn ei ganfod. *Dihar.* 15. 3. *Pſal.* 139. 7.

4. *Gwna gyfarwybod o gadw allan o'th galon, beb mâth ar feddyliau ofer, aſlan, ac annuwiol*; a diwreiddia hwynt yn bryſur fel y gellych di gael cymdeithas â Duw ; yr hwn ſydd barod i letteua gyda 'r ſawl ai ceiſiant ef à chalonnau union. Gwel gan hynny na byddych eſceulus i ragflaenu pechod, cyn i ddyfod ir weithred ; canys meddyliau drwg yw hâd gweithredoedd drwg, o ba herwydd y daw digofaint Duw ar blant yr annufydd-dod. *Jer* 4. 14. 1 *Jo.* 1. 7. *Joan* 14. 23. *Eph.* 5. 6.

5. *Gâd ymmaith gellwair a chwedleua ofer, gan fôd yn ofalus i gadw dy dafod oddi wrth ddrwg, a'th wefuſau rhag treuthu twyll.* Canys mewn amlder geiriau, ni bydd pall ar bechod. Gan hynny ymattal ſydd ſynwyr ; a phan ddywedech di, dywedyd y gwirionedd ſydd ddoethineb ; Canys angau a bywyd ſydd ym meddiant y tafod, a'r rhai a'i carant ef, a fwyttânt o'i ffrwyth ef. *Wrth dy eiriau i'th gyfiawnheir, ac wrth dy eiriau i'th gondemnir*, Epheſ. 5. 4. Dih. 10. 19. Mat. 12. 37.

6. *Bydd*

6. *Bydd ſiccir yn dy feddwl, mai dy gyſlwr preſennol ſydd orau ar dy lès,* (oni bydd ef mewn pechod) pa un bynnag yw ef ai hawddfyd ai adfyd, tlawd neu gyfoethawg; canys tadol rhagluniaeth Duw ydyw. Ac heb ei ewyllys ef nid oes dim yn digwydd iw bobl, (a bydded dy ofal pennaf di, am fod yn un o'r cyfryw) a gâd i hynny gynnal dy enaid ti i fynu yn fodlon, ac yn gyſſurus; canys efe a ddywedodd, *Ni'th adawaf, ac ni'th lwyr wrthodaf chwaith.* Mat. 10. 29. 30, 31. Heb. 13. 5.

7. *Ymegnia am gariad helaeth*; canys y mwynhâd o hono ſydd hyfryd; mae ſe yn cuddio lliaws o bechodau, ac yn gwneuthur dŷn yn debyg i Dduw; canys Duw cariad yw. Oblegid hynny câr dy elyn, canys felly y gorchymynir i'ti; ac os gwnaeth efe gam â thydi, na wna di mo'r cam a thydi dy hun drwy ymddial arno; canys mae yn ſcrifennedig, *i mi mae dial medd yr Arglwydd. Ac na orchfyger di gan ddrygioni, ond gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.* 1 Pet. 4. 8. 1 Jo. 4. 8. Rhuf, 12. 19. 21.

8. *Gochel ddigofaint*; *canys ſe gyffru gynnen, ond atteb arafaidd a ddettru lid*; canys fel ac y mae y tân, os chwythi arno, yn ennyn; ond os poeri arno fe a ddiffyd: Felly os bydd amynedd yn eiſieu, ſe eiff y tân yma (ſef naturiaeth ddynol) yn eirias neu'n fflam. Dilyn gan hynny heddwch a phawb hyd y bo boſſibl i'ti; *canys newid geiriau ſydd yn annog digofaint.* Gan hynny

hynny diſtawr wydd (megis dwfr) ſydd gymmwyſa ir gwres yma; canys yſtyria *nad ydyw digo faint gwr yn cyflawni Cyfiawnder Duw. Dihar.* 15 1. *Rhuf.* 12. 18. *Jac.* 1. 20.

9. *Nac anghofia wneuthur daioni a chyfrannu, canys mae hynny yn orchmynedig ac yn gymeradwy gan Dduw*: Gan hynny na chau mo'th glûſt rhag llêf y tlawd, rhag i'tithe hefyd weiddi; ac i Dduw naccau dy atteb: A phan wnelych ddaioni, bydd ſiccir na arferech eiriau coegion, diyſtyr, fel y mae arfer rhai; *canys bernwch chwi onid yw gair da yn fwy cymeradwy weithie nâ rhodd fawr*, a gŵr dâ a rŷdd bôb ûn o'r ddau. *Heb.* 13. 16. *Dih.* 21. 13.

10. *Gwêl mewn gair a gweitbred i'ti fod yn enſampl i eraill iw ddilyn*: a gâd i hyn gael i gyflawni yn ddiragrith; ac nac anghofia gadw cydwybod dda ymhôb peth; canys hynny a ddŵg i'ti heddwch yn y diwedd. *Phil.* 2. 15. *Act.* 24. 16. 2 *Cor.* 1. 12.

11. *Ymarfer yn dy holl fywyd wir oſtyngeiddrwydd*, canys *mae Duw yn gwrthwynebu'r beilchion, ond yn rhoddi grâs ir goſtyngedig*. Oh bêth yw llwch a lludw i fôd yn falch; Dyſc gan hynny oſtyngeiddrwydd yn ôl enſampl Criſt, yr hwn er ei fôd ef yn Dduw, etto er hynny a gymmerth arno agwedd gwas, ac yn y ddull honno, fe a ddywedodd dyſgwch genniſi, *canys addfwyn a goſtyngedig o galon ydwyf.* 1 *Pet.* 5 5. *Phil.* 2. 7. *Mat.* 11. 29.

12. *Os bydd un amſer i gynhyrfiad da gyfodi*

yn

yn dy galon di, na chynnwys iddo fyned allan, heb ei chwythu ai ymgleddu, drwy ddarllen, myfyrio, neu weddio; canys fe alle mai gwreichionen oddi wrth Dduw yw ef; a'r môdd i beri iddo gynnyddu, yw myfyrdod a gweddi. Jac. 1. 17. 1 *Tim.* 4. 15.

13. *O bydd i'ti gwympo i bechod, cais gyfodi yn ddioed trwy edifeirwch*; ac na orwedd yntho gydâ'r meirw; ond cyfod drachefn drwy ffydd yn Ghrift, megis un yn fyw i Dduw; *rhag trwy aros mewn pechod y caledir di yntho, ac felly bod o honot yn golledig.* Eph. 4. 26. Eph. 5. 14. Heb. 3. 13. Ezec. 18. 24.

14. *Pa beth bynnag y gymmerech di mewn llaw, cofia dy ddiwedd*; canys tra gwnelych di hynny, ni lithri di ddim; gan gyfri dyddiau dy fywyd megis dydd dy farwolaeth; *canys nid oes dim ficcrach nâ marwolaeth, na dim anficcrach nâ'r amfer o honi*: bydd gan hynny fobr, a gwiliadwrus; fel y gallo Crift ar ei ddyfodiad, dy gael yn effro. *Ac i'th helpu di i wilio yn well, gâd i hyn feinio beunydd yn dy glufliau di*: Cyfodwch y meirw, deuwch ir farn. *Pfal.* 39. 4. 2 *Thef.* 5. 6. *Luc.* 12. 37.

15. *Treulia'r Sabbath yn dy holl fywyd fel y gallo dy enaid ti gael gorphwyftra tragwyddol ar ôl dy farwolaeth (neu fel y bo i ti adnabod, dy fod ti ar y fforddi gael gorphwyftra tragwyddol).* Gwêl gan hynny, na wnelych ddim gwaith arno, ond y gweithredoedd a anrhydeddant Dduw, megis gwrando'r gair yn ddiwyd, porthi'r newynog, dilladu'r noeth, cyfluro y digyfflur, a'r cyffelyb. Cymmer ofal ar i'ti ymgadw yn ddyfal oddiwrth bechod, a hynny ar feddwl, gair, a gweithred, canys fancteiddrwydd a weddei i'r diwrnod hwnnw: ac na thybia fod yn ddigon i'ti dy hûn fôd o'r meddwl yma, ond ymegnia i berfwadio dy blant a'th dylwyth, i fôd o'r un farn, gan wrando'r gair, a gweddio, yn gyhoedd ac yn neillduol, gan gyd-ymddiddan am bethau yfprydol. *A gâd i'th enaid nofio mewn myfyrdodau duwiol; canys felly ni byddi di vnig, onid Duw a fydd gydâ thydi.* Efa. 58. 13. Gen. 18. 19. Deut. 6. 6. 7. Jac. 4. 8.

16. *Wedi treuliech di y diwrnod yma* (ac felly 'r un môdd dyddiau 'r wythnos) *galw dy hûn i gyfri pa fodd y treuliaift di y diwrnod y baffiodd.* Dy gam weithredoedd edifarhâ

a bydd

a bydd drift oiplegit: a bydded yr ymroad yma ynot ti, ar i'ti fôd yn fwy gofalus rhag cwympo i'r fâth bechodau, ac i eſceuluſo y fâth ddyledſwyddau, y rhan arall o'th ddyddiau: Dy weithredoedd crefyddol anghofia; *gan wybod nad yw dy weithredoedd goren di, ond fel brattiau budron, os dydi ni chei ynddangos o flaen Duw yngwiſc, ac yrghyfiawnder ei fab eſ Ieſu Grift.* Gwna ddyled-ſwyddau gan hynny mewn vfydd-dod i Grift, ac nac ymddiried i'th weithredoedd dy hun: *ond gwredi i ti wneuthur y cwbl, cyfrif dy hun yn wâs anfuddiol.* Ac er hynny gwybydd, na anghofia Duw vn weithred dda, a wnelych di mewn vfydd-dod iw orchmynion ef ac o gariad arto ef. Gâd-i holl ddyddiau dy fywyd di gael ei treulio fel hyn; A *bydd ſicer ar na flinech ti yn gwneuthur daioni; canys dyna 'r unig rai a goronir, ſef, yrhai a barhâo hyd y diwedd, mewn ffydd, a chariad, ac vfydd-dod i Ghriſt.* Luc. 17. 10. Heb. 6. 10. Datc. 2. 10.

17. *Nac amranted dy lygaid ti'r nôs, nes i'ti dy orchymyn dy hûn a'th holl deulu i ddwylo 'r Arglwydd trwy weddi*; a gwilia rhag gwneuthur hynny yn oerllyd ac yn ddieg ar dy wely, fel y mae arfer rhai; ond ymoſtwng dy enaid o flaen yr Arglwydd, gan fynd ar dy liniau, gan gymeryd Criſt yn enſampl i'ti, nid yn vnig yn hyn, ond ym-mhôb peth arall, fel i'n caffer ni yn ddilynwyr iddo ef; canys wedi i'ti gwympo i gyſcu, beth a wyddoſt di, pa un a wnei di ai deffroi-fyth ai peidio: *Cofia gan hynny mai lle y cwympo y pren, yno y trig ef*; *ac lle y gadawo marwolaeth di, y cymmer barn afael arnati.* Rhuf. 12. 11. Mat. 26. 39. Pſalm 95. 6. 1 Cor. 11. 1. Preg. 11. 3.

18. *Rhodiwch fel plant y goleuni, gan dreulio eich amſer mewn ofn*; canys mae dydd yr Arglwydd yn dyfod fel lleidr y nôs, yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrwſ, a'r defnyddiau gan wir wrês a doddant, a'r ddaiar a'r gwaith ſydd ynddi a loſcir; a chan fôd yn rhaid ir holl bethau hyn ymddatrod, pa fâth ddynion a ddylem ni fôd, ym-mhôb ſanctaidd ymarweddiad a duwioldeb; *Canys ni wyr yr un o honom ni na 'r awr, na 'r amſer y daw ein Harglwydd.* Byddwch gan hynny ſobr; gwiliwch; a gwyn fyd y gwâs hwnnw y ceiff ei feiſtr ef pan ddêl yn gwneuthur felly: *a'r hyn yr wyfi yn ei ddywedyd wrthych chwi, yr wyf yn ei ddywedyd wrth bawb Gwiliwch.* Eph. 5. 8. 1 Pet. 1. 17. 2 Pet. 3. 10. 11. Mat. 24. 44. Marc. 13. 37.

Taith

Taith y Pererin Dan Rith Breuddwyd.

FAl yr oeddwn yn rhodio trwy Anialwch y Bŷd hwn, mi a ddaethym i ryw * Fangre, lle'r oedd ffau neu ogof, ac mi a orweddais i lawr i gyſgu yno: Ac fal yr oeddwn yn cyſgu, Mi a freuddwydiais Freuddwyd. Ac yn fy Mreuddwyd, mi a welais wr wedi ei ddilladu † â Brattiau, yn ſefyll ar ryw Fann, || â'i wyneb wedi droi oddiwrth ei Dŷ ei hun, a * llyfr yn ei law, a † Baich mawr ar ei Geſn. *Eſay* 64. 6. *Luc.* 14. 26. 33. *Hab.* 2. 2. *Pſal.* 38. 4. Mi a edrychais ac a'i gwelais ef yn agor y llyfr, ac yn darllain yntho, ac fal yr oedd efe yn darllen, fe a wylodd ac a grynodd gan ofn: Ac oblegit nad allai efe ymattal yn hŵy, fe a dderchafodd ei lêf yn alarus iawn gan ddywedyd, *Beth a wnaſi.* Act. 16. 29, 30. Act. 2. 37.

* *Fann.*

† *â'i gyſiawnderau gwael ei hun.*

||*â pharodrwydd yntho i ymadael â'r cwbl, yn hytrach na bôdyn golledig.*

* *Y Bibl.*

† *Baich o bechodau.*

Yn y cyflwr hwn ſe a ddychwelodd adref, ac a ymattaliodd cyhyd ac y gallai, fal y byddai ei 'gyſtudd ef yn gudd-iedig oddiwrth ei Wraig ai blant: ond

nid allai efe gelu mor peth yn hîr, am fod ei gyfyngder ef yn ymhelaethu : Ac am hynny, o'r diwedd, fe a ddatguddiodd ei feddwl iddynt, ac a ddechreuodd ymddiddan â nhwy || yn llyn, gan ddywedyd, *O fy ngwraig anwyl, a chwithau plant fy ymyſcaroedd, * fe ddarfu am danaf, canys y mae Baich trwm yn fy llethu i yn doſt : heblaw hyn, fe hyspyſſwyd i mi yn lle gwîr, y lloſcir ein Dinas ni â thân o'r nefoedd, ac yn y || difrod ofnadwy hwn*, nid yn unig myfi, ond tyditheu hefyd fy ngwraig, a chwithau fy anwyl blant bychain a ddifethir mewn modd echrydus, oddieithr i ni gael (yr hyn nid wyfi yn ei weled etto) rhyw ffordd i ddiangc fal ein gwaredir.

|| *Fal hyn.*

* *Rwi 'n golledig ynoſ fy hun am fy mhechodau.* Rhuf. 6. 23.

|| *Diſtryw.*

Ar hyn ei dylwyth a'i Geraint ef a * ſynnaſant yn ddirfawr, heb gredu er hynny, fod y pethau a lefarodd efe wrthynt yn wîr. † Eithr oblegit eu bod hwy'n tybied, ei fod e gwedi gwallgofi ; ac am eu bod hi yn hwyrhau, a nhwythau yn gobeithio y ſefydlai cwſc ei ymmhennydd ef, hwy a'i goſodaſant ef yn ei wely ar frŷs : ond yr oedd y nôs mor flîn iddo fe a'r dydd ; ac am hynny, yn lle cyſgu, fe a'i treuliodd hi, mewn ocheneidiau a dagrau : A thranoeth pan y mynnent wybod, pa fodd yr ydoedd efe, fo'i hattebodd hwynt, ei fod ef yn waeth o lawer nag o'r blaen ; ac fe a ddechreu-

* *Rhyfeddaſant.*

† *Y mae'r Byd yn barnu, fod y Sawl ſy 'n aneſmwyth am ei ſechodau gwedi ynſydu.*

odd

odd ymddiddan â nhwy drathefn ; ond hwy a galedaſant eu calonnau yn erbyn ei gynghorion ef, ac a ymdrechaſant i yrru ymmaith ei anhwyl ef, trwy fod yn afrwyog ac yn * ſarrug tuag atto. Weithiau hwy a i gwatworent ef, weithie hwy a ymryſonnent ag ef, ac weithie hwy ai llwyr ddibriſſient ef : Ac am hynny fe a ddechreuodd ymneillduo oddiwrthynt, ac a aeth iw ſtafell i weddio troſtynt, ac i doſturio wrthynt, ac i ymofidio hefyd am ei drueni ei hun. Ac ar ryw brydiau fe a rodiai wrtho ei hun yn y meuſydd, weithiau 'n darllain, ac weithiau 'n gweddio ; ac fal hyn y treuliodd efe ei amſer tros rhai dyddiau.

* *Ffyrnig ei golwg.*

A phan yr ydoedd efe ryw Brŷd yn rhodio yn y meuſydd, mi a'i gwelwn ef (yn ol ei arfer) yn darllen yn ei lyfr (eithr yn gyſtuddiedig iawn yn ei yſpryd) ac wrth ddarllain ſe a dorrodd allan megis o'r blaen, gan ddolefain, *Pa beth a wnaſi fel y byddwyf gadwedig?* Act. 16. 30.

Mi ai gwelais ef hefyd yn edrych yma ac accw, fal pe buaſai yn ei frŷd ef i ffoi ymaith ; etto fe a ſafodd yn ddiyſcog ; oblegit (fel y tybygwn i) nas gwyddai fe pa ffordd i fyned.

Yna mi a welwn wr (a'i enw * *Efangylwr*) yn neſſau atto ef, ac yn gofyn iddo, pa ham yr wyt ti 'n llefain ? Yntef a'i hattebodd ef, Syr, 'rwyfi 'n deall

* *Pregethwr yr Eſengyl.*

wrth y llyfr ſydd yn fy llaw, fy môd i gwedi 'm † condemnio i farwolaeth, ac ar ôl hynny i ddyfod ir Farn, ac nid wyfi 'n ewyllyſgar i farw, nac yn abl i ymddangos yn y Farn: *Heb.* 9. 27. *Job* 36. 20. *Ezec.* 22. 14.

† *Euog-farnu.*

Yna ebe *Efangylwr*, pa ham yr wyt ti 'n anewyllyſgar i farw, gan fod y bywyd hwn mor llawn o || helbul, *Job* 14. 1. A'r Gwr a'i hattebodd ef, am fy môd yn ofni, y gweſgir fi i lawr, gan y Baich y ſydd ar fy nghefn yn îs nâ 'r Bèdd, ac y bydd i mi ſyrthio i || *Tophet*, *Eſay* 30. 33. Ac Syr, os nid wyfi gymmwys i ſyned i * *Garchar*, llai o lawer yr wi 'n barod i ſyned ir *Farn*, ac oddi yno † i Lê y coſpedigaeth. A'r meddyliau yng-hylch y pethau hyn ſy 'n peri i mi wylo.

|| *Trwbwl.* * *ir Bedd.* † *i oeſtern.*

Yna ebe *Efangylwr*, || or 'dwyt ti yn y cyflwr hwn, pa ham yr wyti 'n ſefyll yn llonydd? Yntef a attebodd, am na wn i, i ba lê i fyned: yna fe roddes iddo rol o * Femrwn, ac yr oedd yn ſcriſennedig yntho, *Ffówch rhag y llîd a fydd.* Mat. 3. 7.

|| *Os ydwyt* * *Parchment.*

Fe ddarllenodd y Gwr y geiriau, a chan edrych ar *Efangylwr* yn grâff, fe a ofynnodd iddo, *i ba lê y ffoaf?* Yna ebe *Efangylwr*, gan ddangos à'i fŷs tros Faes † chang, *A weli di y Porth bychan accw?* Na welaf ebr Gwr. Yna ebr llall, || *A weli di y Goleuni diſclair accw?* Yntef

† *Llydan.* || *Nid ellir adnabod Crift, na'r ffordd tu ag atto, heb y ſcrythur.*

tef a'i hattebodd ef, mi dybygwn fy môd yn ei weled ef, Yna ebe *Efangylwr* wrtho, cadw dy olwg yn waſtadol ar y goleuni accw, a dòs yn vnion tuag atto; ac felly y cei di weled y *Porth*; a phan y curech wrthi, fe ddangoſir i ti beth ſydd raid i ti ei wneuthur *Mat.* 7. 14. *Pſal.* 119. 105. *Joan.* 9. 39. 2 *Pet.* 1. 19.

Yna mi a welwn y Gwr yn dechreu rhedeg; ac nid aethai fo'n-nepell oddiwrth ei Dŷ ei hun, ond wele 'roedd ei wraig a'i blant (wrth ganfod hynny) yn gweiddi ar ei ôl ef, gan alw arno i ddychwelyd: Eithr fe a oſododd ei fyſſedd yn ei gluſtiau, ac a redodd ym-mlaen, gan * grôchwaeddi, *Bywyd, Bywyd, Bywyd tragwyddol*: Ac nid edrychodd efe yn ei ôl, ond fe ffòodd tua chanol y Gwaſtadedd. *Luc.* 14. 26. *Gen.* 19. 17.

* *Uchel.*

‖ Y Cymydogion hefyd a ddaethant allan i weled ef yn ffryſtio ymaith, ac fel yr oedd e'n bryſſio, rhai a'i gwatwarent, eraill a'i bygwthient, a rhai a waeddent ar ei ôl ef, gan alw arno i ddychwelyd adref: ac ym-mhlith y rheini, yr oedd Dau, a'r a fwriadaſant trwy daerni ei berſwadio ef i ddychwelyd yn ôl; Enw yr vn oedd *Cyndyn*, ac Enw 'r llall oedd *Meddal*. Ac erbyn hyn yr oedd y Gwr gwedi myned yn lled-bell oddiwrthynt; er hynny yn ôl eu pwrpas, hwy a'i canlynaſant ef; ac o fewn ychydig o

‖ *Y mae y rhai ſy'n cilio rhag y lîd a ſydd, yn* Ddrychau *ac yn* Rhyfeddodau *ir Byd.* Jer. 20. 10. 1 Cor. 4. 9.

amser a'i goddiwesasant ef. Yna ebr Gwr, *Fy nghymydogion, pa ham yr ydych chi yn dyfod ar fy ôl i?* Hwythau a'i hattebasant ef, i'ch cynghori chwi i ddyfod adref gyda ni Eithr nid allafi (ebe yntef) wneuthur felly, mewn môdd yn y byd. Yr ydych chi 'n trigo eb efe yn * *Ninas Destryw*, (y lle hefyd i'm ganwyd inne yntho) yr wi 'n gwybod fod y peth yn wir; ac os marw a wnewch chi yno, yn gynnharach neu 'n, hwyrach, chwi a soddwch yn îs nà 'r Bedd, i lè sy 'n llosci â thân a brwmstan, *Dat.* 21. 8. Byddwch foddlon gan hynny fy nghymydogion, a dewch ym-mlaen gyda mi.

* *Yn eich cyflwr naturiol, heb eich troi oddiwrth eich pechodau, i fyw 'n sanctaidd.*

Cyndyn. *Beth ebe* Cyndyn, *a gadael ein Cyfeillion a'n meddiannau yn ôl!*

Cristion. Ie ebe *Cristion* (canys felly y gelwid ef) oblegit nid yw 'r cwbl, ar a adawoch chi yn ól, yn deilwng iw † cystadlu ag ychydig o'r pethau, yr wyfi yn ‖ ymegnio i fod yn gyfrannog o honynt, 2 *Cor.* 4. 18. Ac os dewch chi gyda mi i ben y siwrnai, chwi a gewch fwynhau yr vnrhyw bethau daionus, ac y fwynháf inne, canys y mae digon a * gwargred iw gael, yn y llè yr wyfi yn teithio tuag atto. *Luc.* 15. 17. Dowch, a Phrofwch fy ngeiriau.

† *Cyffelybu.*

‖ *Ymdrechu.*

* *Gweddill.*

Cyn. *Pa Bethau yr ydych chwi yn eu ceisio, gan eich bod yn ymadael â'r holl fŷd, fal y galloch eu meddiannu hwynt?*

Cris.

Criſ. Yr wyfi 'n ceiſio *Etifeddiaeth anllygredig, dihalogedig, a diddifflannedig*; yr hon ſy *nghadw yn y Nefoedd*, ac yn ddiogel yno, iw rhoddi, ar yr amſer nodedig, ir ſawl a'i dyfal geiſiant hi. Chwi a ellwch (os mynnwch) ddarllen y peth felly, yn fy llyfr i, 1 *Pet.* 1. 4. *Heb.* 11. 16.

Cyn. *Pw, ebe* Cyndyn, *ymmaith â'ch llyfr, Attebwch i'm fi, a drowch chi 'n ôl * gyda ni, a'i nis gwnewch?*

Criſ. Na wnaf; ebr llall, canys mi a oſodais fy llaw † ar yr Aradr. *Luc.* 9. 62.

Cyn. *Dowch gan hynny* (*ebe* Cyndyn) *fy nghymydog Meddal, a dychwelwn adref hebddo: Y mae || Brawdoliaeth o Ddynion penweinion, y rhai pan y derbyniant rhyw † Fympwy iw pennau, ydynt ddoethach yn ei golwg ei hun nâ ſeith-wyr yn adrodd rheſwm.*

Medd. Peidiwch a difenwi ebe *Meddal*, os gwir y ddywaid ein cymmydog *Criſtion*, y mae 'r pethau y mae efe yn eu ceiſio yn well nâ'r cwbl o'n Meddiannau ni; Mi allwn ar fy nghalon fyned gydag ef.

Cyn. *Pa Beth! mwy o ffoliaid fyth? cymmer dy reoli genniſi, a † Dere 'n ôl; pwy a wyr, i ba le i'th * dywyſir gan y fath ddyn penwan a hwn? dychwel, dychwel, a bydd gall.*

|| *Y Bibl.*
* *I ſyw 'n annuwiol felcynt,*
† *I waſanaethu Duw.*
|| *Cwmpni.*
† *Opiniwn*
† *Tyred.*
* *Arweinir.*

Cris. Nage, ebe *Cristion*, eithr Tyred ti *Cyndyn* gyda 'th gymydog Meddal, canys yn y lle yr wyfi yn ymdrechu myned iddo, y mae 'r cyfryw bethau iw cael, ac a soniais i am danynt, ac amryw o bethau gogoneddus heblaw hynny. Oni choeliwch chwi fi, darllenwch yma, yn y llyfr hwn ynghylch y pethau hyn; ac am wirionedd yr hyn a fynegir yntho, wele y mae 'r cwbl gwedi ei siccrhau, ‖ â gwaed yr hwn a'i gwnaeth ef. *Heb.* 9. 17, 18, 19, 20.

‖ *â gwaed Crist.*

† *Felly.*

Medd. † *Iddo, fy nghymydog* Cyndyn (*ebe Meddal*) *'rwi 'n dechreu ymsefydlu yn fy meddyliau; 'rwi 'n bwriadu ymdeithio gyda 'r Gwr da yma,* † *a bwrw fy nghoelbren i mewn gydag ef: eithr fy nghyfaill anwyl, a wyddoch chi 'r ffordd ir lle dymunol hwn?*

† *Ac i geisio rhan o'r etifeddiaeth nesol gydag ef.*

Cris. Gwr, a'i enw *Efangylwr* a'm cyfarwyddodd i, i ffrystio tua Phorth bychan, y sydd o'n blaen, lle y dangosir i ni y ffordd.

Medd. *Dewch gan hynny Gymydog da, gadewch i ni* † *gychwyn: Yna hwy a aethant ill dau ynghyd.*

† *De hrau 'n siwrnai*

Cyn. Minne a ddychwelaf adref ebe *Cyndyn*, ac ni byddafi Gydymaith ir cyfryw ddynion gwallgofus, ac a hudwyd oddiar yr vnion ffordd.

Ar ôl i *Gyndyn* ddychwelyd, Mi a welwn *Cristion* a *Meddal* yn myned ymmlaen.

mlaen, tan ſiarad â'i gilydd ar hyd y gwaſtadedd, ac fal hyn y dechreuaſant eu hymddiddanion.

Criſ. Fy nghymydog *Meddal* ebe *Criſtion*, Pa ſodd yr ych chi? Mae 'n dda gennif, eich bod chwi wedi 'ch perſwadio i fyned gyda mi; Pe profaſai *Cyndyn* yntho ei hun † nerthoedd a dychryniadau y pethau y ſydd etto yn anweledig, megis y profais i hwynthwy, ni throeſai ſo mo'i gefn arnom mor yſgafn.

† *Grym cyſtudd cydwybod o herwydd y poenau vſternol, y ſy ddyledus am bechod.*

Medd. *Fy nghymydog* Criſtion, *gan nad oes yma neb onid nyni 'n dau, Mynegwch i mi yn awr ym-mhellach pa ryw bethau y ſydd iw cael, yn y lle yr ydym ni yn myned tuag atto, a pha fodd y mwynheir hwynt.*

Criſ. Gwell y gallaf eu ‖ hamgyffred hwy yn fy meddwl, nâ'i hadrodd hwynt â'm tafod: etto gan eich bod yn chwenychu eu gwybod, mi a ddarllenaf i chwi am danynt yn fy llyfr.

‖ *Deall.*

Medd. *A ydych chi 'n tybied fod geiriau 'ch llyfr chwi yn wir?*

Criſ. Ydwyf yn † ddilys, canys y digelwyddog yw ei ‖ Awdur ef, *Tit.* 1. 2. 2 *Tim.* 3. 16. 2 *Pet.* 1. 19. 20, 21.

† *Sicr.* ‖ *Gwneuthurwr.*

Medd. *Ond pa bethau ſydd iw cael, pan y delom i ben ein ſiwrnai?*

Criſ. * Y mae Teyrnas annherfynol i ni breſſwylio ynthi, a bywyd tragwyddol iw roddi inni, fal y gallom † gy-

* *Diddiwedd.* † *Trigo.*

fanneddu yn y Deyrnas honno tros fyth, *Mat.* 25. 34. *Joan.* 10. 27. 28, 29. Y mae Coronau o Ogoniant iw cael yno hefyd, a || Gwiſcoedd a bair i ni ddiſcleirio fal yr Haul yn ffurſafen y nefoedd, 2 *Tim.* 4. 8. *Dat.* 7. 9. *Mat.* 13. 43. Heblaw hyn, ni bydd yno na newyn, na ſyched, na marwolaeth, nac wylofain, na thriſtwch, na phoen, oblegit fe ſych Arglwydd y lle pob Deigr oddiwrth ein llygaid, *Dat.* 21. 4. *Dat.* 7. 16.

|| *Gwiſcoedd o gyfiawnder.* Dat. 19. 8.

Medd. *A Pha Gyfeillion a gawn ni yno?*

Criſ. Ni a gawn fod yno gyda * *Seraphiaid* a * *Cherubiaid*, ſef, Creaduriaid a bair i'n llygaid ſerennu wrth edrych arnynt, *Eſay* 6. 2. Yno hefyd y cyfarfyddwn â miloedd a deng miloedd o rai, a aethant o'n blaen ni ir lle hwnnw; nid oes yr vn o honynt yn gwneuthur niweid iw gilydd, ond y maent yn byw yn gariadus ac yn ſanctaidd, pob vn yn rhodio yng-wydd Duw, ac yn aros yn gymmeradwy yn ei breſenoldeb ef dros fyth, *Dat.* 5. 9. 10. 11. *Dat.* 7. 1 *Theſſ.* 4. 16, 17. Yn fyrr, yno y cawn ni weled yr † *Henuriaid* a'u Coronau aur ar eu Pennau, *Dat.* 4. 4. Yno y cawn ni weled y * *Gwyryfon* ſanctaidd â'u Telynnau aur, *Dat.* 14. 4 Yno y cawn ni weled y rhai a ddrylliwyd gan y Byd yn ddarnau, a loſcwyd yn y Tân, a ſwyt-

* *Angelion.*

† *Y Dyſcawdwyr*

* *Morwynion ieuaingc ſef,* Criſtiannogion *onest, heb eu halogi â gau grefydd.*

tawyd gan fwyſtfilod, ac a foddwyd yn y Moroedd (am ei cariad at Arglwydd y lle) cymmain vn yn holl-iach, gwedi eu dilladu ag Anfarwoldeb megis â Gwiſc, *Joan.* 12. 25. *Dat.* 7. 14, 15. 2 *Cor.* 5. 1, 2, 3, 4, 5.

Medd. *Y mae'r pethau hyn yn ddigon, i ddwyn calonnau Dynion ar eu hôl: Eithr pa fodd Attolwg y down ni, i fod yn Gyfrannogion o honynt?*

Criſ. * *Llywydd* y wlâd a yſgrifennodd yn y llyfr hwn, os byddwn ni yn wir ewyllyſgar i derbyn hwynt, cfé a'i rhŷdd hwy i ni yn rhôdd ac yn rhâd. *Eſay* 55. 1. *Dat.* 22. 17. * *Llywodraethwr.*

Medd. *Fy nghydymmaith anwyl, mae 'n hoff gennif glywed y pethau hyn: Awn rhagom, a cherddwn yn dynnach.*

Criſ. Y mae 'r Baich y ſydd ar fy nghefn yn fy rhwyſtro, i fyned mor ebrwydd ac y dymmunwn.

Yn awr Mi a welwn, gwedi iddynt † orphen eu hymddiddanion, neſſau o honynt hwy at Gors * leidiog, yr hon oedd yng-hanol y Gwaſtadedd; a thrwy fod yn wallus, hwy a ſyrthiaſant ill dau yn ddiſymmwth ir Gors (a'i Henw hi oedd *Cors Anobaith*) ac yno y buant hwy tros ennyd yn ymdrybaeddu, gwedi ei diwyno 'n * erchyll gan y dom; ac fe ddechreuodd *Criſtion* ſoddi yn y llaid o achos y Baich ar ei Gefn ef. † *Diwreddu.* * *Yn llawn o laid neu glai.* * *Ofnadwy.*

Medd:

Medd. * *Wbwb ! ebe* Meddal, *Fy nghymydog* Criſtion, *ym mha le yr ydym ni yn awr ?*

Criſ. Mewn gwirionedd ebe *Criſtion*, nis gwn i ym mha le.

Medd. † *Yna y tramcwyddodd* Meddal, *ac fo lefarodd yn llidiog wrth ei Gydymmaith, gan ddywedyd ; A'i Dymma 'r Dedwyddwch y grybwyllaſoch chi am dano yr holl amſer hyn ? Os cawſom y fath aſlwydd yn nechreuad ein Taith, pa beth a allwn ni ddiſgwyl am dano rhwng hyn a phen ein ſiwrnai ? Os gallaſi ond diangc o'r Plwcca hwn yn fyw, chwi a gewch o'm rhan i, ſeddiannu 'r wladd dda eich hunan. A gwedi ymdreiglo yn egniol vnwaith ac eilchwaith, fe ddaeth allan o'r llacca, ar yr yſtlys hynny o'r Gors, a ydoedd neſſaf iw Dŷ ei hun : Ac felly efe a aeth ymmaith, ac ni welodd* Criſtion *mo hono mwyach.*

Ac ſal hyn y gadaw-wyd *Criſtion* i ymdroi yn y Pwdel o Anobaith wrtho ei hun : Eithr dan ymwthio * fe ymdrechodd fyth i ymluſco tua'r ochr honno o'r Gors a ydoedd bellaf oddiwrth ei Dŷ ei hun, a neſſaf ir Porth cyfyng : Ond gwedi gwneuthur felly, nid allai ſo ddyfod allan o'r Gors o achos y Baich oedd ar ei geſn.

* *Och ! och !*

† *Nid yw Meddalwch neu Barodrwydd i wrando ar draethiad pethau daionus yn ddigonol, i ddwyn Dyn ir Nefoedd, er bod hynny yn vn cam yn y ſſord tuag yno.*

* *Y mae'r Pechadur cyſtuddiedig am ei bechod (er ei fod ef mewn llawer o Anobaith) etto yn ymdrechu fyth i ymbellhau, oddiwrth ei Dy ei hun, ſef, oddiwrth Gyfeillach yr Annuwiolion a'u drwg harferion : Ac y mae fo 'n ymdynnu neſnes at Griſt ac at y Porth or Ail-enedigaeth a ſanctei-ddrwydd, fal y gallo fod yn gadwedig,* Pſal. 45. 10. 11.

Yna mi a welais wr yn dyfod atto, a elwid *Helpwr*, ac yn gofyn iddo, Pa beth yr ydoedd efe yn ei wneuthur yno?

Crif. Syr, ebe *Criftion*, Gwr a elwir Efangylwr a erchodd i mi fyned y ffordd yma, ac fo'm cyfarwyddodd i hefyd ir Porth bychan accw, fal y gallwn ffoi rhag y llîd a fydd, ac fal yr oeddwn i 'n myned tuag yno, mi a gwympais i mewn yma.

Helpwr. *Ond pa ham nad edrychafech chi* * *ar y llwybrau yn fanolach.*

* *Ar yr Addewidion o drugaredd ir Credadyn edifeiriol.*

Crif. Dychryn a barodd i mi ffoi y ffordd neffaf, ac felly mi a fyrthiais yma.

Help. *Moes i mi dy law ebe* Helpwr, *a* Chriftion *a roddes iddo ef ei law: Ac efe a'i tynnodd ef ir Lan, ac a'i gofodod ef ar Dîr caled, ac a barodd iddo gerdded ei ffordd ym-mlaen.* Pal. 40. 2.

Gwedi hynny mi a neffeais at yr hwn a'i tynnafai ef † i maes o'r Gors, ac a ofynnais iddo, Syr, gan fod y ffordd o Ddinas Deftryw ir Porth accw trwy 'r Lle yma, pa ham nas cyweiriwyd y man hyn, mal y gallai * ymdeithwyr tlodion fiwrneio tuag yno yn † ddibryderach? Yntef a'm hattebodd, y mae 'r Gors front hon yn gyfryw Le, nas gellir ei gwellháu hi: Canys ir Gwaelod hwn, y mae'r holl * Fudreddi y fydd yn canlyn argyhoeddiad am bechod, yn rhedeg i wared yn waftadol; ac am hynny y gelwir

† *Allan.*

* *Trafaelwyr.*

† *Ddiofalach.*

* *Brynti*

gelwir hi y Gors o Anobaith: Oblegit,
† *Dihunir* er cynted ac y † deffroir Pechadur, i weled ei gyflwr colledig, y mae llawer o Ddychryniadau ac Amheuon, a Meddyliau anghyffurus yn cyfodi yn fynych yn ei Enaid ef; A'r rhain oll fy 'n ymgafglu ynghyd, ac yn ymfefydlu yn y man hwn: A thyma i chwi'r rheſwm, paham y mae 'r Lle yma cynddrwg.

* *Duw.* Nid ewyllys y * Brenin yw, fod y ffordd hon cynddrwg ac y mae hi, *Eſay* 35. 3, 4. Ei weithwyr ef hefyd, trwy gyfarwyddiad y rhai oedd gan ei Fawrhydi ef yn Olygwyr ar y brif-ffordd, a fuant er ys mwy nag vn-cant-ar-bymtheg o flynyddoedd yn gweithio yma, i edrych
† *Y Dryll.* a ellit cyweirio † y clwttyn Tîr hwn: Ie, ac myfi a wn, ebe efe, lyngcu yma o'r lleiaf, fwy o lawer nag vgain mîl o
* *Ceirt.* * Fennau, gwedi eu llwytho yn llawn ag hyfforddiadau iachus, a ddygpwyd
† *O bob cwarter.* yma o bryd i bryd, † o bob Ardal a Goror yn nheyrnaſoedd y Brenin, i brofi a ellit cyweirio 'r ffordd hon: A'r
* *Matter.* rhai a wyddent beth oedd ei * deunydd, a ddywedent, mai'r pethau goreu oeddynt, a'r a ellit eu cael, i wneuthur y Tîr hwn yn fych ac yn galed. Eithr Cors Anobaith ydyw hi fyth, ac felly y bydd hi, er gwneuthur o bawb ei goreu i gwellhau hi.

Gwir yw, fod trwy gyfarwyddiad Rhoddwr y gyfraith ryw † Gerrig mawr a chadarn wedi ei gosod ar hyd ganol y Gors, fal y gallei pobl, trwy eſtyn cammau, fyned trosti; eithr pan y bo 'r Lle yma yn chwdu i fynu lawer o'i fudreddi (megis y mae 'n gwneuthur ar newid tywydd) yna braidd y gwelir y meini: ac os canfyddir hwy, y mae Dynion, *o herwydd gwendid eu pennau, yn troi oddi arnynt, ac yna, gwedi ſyrthio ir Gors, y diwynir hwy 'n aruthrol (neu 'n rhyfeddol) er bod y cerrig yno fyth: ond y mae 'r ffordd yn dda, gwedi myned i mewn vnwaith ir Porth.

† *Addeuidion o faddeuant pechodau, ac o fod yn gymmeradwy trwy ffydd yng-Hriſt.*

* *Trwy y dychryn y ſydd yn eu calonnau oblegid eu pechodau.*

Yna mi a welwn, fod *Meddal* erbyn hyn, gwedi dyfod yn ôl iw Dŷ ei hun: A'i Gymmydogion a ddaethant i ymweled ag ef: A rhai o honynt a'i galwaſant ef yn wr càll, am iddo ddychwelyd adref; a rhai a'i galwaſant e 'n ffôl, am fwrw ei hunan i berygl gyda *Chriſtion*; ac eraill a'i gwatworaſant ef, am ei fod ef cyn wanned ei galon, gan ddywedyd wrtho, yn ddiau, gwedi dechreu † anturio, ni ddylaſech chi fod mor ofnus a chefnu am ychydig o anhawſder yn y ffordd. Ac felly dan oſtwng ei warr fel *Crwydryn*, fe a eiſteddodd *Meddal* i lawr yn ei plith hwynt. Ond o'r diwedd, efe *a ymhyfhâodd, ac a ddechreuodd gyda ei gymydogion ddywedyd yn ddrwg

† *Mentro.*

* *A ddaeth i fod yn eon.*

am

am *Griſtion* (druan Gwr) ac o'r tu cefn iddo, hwy a gyd-chwarddaſant am ei ben ef. A digon bellach am *Feddal.*

Yn awr, fal yr oedd *Criſtion* yn myned ym mlaen, heb neb gydag ef, efe a ganſyddai ŵr o hirbell yn croeſi 'r maes: A digwyddodd iddynt gyfarfod ynghyd, yn y man hynny, lle 'r oedd y naill yn croeſi ſlordd y llall. Enw y Gwr bonheddig a gyfarfu ag ef oedd *Meiſtr Bydol Ddoethyn*, a thrigo yr oedd efe yn *Ninas Doethineb cnawdol* (Tref fawr iawn) ac yn gyfagos hefyd ir Lle y daethaſai *Criſtion* * i maes o honi. A'r Gwr hwn a glywſai ryw ſôn am dano, canys mynediad *Criſtion* allan o Ddinas Deſtryw a dannaſid ar lled yn ddirfawr, nid yn vnic yn y Dref, lle yr ydoedd efe yn preſſwylio ynthi, eithr hefyd mewn amryw o Drefydd eraill oddi amgylch. Meiſtr Bydol Ddoethyn gan hynny, wrth ddal ſulw ar ei gerddediad cyflym ef, ac ar ei ocheneidiau ai riddfannau ef, a'r cyffelyb Argoelion eraill, * a frith-dybiodd, mai hwn ydoedd *Criſtion*, ac efe a ddechreuodd ſiarad ag ef fal hyn.

† *Allan o honi.*

* *A lei-dybiodd.*

† *Fully.*

Bydol-Ddoethyn. † *Iddo yn awr y Gwr-da, i ba le yr ydych chi yn myned yn llwythog fal hyn?*

Criſ. 'Rwi gwedi 'm llwytho yn ddiau, cyn doſted (i'm tyb i) ac a llwythwyd vn Creadur truan erioed: Ac yr wyfi 'n

myned tua 'r Porth bychan accw, y ſy gyſ-erbyn a mi; canys ſe a ddyweſpwyd wrthyf, y cawn i gyfarwyddiad yno, pa wedd i gael fy nilwytho o'm Baich pwysfawr. * *Pa ſodd.*

Bydol-D. *A oes i ti wraig a phlant?*

Criſ. Oes, eithr yr wyſi gwedi 'm llwytho felly â'r Baich yma, fal nas gallaf ymhyfrydu ynthynt hwy megis cynt; ie mi dybygwn fy mod i mal pettawn hebddynt, 1 *Cor.* 7. 29.

Bydol-D. *A gymmeri di Gyngor gennifi, os rhoddaf ef itti?*

Criſ. Gwnaf, os da y fydd eich Cynghor, canys digon rhaid i mi wrtho.

Byddol-D. *Mi a fynnwn i ti gan hynny, i † ymegnio i gael rhyddhâad oddiwrth dy lwyth gyntag allech; oblegit ni byddi di byth yn eſmwyth yn dy feddwl, ac nid elli di fwynhau lleſſâad oddiwrth y Bendithion a roddes Duw itti, nes y gwnelych di felly.* † *Ymdrechu.*

Criſ. Dyna 'r Peth yr wyſi 'n ymorcheſtu am dano, ſef, i gael fy nilwytho o'm Baich pwysfawr: Nis gallaſi ei ſwrw ef i lawr fy hunan: Ac nid oes neb yn ein gwlâd a ddichon ei dynnu ef oddiar fy yſgwyddau; ac am hynny yr wi 'n teithio ar y ffordd hon fal y gallwyf gael gwared o honaw. *Ni ddichon pechadur ddadlwytho ei hunan, ac nis gall neb arall, onid* Ieſu Griſt *yn unic, ei ddadlwytho ef oddiwrth Faich ei bechodau.* Act. 4. 12. Mat. 11. 28.

Bydol-

Bydol-D. *Pwy a barodd i ti fyned ar hyd y ffordd yma, i gael gwared o'th Faich?*

Criſ. Gwr o wêdd parchedig ac anrhydeddus (yn fy ngolwg i) a'i Enw ef, hyd yr wyf yn ei gofio yw *Efangylwr.*

Bydol-D. *Ynghrog y bytho am ei Gyngor, nid oes yn yr holl fyd vn ffordd yn fwy peryglus a blin, nâ 'r hon y cyfarwyddodd efe tydi i ymdeithio ynthi; ac di a gai brofi hynny os dilyni di ei gyngor ef.* Mi a welaf wrth ddom y Gors o Anobaith y ſydd yn glynu wrth dy ddillad di, gael o honot ti beth trwbwl eiſoes; eithr nid yw 'r Gors honno ond dechreuad y gofidiau, y ſy 'n canlyn y ſawl ſy 'n ſiwrneio yn y ffordd yma. Gwrando arnafi, yr wi'n hŷn nâ thydi, mae'n debyg y cyfarfyddu di ar y ffordd *yr wyt ti'n ymdeithio ynthi, â* † *Lludded, Blinder, newyn, peryglau, noethni, Cleddyf, Llewod, Dreigiau, Tywyllwch, ac i fod yn fyrr,* * *â Marwolaeth, a chyſtuddiau anneirif eraill, y rhai nis gellir eu hadrodd,* Act. 14. 22. *Y mae 'n ddilys, fod hyn oll yn wir; canys fe ſiccrhawyd y cwbl gan lawer o Dyſtion: A pha ham y difethai Ddyn ei hunan mor ddiofal trwy goelio* † *Alltud?*

† Diſſygio

* Marwolaeth annaturiol, megis trwy grogi a lloſci.

* Dyn dieithr

Criſ. Syr, y mae'r Baich hwn, y ſydd ar fy nghefn, yn fwy brawychus i'm fi, nâ'r cwbl oll a grybwyllaſoch chi am danynt; ie mi a dybygwn, nas gwnawn i gyfrif

gyfrif yn y byd o ddim a ddigwyddai mi yn y ffordd, * pe gellwn i gael ond y nilwytho o'm Baich.

* *Y mae Criſtion yn hiraethu am gael maddeuant oi Bechodau o flaen dim arall.*

Bydol-D. *Pa fodd y gwybuoſti ar y yntaf, dy fod ti yn llwythog ?*

Criſ. Wrth ddarllain y llyfr yma y ydd yn fy llaw.

Bydol-D. *Felly yr oeddwn i yn tybied. Ac fe ddamweinodd i ti, i wallgoſi, megis c y digwyddodd i bobl anneallus eraill ; rhai trwy ymmerreth a medlo â phethau mmhell uchlaw eu dealltwriaeth, a gollant ei côf yn ddiſymmwth : Ac y mae'r ynddeiriogrwydd hyn, nid yn unic yn ei oſod hwynt-hwy mewn gradd îs nâ Dyn (megis im tŷb i yr wyt ti gwedi 'th oſod antho) eithr y mae e hefyd yn ei gyrru wynt ym-mlaen, i * anturio ar bethau chrydus, mewn amcan i feddiannu nis gwyddant pa beth.*

Nid yw Bydol Ddoethyn fodlon, i bobl ddarllain y Bibl.

* *Fentro.*

Criſ. Myfi a wn beth ydyw fy nymuniad i ; ſef i gael fy eſmwythau o'm Baich gorthrwm.

Bydol-D. *Eithr pa ham yr wyt ti yn ymorol am eſmwythâad yn y ffordd hon, gan fod cymmaint o enbydrwydd ynthi ? Yn enwedig pan y gellwn i (pettai gennit Ammynedd i wrando arnaf) dy gyfarwyddo di, i gael y peth yr wyt ti yn ei chwennychu, heb y peryglon, a orfydd arnat ti daflu dy hunan iddynt yn y ffordd hon ;*

† *Ymoſyn.*

ie

*ie y mae'r * help yn agos. Gwybydd hyn ymmhellach, y cai di, yn lle'r peryglon yma, lawer o Ddiogelwch, a Charedigrwydd, a Bodlonrwydd, os dilyni di fy nghyngor i.*

Criſ. Attolwg Syr, Datguddiwch i mi y dirgelwch hwn.

Bydol D. *Wele y mae yn y † Pentref accw, a elwir Morality wr bonheddig yn trigo, a elwir * Legality (neu Ddeddfoldeb) yr hwn ſydd wr deallus iawn, a Gair da iddo, ac efe a feidr ddilwytho pobl or fath lwythau, ac yw dy lwyth di : Ie myſi a wn iddo wneuthur llawer o Ddaioni yn y matter yma eiſus. Ac heblaw hyn, efe a feidr iachau y ſawl ſy'n agos a gwallgoſi oblegid eu llwythau : Atto fe, meddaſi, y gelli di fyned, a chael help mewn ychydig o amſer. Nid yw ei Dy ef gwbl i filltir oddi-yma. Ac oni bydd efe ei hunan gartref, y mae gantho Fâb ievangc glân, yr hwn a elwir Siſiiity (neu Gweddoldeb) ac i ddwedyd wrthyt ti 'r gwir, fe a ddichon dy gynnorthwyo di gyſtal a'r hên wr bonheddig ei hunan, Yno meddaſi, y gelli di gael di eſmwythau oth Faich. Ac onid wyt ti 'n bwriadu dychwelyd yn ol ith hen Drigfa (Ac yn ddiau nis mynnwn i ti wneuthur felly) yna ti a elli ddanfon am dy wraig a'th blant i ddyfod i fyw gyda thi yn y pentref yma ; lle y mae yn awr Dai heb Drigolion ynthynt ; a thi a elli*

* *Cynnorthwy.*

† *Pentref o Foiſau neu arferion da.*

* *Seſgwr y ſy'n ceiſio iechydwriaeth trwy'r Ddeddf.ſef trwy ei gyſiawnder ai onſtrwydd ei hun, heb ymofyn am Griſt i fod yn geidwad iddo.*

gael un o'r rheini am ychydig o rent ; y mae yno hefyd ymborth da, a newid fawr arno ; ac i wneuthur dy fywyd yn ddedwyddach, ti a elli ſiccrhau dy hunan, y byddi di byw yno, ymmhlith cymmydogion honeſt, mewn cymmeriad a dull neu faſhiwn o'r goreu.

Ni fynn *Bydol Ddoethyn* ir *Pererin* ddychwelyd iw hên Drigfa (hynny yw i fyw mewn pechodau echryſlon fal cynt) ond fe fynn iddo fyned tua *Mynydd Sinai*, i gael cyfarwyddiad yno, ymmha fath fodd i drefnu ei ymarweddiad oddiallan, mewn *Sobrwydd*, *Oneſtrwydd*, *a Moeſau* (neu *Arferion*) gweddol eraill : Ond ni fynn e iddo fyned tua'r Porth bychan o'r *Ail-enedigaeth*, i gael glendid calon, heb yr hyn, nid yw ſifilrwydd (neu weddeidd-dra) ac Oneſtrwydd oddi allan ond pechodau diſclair goreurog, a ffieiddra yng-olwg yr Arglwydd, am nad ydynt ond megis celain heb enaid, a ffurf (neu Lûn) heb rym *Duw*-ioldeb ynthynt. *Mat.* 23. 27, 28. *Luc.* 16. 15.

Ac yn hyn i gyd, Amcan Bydol-Ddoethyn oedd, i berſwadio'r *Pererin*, i ymddiried (megis y gwnaeth y *Phariſaad*) yn ei *Gyfiawnder* ei hun, fal pe gallaſai fo, trwy vfydd-dod ir *Gyfraith*, haeddu ffafor Duw, Cyfiawnhâad, a Bywyd tragwyddol : Ac felly fo'i trows ef oddiar ffordd *Mynydd Sion*, lle yr oedd y pethau hyn iw cael, trwy haeddedigaethu Ieſu *Griſt*, i fyned tua *Mynydd Sinai*, lle nid oeddynt iw cael : Ac am hynny drwg iawn ydoedd cynghor *Bydol Ddoethyn* yn y matter ymma. *Luc.* 18. 9, 14.

Rhuſ.

Rhuf. 3. 20. *Joan.* 14. 6. *Act.* 4. 12.

Dymma rai Rheſymmau (ymmyſg amryw eraill yn Epiſtolau St. *Paul*) y ſydd yn prwfio *Nad allwn ni haeddu na chyfiawnhâad* (hynny yw i gael yn cyfrif yn gyfiawn gan Dduw) *na Bywyd tragwyddol, trwy'n vfydd-dod ir Gyfraith, neu'n Cyfiawnderau 'n hunain.*

Yn Gyntaf, *Oblegid bod ein vfydd-dod a'n gweithredoedd da ni yn ammherffaith.* Yr oedd *Paul* yn cyfaddef, nad oedd mo hono fe (o ran ei vfydd-dod) yn berffaith, *Phil.* 3. 12. *Rhuf.* 7. 18, 19. Yr oedd *Iaco* yn dywedyd am dano ei hun, ac am bobl Dduw, at y rhai yr oedd efe yn yſcrifennu, *Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro*, Iac. 3. 2. Ac medd *Criſt* wrth Eglwys Sardis, *Ni chefais dy weithredoedd yn gyflawn* ac wrth Eglwys Epheſus, *ddarfod iddi ymadael á'i chariad cyntaf*, Dat. 3. 2. Dat. 2. 4. *Yr oedd anwiredd ym mhethau ſanctaidd yr Iſraeliaid gynt*, Exod. 28. 38. Ac os yw gwir vfydd-dod y rhai graſol yn ammherffaith, pa faint mwy ammherffaith ydyw vfydd-dod ffugiol y Dynion naturiol, *Mat.* 23. 27, 28.

Y mae diffyg yn ein vfydd-dod ni, *Yn Gyntaf o ran y Meſur*, canys nid ydym ni yn gwneuthur cymmaint o weithredoedd da, ac y mae Duw yn ei Gyfraith yn ei ofyn ar ein Dwylo ni. *Dan.* 9. 10. *Iac.* 3. 2. 2 *Theſſ.* 3. 13. *Dat.* 3. 2. *Rhuf.* 3. 10.

Yn Neſſaf, y mae Diffyg yn ein vfydd-dod ni *o ran y Modd*, canys lle dylem ni vfyddhau *o'r Galon*, yr ydym ninne ar ryw brydiau (fal y

gwyddom trwy brofiad) yn cyflawni ein dyledſwyddau megis y Bobl gynt, am y rhai yr achwynodd Duw, *Neſſau y mae y Bobl hyn attaf a'i genau, a'm anrhydeddu a'u gweſuſau, a'u calon ſydd bell oddiwrthif*, Mat. 22. 37. Mat. 15. 8. Ezec. 33. 31.

Yn Ddiweddaf, y mae Diffyg yn ein vfydd-dod ni *o ran y Diben. Pa vn bynnag ai bwytta a'i yfed, ai beth bynnag a wneloch, Gwnewch bob peth er Gogoniant i Ddaw* medd yr yſgrythur, 1 *Cor.* 10. 31. Y mae 'r Duwiolaf yn gwybod, eu bod hwynthwy ar brydiau, wrth gyflawni rhyw Ddyledſwyddau, â pheth amcan ynthynt, i geiſio ei mawl ei hun, ac nid Gogoniant Duw yn hollawl. Oni buaſai fod gwreiddyn y pechod hwn yn y rhai graſol, ni rag-rybyddiaſai *Criſt* moi Ddiſcyblion (fal y gwnaeth ef) i ochelyd rhagddo, *Mat. 6. 1, 2. &c.*

Pa fodd gan hynny y gallwn ni haeddu ffafor Duw, Cyfiawnhâad a Bywyd tragwyddol trwy weithredoedd y Gyfraith, gan fod ein vfydd-dod ni iddi mor ammherffaith? Nid yw hi 'n addaw Bywyd tragwyddol i neb, ond ir ſawl ſy 'n vfyddhau iddi ag vfydd-dod cyflawn. *Cedwch fy Neddfau a'm Barnedigaethau* medd yr Arglwydd; *a'r Dyn a'i cadwo a fydd byw ynddynt a thrwyddynt*; Ac y mae hi 'n melltithio y rhai ſydd yn ei throſſeddu hi yn y meſſur lleiaf: *Cynnifer ac y ſydd o weithredoedd y Ddeddf, tan felldith y maent, canys ſcrifennwyd, melldigedig yw pob vn, nid yw yn aros yn yr holl bethau, a ſcrifennir yn llyfr y Ddeddf, iw gwneuthur hwynt*, ey. 18. 5. Rhuf. 10. 5. Gal. 3. 10.

Os

Os dywedir fod y ſcrythurau ym mynegi, fo rhai Dynion yn Berffaith yn y Byd hwn, megi *Noah* a *Job*, *Gen.* 6. 9. *Job* 1. 1. *&c.* Yr wi Atteb, fod Dau fath o Berffeithrwydd.

Yn Gyntaf, *y mae Perffeithrwydd o Rannau.*
Yn Neſſaf, *y mae Perffeithrwydd o Raddau.*

Y mae Plentyn byw newydd eni yn Ddyn per ffaith, pan y bo gantho bob Aelod y ddylai fod yn ôl trefn nattur, mewn Dyn; A thymma chwi 'r *Perffeithrwydd o Rannau*: Ond pan y tyfo y Plentyn hwn yn ei Ben, a'i Ddwylo, a phob Aelod arall, ir mann eithaf o'i faintioli, yna y mae fo gwedi cyrhaeddyd y *Perffeithrwydd Raddau.*

Yn yr vn modd, pan yr ail-enir ac a gweithie Grâs mewn Dynion, y mae ynthynt bob rha o'r Dyn neu'r nattur newydd, ſef *Gwybodaeth* o Dduw, *Ffydd* yn Nuw, *Cariad* at Dduw, *Go ſtyngeiddrwydd* ger bron Duw, a *Thueddiad* wneuthur cyfiawnder a thrugaredd, ac i ddango cariad iw cymmydogion *&c.* A thymma 'r *Per ffeithrwydd o Rannau* yn y Dyn newydd, *Eph* 4. 24. *Joan.* 1. 16. Eithr pan y cynnydd Grâs yn y ſawl a ail-anwyd, ſef, pan y mae yn thynt *Wybodaeth* helaethach, *Ffydd* gryfach *Cariad* gwreſoccach, *Goſtyngeiddrwydd* iſelach, *Chyfiawnder* a Chariad cyflawnach, *Dymma Perffeithrwydd o Raddau.* Yn awr nid ydys y cyrhaeddyd y Graddau vchaf o Râs yn y By preſennol, ond y mae Pobl Dduw yn ymeſty

at y pethau o'r tu blaen, gan fyned rhagddynt o râs i râs, ac felly y maent hwy yn mwynhau rhai graddau o Berffeithrwydd *yn y Byd hwn*, ac y maent yn gobeithio cael y graddau mwyaf o honaw *yn y Byd a ddaw*. Phil. 3. 12, 13, 14.

Ac am hynny pan y dywedir, fod *Noah*, *Job* ac eraill yn wyr perffaith, nid oes i ni ddeall mo'r peth felly, fal pe buasent hwy wedi llwyr ufyddhau i Gyfraith Dduw, yn y graddau uchaf o berffeithrwydd; *ond yr oeddent hwy yn gyfrannogion o bob grâs, ac mewn uniondeb calon yn ymdrechu, i ufyddhau i bob rhan o'r Gyfraith*; ac felly yr oeddynt yn berffaith *â'r perffeithrwydd o rannau*, yn yr un ystyr ac y dywedir, fod *Zacharias ac Elizabeth yn gyfiawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau 'r Arglwydd yn ddiargyoedd*. Luc. 1. 6. Nid oedd yr un o honynt heb eu beiau. *Preg.* 7. 20. 1 *Joan.* 1. 8. Yr ym ni'n darllain am feddwdod *Noah*, am waith *Job* yn melldithio Dydd ei enedigaeth, ac hefyd am anghrediniaeth Zacharias.

Y mae yn y byd hwn râs a gwendid, cnawd ac yspryd, yn aros ynghyd yn y goreu o Ddynion, megis y mae goleuni a thywyllwch yn gymmyscedig a'i gilydd o dorriad y wawr hyd godiad haul, ac o'i fachludiad ef, hyd oni bo hi yn nôs; er bod grâs yn drech nâ gwendid yn y rhai grasol, megis y mae'r goleuni yn drech nâ'r tywyllwch ar yr amseroedd hynny. Y mae Pechod yn aros, er nad yw e 'n arglwy-

ddiaethu yn y rhai duwiol, megis y mae e mewn rhwyſg yn yr annuwolion. *Gal.* 5. 17. *Rhuf.* 7. 17. &c. *Rhuf.* 6. 14.

Yr Ail Rheſwm pa ham nad allwn ni haeddu Cyſiawnhaad, a Bywyd tragwyddol, trwy ein Gweithredoedd ein hun, ydyw, o herwydd pe bae ein ufydd-dod ni ir Ddeddf yn berffaith (yr hyn nid ydyw) etto ni byddei hynny ond taledigaeth o un o'n Dyledion i Dduw. Y mae'r peth yn ſefyll rhyngom a Duw fal hyn.

Yr ym ni'n rhwym yn Gyntaf, i Gyſlawni, a'n holl Galonnau, er Gogoniant i Dduw, y cwbl oll, y mae fo yn ei Gyfraith, yn ei orchymyn i ryni iw wneuthur.

Yn Ail yr ym ni'n rhwym i ymgadw rhag troſſeddu Cyfraith Dduw, gan ymattal oddiwrth wneuthur pethau gwaharddedig ynthi; neu i roddi llwyr daledigaeth iw Gyſiawnder ef, trwy ddioddef Coſpedigaethau am ein troſſeddiadau.

Myſi a ddangoſais eiſus, fod ein vfydd-dod ni (trwy yr hyn yr ym yn ymdrechu cyflawni pethau gorchmynedig) yn ammherffaith iawn; *Ac felly yr ym ni yn ffaelu talu i Dduw ein Dyled cyntaf:* A phe gallem, trwy ufydd-dod perffaith, dalu y Dyled hwnnw, dros yr amſer preſennol, ni ryddháei hynny mo honom oddiwrth ein hail Ddyled, trwy yr hwn yr ym ni 'n rhwym i ddioddef coſpedigaethau am ein pechodau: oblegit nid ym ni, trwy ein ufydd-dod preſennol yn bodloni cyſiawnder Duw, am ein anneirif droſſeddiadau oi Gyfraith ſanctaidd ef,

yn

yn yr amſer cynt: Megis pan y bo ar wr trwy fands ddau Ddyled iw dalu, un o ugain, a'r llall o ddeugain punt, nid yw ei waith ef yn cymmeryd i fynu y naill fand, wrth dalu y naill ddyled o ugain, yn ei ryddháu ef oddiwrth yr all ddyled o ddeugain punt, y ſydd ddyledus wrth y band arall.

Yn awr, megis y prwfiwyd, nad ym ni yn talu ein dyled cyntaf i Dduw, trwy wneuthur yr holl bethau gorchmynnedig yn y Ddeddf; Felly mi a brwfiaf, nad ym ni'n abl talu ein hail ddyled iddo, er dioddef o honom goſpedigaethau amſerol a thragwyddol am ein troſſeddiad o'i Gyfraith ſanctaidd ef, trwy wneuthur pethau gwaharddedig ynthi. Ac fal y bo i chwi ddeall hyn yn well.

Yſtyriwch yn gyntaf, ein bod ni yn haeddu am ein pechodau, bob math o Felltithion a Barnedigaethau corphorol ac yſprydol yn y byd hwn, a Damnedigaeth tragwyddol yn y Byd a ddaw: Yr ym ni yma yn haeddu clefydau, colledion, caethiwed, Dallineb meddwl a chaledrwydd calon *&c. Deut.* 28. 15. *&c. Eſay* 6. 9, 10. Ac ar ol hyn, yr ym ni'n haeddu cael ein rhan yn uffern, gyda'r Diawl a'i Angelion yn oes oeſoedd. *Rhuf.* 6. 23. *Dat.* 21. 8. *Mat.* 25. 41. *Preg.* 11. 9.

Er nad yw Duw yn coſpi pawb am eu pechodau yn y byd hwn, *Jer.* 12. 1, 2. megis y coſpodd efe *yr hên Fyd* a'r Dwr diliw, *Pharao* a'i *Lû* â deſtryw yn y môr coch, a'r *Iddewon* â

chaethiwed Babylon: Etto trwy goſpi rhai yma, ym-mhob oes, y mae Duw yn dangos (trwy hynny) pa bethau y ddichon eſe eu gwneuthur, a pha bethau yr ydym ni yn eu haeddu yn y byd hwn, pe gwnelai eſe â nyni yn ôl ein hanwireddau. Megis y mae lladron a llofryddion yn haeddu cael eu crogi, er nas crogwyd hwynt etto: Felly yr ym ninnau yn haeddu pob math o ddialeddau am ein drygioni, er nas diſgynnaſant hwy hyd yn hyn ar ein gwartha.

Y Rheſymmau pa ham nad yw Duw yn coſpi pawb o'r drwg weithredwyr yn y Byd hwn, â choſpedigaethau corphorol, ydyw, *o herwydd ei fod ef yn hir ymarhous tuag attynt, heb ewyllyſio bod nib yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch*; ac hefyd, oblegid fod gantho ddigon o amſer, i cymmeryd hwy yn llaw, i coſpi hwynt ar ôl hyn, onis edifarháant yma. 2 *Pet.* 3. 9. *Preg.* 11. 8, 9. Ac yſgatfydd, nid yw Duw yn ymweled â rhyw fath o Ddynion annuwiol, â barnedigaethau corphorol, oblegid eu bod nhwy eiſoes yn gorwedd tan farnedigaethau yſprydol, ſef, Dallineb meddwl, a chaledrwydd calon (y toſtaf o holl farnedigaethau Duw yn y byd preſennol, canys pan y bo pobl yn gorwedd dan y Barnedigaethau hyn, y maent yn crino ac yn ſychu, fel y bont yn danwydd cymmwys, i gael eu lloſci yn y tân uffernol) *Eſay* 6. 9, 10. *Joan.* 12. 40. *Matth.* 3. 10.

Ac er nad yw Barnedigaethau corphorol yn y Byd hwn, ond ceryddon oddiwrth Dduw ir Duwiol, megis oddiwrth ei Tâd, i fflangellu au chwipio hwynt oddiwrth eu pechodau (yn tarddu allan o'i gariad ef tuag attynt, fel na bônt gyda 'r Byd yn golledig) etto y maent hwy yn wir goſpedigaethau ir Annuwiol, gan eu bod yn dyfod arnynt, allan o gaſineb a digofaint Duw tuag attynt, gan fod yn ernes iddynt o'r Dialeddau, a orfydd arnynt hwy ddioddef am eu pechodau, yn y Byd a ddaw. *Heb.* 12.6. 1 *Cor.* 11. 32. *Pſal.* 5. 5. *Pſal.* 7. 11. *Lev.* 26. 41.

Yſtyriwch yn neſſaf, nad yw coſpedigaethau yr annuwiol yn y byd yma, yn gyflawn dalment a iawn i Dduw am eu pechodau hwynt oblegid fe orfydd ir fawl fy'n dioddef ar y Ddaiar (y Sydd yn marw yn anedifeiriol) ymddangos drachefn o flaen *Criſt* y dydd diwetha, i dderbyn barn o goſpedigaeth tragwyddol yn uffern.

Fe ddioddefodd Bobl *Sodom* yn y byd hwn ddialeddau am eu drygioni; canys fe'i difethwyd hwy â thân a Brwmſtan o'r nefoedd; ac y mae eu heneidiau nhw yn dioddef yn awr yn uffern (*Jud.* 7.) er hynny, rhaid iddynt hwy ymddangos ger bron *Criſt* y Dydd diwethaf, i fyned tan farn, i ddioddef coſpedigaeth tragwyddol yn y byd y ddaw, am eu ffiaidd weithredoedd.

Pan y mae *Criſt* yn dywedyd, y bydd eſmwythach i Dir *Sodom*, yn nydd y farn, nag i *Capernaum*, nid yw hynny yn prwfio, na bydd dim coſp i bobl *Sodom*, ond y bydd llai o goſp iddynt hwy nag i bobl *Capernaum* ar y Dydd mawr hwnnw: *Ond Gwae! Gwae! Gwae ir ſawl a orſydd dioddef y goſpedigaeth lleiaf yn vffern!*

Ac oddi ymma dyſcwn, mai megis y bydd rhaid i bobl *Sodom* ddioddef barn yn y byd a ddel, er iddynt fyned tan hynny eiſys yn y byd preſennol: Felly y bydd rhaid i bob math o bechaduriaid eraill (y ſy'n marw yn anedifeiriol) fyned tan y Farn ddiweddaf, er dioddef o honynt, cyn hynny, ryw Ddialeddau ar y Ddaiar; canys y mae'r Duw cyſiawn yn trîn pawb, ac yn dwyn cu hunan tuagat bawb, yn yr un ddull a modd, o ran ei Farnedigaethau yn y byd a ddaw, gan goſpi yn eſmwythach neu yn drymmach, ſal y bo pechodau dynion yn goſyn. 1 *Pet.* 1. 17.

Yn awr pe bai coſpedigaethau daiarol yn gwbl iawn i Dduw am droſſeddu ei Gyfraith eſ, ni choſpai eſe y cyfryw droſſeddwyr ar ól hyn am ei troſſeddiadau. Nid yw Llywodraethwyr y byd hwn yn rhoddi lle, i alw am ail iawn am droſſeddiad, gwedi i'r Troſſedwr roddi iawn unwaith o'r blaen am dano; llai o lawer y gwna'r Duw cyſiawn felly. Yn gymmaint gan hynny, ac y gorfydd ir rhai Drygionus, a ddioddefaſant yma oddiar law Dduw, ddi-

ddioddef hefyd ar ôl hyn, yn y byd y ddaw, y mae 'n eglur ddigon oddiwrth hynny, nad yw'r coſpedigaethau, y ſy'n diſgyn ar yr annuwolion yn y byd preſennol, yn gyflawn daledigaeth i Dduw am eu pechodau hwynt ; canys pe bai 'r peth felly, ni chyttunai à'i gyfiawnder ef, i alw am daledigaeth arall oddiwrthynt yn y byd y ddaw.

Ac megis nad yw coſpedigaethau *daiarol*, felly nid yw coſpedigaethau *uffernol* yn daledigaeth gyflawn i Dduw, am droſſeddu ei gyfraith ef. Ac fal y bo i chwi ddeall hynny.

Yſtyriwch yn Gyntaf: mai ammhoſſibl ydyw ; fod uffernol ddioddefiadau Creadur terfynnol, yn gyflawn daledigaeth am droſſeddiadau yn erbyn y Duw mawr annherfynnol : Canys nid oês dim cymmeſurwydd a chyfattebiad rhwng coſpedigaethau Dynion terfynnol a chyfiawnder annherfynnol y goruchaf Dduw.

Yn neſſaf yſtyriwch, Pe bae Dioddefiadau'r Damnedig yn uffern, yn gyflawn daledigaeth i Dduw am eu hanwireddau hwynt, yna fe ollyngai Duw iddynt ddyfod allan o'i carchar, oblegit y mae'n wrthwyneb iw gyfiawnder ef i wneuthur yn amgenach. Yn awr, yn gymmaint ac nas gollyngir y damnedig allan oi carchar uffernol, ond y gorfydd arnynt hwy aros a dioddef yno tros fyth, y mae hynny yn egluro i ni ; nad yw eu dioddefiadau nhwy yn uffern yn gyflawn daledigaeth i Dduw am eu troſſeddiadau. *Matth.* 25. 41. Y mae carcha-

rwr yn y byd hwn, yn ol rheol Cyfraith a chyfiawnder Dynion, yn cael ei ollwng allan o'r carchar, yn yr hwn y buasai fo yn gorwedd yn hir o amser am ryw ddyled, pan y bo ei ddyled ef unwaith gwedi ei dalu; ac oni wna y Duw cyfiawn feilly yn y matter ymma, gan nad oes yntho ef y gronyn lleiaf o anghyfiawnder? *Pſa.* 145. 17. *Rhuf.* 3. 5, 6.

Ac fal hyn chwi a welwch, nad ym ni yn abl talu mo'n Dyledion i Dduw, a thrwy ganlyniaeth, nad yw boſſibl i ni haeddu ffafor Duw, cyfiawnhâad, a bywyd tragwyddol, trwy 'n ufyddddod ir Cyfraith neu 'n cyfiawnderau ein hunain.

Ond pe gallem ni dybied, y dichon pobl dalu i Dduw eu Dyledion; etto ni ellir dywedyd, eu bod nhw trwy hynny, yn haeddu ffafor Duw a Bywyd tragwyddol, mwy nag y gellir dywedyd, fod Dyledwr yn haeddu cael Tŷ, a Thyddyn mawr o Dîr, a llawer o Dryſſor gyda hynny, oddiwrth ei Echwynwr goludog, pan y bo 'n talu iddo gant, neu ddaucant o bynnau o Ddyled a ydoedd ddyledus iddo.

Heblaw hyn, y mae 'r yſgrythur yn dangos yn eglur, fod Duw yn cyfiawnhau Pechadur (ſef y Credadyn edifeiriol) yn rhâd, ac mai Dawn neu Rôdd Duw ydyw Bywyd tragwyddol: Ac os yn rhôdd ac yn rhâd yr ydys yn cael y pethau hyn; pa fodd y gellir dywedyd ein bod ni yn eu haeddu hwynt. *Rhuf.* 3. 24, 26. *Rhuf.* 6. 23. *Rhuf.* 11. 6.

Ym-

Ym-mhellach, Rhaid yw ir pethau, y ſydd yn haeddu gobrwy oddiar Ddwylo neb, ſod o'r fath nattur, ac nad ydynt hwy yn ddyledus iw cyflwyno a'u rhoddi, ir ſawl ſy'n eu derbyn hwynt; a rhaid iddynt ſod yn gyfryw bethau, ac y bo y Derbynniwr yn well oi herwydd trwy gael rhyw leſâad oddiwrthynt.

Eithr yn awr, y mae 'r cwbl o'n hufydd-dod ni yn Ddyledus ir Goruchaf, pa vn bynnag ai gwneuthur yr ydym ni Bethau Gorchmynnedig, ai dioddef am wneuthur Pethau Gwaharddedig, neu am eſceuluſo gwneuthur pethau gorchmynnedig: Canys Teilwng ydyw ſo i dderbyn vfydd-dod oddiwrthym, oblegit mai Efe yw ein *Creawdwr*, ein *Cynhaliwr*, ein *Tâd* a'n *Brenin*; ac nid ym ni yn meddiannu dim y ſy dda, ond yr hyn y gowſom oddiwrtho ef.

Ac os ydyw ein vfydd-dod yn ddyledus i Dduw (fal y mae 'n ddilys ei fod e) pa fodd y gellir dywedyd ein bod ni trwy hynny yn haeddu dim ſydd dda oddiar ei Ddwylo ef?

Ac ym-mhellach, Nid yw Duw yn derbyn dim lleſâad oddiwrth ein vfydd-dod ni: Canys yr oedd efe yn gwbl ddedwydd yntho ei hun, cyn iddo greo Angelion a Dynion (neu vn Creadur arall) a chyn derbyn vn math o vfydd-dod oddiwrthynt: A phe baent oll wedi eu deſtrywio, fal na byddai mwyach ddim ſôn am danynt; etto fe feddiannei Duw tros ſyth ei ddedwyddwch perffaith, yr hon yr oedd efe yn ei fwynhau cyn creo vn o honynt. Canys

ni ellir lleiháu mo'i ſylweddol ogoniant ef, nac angwanegu atto, oblegid ei fod ef yn anghyfnewidiol. *Pſal.* 16. 2. *Job* 35. 7, 8. *Jac.* 1. 17.

Pan y dywedir fod Angelion a Dynion yn gogoneddu Duw, nid oes i ni dybied, fod ei ogoniant ſylweddol ef yn cael dim angwanegiad oddiwrthynt: Eithr y maent yn cyhoeddu trwy eu hyfydd-dod iddo, eu bod hwynt-hwy yn ei gyfrif ef mor dda ac mor ogoneddus, ac y mae fo 'n wîr deilwng i dderbyn Anrhydedd a mawl oddiwrthynt hwy, a'i holl Greaduriaid eraill, yn y dull a'r modd y mae pob vn o honynt (yn ei ryw) yn abl cyflawni hynny. *Dat.* 5. 11. *&c.*

Chwi a welwch gan hynny wrth hyn, 1. *Nad yw boſſibl i Ddyn, trwy ei weithredoedd ei hun, neu trwy ei vfydd-dod ir Ddeddf, haeddu ffafor Duw, a chael ei gyfrif yn gyfiawn gantho, a chael Bywyd tragwyddol oddiwrtho.* 2. Nad ym ni oll, wedi gwneuthur y cwbl a orchymynnwyd i ni, ond Gweiſion anfuddiol, *Luc.* 17. 10. 3. *Nad yw Duw yn Ddyledwr i Ddyn, ac nad oes gan vn Dyn achos i orfoleddu ger ei fron ef, fal pe bae 'n avl haeddu dim y ſydd dda oddiar ei Ddwylo ef.* Rhuf. 4. 2, 4. Rhuf. 11. 6.

Ac i d'ibennu y matter ymma, Mi a angwanegaf hyn, fod y Dyn ſydd yn tybied, y dichon e trwy ei vfydd-dod ammherffaith haeddu ffafor Duw a Theyrnas Nefoedd, cyn ddwled, ac mor ynfytted, a'r ſawl ſy'n gobeithio, y gall ef, á phunt o Arian, bwrcaſſu cymmaint o Dai

a

a Thirocedd ac a dalant Ddeng mil o bynnau yn y flwyddyn, yr hyn beth nid yw byth boſſibl; canys nid oes dim cyfattebiad a chymmeſſurwydd, rhwng y naill a'r llall.

Os gofynnwchi yn awr, pa fodd gan hynny, y gallwn ni fod yn gyfrannogion o'r pethau ymma? Yr wi'n atteb, fyned yr Arglwydd *Ieſu Griſt* yn *Fachniudd* tros ei bobl, ac efe a dalodd eu holl Ddyledion hwynt, ac a haeddodd Gyfiawnhâad, ffafor Duw, a Bywyd tragwyddol troſtynt. *Heb.* 7. 22.

Yn Gyntaf, *Fe roddes* Criſt *i Gyfraith Dduw vfydd-dod perffaith; canys ni wnaeth efe bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau, ond efe a wnaeth y cwbl ar a orchymmynnir yn y gyfraith iw gyflawni: Ac fal hyn y talodd ein* Machniudd *Criſt Ieſu ein Dyled cyntaf ni; A thrwy ei vfydd-dod ef wedi ei gyfrif idd ei bobl, y cyfiawnheir hwynthwy.* 1 Pet. 2. 22. Joan. 17. 4. Rhuf. 5. 19.

Yn Ail, *Fe roddodd* Criſt *iawn i* Dduw *am waith ei bobl ef yn troſſeddu ei Gyfraith ſanctaidd ef*, trwy offrwm ei hun ar y Groes yn Aberth o arogl peraidd iw Dâd, am eu pechodau hwynt, gan ddioddef digofaint Duw yn ei enaid a'i gorph am danynt; ac yntho ef y bodlonwyd y Goruchaf; ac fal hyn y talwyd ein hail Ddyled. 1 *Joan.* 2. 2. *Eph.* 5. 2. *Eſay* 53. 10. *Mat.* 27. 46. 1 *Cor.* 15. 3. *Mat.* 3. 17.

Ac er na pharhâodd Dioddefiadau *Criſt* ond tros ychydig o amſer; etto gan ei fod ef yn

Dduw

Dduw yn gyſtal ac yn *Ddyn*, a bod y fath vndeb agos rhwng yr *ail Berſon* o'r *Drindod* a'i *Ddyndod* ef (ſal nad yw y ddwy anian neu nattur yn gyſſylltiedig, ond vn *Criſt*, ond vn *Cyfryngwr*) yr oedd ei Ddioddefiadau amſerol ef (am y rheſwm hynny) yn fwy mewn prîs a gwerth nâ holl ddioddefiadau pechaduriaid yn y *Byd hwn*, ac yn y Byd a ddaw.

Yr oedd *Duwdodd Criſt* yn dodi 'r fath rinwedd yn nioddefiadau ei *Ddyndod* ef (trwy yr vndeb oedd rhwng y naill nattur a'r llall) ac y cyfrifir yn yr yſcrythur *Ddioddefiadau 'r Dyndod*, yn *Ddioddefiadau 'r Duwdod*; am hynny y dywedir wrth Henuriaid *Epheſus*, *Bugeiliwch Eglwys Dduw, yr hon a bwrcaſſodd efe â'i briod waed: Yn awr nid oedd gan Dduw ddim gwaed iw golli, ond yr oedd gan Griſt fal yr oedd e 'n Ddyn waed iw golli:* Etto gan fod *Criſt* yn Fâb Duw ac yn Fâb Dyn mewn vn Perſon, fe gyfrifir ir naill nattur, y fy 'n rhoi enw ir *Perſon*, vr hyn fy briodol a pherthnaſſol ir nattur arall. *Act*, 20. 28. *Heb*. 9. 14.

Ac felly, megis y prophwydwyd am *Griſt*, efe a ddygodd i mewn Gyfiawnder tragywyddawl iw gyfrif iw bobl, ac a wnaeth iawn a chymmod tros eu hanwireddau hwynt; a thrwy hyn y gwneir hwy yn gymmeradwy gyda Duw, yn deilwng i gael ei ffafor a'i heddwch ef, ac i gael ymwared rhag Damnedigaeth, ac o'r diwedd i feddiannu *Eywyd*, *Gorphwyſtra*, *Llawenydd*, *Gogoniant*, a pheth fydd fwy na hyn oll,

Cy-

Cyfeillach gyda Duw, tros fyth yn y Nefoedd. Dan. 9. 24. Heb. 9. 12, 14, 15. 1 Cor. 1. 30. Rhuf. 5. 1. Rhuf. 8. 1. Rhuf. 6. 23. 1 Theſſ. 4. 17.

Er hyn i gyd, Rhaid i ni feddwl, am y ſawl a gyfiawnheir ac a gedwir trwy *Griſt*, fod y rheini hefyd yn cael eu ſancteiddio a'u puro gan yr *Yſpryd glân*, cyn belled ac nad yw pechod yn Arglwyddiaethu ynthynt *Rhuf*, 6. 14. *Act.* 15. 9. A phan y bônt yn cwympo i bechod mewn awr o Brofedigaeth, y mae 'r peth yn gâs yn ei golwg hwynt, ac nid ydynt foddlon iddo, *Rhuf.* 7. 15. eithr y mae ei hyfrydwch hwy yng-hyfraith yr Arglwydd, ac y mae ei ewyllys hwynt yn tueddu i wneuthur ei ewyllys ef; ac y mae y rhan fwyaf o'i bywyd hwy yn gyfattebol idd ei gyfraith ſanctaidd ef. *Rhuf.* 7. 22. *Pſal.* 1. 2, 3.

Ni ellir ſymmyd Sanctеiddiad oddiwrth Gyfiawnhâad, mwy nag y gellir ſymmyd Glybrwydd oddiwrth y Dwr, Gwrês oddiwrth y Tân, a Goleuni oddiwrth yr Haul : Ac am hynny, y mae y rhai ſy'n ymdrybaeddu yn eu pechodau (gan fyw ac ymhyfrydu ynthynt) yn twyllo eu hunain, pan y tybiant eu bod wedi eu cyfiawnhau trwy *Griſt*, a'u bod hwy wedi eu dwyn i ſtât o iechydwriaeth. Nid yw ffydd y cyfryw rai, ynghylch ffafor a heddwch Duw, a Bywyd tragwyddol, iddynt eu hunain, ond *Rhyfyg* ac *Ymffroſt*. Jac. 2. 14. &c. A'r Nefoedd honno lle y caiff y fath bobl (ſef, os byddant byw a marw

rw yn eu pechodau, yn anedifeiriol ac heb ran *yn-Ghrist*) fod ynthi ar ôl hyn, ydyw 'r Nefoedd (os gellir ei galw hi yn Nefoedd) lle mae 'r Diawl a'i Angelion ac Eneidiau 'r Damnedig yn presswylio ynthi. 1 *Cor.* 6. 9, 10, 11. *Eph.* 5. 5, 6.

Eithr os gofynnwch chi, pa Ddefnydd weithian y sydd iw wneuthur o'r Ddeddf ? Rwi 'n atteb, mai megis yr oedd y *Gyfraith Ddefodol* (yr hon oedd yn appwyntio Aberthau, a Golchiadau cnawdol *&c.*) felly hefyd y mae y *Gyfraith Foesol* (sef y Deg Gorchymmyn) yn Athro i'n harwain ni at Grist, *Gal.* 3. 24.

Pobl (cyn dyfod Crist yn y cnawd) wedi trosseddu y *Gyfraith Foesawl*, a redent at yr Aberthau a'r Golchiadau a orchymmynwyd yn y *Gyfraith Ddefodawl* (y rhai oeddynt yn arwyddoccau Aberthiad Oen Duw (sef *Iesu Grist*) yr hwn sydd yn tynnu ymmaith bechodau 'r Byd, a Golchiad yr Enaid trwy ei *Waed* a'i *Yspryd* ef) fel y caent Drugaredd a Maddeuant Pechodau gan Dduw. *Joan.* 1. 29. *Dat.* 1. 5. *Heb.* 9. 13, 14.

Ac er nad oedd ond nifer fechan (megis *Abraham*, a'r *Prophwydi*, a rhai *Seintiau godidawg* eraill) a chydnabyddiaeth eglur ganthynt ynghylch *Iesu Grist*; etto yr oedd yr *Israeliaid* yn gyffredinol yn credu, ar ei Haberthiad a'i ymolchiad, y byddei Duw yn Drugarog wrthynt; ac yn wir yr oedd efe yn drugarog wrth yr edifeiriol o honynt, ar gyfrif Crist, er nad oedd nem-

nemmawr yn gwybod (yr amſer hynny) y Dirgelwch mawr hwnnw, ſef, *Bod Trugaredd, Maddeuant a Iechydwriaeth, iw gael yn vnic trwy Haeddedigaethau, Cyfiawnder, a Marwolaeth Ieſu Griſt yr hwn oedd i ddyfod* : Ac am hynny, ſe ddywedir, nad oedd *y Seintiau tan y Gyfraith* ond megis Bechgyn, ſef, heb y fath wybodaeth a ſynwyr ganthynt, ac y ſydd gan y *Seintiau tan yr Efengyl* Gal. 4. 3. Ac fal hyn yr oedd y Gyfraith Ddefodawl yn Athro i ddwyn Pobl at Griſt.

Y mae 'r Gyfraith Foeſawl *hefyd, ſef y Deg Gorchymmyn yn* Athro *i arwain pobl at* Griſt, *os iawn yſtyrier y matter.*

Yn Gyntaf, y mae 'r Gyfraith hon yn dangos, pa bethau y fyn Duw i nyni eu gwneuthur, a pha bethau a fyn e i nyni i gadael heb eu gwneuthur.

Yn Ail, y mae hi yn ein argyhoeddi ni pan y bóm yn pechu, canys y mae Cydwybod Dyn (ar yr hon y mae 'r Gyfraith wedi ei hyſcrifennu) yn ei gyhuddo ef yn dra mynych am ei bechodau : ſe am hynny medd *Paul, Trwy'r Ddeddf y mae adnabod pechod.* Rhuf, 2. 14, 15. Rhuf. 3. 20. Rhuf, 7. 7.

Yn Drydydd, y mae hi yn ein bygwth ni am ein pechodau, â phob math o Felltithion yn y Byd hwn, ac â Damnedigaeth tragwyddol yn y Byd a ddaw ; a thrwy hynny, y mae hi 'n taro dychryn ynom, ac yn ein cynhyrfu ni, i ymofyn am ryw ffordd, yn yr hon y mae Truga-

redd,

redd, Maddeuant pechodau, Ymwared rhag vffern, a Iechydwriaeth dragwyddol yn y Nefoedd iw cael. *Deut.* 28. 15. *Ezec.* 18. 4. *Act.* 2. 37. *Act.* 1 . 30.

A thrwy ymofyn am y ffordd yn yr hon y mae Iechydwriaeth iw chael, y mae 'r Pechadur trwy 'r Efengyl yn cael copinod ac hyſpyſrwydd, nad yw hynny iw gael mewn vn ffordd, ond yn vnic trwy 'r Arglwydd Ieſu Griſt. *Joan.* 14. 6. *Act.* 4 12.

Ac fal hyn y mae 'r *Gyfraith Foeſawl* yn Athroi'n tywys ni at Griſt, trwy fod yn Achlyſſur ac yn Achos, ar ôl iddi 'n taro ni i lawr, i beri i ni ymofyn am Helpwr i'n cyfodi ni i fynu. *Nid y Iàch ond y Cleiſion ſy 'n ſefyll mewn Diffyg o'r Meddyg* : A'r Gyfraith yn ddilys ydyw 'r peth, gyda bendith Duw, ac y ſydd yn ein gwneuthur ni yn deimladwy ac yn glywedigaethus o'n clefydau a'n doluriau yſ prydol. *Mar.* 2. 17. *Rhuf.* 3. 20. *Rhuf.* 7. 7. A thymma i chwi vn defnydd da y ſydd iw wneuthur o'r Ddeddf, ſef i chymmheryd hi yn lle *Athro* i'n harwain ni at Ieſu Griſt, yn y modd y dywetpwyd ; ſef, y mae 'r Gyfraith ddefodol megis â bŷs yn dangos Criſt, a'r Gyfraith foeſol yn peri, i ni ymofyn am Helpwr.

Y mae Defnydd daionus arall iw wneuthur o'r Gyfraith Foeſawl, ſef, *Ni a ddylem ei gwneuthur hi yn Rheol i'n Bywyd, gan drefnu ein ymarweddiad a'n holl weithrediadau yn ôl y Gorchymynnion y ſy gynnwyſedig ynthi.* Rhuf. 3. 31. 1 Cor. 9. 21.

Y

Y mae Criſt gwedi llwyr oſod heibio a dileu y Gyfraith Ddefodawl, canys nid oedd yr Offeiriadau, a'r Aberthau, a'r Golchiadau, ac amryw Ordeinihadau eraill y bwyntiwyd ynthi hi, ond Cyſcodau o honaw ef, ac o'i Rinweddau a'i Weithrediadau. *Heb.* 10. 1. *Col.* 2. 14.

Y mae Criſt hefyd gwedi gwaredu ei bobl oddiwrth Felltithion y Gyfraith Foeſawl, Gal. 3. 13. Er hynny y mae fo 'n Gorchymyn iddynt fyned tan ei iau hi, gan ddywedyd mai ei iau ef ydyw hi: Eithr y mae fo 'n ei gwneuthur hi 'n eſmwyth ac yn yſcafn iw Bobl, trwy roddi ei yſpryd iddynt, i cynnorthwyo nhw mewn rhyw feſſur i vfyddhau iddi, a thrwy ymfodloni i dderbyn oddiwrthynt vfydd-dod cywir, y ſy 'n tarddu allan o galon vnion, a phwrpaſſon oneſt, a gwir ymdrechiad i fyw yn ôl Rheol y Gyfraith, er eu bod hwy yn llithro mewn llawer o bethau, ac yn methu a ffaelu vfyddhau iddi yn gyflawn. *Mat.* 11. 30. 1 *Joan.* 5. 3. *Ezec.* 36. 27. *Pſal.* 7. 10.

Ac ym-mhellach y mae fo 'n raſol yn maddeu llithriadau, diffygion a gwendid ei bobl, pan y bônt yn adnewyddu ei hedifeirwch a'i ffydd yntho ef. Nid oedd y Gyfraith Foeſawl, mal yr oedd hi 'n dyfod allan o law *Moeſen* yn derbyn dim o'r fath beth ac edifeirwch, Ond yr Enaid a becho a fydd marw ydyw llais y Gyfraith honno: Yr Efengyl yn vnic, yn yr hon y mae Criſt yn galw am vfydd-dod ir gyfraith (yn gyſtal ac am ffydd yntho ef) gwedi ei gwneuthur

thur yn eſmwyth ac yn yſcafn gantho ef, y ſydd yn derbyn edifeirwch, ac yn addaw maddeuant pechodau ir Credadyn edifeiriol, *Heb.* 5. 9. *Act.* 3. 19.

Ac am hynny lle yr ydys mewn amryw fannau yn yr hên Deſtament yn addaw Trugaredd a Maddeuant Pechodau ir ſawl a ddychwelent at Dduw, ac ir ſawl a oeddent a chalonnau edifeiriol yn dwyn eu hoffrymmau i *D*duw yn ôl y Gyfraith ddefodawl, gwybyddwn yn ſicer, mai llais yr Efengyl ac nid llais y Gyfraith ydyw hynny. Nid oes vn ffordd ond vn yn arwain tua 'r Nefoedd. *Ar gyfrif neu er mwyn Criſt i ddyfod y cadwyd pobl tan yr hên Deſtament*: A thrwy yr vn Criſt y ſydd gwedi dyfod, yr ydys yn cadw pobl tan y Teſtament newydd.

A thrwy wneuthur y defnydd daionus ymma o'r Gyfraith Foeſawl, fal y mae Criſt wedi ei gwneuthur hi'n eſmwyth ac yn Rheol i'n buchedd, y mae amryw o bethau buddiol eraill yn canlyn, ſef, trwy ein ymdrechiad i gyflawni 'r Gyfraith hon,

1. *Yr ydym yn Cogoneddu Duw, ac yn dangos ein Diolchgarwch iddo am ei Drugareddau.* Joan. 15. 8. Mat. 5. 16.
2. *Yr ydym yn harddu 'r Efengyl.* Tit. 2. 10.
3. *Yr ydym yn rhoddi ſiampl dda i eraill.* 1 Cor. 11. 1. 1 Pet. 3. 1.

4. *Yr*

4. *Yr ydym yn cael (oddiwrth y ffrwythau da hyn) ſicrwydd ein bod ni yn ganghennau bywiol, yn y wir winwydden Criſt Ieſu, a thrwy ganlyniaeth, y cawn ni trwyddo fe feddiannu iechydwriaeth dragwyddol.* Joan. 15. 5. Mat. 7. 17.

Vn Peth ydyw myned at y Gyſraith er mwyn cael gweilhâad buchedd oddi allan, ac er mwyn cael cyfiawnhâad a bywyd tragwyddol trwyddi; A pheth arall ydyw myned at y Gyfraith, i chymmheryd hi, fal y mae Criſt wedi ei gwneuthur hi'n eſmwyth, yn lle Rheol i'n hymarweddiad, fal y mae hi yn dyfod allan oi ddwylo Bendigedig ef. Am y peth cyntaf y mae Efangylwr yn beio ac yn bygwth y *Pererin*, ac nid am y peth diwetha.

*D*ychwelwn yn awr at y *Pererin* yn myned tua Mynydd Sinai, yn ol drwg Gynghor Meiſtr Bydol-ddoethyn.

Ar hyn yr oedd *Criſtion* yn * petruſo, ac efe a ymreſymmodd yntho ei hunan fal hyn, os gwir y mae 'r Gwr bonheddig hwn yn ei ddywedyd, gwell i mi gymmeryd ei gynghor ef; a chyda hynny eb efe wrth *Bydol* Ddoethyn, *Syr Dangoſwch i mi y ffordd i Dŷ y Gwr oneſt hwn.*

* *Amheus, dowto.*

Bydol-

Bydol-D. A weli di y Bryn uchel accw ?

Criſ. *Gwelaf yn eglur ddigon.*

Bydol-D. Rhaid i ti fyned wrth yſtlys y Bryn accw; a'r Ty cyntaf yr elych atto yw ei Dŷ ef.

Felly ſe dródd *Criſtion* allan o'i ffordd, i fyned i Dŷ Meiſtr * Legality, i geiſio cymmorth : Ond gwedi neſſau at y † Bryn, wrth ei weled ef mor vchel, a bod yr ochr neſſaf ir ſfordd yn crogi allan yn ddirſawr, efe a ofnodd fyned ym-mhellach, rhag ir Mynydd ſyrthio ar ei ben ef : Ac am hynny efe a ſafodd yno yn llonydd, heb wybod pa beth a wnai. Yr oedd ei faich hefyd (yn ei dŷb ef) yn drymmach yr awron nâ chynt, tra yr ydoedd efe yn ei ffordd. Daeth hefyd fflammau o Dân allan o'r Mynydd, y rhai a wnaethant i *Griſtion* ofni y lloſcid ef. *Exod.* 19. 16, 18. *Heb.* 12. 21. Yma gan hynny y chwyſſodd ac y crynodd efe gan ofn. Ac yn awr yr oedd yn ddrwg gantho, am iddo dderbyn Cynghor Meiſtr *Bydol Ddoethyn.* A chyda hynny, fe a ganfu *Efangylwr* yn dyfod iw gyfarfod ef ; ac wrth ei weled ef, ſo ddechreuodd * wridio gan gywilydd. *Efangylwr* gan hynny a ddaeth atto, ac a edrychodd arno ag wyneb-pryd † ger-

* *Deddfol.*

† *Mynydd Sinai.*

* *Cochi.*

† gerwin ac erchyll, ac a ymreſymmodd â *Chriſtion* fal hyn. † *Sarrug ac ofnadwy.*

Efang. Criſtion *eb efe, pa beth a wnei di yma ? ond ni wyddai* Criſtion *pa beth yr attebai iddo ; ac am hynny efe a ſafodd* || *dro bach yn fûd ger ei fron ef. Yna y dywedodd* Efangylwr *ymmhellach wrtho, onid Tydi yw 'r Dyn y glywais i yn llefain* † *yn irad o'r tu allan i* * *furiau* Dinas deſtryw ? || *Dros ennyd fechan* † *Yngwyn-fannus.* * *Gwelydd*

Criſ. Ie Barchedig Syr, Myfi ydyw 'r Dyn hwnnw.

Efang. *Oni chyfarwyddais i tydi, ir ffordd ſy 'n arwain tua'r Porth bychan ?*

Criſ. Do Barchedig Syr ebe *Criſtion.*

Efang. *Pa fodd gan hynny y cyfeiliornaiſti mor ebrwydd ; canys yr wyt ti yn awr allan o'r ffordd ?*

Criſ. Er cynted ac y daethym i allan o *Gors Anobaith,* mi a gyfarfyddais a Gwr bonheddig, yr hwn a'm perſwadiodd i, fod vn † yn taring yn y Pentref o'm blaen, ac a allai 'm dadlwytho i o'm Baich. † *Yn trigo*

Efang. *Pa fath wr ydoedd efe ?*

Criſ. Yr oedd gwedd Gwr bonheddig gantho, ac efe a ſiaradodd lawer a'm fi ; ac o'r diwedd, a wnaeth i mi fod yn fodlon i ddilyn ei Gyngor ef ; ac felly mi a ddaethum yma : Eithr pan y gwelais i vchder y mynydd hwn,

a'r

a'r môdd y mae 'n crogi vwch ben y ffordd, mi a ymatteliais yn ddiſymmwth oddiwrth fyned yn neſſach atto, rhag iddo ſyrthio ar ſy mhen.

Eſang. *Pa beth a ddywedodd y Gwr bonheddig hwnnw wrthych chwi?*

Criſ. Efe a ofynnodd i mi, i ba le yr oeddwn yn myned, ac fo 'm holodd i, a ocdd Teulu gennif? Ac mi a fynegais iddo, fy mod i yn myned tua Mynydd *Sion*, a bod genni Deulu: Eithr ebe fi, yr wyf mor llwythog gan y Baich ſydd ar fy nghefn, fal nas gallaf ymhyfrydu ynthynt megis cynt.

Eſang. *A pha beth a ddywedodd yntef ynghylch hynny?*

Criſ. Fo 'm cynghorodd, i ymorcheſtu i ymddilwytho yn ebrwydd; a minne a'i hattebais ef, mai eſmwythdra ocdd dymuniad fy nghalon i: Ac am hynny ebe fi, yr wi 'n myned tua 'r Porth accw, i gael gwybod pa le y cafi ymwared. Yntef a ddywedodd wrthyf, y dangoſai efe i mi well a neſſach ffordd, ac â llai o beryglon ynthi, nag y ſydd yn y ffordd, Syr, y goſodaſoch chwi fi arni: Ar ffordd hon eb efe a'ch dwg chwi yn vnion i Dŷ Gwr bonheddig, y feidr ddilwytho pobl, o'r fath lwythau a hyn. Felly mi a'i credais ef, ac a droais ir ffordd hon, oddiar y

ffordd

ffordd yr oeddwn i arni trwy 'ch cyfarwyddiad chwi, i edrych (yn rhyw fodd) a gawn i eſmwythdra oddiwrth fy Maich. Eithr pan y daethum ir lle hwn, a gweled y pethau ſydd yma, mi a ymatteliais oddiwrth fyned ymmhellach, rhag ofn perygl: Ac yn awr nis gwn i pa beth a wnaf.

Efang. *Yna ebe* Efangylwr, *Sâf yn llonydd ychydig, a mi a yſpyſaf i ti ciriau Duw, ac felly efe a ſaſodd ger ei fron ef yn ddychrynnedig. A Dywedodd* Efangylwr *wrtho fal hyn. Edrychwch na wrthodoch yr hwn ſydd yn lefaru, oblegid oni ddiangodd y rhai a wrthodaſant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaiar, mwy o lawer nis diangwn ni, y rhai ydym yn troi ymmaith, oddiwrth yr hwn ſydd yn llefaru o'r Nêf.* Heb. 12. 25. *A'r Cyfiawn a fydd byw trwy ffydd; eithr o thynn neb yn ôl, nid yw fy enaid yn ymfodloni ynddo,* Heb. 10. 38. Ac efe a gymmwyſodd yr yſgrythurau yma at *Criſtion* fal hyn; *Tydi ydyw 'r Dyn y ſydd yn rhedeg ir trueni hwn; Ti a ddechreuaiſt ddiyſtyru cynghor y Goruchaf, trwy droi oddiar ffordd* * *Dangneddyf, ie o fewn ychydig iberygl damnedigaeth.*

* *Heddwch.*

Ar hyn fe a ſyrthiodd *Criſtion* i lawr wrth eî draed ef megis yn farw, gan

lefain,

lefain, Gwae fi! Canys darfu am danaf. Ac wrth weled hynny, fe ymaflodd *Efangylwr* yn ei law ddehau ef, gan ddywedyd, || *Pob pechod a chabledd a faddeuir i Ddynion, onid y cabledd yn erbyn yr yſpryd glân*, Mat. 12. 31. *Na fydd Anghredadyn ond Credadyn.* Yna yr ymadfywiodd *Criſtion* ychydig drachefn, ac a ſafodd yn ddychrynnedig megis ar y cyntaf o flaen Efangylwr.

|| *Fe faddeuir pob pechod i Ddynion, os edifarhaant*, Act. 3. 19. *A thyna yn thegwm pa ham na faddeuir ir ſawl ſy'n cablu yn erbyn yr yſpryd glân, ſef, oblegit mai amboſſibl ydyw, ir cyfryw rai ymadnewyddu drachefn i edifeirwch*, Heb. 6. 4, 6. *Y mae Dynion yn pechu yn erbyn yr yſpryd glân, pan y bont, nid trwy wendid ac ofn, megis* Petr, *neu trwy anwybodaeth megis* Paul, *yn gwadu ac yn gwrthwynebu* Criſt Ieſu *a gwirioedd yr efengyl*; *ond pan y bont hwy o wir gaſineb a chyndynrwyd, yn erbyn argyoeddiadau ac eglurhâad yr Yſpryd glân, yn gwrthwynebu, yn cablu, ac yn erlid* Criſt *a'i Efengyl, megis y gwnaeth y* Phariſæaid, *y rhai oeddynt yn barnu, mai trwy* Beelzebub *yr oedd* Criſt *yn bwrw allan* Gythreuliaid, *pan y gallaſent yn hawdd ddeall, mai trwy allu Duw yr oedd efe yn gwneuthur bynny; canys pe bwriaſai* Satan *gythreuliaid eraill allan o Ddynion mewn amcan da, ſef, i ogoneddu Duw, ac i wneuthur y cyfryw, neu neb rhyw Ddynion eraill yn dduwiol (trwy weled y fath wrthiau) yr hyn beth yr oedd* Criſt *yn ei amcanu yn ei holl wrthiau) yna fe a fyddai wedi ei ymrannu yn ei erbyn ei hun, ac ni ſafai moi Deyrnas ef*, Mat. 12. 24. *&c.*

A chan fyned rhagddo, fe leſarodd *Efangylwr* wrth *Griſtion*, fal hyn, Craffa yn well ar y pethau a adroddaf wrthyt, a myfi a ddangoſaf i ti

* yr-

* yr-wan, pwy ydoedd yr hwn a'th dwyllodd di, a phwy hefyd ydyw yntef, at yr hwn ith ddanfonodd di. * *Yn awr.*

Y Gwr a gyfarfu â thi, yw *Bydol Ddoethyn*; a da iawn y gelwir ef felly, oblegit, *Yn gyntaf*, nid yw efe yn clywed blâs yn y byd ar vn math o athrawiaeth, ond yn vnic ar Athrawiaeth y Byd hwn; ac am hynny, y mae fo 'n cyrchu yn ddibaid, i gynnulleidfa 'r * moesgar, yn *Nhref* † *Moesgarwch.* 1 Joan. 4. 5. Ac *yn ail*, oblegit ei fod e 'n caru yr athrawiaeth honno yn oreu, am ei bod hi yn ei gadw ef yn well nâ dim arall rhag herledigaeth, *Gal.* 6. 12. Ac o herwydd ei fod ef o'r dymer gnawdol yma, y mae fo 'n ymdrechu, i droi pobl oddiar fy ffyrdd i, er vniawned ydynt. Y mae tri pheth ynghyngor y Gwr hwn, ac a ddylit ti eu llwyr ffieiddio. * *Dynion ſiſil oneſt oddi allan.* † *Gweddeidd-dra oddi allan.*

1. *Ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd.*
2. *Ei ymdrechiad ef i wneuthur y groes yn gâs yn dy olwg di.*
3. *Ei waith ef yn gosod dy Draed di ar y ffordd, sydd yn* * *tywys i weinidogaeth Angau.* * *Arwain.*

Yn Gyntaf Rhaid i ti ffieiddio ei

waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd; ie a'th waith dithau yn cyttuno ag ef yn hynny: Oblegit trwy gofleidio Cynghor *Bydol Ddoethyn*, Ti a ddiyſtyraiſt Gyngor Duw. *Ymdrechwch* medd yr Arglwydd, *am fyned i mewn trwy 'r Porth cyfyng*, Sef y porth tua 'r hon y cyfarwyddais i tydi ar y cyntaf; oblegit *cyfyng yw'r Porth y ſydd yn arwain ir Bywyd, ac ychydig yw y rhai y ſydd yn ei chael hi.* Luc. 13. 24. Mat. 7. 14. Ac yn awr fe ddarfu ir Dyn drwg hwn dy droi di oddiwrth y porth bychan yma, ac oddiar y ffordd ſydd yn arwain tuag atti, gan dy ddwyn di o fewn ychydig i Ddeſtryw. Caſháa gan hynny ei waith ef yn dy droi di allan o'r ffordd, a ffieiddia dy hunan am wrando arno ef.

* Dyfa-[illegible]

Yn Ail, *Rhaid i ti ffieiddio ei * Ddiwydrwydd ef i wneuthur y Groes yn atgas yn dy olwg di*; Canys ti a ddylit farnu, *fod Dirmyg er mwyn* Criſt *yn fwy golud nâ thryſſorau 'r Aipht.* Heb. 11. 25. 26. Heblaw hyn, Brenin y Gogoniant a fynegodd itti, *y caiff yr hwn y ſy 'n ewyllyſſio cadw ei einioes ei cholli hi*; ac medd efe, *os daw neb attafi, ac ni chaſáo ei Dâd, a'i Fam, a'i Wraig, a'i Blant, a'i Frodyr, a'i Chwiorydd, ie a'i Enioes ei hun hefyd, ni all efe fod*

yn

yn Ddiſcybl i mi, Mar. 8. 34, 35. Luc.. 14. 26. Ac am hynny meddaſi, Rhaid i ti ddiflaſu ar yr Athrawiaeth honno y dderbyniaiſti oddiwrth *Bydol Ddoethyn*, yr hwn a'th berſwadiodd, y bydd y peth hynny yn Farwolaeth i ti, heb yr hyn medd y Gwirionedd ei hun, nid elli di gael bywyd tragwyddol.

Yn Drydydd, *Rhaid i ti gaſhau ei waith ef yn goſod dy draed di ar y ffordd ſydd yn arwain i weinidogaeth Angeu.* Ac ynghylch hynny, Rhaid i ti yſtyried at bwy yr anfonodd efe dydi, ac hefyd mor anabl yr oedd y Gwr hwnnw i'th waredu di oddiwrth dy Faich.

Y Gwr a elwir * *Legality*, at yr hwn i'th anfonwyd di, i geiſio eſmwythâad, yw mâb y waſanaeth ferch, yr hon ſydd yn awr tan gaethiwed, (hi a'i phlant) ac mewn dirgelwch, hi ydyw y Mynydd *Sinai* yma, yr hwn a ofnaiſti, rhag iddo ſyrthio ar dy Ben, *Gal.* 4. 21. *&c.* Yn awr os ydyw hi a'i phlant † yn gaethion, pa fodd y gelli di ddiſgwyl am gael dy wneuthur yn wr rhydd ganthynt hwy? Ac am hyny ni ddichon y *Deddfoldeb* hwn dy ryddhau di oddiwrth dy Faich. Nis gwaredodd efe neb erioed etto, ac nid oes tybygoliaeth y gwareda efe vn dyn byth

* *Deddfoldeb.*

† *Yn rhwym wrth y gyſraith i ddioddef damnedigaeth am bechod.* Rhuf. 6. 23.

byth rhagllaw, oddiwrth Faich ei Bechodau. Ni chyfiawnheir neb trwy weithredoedd y Ddeddf, canys ni ddichon pobl trwyddynt hwy gael eu rhyddhau oddiwrth eu beichiau, *Rhuf.* 3. 20. *Act* 13. 38, 39. Ac am hynny, nid yw meistr *Bydol Ddoethyn* ond Estron, a meistr * *Legality* ond Twyllwr, ac nid yw ei Fab † *Sifility* ond Rhagrithiwr (er tecced ei ddrych a'i ymddygiad oddi allan) ac nis gallant hwy mo'th helpu di. Coelia fi, nid oes dim yn holl drwst a ‖ dwndwr y Dynion angall hyn, ond amcan i'th * siommi di am dy iechydwriaeth, trwy dy droi di oddiar y ffordd y gosodais i ti arni. A † chwedyn, se groch-waeddodd *Efangylwr*, am gadarnhâad o'r Nefoedd ynghylch y pethau y lefarasai efe am danynt: Ac yn y man y daeth geiriau a thân allan o'r Mynydd, tan yr hwn yr arosodd *Cristion* druan Gwr, y rhai a wnaethant i wallt ei ben ef, a blew ei gnawd ef i sefyll i fynu. Y Geiriau oeddent y rhain. *Cynnifer ac y sy o weithredoedd y Ddeddf, tan felldith y maent: Canys scrifennwyd, melldigedig yw pob vn, nid yw yn aros yn yr holl bethau a scrifennir, yn llyfr y Ddeddf, iw gwneuthur hwynt.* Gal. 3. 10.

* *Deddfold. b.*
† *Gweddoldeb.*
‖ *Swn.*
* *Twyllo.*
† *Gwidi bywy.*

Yn awr nid oedd *Cristion* yn edrych am

am ddim ond marwolaeth ; ac efe a ddechreuodd waeddi yn alarus, gan felldithio yr amſer, yn yr hwn y cyſarfu efe â meiſtr *Bydol Ddoethyn*, gan alw ci hunan fil o weithiau yn ffol, am iddo wrando ar ei gyngor ef. A chywilyddio yn ddirfawr y wnaeth efe hefyd, wrth feddwl i reſymmau cnawdol y Gwr ymma ei orchfygu ef yn y fath fodd, fal y parent iddo † ŵyro oddiar y ffordd vniawn. Ac ar ôl hynny fo a neſſaodd dracheſn at *Efangylwr*, gan leſaru wrtho ir pwrpas hyn. † *Troi.*

Crif. *Syr, Beth a dybygwch chwi ? A oes obaith ? A allaſi ddychwelyd yn awr, a myned i fynu at y porth bychan ? Oni wrthodir fi am ſy nhroſſedd, ac onis gyrrir fi yn ôl oddi yno gyda chywilydd ? Mae yn ddrwg gennif i mi wrando ar gyngor y Gwr hwn ; eithr a ellir maddeu ſy mhechodau i ?*

Efang. Yna y dywedodd *Efangylwr* wrtho, y mae dy droſſeddiad di yn fawr iawn ; canys ti a wnaethoſt ddau ddrwg ; Ti a adawaiſt y ffordd dda, ac a aethoſt i * drafaelu ar hyd llwybrau gwaharddedig : Er hynny, di gei dy dderbyn gan y Gwr ſydd wrth y Porth ; oblegit y mae fo yn ewyllyſſio yn dda i Ddynion : Yn vnic eb efe, † gwilia rhag gŵyro dracheſn, *rhag* * *Teithio.* † *Gwachel droi oddiar y ffordd.*

dy ddifetha o'r ffordd, pan gynneuo ei lid of ond ychydig, Psal. 2. 12.

|| *Ydd-wyd.* Yna yr ymdacclodd *Cristion* i || ymhoelyd: ac *Efangylwr*, wedi iddo ei gussanu ef, a wenodd arno, ac a ddywedodd Duw yn rhwydd wrtho. Felly efe a aeth ym-mlaen ar frŷs, heb yngannyd gair wrth vn-dyn ar y ffordd: Ac os gosynnai neb ddim iddo, ni chai e atteb yn y byd oddiwrtho. Yr oedd e'n cerdded, * meis vn yn troedio o hŷd, ar Dir gwaharddedig: Ac ni allai efe ei dybied ei hun yn ddiogel mewn vn-rhyw fodd, hyd oni ddaeth efe drachefn ir ffordd a adawsai fo, trwy gyngor Meistr *Bydol Ddoethyn*: Ac felly fe a ddaeth o'r diwedd hyd at y Porth; A scrifennwyd y geiriau hyn vwch ben y porth, *Curwch, ac fe agorir i chwi*, Mat. 7. 7, 8. A chwedi curo mwy nag unwaith, efe a ddywedodd,

A agor neb y Porth im fi,
*Y ddarfu bechu'n * sceler?*
Os felly gwnaer, mi ganaf glôd,
Yn † wastod i'm Duw || tyner.

Ym mhen ennyd, Daeth ir Porth wr pwyllog sobr, a elwyd * *Ewyllyssiwr da*, ac efe a osynnodd, *Pwy ydoedd yno?*

* *Megis.*

* *Yn daryg-ionus.*
† *Yn wa-stadol.*
|| *Tirion.*

* *Sef*, Crist.

yno? Ac o ba le yr oedd efe yn dyfod? A pha beth a tynnai fo?

Cris. Y mae yma Bechadur truan trwm lwythog: Dyfod yr wyfi o *Ddinas Deſtryw*, eithr yr wyf yn myned i fynydd Sion, ſal i'm gwaredir rhag y llid a fydd. Am hynny Syr, yn gymmaint a chlywed o honof, ‡ taw trwy 'r porth hwn y mae 'r ffordd tuag yno, myfi a fynnwn wybod, a ydychi 'n ewyllyſgar im gollwng i mewn. ‡ Mat.

Ewyllyſſiwr-Da. *'Rwi 'n ewyllyſgar ebe ynteſo'm holl galon, ac ar hynny efe a agorodd y Porth.* *Fe agorir y Porth i bechaduriaid dyliedig o galon.*

A phan oedd *Criſtion* yn myned i mewn, y llall a'i cippiodd ef atto: Yna ebe *Criſtion*, Beth yw hyn? O fewn ychydig at y Porth yma ebr llall, yr adeiladwyd Caſtell cadarn, a *Beelzebub* ſydd *Gapten* arno: Ac oddi yno, y mae efe a'i *Sawdwyr*, yn ſaethu piccellau at y rhai ſy'n dyfod i fynu at y Porth hwn, mewn bwriad i lâdd hwynt cyn yr elont i mewn. Weithian ebe *Criſtion*, 'rwi 'n ymlawenhau, ac etto yn dychrynu. Ac wedi dyfod i mewn, gofynnodd y *Porthor* iddo, Pwy oedd yr hwn a'i cyfarwyddodd ef tuag yno?

Criſ. *Efangylwr a barodd i mi ddyfod yma a churo (mal y gwnaethum) ac efe a ddywedodd wrthyf, y cawn i wybod*

gennych chwi Syr, pa beth ſydd raid i mi'ei wneuthur.

Ewyll-D. Y mae Drws agored wedi ei oſod o'th flaen di, ac ni ddichon neb ei gau ef.

Criſ. Yn awr yr wyſi 'n dechreu medi ſi wyth fy mherygl on.

E. D. Ond pa ſodd y daethoſti, heb neb gyda thi?

Criſ. Am nad oedd neb o'm Cymmydogion yn gweled eu perygl, fal yr oeddwn i yn gweled fy mherygl fy hun.

E. D. *A oedd eich taith chwi yn hysbys i neb o honynt?*

Criſ. Oedd, canys fy ngwraig a'm plant a'm gwelſant i * yn cychwyn, ac a alwaſant ar fy ol, i geiſio gennif ddychwelyd: Rhai hefyd o'm Cymmydogion a alwaſant arnaf i † ymhoelyd. Eithr myfi a oſodais fy myſſedd yn fy nghluſtiau, ac a gymmerais fy ffordd.

* *Yn dechreu 'm ſiwrnai.*

† *Ddychwelyd.*

E. D. *Eithr a ganlynodd neb o honynt chwychwi, i'ch perſwadio i ddychwelyd adref?*

Criſ. Do, *Cyndyn* a *Meddal* a'm canlynaſant, ond pan y gwelſant, na thycciai mo'i cynghor hwynt, fe ddychwelodd *Cyndyn* dan ddifenwi, eithr *Meddal* a ddaeth gyda mi, nes i ni ddyfod hyd at Gors anobaith, ac ni a gwympaſom ynthi

ynthi yn ddiſymmwth : * Ac ar hynny, fy nghymmydog *Meddal* a ddigalonnodd, ac nis mynnai fe ſentro ymmhellach. Ac yna wedi eſcyn o'r Gors, ar yr ochr neſſaf at ei Dŷ ei hun, fo a ddywedodd wrthyf, y gellwn i erddo ef feddiannu y wlâd dêg fy hunan. Felly eſe a aeth iw ffordd ei hun, a minne a ddaethum ar hyd fy ffordd innau, eſe ar ól *Cyndyn*, a minne ir porth yma.

* *Fe all Dyn gael cwmpni wrth ddeclrau ei daith tua 'r nef, ac etto dyſod yno wrtho ei hunan.*

E. D. *Yna ebe Ewyllyſſiwr da, och o druan Gwr ! A ydyw y Gogoniant nefol mor wael yn ei olwg ef, fal nad yw eſe yn cyfrif, y tâl y gogoniant hwnnw mor ymgais am dano, oblegit bod ychydig o rwyſtrau yn y ffordd tuag atto ?*

Criſ. Myfi a ddywedais ebe *Criſtion* y gwir am *Feddal*, a phe dywedwn i y cwbl o'r gwirionedd am danaf fy hun, fe gaid gweled, nad wyfi well nag ynteu. Gwir yw, eſe a ddychwelodd iw Dŷ ei hun, eithr minne hefyd a droais ir ffordd ſy 'n arwain i *Farwolaeth*, wedi fy annog i hynny, trwy gynghor cnawdol Meiſtr *Bydol Ddoethyn*.

E. D. Oh ! a gyfarfu eſê â chwi ? Pa beth ! Eſe a ſynnai i chwi fyned at Meiſtr *Deddfoldeb* i geiſio eſmwythdra. Twyllwyr ydynt hwy ill dau. Eithr

a ddilynaſoch chwi ei Gyngor ef ?

Criſ. *Do, cyn belled ac y meiddiwn: Mi a aethym i ymoſyn am Mr. Deddfoldeb, hyd oni thybiais y ſyrthiai 'r Mynydd oedd wrth ei Dŷ ef ar ſy mhen i: Ac am hynny, fe orfu arnaſi ymattal rhag myned ym-mhellach.*

• *E. D.* Fe fu 'r Mynydd hwnnw yn ddiniſtr i fagad, ac a fydd felly etto i laweroedd. Da ydyw i chwi ddiangc, ac nis maluriwyd chwi 'n chwilfryw gantho.

Criſ. *Yn ddiau, ni wn i beth a ddigwyddaſai immi yno, oni buaſai i* Efangylwr, *ar awr dda gyfarfod â mi drachefn, fal yr oeddwn yn athriſt iawn yn* * *dwys ſyfyrio, beth a ddawai o honoſi. Eithr trugaredd Duw oedd ei ail ddyfodiad ef attaſi;* † *os amgen ni ddaethwn i byth yma. Ond yn awr yr wyf wedi dyfod, y fath vn ac ydwyſi, ſef, Dyn yn haeddu cael fy neſtrywio gan y Mynydd hwnnw, ac nid i ſefyll yma fal hyn, i ymddiddan â'm* Harglwydd: *Eithr oh! Pa ffafor yw hyn, fod o honoſi er hynny yn cael fy-ner byn i mewn ir lle hwn.*

* *Mawr.*

† *Allan o hynny.*

E. D. Nid ym ni 'n † edliw dim i neb, er ‖ cymmaint y wnaethant hwy cyn dyfod yma; ac nis bwrier mo honynt hwy allan, *Joan.* 6. 37. Ac am hynny *Griſtion* anwyl, * Dere gyda mi

† *Dawned.*

‖ *Sef, o ddrygau.*

* *Tyred.*

mi ychydig ym-mhellach, a myfi a'th ddyſcaf di ynghylch y ffordd, y ſydd raid i ti fyned ar hyd-ddi. Edrych o'th flaen, a weli di y ſſordd gûl accw? Dyna 'r ffordd y dylit ti fynd ar hyd-ddi. Fe a'i gwnaed hi gan y † *Padri-archiaid*, y *Prophwydi*, *Criſt* a'i *Apoſtolion*, ac y mae hi cyn vniawned, ac y gallai Rheol ei gwneuthur hi. Dyma 'r ffordd y ſydd raid i ti ſiwrneio arni.

† *Yr vchel Dadau megis* Abraham Iſaac, *&c.*

Criſ. *Eithr ebe* Criſtion, *A oes yno draws-ffyrdd, trwy y rhai, y dichon Dyn dieithr golli ei ffordd?*

E. D. Oes, y mae amryw o ffyrdd yn dyfod ith ffordd di; ond y maent hwy oll yn geimion ac yn llydain: Eithr wrth hyn y gelli di adnabod y iawn ffordd, oddiwrth y croes-ffyrdd; y mae hi yn vnic yn vnion ac yn gûl, a'r lleill yn geimion ac yn llydain, *Mat.* 7. 13. 14.

Yna mi a glywn *Criſtion* yn gofyn iddo ef ym-mhellach, a allai efe ei ddadlwytho ef o'r llwyth oedd ar eî gefn; canys hyd yn hyn, ni chawſai efe wared o honaw, ac nis gallai efe mewn modd yn y byd fwrw ei faich i lawr heb help.

Nid oes ymwared oddiwrth y baich o bechod, ai euogrwydd ef, onid trwy waed Criſt.

Yntef a'i hattebodd ef, ymfodlona i aros dan dy faich, hyd oni ddelech di ir lle o eſmwythâad, canys fe a gwymp oddiar

oddiar dy geſn di yno o honaw ei hun.

Yna y dechreuodd *Criſtion* wregyſu ei lwynau, ac ymbarottoi iw daith: A dy edodd y lla'i wrtho, y deuai fo wrth Dŷ y ‖ *Deonglwr*, pan elai fo ychydig bach ym mlaen oddiwrth y porth: Ac efe a barodd iddo guro wrth ei ddrws ef; a dywedodd wrtho, y dangoſei y *Deonglwr* iddo bethau rhagorol. * A chwedyn ſe gymmerodd *Criſtion* ei gennad oddiwrth ei Gyfaill, ac yntef hefyd a ddywedodd wrth *Criſtion, poed da yr elot ti.*

‖ *Esponiwr*

* *Ar ôl hynny.*

‖ *Ym mlaen.*

Yna efe a aeth ‖ rhagddo, hyd oni ddaeth e at Dŷ y *Deonglwr*, lle y curodd e lawer gwaith: O'r diwedd daeth yn ir drws, ac a ofynnodd, *Pwy ydoedd yno.*

* *Treſaldwr.*

Criſ. *Syr, ebe* Criſtion, * *ymdeithydd ydwyfi: Ac ſe a orchymynwyd i mi, gan yn ſydd ym gydnabyddus â Gwr da y Tŷ hwn, i alw yma er lleſâad i mi; ac am hynny, myfi a ewyllyſſiwn ymddidan ag ef: Felly ſe a alwodd wr y tŷ, ac yn y mîn ſo a ddaeth at* Griſtion, *ac a ofynnodd iddo,* pa beth yr ydych chi yn ei geiſio yma?

Criſ. Syr, ebe *Criſtion*, Dyn wyfi a ddaeth allan o *Ddinas deſtryw*, ac yr wi 'n myned tua *Mynydd Sion*; Ar Gwr y ſy 'n ſefyll wrth y porth, ym mhen

mhen y ffordd hon, a ddywedodd wrthyf, os galwn i yma, y dangoſech chwi i mi bethau † godidog, y cyfryw ac a'm cynnorthwyent yn fy Nhaith. † *Rhagorol.*

‖ *Deonglwr.* Yna ebr *Deonglwr*, Tyred i mewn; ac mi a ddangoſaf yr hyn a fydd buddiol itti. A chwedi erchi iw wâs ennyn canwyll, ſo a barodd i *Griſtion* i'ddilyn ef; felly fo'i harwainodd ef i yſtafell ddirgel: Ac yn ôl gorchymyn ei Feiſtr, ſe agorodd y gwâs rhyw ddrws, ac yna, ſe welai *Griſtion* lûn Gwr ſobr iawn, wedi ei oſod i fynu wrth y pared, a dyma oedd ei wedd ef. *Yr oedd ei lygaid ef gwedi eu derchafu tua 'r Nefoedd, yr oedd y llyſr goreu yn ei law ef, a chyfraith gwirionedd yn ſcrifennedig ar ei wefuſau ef, a'r byd o'r tu cefn iddo; yr oedd efe yn ſefyll, fal ped fuaſai ſo yn* * *dadleu â dynion, ac yr oedd Coron o aur ynghrôg vwch ei ben ef.* ‖ *Vn yn egluro pethau tywyll.* * *Pledio.*

Criſ. *Yna ebe* Griſtion, *beth yw yſtyr y peth hyn?*

Deong. Y mae 'r † Gwr, a ddodir allan trwy 'r llûn hwn, yn vn o fîl: Efe a ddichon genhedlu plant, ac eſcor arnynt, a'u ‖ meithrin hefyd, pan y genir hwynt. 1 *Cor.* 4. 15. *Gal.* 4. 19. 1 *Pet.* 2. 2. A lle y gwelaiſt ti ef â'i lygaid gwedi eu derchafu tua 'r Nef, a'r † *Sef, Pregethwr yr efengyl.* ‖ *Magu.*

a'r llyfr gorcu yn ei law, a chyfraith gwirionedd yn ſcrifennedig ar ei wefuſau; y mae hynny yn dangos itti, * taw ei waith ef ydyw gwybod a datcuddio pethau tywyll i Bechaduriaid, mal y gwelaiſt ti ef yn ſefyll, fal ped fuaſai yn ‖ dadleu â Dynion: A lle y gwelaiſti y byd fal peth wedi ei daflu o'r tu cefn iddo, a bod coron yn † hongian vwch ei ben ef; y mae hynny yn dangos itti, fod ei ddibriſdod a'i ddirmyg ef o'r pethau preſennol, o gariad at waſanaeth ei feiſtr, yn ei ſiccrhau ef, y caiſfe ogoniant tragwyddol yn obrwy, yn y byd a ddaw 1 *Pet.* 5. 4. Yn awr ebr Dconglwr, myfi a ddangoſais i ti y llûn hwn yn gyntaf; O herwydd y gwr, a oſodir allan trwy 'r drych hwn, ydyw yr vnic Ddyn, a awdurdodwyd gan Arglwydd y lle, yr wyt ti yn myned tuag atto, ith arwain di trwy bob man dyrys a gyfarfyddi di yn dy ſiwrnai: Ac am hynny craffa * yn ddwys ar yr hyn y ddangoſais itti, a chofia yn fanol y pethau a welaiſti, rhag i ti gyfarfod yn dy daith, â rhai a gymmero arnynt dy arwain di yn y iawn ffordd, er bod eu ffordd hwy † yn tywys i farwolaeth.

Yna efe a ymaflodd yn ei law ef, ac a'i harwainodd ef, i yſtafell helaeth

iawn,

* *Mai.*

‖ *Pledio.*

† *Crogi.*

* *Yn ſawr*

† *Yn arwain i ddamnedigaeth.*

iawn, yr hon oedd yn llawn o lwch, am nad yſcybaſid hi erioed; a chwedi edrych arni ennyd fechan, fe alwodd y ‖ *Lladmerydd* am wr i hyſgubo hi: A phan ddechreuodd efe ddaſgub, fe gododd cymmaint o lwch o amgylch, ac y bu *Criſtion* agos a thagu gantho. Yna ebr *Deonglwr* wrth * langces oedd yn ſefyll ger llaw, Dwg yma ddwr, † a thanella ef ar hyd y ſtafell; a phan y gwnaeth hi hynny, fe yſgubwyd ac a lanhawyd y lle yn ddiſyrr.

‖ *Deonglwr.*

* *Morwyn*

† *Bwrw.*

Criſ. *Beth yw meddwl hyn ebe* Criſtion *?*

Deong. A'r Lladmerydd a attebodd, yr yſtafell hon yw calon dyn, heb ei glanhau erioed gan râs hyfryd yr Efengyl; y llwch yw ei bechod gwreiddiol ef a'i lygredigaethau oddi-fewn, yr hai a halogaſant yr holl Ddyn: A'r hwn a ddechreuodd yſgubo ar y cyntaf yw 'r *Gyfraith*: Eithr yr hon a ddygodd ddwr, ac a'i tanellodd ef ar hyd y ſtafell yw'r *Efengyl*: Yn awr lle y gwelaiſti y llwch yn ehedeg felly o bobparth yn y man ac y dechreuodd y cyntaf yſgubo, fal nad allai efe lanhau yr yſtafell, ond ei fod ef ym mron dy dagu di: Y mae hyn yn dangos i ti,

ti, * fod y *Gyfraith*, trwy ei gweithrediad, (ſef *trwy ei gwaith hi 'n gorchymyn, yn gwahardd, yn bygwth,*) yn lle puro 'r Galon oddiwrth bechod, yn rhoddi achlyſur neu achos iddo i ymadfywio, i gaſglu grym, ac i gynyddu yn yr enaid, ie, y pryd hynny, pan y bo hi yn datguddio ac yn gwahardd pechod, canys nid ydyw hi yn rhoddi gallu i ddaroſtwng ef. *Rhuf.* 7. 8, 12. *&c.* 1 *Cor.* 15. 56. *Rhuf.* 5. 20.

* *Trwy ein gwyllt-ineb a'n tueddiad i bechu, yr ym ni yn cymmeryd achlyſſur i wneuthur drwg ſwy ſwy, pan y bo'r Gyfraith yn ceiſio 'n ffrwyno a'n hattal ni rhagddo: Ac am hynny pan y bŵn yn pechu, ni ddylaem ſtio ein hunain, ac nid y Ddeddf, canys y mae hi yn ſanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda.*

A Thracheſn, megis ac y gwelaiſti y Forwyn yn tanellu Dwr ar hyd y ſtafell. trwy yr hyn y glanhawyd hi yn ddifyr; y mae hynny yn dangos i ti, mai pan ddelo 'r *Efengyl* ir galon yn ei gweithrediadau hyfryd a rhagorol, yna meddafi, megis ac y gwelaiſti y llangces yn goſtwng y dwſt, trwy danelliad y Dwfr ar hyd y llawr; felly hefyd y gorchfygir, ac y daroſtyngir pechod. ac y glanheir yr enaid trwy ffydd yn yr *Efengyl*, ac fal hyn fe a wneir y Galon yn gymmwys, i Frenin y Gogoniant i breſwylio ynthi. *Joan.* 15. 3. *Eph.* 5. 26. *Act.* 15. 9.

† *Hyfryd.*

Yna

Yna mi a welais y *Deonglwr* yn arwain *Criſtion* erbyn ei law i yſtafell ſechan, lle yr oedd dau o Feibion ievangc, yn eiſtedd bob vn yn ei gadair, Enw yr hynaf oedd * *Cynnwrf*, Ac Enw 'r llall oedd † *Ammynedd*. Mi a dybygſwn fod *Cynnwrf* yn llawn o anfodlonrwydd, ond yr oedd *Ammynedd* yn llonydd iawn. Yna y goſynnodd *Criſtion*, Pa ham yr oedd *Cynnwrf* mor anfodlon? A'r *Deonglwr* a'i attebodd ef, y mynnai eu *Llywodraethwr* hwy iddynt aros, am ei bethau goreu ef, hyd ddechreuad y flwyddyn neſſaf; ond ſe fyn *Cynnwrf* gael y cwbl yr awron, eithr y mae *Ammynedd* yn foddlon i ddiſgwyl hyd yr amſer nodedig.

* *Cythryfwl, aneſmwythder yn y meddwl.*
† *Dioddefgarwch.*

Yna mi a welwn vn yn dyfod at *Cynnwrf*, ac yn dwyn iddo dryſſor mewn cŵd, ac yn bwrw ei ſach i lawr wrth ei draed ef: Yntef a'i cyfododd hi i fynu, ac a orfoleddodd ynthi: Ac heblaw hynny ſo a chwarddodd yn watwarus am ben *Ammynedd*: Ond ar ól gronyn o amſer, mi a welwn ei fod ef gwedi afradloni 'r cwbl, ac nad oedd gantho ddim wedi ei adel onid brattiau.

Criſ. *Ardolwyn ebe* Criſtion *wrth y* Lladmerydd, † *eſponiwch i mi y matter yma yn eglurach.*

† *Agorwch*

Deong.

Deong. Arwyddion yw y ddau lange hyn ebr *Deonglwr*: *Cynnwrf* sy'n arwyddoccau Dynion y Byd hwn, ac *Ammynedd* sy'n arwyddoccau Dynion y Byd a ddaw: Canys * meis y gweli di yma, fe fynn *Cynnwrf* gael y cwbl † yr-wan, fef, y flwyddyn hon, hynny yw yn y Byd presennol: Felly y mae awydd Gwyr y Byd hwn i gael ei holl bethau da yn awr: Nis gallant hwy aros yn esmwyth hyd y flwyddyn nessaf (hynny yw hyd y Byd a ddaw) am eu cyfran o bethau daionus. Y mae'r *Ddihareb* honno, *Gwell Aderyn yn llaw nâ Dau yn y Coed*, â mwy o bwys ynthi gydag hwynthwy, nâ 'r holl dystiolaethau † dwyfol ynghylch Daioni y Byd a fydd. Eithr megis ac y gwelaisti *Gynnwrf* yn * gwario 'r cwbl ymaith yn ebrwydd, ac nad oedd dim o fewn ychydig o amser wedi adel iddo onid brattiau, felly y bydd hi gyda phawb o'r cyfryw ddynion yn-niwedd y byd hwn.

* *Megis.*

† *Yr awron.*

† *Oddiwrth Duw*

* *Treulio.*

† *Deall.*

Cris. *Rwi 'n † dirnad yn awr ebe* Cristion, *mai* Ammynedd *sydd à'r Doethineb mwyaf*; Yn Gyntaf, *o herwydd ei fod ef yn foddlon i aros am y pethau goreu i meddiannu nhwy yn y Byd y ddaw, er ei fod ef etto hebddynt: Yn Ail, oblegit y caiff e fwynhau*

ei

ei gyfran gogoneddus, pan na bo dim gan y llall ond brattiau.

Deong. Nage, chwi a ellwch angwanegu rheſwm arall, ſef, *o herwydd bod Gogoniant y byd a ddaw yn parhau dros fyth*; ond y mae pethau 'r byd hwn yn myned * i bant yn ddiſymwth. *Dihar.* 23. 5. Ac am hynny nid oedd gan *Gynnwrf* gymmaint o achos i chwerthin am ben *Ammynedd*, ac a fydd gan *Ammynedd* i chwerthin am ben *Gynnwrf*, er i *Gynnwrf* gael eu bethau da *yn gyntaf*, ac na chafodd *Ammynedd* mo honynt hwy ond *yn ddiweddaf*; canys rhaid i *Gyntaf* roddi lle i *Ddiweddaf*, oblegid rhaid i *Ddiweddaf* gael yr amſer a ddaw: Ond nid yw *Diweddaf* yn rhoddi lle i ddim, arall, canys nid oes Peth arall i ddyfod yn ei le ef. Rhaid gan hynny, ir hwn a gaiff ei ran yn gyntaf, gael amſer hefyd iw threulio hi; ond rhaid ir hwn a gaiff ei gyfran yn ddiweddaf ei chael hi dros fyth; ac am hynny y dywedir am *Ddifes*, *Ti a dderbyniaiſt dy Wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei Adfyd*; *ac yn awr y diddenir ef ac y poenir ditheu*, Luc. 16. 25.

* *Ymaith.*

Criſ. *Mi a welaf yn awr ebe* Criſtion, † *taw gwell yw diſgwyl am y pethau ſydd i ddyfod, nâ thrachwantu yn ôl y pethau preſennol.* Deong.

† *Mai.*

Deong. Chwi a ddywedaſoch y gwir, *Canys y pethau a welir ſy tros amſer, ond y pethau ni welir ſy dragwyddol,* 2 Cor. 4. 18. Eithr er bod y matter felly, etto gan fod y pethau preſennol a'n * Blŷs cnawdol ni yn Gymmydogion agos † iw gilydd ; a thrachefn, oblegit bod y pethau i ddyfod a'n ‖ Synhwyrau cnawdol ni yn Ddieithriaid iw gilydd, hynny yw y rheſwm, pa ham y mae y cyntaf o'r rhain yn dyfod mor ebrwydd i ymgyſeillachu a'i gilydd yn garedig, a bod yr ail yn aros mor bellennig, y naill oddiwrth y llall.

* *Trachwant.*
† *Y naill ir llall.*
‖ *Y ſynhwyrau yw y Gallueedd y ſydd ynom, i Weled, i Glywed, i Arogli, i Flaſu, ac i Deimlo.*

Ob ! mor echryſlon gan hynny yw y rhêg honno, pan y bo Dyn yn dywedyd, colli ſy mhum ſynwyr a wnelo i.

Yna mi a welais y *Lladmerydd* yn ymaflyd yn llaw *Criſtion*, ac yn ei arwain ef i Fan, lle yr oedd tân wedi gynneu wrth fagwyr, ac vn yn ſefyll wrtho, yn bwrw llawer o ddwr arno yn waſtadol iw ddiffodd ef, etto yr oedd y tân yn fflammio yn vwch ac yn boethach.

Criſ. *Beth ſydd i ni ddeall wrth hyn ebe* Criſtion ?

A'r *Deonglwr* a attebodd, *y Tân hwn yw Grâs* Duw wedi ei weithio yn y galon, a'r hwn ſy'n bwrw Dwr arno

iw

iw ddiffodd ef, yw 'r *Diafol*: Ond lle y gwelaiſti y tân yn lloſci yn vwch ac yn boethach er bwrw 'r dwfr arno, tydi a gai weled hefyd yr achos o hynny: Ac felly fo 'i harwainodd ef oddiamgylch, i yſtlys arall y ſagwyr, ac eſe a welai yno wr, â lleſtr yn ei law, o'r hwn yr oedd eſe yn tywallt allan olew yn ddibaid (etto yn ddirgel) ir tân. Yna ebe *Criſtion, pa beth yw yſtyr y pethau yma.* Hwn yw *Criſt* ebr *Deonglwr*, y ſydd yn waſtadol, ag olew ei ras, yn cynnal y gwaith da y ddechreuodd eſe eiſus ynghalonau ei bobl; ac am hynny, er a allo 'r Diawl ei wneuthur, y mae eu heneidiau hwynt yn parhau yn raſol fyth, 2 *Cor.* 12. 9. *Phil.* 1. 6. Ac lle y gwelaiſti y Gwr yn ſefyll o'r * tu hwnt ir wal, i † faintumio y tân, y mae hynny yn dangos itti, mai peth anhawdd ydyw, ir temptiedig i weled, pa fodd yr ydys yn cynnal y grâs yma yn eu heneidiau.

* *Tu ôl ir ſagwyr.*

† *I gadw 'r tan rhag diffodd.*

Myfi a ganfum hefyd y *Deonglwr* yn cymmeryd *Criſtion* drachefn wrth ei law, ac yn ei † dywys ef i Fann hyfryd, lle yr adailadwyd ‖ Llŷs gwych, a phrydferth ir golwg: Ac wrth edrych ar y Neuadd-dy hwn, fe a ymlawenychodd *Criſtion* yn ddirfawr; ac eſe a welodd hefyd rai yn rhodio ar

† *Arwain.*

‖ *Plâs.*

* nenn

* *Penn.* * nenn y Tŷ, wedi eu dilladu oll â brethyn aur. Yna ebe *Cristion*, a allwn ni syned i mewn ir Tŷ hwn. Eithr y † *Lladmerydd* a'i cymmerodd ef, ac a'i harwainodd ef i fynu tua drws y || Palas. Ac wele yr oedd lliaws mawr o bobl, yn sefyll wrth y drws, megis rhai yn chwennychu myned i mewn, ond nis meiddient. Ac yr oedd Gwr hefyd yn eistedd yno, yn lled-agos ir drws, wrth * Ford, a llyfr a chorn dû srifennydd o'i flaen ef, i yscrifennu i lawr Enwau y sawl a aent i mewn ir llŷs. Ac efe a welai hefyd lawer o Wyr arfog, yn sefyll ar y ffordd oedd yn arwain ir Drws, iw chadw hi, wedi ymroi i wneuthur cymmaint o adwyth ac eniweid ac allent ir Dynion a fynnent fyned i mewn, *Act.* 14. 22. 2 *Tim.* 3. 12. A * synnu a wnaeth *Cristion* ar hyn. O'r diwedd, pan yr oed pawb yn cilio 'n ôl rhag ofn y *G*wyr arfog, fe welai *Cristion* ŵr ag wynebpryd † glew gantho, yn dysod i fynu at yr hwn oedd yn eistedd yno i yscrifennu, gan ddywedyd wrtho, *Syr, Dodwch i lawr fy Enw i*, a phan y gwnaeth efe hynny, fo welai 'r Gwr yn tynnu ei gleddyf, ac yn gosod helm ar ei ben, ac yn rhuthro tua'r Drws ar draws y Gwyr arfog, y rhai a ymosodasant yn ei

† *Un yn egluro pethau tywyll.*

|| *Ty brenhinol.*

* *Bwrdd.*

* *Rhyseddu.*

† *Gwrol.*

Eph. 6. 17. 1 *Thess.* 5. 3.

Ar wartha.

ei erbyn ef yn gynddeiriog ag arfau angheuol: eithr nid allent hwy ei ddigalonni ef mewn môdd yn y byd, ac am hynny fo ymladdodd â nhwy yn ffyrnig: ac felly wedi cael ei glwyfo ganthynt, a rhoddi amryw archollion iddyut, ſêf ir ſawl oedd yn ceiſio i gadw ef allan, fo a wnaeth ei ffordd trwyddynt hwy oll, ac a ymwthiodd ym-mlaen ir llŷs: Ac ar hynny y clybuwyd llais hyfryd y rhai oedd yn y Palas, ſef y ſ wl oedd yn rhodio ar nenn y Tŷ, yn dywedyd,

* *Dere, Dere, i mewn yn wrol,*
Ti ynnilli † fraint tragwyddol.

* *Tyred.*
† *Gogoinant.*

Felly efe a aeth i mewn, ac fe gwiſcwyd ef yno, âr vn-rhyw Ddillad a hwyntau: yna y gwenodd *Criſtion*, ac a ddywedodd; yn ddiau mi dybygwn, y gwn i beth yw yſtyr a meddwl hyn i gyd.

Y mae 'r Drygionus yn gwrthwynebu y ſawl ſy'n ſwrneio tua'r nefoedd, trwy eu gorthrymmu hwynt â cholledigaethau; a phan nas gallant wneuthur felly, y maent yn eu ſathru hwynt dan draed â'u geiriau caledion, gan flaenllymu eu tafodau, a dodi awch arnynt megis ar gleddyfau a ſaethau, i ddrygu 'r gwirion, Pſal. 140. 3. Pſal. 64. 34. *Eithr y mae 'r rhai graſſol yn amddiffyn eu hunain, â chleddyf yr Yſpryd, ſef â Gair Duw, gan lyſpyſſu ir annuwiol, nad ydynt yn ceiſio ond gwaſanaethu Duw yn ôl ei ewyllys: a thrwy ei gwaith hwy yn cerydda yr*

annuwiol

annuwiol am eu pechodau, ac yn enwedig am eu caſineb o'r hyn ſydd dda: y mae 'r Diwiol trwy hyny, a chleddyf yr Yſpryd yn ymladd â'r annuwiol, ac ydynt yn clwyfo eu calonnau hwynt: Eithr er cymmaint y maent hwy yn herlid y rhai graſſol, ac er cymmaint yw gwatwor, a geiriau caledion y drygionus am y rhai ſy'n ofni Duw, y mae 'r Diwiol, er hynny i gyd, yn myned ym-mlaen, ac yn ymwthio ir Neſoedd ar y diwedd, Mat. 11. 12. *Ond na thybyged pobl eu bod hwy 'n dioddef er mwyn duwioldeb, os dioddef y maent fal drwg-weithred-wyr: ac edrychent hwythau heſyd y ſydd yn herlid rhai creſyddol, pa un a'i am eu daioni, a'i am eu drygioni y maent yn gwneuthur felly,* 1 Pet. 4. 15, 16. *Ac os am eu daioni, darllenant,* Phil. 1. 28.

Yn awr ebe *Criſtion*, gadewch i mi fyned oddi-ymma: Nage ebe Deonglwr, Aros hyd oni ddangoſwyf i ti ychydig † ragor, a * chwedyn di a gai fyned ith ffordd: Felly ſo ymaflodd yn ei law ef drachefn, ac a'i harwainodd ef i yſtafell dywyll iawn, lle yr oedd Gwr yn eiſtedd mewn ‖ cyffion o haiarn, wedi ei gau i fynu megis Aderyn mewn † cawell.

† *Yn ychwaneg.*

* *Ar ôl hynny.*

‖ *Stocks.*

† *Cage.*

Yn awr fe ellit tybied wrth edrych ar y Gwr, ei fod ef yn athriſt iawn: canys yr oedd eſe yn eiſtedd â'i olygon tua 'r Ddaiar, a'i ddwylo gwedi eu plethu ynghyd: ac yr oedd eſe yn ocheneidio, fal pettaiſai ef ar dorri ei galon. Yna ebe *Criſtion*, pa beth ſydd i mi ddeall wrth hyn? Ar hynny fe erchodd y * *Lladmerydd* iddo ymddiddan â'r Gwr.

* *Y Deonglwr, yr eſponiwr.*

Criſ.

Criſ. Yna ebe *Criſtion* wrth y Dyn, Pwy 'n wyti? yntef a'i hattebodd ef, yr wyfi yr hyn nid oeddwn i cynt.

Criſ. *Pa beth a fuoſti cynt?*

Gwr. Dywedodd y Gwr wrtho, mi a fum * tros drô yn Broſeſſor têg blodeuog, yn fy ngolwg fy hunan, ac yngolwg eraill hefyd. Mi a dybygſwn vnwaith, fy mod i yn y ffordd ir Ddinas nefol: ac yr oedd yn llawen gennif y pryd hynny, pan feddyliwn yr awn i yno. * *Tros amſer.*

Criſ. *Eithr pa beth wyt ti yn awr?*

Gwr. Yr wyfi yn awr yn Ddyn y ſydd yn llawn *o Anobaith*, ac ſo 'm cauwyd i yntho, megis yn y cyffion haiarn ymma; nis gallafi † ddwad i maes o honaw mewn môdd yn y byd. † *Ddyfod allan.*

Criſ. *Eithr pa fodd y daethoſti ir cyflwr hwn?*

Gwr. Peido a wneuthum i a gwilio a bod yn ſobr: Myfi a adawais garreion y ffrwyn i gwympo ar wddf fy nhrychwantau. Mi a droſſeddais yn erbyn goleuni y Gair, a Daioni Duw: Myfi a driſtéais yr Yſpryd glân, ac fe a ymadawodd â'm fi. Mi a demptiais y Diawl, ac fe a ddaeth attaf: Myfi a gyffroais Dduw i ddigofaint, ac ſo 'm gadawodd i; a chaledais fy nghalon yn y fath fodd, fal nas gallaf edifarhau.

annuwiol am ei pechodau, ac yn erwedig am eu cariad o'r byn ſydd dda: y mae 'r Duwiol trwy hyny, a chleddyf yr Yſpryd yn ymlodd â'r annuwiol, ac ydynt yn dwyſo eu calonnau bwynt: Eithr er cymmaint y maent bwy yn herlid y rhai graſſol, ac er cymmaint yw gwatwor, a geiriau caledion y drygionus am y rhai ſy'n ofni Duw, y mae 'r Duwiol, er hynny i gyd, yn myned ym-mlaen, ac yn ymwthio i'r Neſoedd at y diwedd, Mat. 11. 12. *Ond na thybyged pobl eu bod bwy 'n dioddef er mwyn duwioldeb, os dioddef y maent fal drwg-weithred-wyr: ac edrychent bwythau beſyd y ſydd yn herlid rhai creſyddol, pa un a'i am eu daioni, a'i am eu drygioni y maent yn gwneuthur ſelly,* 1 Pet. 4. 15, 16. *Ac os am eu daioni, darllenant,* Phil. 1. 28.

Yn awr ebe *Criſtion*, gadewch i mi fyned oddi-ymma: Nage ebe Deonglwr, Aros hyd oni ddangoſwyf i ti ychydig † ragor, a * chwedyn di a gai fyned ith ffordd: Felly fo ymaflodd yn ei law ef drachefn, ac a'i harwainodd ef i yſtafell dywyll iawn, lle yr oedd Gwr yn eiſtedd mewn ‖ cyffion o haiarn, wedi ei gau i fynu megis Aderyn mewn † cawell.

† *Yn ychwaneg.*
* *Ar ôl hynny.*
‖ *Stocks.*
† *Cage.*

Yn awr fe ellit tybied wrth edrych ar y Gwr, ei fod ef yn athriſt iawn: canys yr oedd eſe yn eiſtedd à'i olygon tua 'r Ddaiar, a'i ddwylo gwedi eu plethu ynghyd: ac yr oedd eſe yn ocheneidio, fal pettaiſai ef ar dorri ei galon. Yna ebe *Criſtion*, pa beth ſydd i mi ddeall wrth hyn? Ar hynny fe erchodd y * *Lladmerydd* iddo ymddiddan à'r Gwr.

**Y Deonglwr, yr eſponiwr.*

Criſ.

Criſ. Yna ebe *Criſtion* wrth y Dyn, Pwy 'n wyti? yntef a'i hattebodd ef, yr wyfi yr hyn nid oeddwn i cynt.

Criſ. *Pa beth a fuoſti cynt?*

Gwr. Dywedodd y Gwr wrtho, mi a fum * tros drô yn Brofeſſor tèg blodeuog, yn fy ngolwg fy hunan, ac yngolwg eraill hefyd. Mi a dybygſwn vnwaith, fy mod i yn y ffordd ir Ddinas nefol: ac yr oedd yn llawen gennif y pryd hynny, pan feddyliwn yr awn i yno.

* *Tros amſer.*

Criſ. *Eithr pa beth wyt ti yn awr?*

Gwr. Yr wyfi yn awr yn Ddyn y ſydd yn llawn *o Anobaith*, ac fo 'm cauwyd i yntho, megis yn y cyffion haiarn ymma; nis gallafi † ddwad i maes o honaw mewn môdd yn y byd.

† *Ddyfod allan.*

Criſ. *Eithr pa fodd y daethoſti ir cyflwr hwn?*

Gwr. Peido a wneuthum i a gwilio a bod yn ſobr: Myfi a adawais garreion y ffrwyn i gwympo ar wddf fy nhrychwantau. Mi a droſſeddais yn erbyn goleuni y Gair, a Daioni Duw: Myfi a driſtéais yr Yſpryd glân, ac fe a ymadawodd â'm fi. Mi a demptiais y Diawl, ac fe a ddaeth attaf: Myfi a gyffroais Dduw i ddigofaint, ac fo 'm gadawodd i; a chaledais fy nghalon yn y fath fodd, fal nas gallaf edifarhau.

Yna ebe Criſtion wrth y Lladmerydd, A oes dim gobaith ir fath Ddyn a hwn? Gofyn iddo ſe ebr Deonglwr.

Criſ. *Yna ebe* Criſtion *wrtho ef, a oes dim gobaith? A gedwir di dros fyth yn y cawell haiarnaidd hwn o Anobaith?*

Gwr. Nid oes genni obaith yn y byd.

Criſ. *Y mae mâb yr hwn ſy fendigedig yn dra thoſturiol.*

Gwr. Myfi a'i hail-groeſ-hoeliais ef i mi fy hun; Mi a ddirmygais ei berſon ef, ac a ddibriſſiais ei gyfiawnder ef, ac y fernais ei waed ef yn aflan, ac a ddifenwais yſpryd y gràs; ac am hynny nid oes vn o'r addewidion ynghylch trugaredd yn perthynu i'm fi; ac nid oes dim wedi ei adael i mi yn awr ond y bygylau, ſef y bygwthion echrydus ac ofnadwy, ynghylch coſpedigaeth * ſertennol ac † angerdd tân, yr hwn a'm difa i megis Gwrthwynebwr. *Heb.* 6. 6. *Luc.* 19. 14, 27. *Heb.* 10. 28. 29.

* *Dïys.*
† *Gwrês.*

Criſ. *Am ba bethau y dygaſochi eich hunan ir cyſtwr hwn?*

Gwr. Am drachwantau, a meluſwedd, a golud y byd hwn; ac myfi a addewais y pryd hynny i'm hunan, lawer o hyfrydwch, trwy eu mwynhau hwynt: Ond yn awr, y mae pob yr vn o ho-

o honynt yn fy nghnoi ac yn fy * nifa i, megis prŷf poeth gwenwynllyd. * *Yſſu.*

Criſ. *Eithr oni elli di yn awr edifarhau a dychwelyd?*

Gwr. † Duw a neccaodd ac a ballodd edifeirwch im fi: Nid yw ei air ef yn rhoddi dim annogaeth i mi i gredu; ie fo'm cauodd i â'i law ei hun yn y cawell haiarnaidd hwn: Ac ni ddichon holl Ddynion y byd fy-ngollwng i allan oddi ymma. O *Tragwyddoldeb*! *Tragwyddoldeb*! Pa fodd y dioddefaf y trueni, a orfydd arnafi fyned tano, pan y delwyf ith Fôr annherfynol di. † *Nid wyſi yn deall wrth y ſcrythyrau, y dylai vn dyn anobeithio yn y môdd hyn am drugaredd; oddieithr ei fod ef gwedi pechu yn erbyn yr yſpryd glân; am yr hwn y crybwyllais i o'r blaen yn y llyfr hwn: A'r pechod hwnnw y dybygwn i yr ydys yma yn ei feddwl. Gwir ydyw, oni bydd ediſeirwch, a ffydd, a ſanctteiddrwydd buchedd ynom, ni elwn gaſglu oddiwrth hynny, ein bod ni yn breſennol heb Griſt; a thrwy ganlyniaeth ein bod ni mewn ſtât o golledigaeth. Eithr er gwneuthur o honom lawer yn erbyn Duw, cyn, a chwedi 'n galw, etto ni gawn ſaddeuant am y cwbl, os dewn ni at Dduw yn ei ffordd ei hun, hynny yw, trwy ffydd yn Griſt, â chalon ediſeiriol am ein pechodau, ac a gwir bwrpas i droi oddiwrthynt yr amſer ſydd i ddyfod*, Act. 13. 38. Act. 3. 19. Eſay 55. 7.

Deong. *Yna ebr* Deonglwr *wrth* Griſtion, *coſta* * *reſyndod y Dyn hwn, a bydded hyn yn rhybydd i ti dros fyth.* * *Trueni.*

Criſ. Wele ebe *Griſtion*, y mae hyn yn ofnadwy; Duw a'm cynnorthwyo i, i wilio a bod yn ſobr, ac i weddio mal y gallwyf ochelyd yr achos o † ddrychineb † *Trueni.*

chineb y Dyn hwn. Syr, onid yw hi 'n bryd i mi fyned i'm ffordd bellach?

Deong. *Aros hyd oni ddangoſwyf i ti vn peth ychwaneg, a * chwedyn di a gai fyned ith ffordd.*

* *Gwedi hynny.*

Felly ſo ymaflodd yn llaw *Criſtion* drachefn, ac a'i harwainodd ef i ſtafell, lle yr oedd vn yn cyſodi o'i wely; ac fal yr oedd efe yn gwiſco ei Ddillad, yr oedd e'n crynu ac yn ofni. Yna eb *Criſtion*, pa ham y mae 'r Dyn ymma yn crynu fal hyn? A'r *Lladmerydd* a barodd iddo fynegi i *Griſtion* yr achos o'i ddychryndod. Yntef ar hynny a adroddodd wrtho freuddwyd, y welſai ſo y noſon honno. Mi a welais eb efe y nefoedd yn duo yn ddirfawr, *Mat.* 24. 29. Bu hefyd * daranau a mellt mor ofnadwy, ac y crynais i gan ofn. A chwedi edrych i fynu, mi a welais y cymylau yn ymrwygo mewn modd anarferol; ac ar hynny myfi a glywais vchel Sain vdcorn, ac a welais ‖ wr hefyd yn eiſtedd ar Gwmmwl, a miloedd neu llû y Nefoedd gyd âg ef; yr oeddent hwy oll megis Tân fflamllyd; yr oedd y Nefoedd hefyd ar Dân poeth; 1 *Theſſ.* 4. 16. *Dan.* 7. 10, 13. *Jud.* 14, 15. 2 *Theſſ.* 1. 7, 8. 2 *Pet.* 3. 10. Yna *mi a glywais lêf yn dywedyd wrth y Meirw, Cyfodwch a dewch*

* *Tryſte a llychad.*

‖ *Criſt.*

ir

ir Farn; A chyda hynny y Creigiau a holltwyd, y Beddau a agorwyd, a'r Meirw a oedd ynthynt a ddaethant allan: yr oedd rhai o honynt yn llawen iawn, ac yn edrych tuag i fynu; ond rhai a geiſiaſant ymguddio dan y Mynyddoedd, *Joan.* 5. 28, 29. *Luc.* 21. 28. *Datc.* 6. 16, 17. Yna mi a welais y Gwr, oedd yn eiſtedd ar y Cwmwl, yn agoryd llyfrau, ac yn erchi ir Byd neſſau. *Mat.* 25. 32. *Dat.* 20. 12, 13. Etto yr oedd, o achos y fflam danllyd oedd yn dyfod oddi ger ei fron eſ, ennyd o lè rhyngtho eſ ag hwynt-hwy, megis rhwng y Barnwr ar y ‖ Frawdle a'r Carcharorion wrth y Barr. Myfi a glywais hefyd gyhoeddi ir ſawl oedd yn canlyn y Gwr oedd yn eiſtedd ar y Cwmwl, *Ceſclwch ynghyd yr Efrau, a'r us, a'r Soſl, a bwriwch hwynt ir llyn Dân*, Mat. 13. 30. Mat. 3. 12. Mal. 4. 2. Ac ar hynny yr ymagorodd y pwll di-waelod, yn gymmwys ynghylch y Fann yr oeddwn i yn ſefyll arno; a daeth llawer o fŵg, ynghyd â marwor tanllyd, a chroch-leiſiau dychrynllyd allan o'i ſafn. A dyweſpwyd hefyd wrth * y gweinidogion, *Ceſclwch fy 'ngwenith i'm yſcubor*, Mat. 13. 30. Ac ar hynny mi a welais gippio llawer i fynu, a'u dwyn ymmaith

‖ *Gorſeddfaingc Barn.*

* *Y gweiſion.*

ir Cymmylau, eithr fe 'm gadawyd i yn ôl, 1 *Theſſ.* 4. 17. Minnau hefyd a ymdrechais i ymguddio, ond nis gallwn i; oblegid bod y Gwr oedd yn eiſtedd ar y Cwmmwl, yn cadw ei olwg arnaf yn waſtadol: Fy mhechodau hefyd a ddaethant im côf, a'm Cydwybod oedd yn fy nghyhuddo i am danynt. *Rhuf.* 2. 15. Ar hyn, Mi a ddeffroais o'm cwſc.

Criſ. *Eithr pa beth a wnaeth i chwi fod mor ofnus, wrth weled y pethau hyn?*

Gwr. Meddwl a wneuthym i, fod Dydd y Farn wedi dyfod, a'm mod innau yn amharod erbyn y Dydd hwnnw: Ond hyn am dychrynodd i fwyaf, ir Angelion gaſclu llawer i ſynu, a'm gadel i yn ôl: Pwll vffern hefyd a agorodd ei ſafn, yn gymmwys yn y Man, lle yr oeddwn i yn ſefyll: Heb law hyn, yr oedd fy nghydwybod yn fy nhrallodi, ac (fal y tybygwn i) yr oedd y *Barnwr* yn cadw ei olwg arnaf yn waſtadol, gan ddangos llidiawgrwydd yn ei wynebpryd. Yna ebr *Deonglwr* wrth *Griſtion*, *A yſtyriaiſt ti y pethau hyn oll? Do ebe* Criſtion, *ac y maent yn peri i mi obeithio ac ofni.*

Deong. Wele, cadw dithau 'r cwbl felly yn dy gôf, fal y gallont fod megis ſymbylau yn dy yſtlyſſau, i'th gym-

mell

mell dî ym-mlaen yn y ffordd y ſydd raid i ti fyned ar hyd-ddi. Yna y dechreuodd *Criſtion* wregyſſu ei lwynau, ac ymbarottoi i gychwyn. Yna ebr *Deonglwr*; Criſtion anwyl! Y Diddanydd a fyddo gyda thi bob amſer, ith gyſarwyddo di yn y ffordd ſy 'n arwain ir Ddinas nefol. Felly *Criſtion* a aeth rhagddo ar hyd ei ffordd dan ganu:

Yma y gwelais bethau buddiol,
Pethau ymheuthyn a rhyfeddol,
Pethau hyfryd ac ofnadwy,
Pethau i'm gwneuthur yn ſafadwy.
Glynu a wnelwyf † bôb mynydyn, † *Bobrhan o'r amſer.*
Yn y pethau 'ymaflais ynthyn:
Rhaid imgofio, ac yſtyried,
'Herwydd pam y ces eu gweled.
A bid immi byth (dan ammod
Yra fo ynof Rym na chwythod)
Roddi Diolch i tithau beunydd,
Am dy gariad, fy Lladmerydd.

Yn awr mi a welais, fod y brif-ffordd, ar yr hon, yr oedd yn rhaid i *Griſtion* fyned ar hyd-ddi, wedi ei chau o'r ddau tu â Magwyr, ac enw'r * Mûr oedd iechydwriaeth, *Eſay* 26. 1. *Criſtion* gan hynny a redodd i fynu ar hyd y ffordd hon, ond nid heb anhawſdra mawr, o achos y Baich oedd ar ei gefn ef. * *Wal.*

Efe a redodd hyd oni ddaeth e i Lê

oedd * yn eſcyn ychydig, ac yr oedd *Croes* yn ſefyll ar y Mann hwnnw ; ac ychydig bach îs law hynny, yn y gorwared yr oedd Bèdd. Yna mi a welais, † wedi i Griſtion ddyfod i fynu at y Groes, fod ei faich ef wedi ei ollwng oddiar ei yſcwyddau ef ; ac ar hynny fo a ſyrthiodd oddiar ei Gefn ef, ac a ddechreuodd dreiglo, ac a barháodd yn gwneuthur felly, hyd oni ddaeth ef i enau y Bèdd, lle y ſyrthiodd ef i mewn iddo, ac ni welais i mo hono mwyach.

Yna y llawenychodd *Criſtion*, ac efe a lefarodd à chalon gomfforddus gan ddywedyd, *Trwy ei ofyd ei hun a'i farwolaeth, y rhoddodd efe eſmwythdra a bywyd i mi.* Yna efe a ſafodd ennyd yn llonydd, gan edrych a rhyfeddu ; canys yr oedd yn dra rhyfedd gantho, i olwg ar y Groes ei eſmwythau ef o'i Faich fal hyn. Am hynny efe a edrychodd, ac a edrychodd drachefn, hyd oni tharddodd Dyfroedd allan o ffynhonnau ei Ben ef, i * ward ar hyd ei ryddiau ef, *Zach.* 12. 10. Yn awr fal yr oedd efe yn edrych ac yn wylo, wele Dri o rai diſclair gogoneddus yn dyfod atto, ac yn cyfarch gwell iddo, gan ddywedyd, || *Tangneddyf i ti* ; A dywedodd y cyntaf wrtho o *Griſtion* ! *Maddeu-*

* *Yn myned i fynu.*

† *Trwy Griſt croeſhoeliedig, y mae rhyddhadiw gael oddiwrth bechod ; ac yn ei Fèdd ef, y mae anwireddau ei hobl ef wedi eu claddu.*

* *Ward.*

|| *Heddwch.*

Maddeuwyd i ti dy bechodau, Mat. 9. 2.
A'r Ail *a* † *ddioſcodd ei Frattiau* oddi- † *Ddihat-*
am dano, ac a'i gwiſcodd ef a Dillad *rodd.*
newydd, *Zach.* 3. 4. A'r Trydydd *a*
oſododd nôd ar ei dalcen ef, ac a ro-
ddodd blyg-lyfr iddo, a ſêl arno; ac a
archodd iddo edrych ar hwnnw wrth
ymdeithio, a'i roddi ef i mewn ym
mhorth y Ddinas nefol, *Eph.* 1. 13.
Ac ar ôl hynny hwy a * aethant i bant, * *Aethant*
a *Chriſtion* a † lammodd dair gwaith o *ymaith.*
lawenydd, ac a aeth || rhagddo dan † *Neidi-*
ganu, *odd.*
Mi ddaethum hyd yn hyn mewn goſyd, || *Yn*
Dan ddirfawr Faich ſy mhechod enbyd; *mlaen.*
Yn llwythog iawn, heb allu canfod,
Dim a allai laeſu 'nhrallod.
Daethum ymma dan ofydio;
'Nawr 'rwi 'n cael fy llwyr gyſſuro:
A raid ir lle bendigaid ymma,
Ddechrau fy hapuſrwydd mwya?
A'i ymma ſyrth fy maich aſlawen,
Yn rhydd, yn rhwydd, oddiar fy nghefen?
A'i ymma torrir y rheffynnau.
A rwymodd hwnnw ar fy 'ſcwyddau?
Bendigaid Groes, a Beddrodd † buddiol! † *Lleſol.*
Yn hytrach tra bendigaid bythol,
A ſo 'r Gwr aeth yn ei vn-ſwydd,
Er fy mwyn, i oddef gwradwydd.
Yna mi a welais *Criſtion* yn myned * *Yn*
* rhagddo, hyd oni ddaeth efe i or- *mlaen.*

wared, lle y gwelodd e, ychydig allan o'r ffordd, dri o wyr yn cyſcu 'n drwm, a'u Traed â llyffythyriau arnynt; A'u Henwau oedd *Angall*, *Diog*, *a Rhyfyg*.

Criſtion, Wedi ei gweled hwynt yn gorwedd yn † llyn, a aeth attynt, i edrych a allai efe ei ‖ dihuno hwy: Ac a waeddodd gan ddywedyd, yr ydych chwi ymma fal 'rhai yn cyſcu ar ben * hwyl-bren, ac y mae y mòr marw, ſef y pwll di-waelod, oddi tanoch, *Dihar.* 23. 34. Deffrowch gan hynny, a dewch ymmaith: Byddwch ewyllyſgar hefyd, ac myfi a'ch rhyddháf chwi o'ch heirn. Dywedodd hefyd wrthynt, os † yr hwn ſy 'n rhodio oddiamgylch fal Llew rhuadwy, a ddaw heibio, chwi a fyddwch yn ddiammau yn yſclyfaeth iw Ddannedd ef, 1 *Pet.* 5. 8. Ar hynny hwy a edrychaſant arno, ac a'i hattebaſant ef fal hyn: *Angall a ddywedodd wrtho, Ni welaf i ddim perygl*; *Diog a ddywedodd, etto ychydig heppian*: *A Rhyfyg a ddywedodd, Rhaid i bob lleſtr ſefyll ar ei waelod ei hun*; *ac felly hwy a ymweddaſant i lawr i gyſcu dracheſn, a Chriſtion a aeth iw ffordd.*

† Fal hyn.
‖ Deffroi.
** Maſt Hong.*
† Y Diawl.

Etto yr oedd yn flin gantho ef feddwl, i wyr oedd yn y perygl hwnnw, ddibriſio ei garedigrwydd ef, gan iddo gynnig i helpu nhwy mor rhwydd ac mor

mor rhâd, trwy eu deffroi, a'i cynghori, a dangos ei ewyllysgarwch i rhyddhau nhwy o'i heirn: Ac fal yr oedd efe yn ymofydio ynghylch hynny, fo ganfu ddau wr yn dyfod bendramwnwgl dros y † mur, ar y llaw affwy ir ffordd gyfyng; a hwy a ddaethant i fynu atto ef yn ebrwydd: Enw yn o honynt oedd * *Ffurfiol*, ac Enw 'r llall oedd *Rhagrithiwr*: Yntef a ddechreuodd ymddiddan â nhwy fal hyn.

† *Wal.*

* *Yn â ffurf duwioldeb gantho oddi allan, etto heb rym duwioldeb yn ei galon.*

Criſ. *Foneddigion, o bale y daethoch chwi, ac i bale yr ydych yn myned?*

Ffurf, a Rhag. Fe a'n ganwyd ni yn Nhir *Gwag-ogoniant*, a myned yr ydym ni tua mynydd *Sion* am glôd.

Criſ. *Pa ham na ddaethoch chwi i mewn trwy 'r porth, y ſydd ym mhen y ffordd? Oni wyddoch chwi fod hyn yn ſcrifennedig, yr hwn nid yw yn myned i mewn drwy 'r drws, eithr ſydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yſpeiliwr yw.* Joan. 10. 1.

Ffurf. a Rhag, Hwyntau a ddywedaſant, fod ei holl wladwyr hwy yn cyfrif y ffordd ir Porth, yn rhy bell o daetu, ac am hynny eu harfer hwy oedd ei chwttogi hi, a dringo dros y mur, fal y gwnaethant hwythau.

‖ *O amgylch.*

Criſ. *Eithr oni chyfrifi hyn yn gamwedd*, fef, *i rai droſſeddu fal hyn, yn*

erbyn

erbyn ewyllys datcuddiedig Arglwydd y Ddinas, yr ydym ni yn myned tuag atti.

Ffurf, a Rhag. Hwyntau a ddywedasant wrtho; nad oedd raid iddo ef flino ei Ben ynghylch hynny; oblegit fod ganthynt hwy ddefod am y peth yr oeddent yn ei wneuthur, ac y gallent (ped-fyddai raid) ddwyn tyſtiolaeth, a dyſtiolaethai hynny, er ys mwy nâ mîl o flynyddoedd.

Criſ. *Eithr ebe Criſtion, a fydd eich gwaith chwi yn gymmeradwy, os profir ef wrth y Gyfraith?*

Ffurf. a Rhag. Hwythau a ddywedasant wrtho ef, y caiff Defod, gan ei bod yn ſefyll cyhyd, ſef, er ys mwy nâ mîl o flynyddoedd, ei chyfrif yn awr yn ddiammau, yn llc cyfraith, gan Farnwr annhueddol. Ac heblaw hynny, ebe nhwy, os daethom ni ir ffordd, pa fatter ydyw, pa fodd y daethom ni iddi: Os ydym ni ynthi, yr ydym ni ynthi: Nid wyt ti ond yn y ffordd, yr hwn a ddaethoſt, fal y gwyddom ni, trwy'r porth; ac yr ydym ninnau hefyd yn y ffordd, y rhai a ddaethom iddi bendramwnwgl dros y * mûr: Ym-mha beth weithian y mae dy gyflwr di yn well nâ'r eiddom ni?

* *Wal.*

Criſ. *Yr wyfi yn rhodio yn ôl Rheol fy Meiſtr, a chwithau ydych yn rhodio*

yn

yn ôl † eich Tyb gwrthun eich hunain. † *Eich Yr ydychi yn Lladron eiſoes, ynghyfrif Arglwydd y ffordd; am hynny y mae 'n ddiammau gennif, na chair mo honoch yn wyr cywir yn ei diwedd hi,* Joan 10. 1. *Chwi a ddaethoch i mewn yn ôl eich cynghor eich hunain, Heb ei gyſarwyddiad ef; a chwi a gewch eich gyrru allan wrthych eich hunain, heb ei drugaredd ef,* Luc. 13.25, 26, 27. *Phanſi afluniaidd.*

Eithr nid attebaſant hwy nemawr i hyn: yn vnic hwy a erchaſant iddo ef edrych atto ei hun. Yna mi a'u gwelais hwynt yn myned ‖ rhagddynt, bob vn ar hyd ei ffordd, heb ymddiddan ond ychydig iawn ai gilydd; * namyn dywedyd o'r ddau wr ymma wrth *Griſtion*, mai am *Ddeddfau* ac *Ordinhadau*, nad oeddent yn † ammau, nas cadwent y rheini mor gydwybodol ac yntau. Am hynny, ni wyddom ni, ebe nhwy, pa * wahaniaeth ſydd rhyngot ti a ninne, ond bod † y gôt yna am dy gefn di, yr hon a roddwyd i ti (dybygwn ni) gan rai o'th gymmydogion, i guddio gwarth dy noethni.

‖ *Ymmlaen.* * *Oddieithr.* † *Dowto* * *Rhagoriaeth.* † *Y bais.*

Criſ. *Ni achubir mo honoch chwi trwy Ddeddfau ac Ordinhadau,* Gal. 2.16. *Ni dderbynnir neb ir Ddinas Nefol, ond y ſawl ſy'n dyfod ynotrwy 'r Drws,* Joan. 10. 9. Jo. 14.6. Ac am y ‖ gôt yma ſydd am fy

‖ *Siacced.*

ſy nghefn, hi a roddwyd i mi gan Arglwydd y lle yr wyf yn myned iddo; a hynny, fal y dywedaſochi, i guddio fy noethni â hi. Ac yr wyf yn ei chymmeryd hi fal Arwydd o'i garedigrwydd eſtuag attaf, canys nid oedd gennif ddim ond * brattiau o'r blaen: Ac heblaw hynny, yr wyf yn comfforddio fy hunan yn y modd yma wrth ſiwrneio, *Yn ddiau, dybygaf ſi, Pan ddelwyf i Borth y Ddinas, ei Harglwydd hi a'm adnebydd i yn ddigon da, gan fod gennif ei ſiacced ef am danaf*; † *y ſiacced a roddodd efe i mi yn rhâd, yn y dydd y dioſcod efe fy mrattiau odaiam-danaf.* Y mae gennifi hefyd Nód ar fy nhalcen (yr hwn, ond odid, ni ddaljaſochi ſulw arno) a oſodwyd yno gan vn o gyfeillion anwylaf fy Arglwydd, yn y Dydd y ſyrthiodd fy Maich oddiar fy yſgwyddau. Ac mi a ddywedaf i chwi yn ychwaneg, roddi i mi y pryd hynny Blyg lyfr wedi ei ſelio, im cyſſuro i wrth ei ddarllen ar hyd y fford: ac ſe a orchymynnwyd i mi hefyd, i roddi ef i mewn ym mhorth y Ddinas nefol, yn arwydd o'm mynediad ſicr innau, i mewn ar ei ól ef ir fann honno. Y mae n * ddilys gennif, fod arnochi eiſiau y pethau hyn oll; ac yr ydych chi hebddynt hwy, am

* *Sef, ſy nghyſiawnderau gwael ſy hun.*

† *Sef cyſiawnder Criſt.*

* *Sic.*

am na ddaethoch i mewn trwy 'r Porth.

Nid attebaſant hwy ddim iddo ef ynghylch y matterion ymma; yn vnic hwy a edrychaſant ar ei gilydd, ac a chwarddaſant. Yna mi a'i gwelais hwy oll yn myned ym mlaen, ond bod *Criſtion* yn cerdded yn dynnach gan eu gadael hwynthwy yn ei ôl, ac nid ymddiddanodd e ddim mwyach a nhwy; ond yr oedd e'n myfrio yntho ei hun, weithiau dan ochneidio, a weithiau dan ymgyſſuro: hefyd efe a fyddai yn darllen yn fynych yn ei blyg-lyfr, ac yr oedd efe yn cael Diddanwch oddiwrtho.

Mi a'i gwelwn hwy * gwedyn, yn myned oll ym-mlaen, hyd oni ddaethant i ymmyl *Bryn anhawſtra*, ac wrth y Bryn hwnnw yr oedd ffynnon: Ac hefyd yn yr vn lle yr oedd dwy ffordd arall, heblaw yr hon oedd yn dyfod yn vnion oddiwrth y Porth; vn yn troi ar y llaw aſſwy, a'r llall ar y llaw ddehau, wrth droed y mynydd: eithr yr oedd y ffordd gyfyng yn myned yn vnion i fynu ir Bryn. Fe aeth Criſtion yn awr ir * ffynnon, ac a yfodd o honi i adfywio ei hun, *Eſay.* 49. 10. ac yna efe a ddechreuodd fyned i fynu ir Bryn, dan ganu,

* *Ar ôl hynny.*

* *Sef o gyſſuron yr yſpryd glan.*

Yr

Yr wyf yn chwennych mynd yn gefnog,
*I Benn y Bryn ſydd fawr * a chribog:*
Er ucheled yw ei goppa,
Ni'm rhwyſtrir i, gan ddim anhawſtra.
Can's Mi wn, mai dymma 'r hyfryd
Ffordd ſy'n arwain Dyn i fywyd:
Cyfod galon, awn yn wiſgi,
Llwyr yn blaen, heb ball nac ofni.
Gwell yw cerdded y ffordd vnion,
Er bod rhwyſtrau yn ei chylchon:
Nâ myna 'rhyd y traws gam lwybyr,
Er ei fod e'n hawdd ddirwyſtyr.

* A *choppa uchel gantho.*

Y Ddau eraill hefyd a ddaethant, hyd Droed y Bryn; eithr pan y gwelſant, fod y Bryn † yn ſerth, a bod yno ddwy ffordd arall i fyned; a chan dybygu hefyd, y cyfarfyddai y ddwy ffordd hynny drachefn, á'r ffordd yr aethai Criſtion i fynu ar hyd-ddi (ar yr yſtlys arall ir Bryn) hwy a ymroeſant am hynny i fyned ar hyd y ffyrdd ymma (Enw vn or ffyrdd oedd *Perygl*, ac Enw 'r llall oedd *Deſtryw*) Felly y naill wr a gymmerodd y ffordd a elwir *Perygl*, yr hon a'i harweinodd ef i || *Goedwig fawr*; a'r llall a aeth yn vnion, ar hyd y ffordd oedd yn arwain i *Ddeſtryw*, yr hon a'i harwainodd ef i Fann * chang, yn llawn o fynyddoed tywyll, lle y tramcwyddodd ac y ſyrthiodd e; ac ni chyfododd e mwyach.

† *Yn uchel i fyned i fynu ar hyd-ddo.*

|| *Goed.*

* *Llydan.*

Yna

Yna mi a edrychais ar ol *Criſtion*, iw weled ef yn myned i fynu i ben y Bryn; ac mi a'i gwelwn ef, gwedi rhedeg ar y cyntaf, yn cerdded yn awr, ac o'r diwedd yn crippian i fynu ar ei draed a'i ddwylo, oblegid bod y lle yn ſerth ac yn llythrig. Ac ynghylch hanner y ffordd i Ben y Bryn, yr oedd * llwyn hyfryd o goed plann, wedi ei oſod gan Arglwydd y Bryn, i adfywio ymdeithwyr deffygiol. Ac am hynny fe aeth *Criſtion* yno, ac a eiſteddodd i lawr, i gymmeryd gorphwysfa yn y llehwnnw. Yna efe a gymmerodd ei Blyg-lyfr allan o'i fynwes, ac a ddarllenodd yntho, ac a gafodd ddiddanwch oddiwrtho. Efe a ddechreuodd hefyd yn awr ail-edrych ar y ſiacced, a roddaſid iddo ef, pan yr oedd ef yn ſefyll wrth y Groes. A chwedi iddo gael bodlonrwyd yn y pethau hyn tros ennyd; o'r diwedd, efe a ſyrthiodd || i heppian, ac ar ôl hynny i drwm gyſcu: A'r cwſc hwn a'i cadwodd ef yn y man hwnnw, hyd onid oedd ni ymron nôs, a'i blyg-lyfr a ſyrthiodd o'i law ef wrth gyſcu, *Dat.* 3. 2. 1 *Theſſ.* 5. 7, 8. Ac fal yr oedd efe yn cyſcu, daeth vn atto ac a'i deffrôdd ef, gan ddywedyd wrtho, *Cerdda at y morgrugyn tydi ddiogyn, edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth, Dihar.* 6. 6.

* *Sef, o bethau 'r byd hwn, iw harfer yn gymmhedrol.*

|| *I fath o eſceuluſdra amti enaid*

A

A chyda hynny y neidiodd *Criſtion* i fynu yn orwyllt, ac a aeth ar ffrwſt i'r *Ebrwydd ffordd, ac a gerddodd yn * chwai, hyd oni ddaeth ef i Ben y Bryn.

VVrth y plyg-lyſr ymu, y gallwn ni ddeall addewidion Duw, a ſiccrwydd y Criſtion (ynghylch ei iechydwriaeth,) yr hwn ſiccrwydd ſydd yn tarddu, oddiwrth yſpryd Duw a'i râs ef yn yr enaid.

Yn awr pan y daeth efe i fynu i Ben y Bryn, fo welai ddau wr yn rhedeg yn gyflym tuag atto: Enw vno honynt oedd *Ofnog*, ac Enw'r llall ocdd *Anhyderus*: a *Chriſtion* a ddywedodd wrthynt, Ha-wyr, pa ham yr ydych yn rhedeg tuag ymma? *Ofnog* a attebodd, mai myned yr oeddent tua Dinas *Sion*, a darfod iddynt ddyfod i fynu o'r llethr neu'r rhiw oedd anhawdd iw ddringo; eithr eb efe, pa bellaf yr elem ni, mwy a fyddai y perygl a gyfarfyddai â ni: Am hynny ni a droefom, ac yr ydym yn myned yn ôl drachefn: ie ebe *Anhyderus*, canys yr oedd Dau Lew yn gorwedd yn gymmwys yn y ffordd o'n blaen (pa vn a'i yn cyſcu, a'i yn neffro, nis gwyddom) ac ni allem ni dybied llai, os deuem ni o fewn eu cyrraedd, na byddai iddynt yn ebrwydd cin llarpio a'n rhwygo ni † yn gan-dryll. *Dihar*, 22. 13. *Dihar*. 26. 13.

† *Yn chwilfriw*

Criſ. *Yna ebe* Criſtion, *yr ydychwi yn*

yn peri i mi ofni: eithr i ba le y ffoaf, i fod mewn diogelwch? Os âf yn ôl i'm Gwlâd fy hun, y mae honno wedi ei pharottoi i Dân a Brwmſtan; ac fe dderfydd am danaſi yno yn ddiammau. Os gallaf fyned ir Ddinas nefol, y mae 'n * *ddilys gennif, y byddaſi yno mewn Diogelwch. Rhaid i mi* † *anturio i fyned ym mlaen: nid yw myned yn ôl ddim amgen nâ marwolaeth; ac nid yw myned ym mlaen ond ofn marwolaeth: eithr y mae Bywyd tragwyddol yn ei ganlyn ef; Ac am hynny myſi a âf rhagof etto. Felly* Anhyderus *ac* Ofnog *a redaſant i wared ar hyd y llethr, a* Chriſtion *a aeth rhagddo yn eiffordd. Eithr gwedi meddwl dracheſu am yr hyn a glywſai ef gan y Gwyr, efe a chwiliod yn ei fonwes am ei blyg-lyfr, fal y gallai fo ddarllain ynthо, a chael cyſſur oddiwrthо; eithr er ymofyn am dano, ni chafodd mo honaw. Yna yr oedd* Criſtion *mewn cyfyngder mawr, ac ni wyddai fe pa beth a wnelai, am fod arno eiſiau y peth oedd yn arfer ei adfywio ef, a'r peth a ddylaſai fod megis Paſs (neu lythyr) yn ei law ef, fal y byddai iddo gael ei dderbyn ir Ddinas nefol. Yn yr* ‖ *ingder ymma, efe a gofiodd o'r diwedd, iddo gyſcu dan y llwyn oedd ar* * *ochr y Bryn: A chan ſyrthio ar ei liniau, efe a*

* *Siccr.*

† *Fentro.*

‖ *Trallod.*

* *Ymlys.*

ofynnodd

ofynnodd faddeuant gan Dduw, am iddo fod mor ynfyd † a chyſcu yno: ac wedi hynny efe a ddychwelodd yn ôl, i ymofyn am ei blyg-lyfr. Eithr pwy a ddichon fynegi faint oedd gofyd ei galon ef, ar hyd yr holl ffordd, yr oedd efe yn dychwelyd yn ei wrthol ar hyd-ddi? Weithie yr oedd e'n ochneidio, weithie yn wylo, ac yn fynych yn beio arno ei hun, am fod mor ynfyd, a chyſcu yn y lle hwnnw, a wnelſid yn vnig i * ddadebru ychydig arno ef yn ei † ludded. Fal hyn gan hynny y dychwelodd e'n ôl, gan edrych yn ofalus, y tu yma, a'r tu arall, ar hyd yr holl ffordd yr oedd efe yn trammwy arni; i broſi a allai fo yſgatfydd ‖ gael cwrdd a'i blyg-lyfr, yr hwn a'i cyſſurodd ef cyn fynyched yn ei daith. Ac yn y modd hyn y cerddodd efe, nes canfod y Llwyn drachefn, lle y buaſai fo yn eiſtedd ac yn cyſcu: eithr yr olwg honno a adnewyddodd ei driſtwch ef yn fwy, trwy ddwyn ar gôf iddo eilchwaith ei gwſc pechadurus. Eithr efe a aeth ymmlaen dan alaru am y cyſcu yma, gan ddywedyd, ys truan o ddyn ydwyfi! i mi gyſcu liw ddydd! i mi gyſcu yng hanol peryglon! i mi foddháu y cnawd cyn belled, ac arfer yn lle eſmwythdra ir corph y gorphwyſſa honno, a bwyntiaſai Arglwydd y Bryn, yn vnic i gomfforddi eneidie Pererinion! Pa ſawl cam

† *A bod yn eſceulus am fatterion ei iechyd-wriaeth.*

* *Frſhhau adfyn i.*

† *Diffygio.*

‖ *Findio allan.*

gam a gerddais i yn ofer! (fal hyn y digwyddodd ir Iſraeliaid am eu pechodau; hwy a anfonwyd yn eu hôl drachefn ar hyd ffordd y mor côch) ac yr wyf innau yn awr yn cerdded y liwybrau hynny mewn gofyd, y rhai a allaſwn i eu cerdded mewn hytrydwch, oni buaſai y cwſc pechadurus hwn.

Pa belled y buaſwn i yn fy ffordd erbyn hyn! Y mae 'n gorfod i mi gerdded dair gwaith y † camre, na buaſai raid i mi ei cerdded vnwaith ond vn: Ie yn awr hefyd y mae hi yn debyg i fyned yn nôs arnaf, canys y mae 'r Dydd yn darfod: O na buaſwn i heb gyſcu! Erbyn hyn yr oedd efe wedi dyfod at y Llwyn drachefn, ac fo a eiſteddodd yno ennyd, ac a wylodd; eithr o'r diwedd (mal yr oedd Criſtion yn ewyllyſio) wrth edrych â chalon drom tu ar llawr, efe a ganfu ei Lyfr dan y faingc; ac yn ddychrynllyd fo a'i cippiodd ef i fynu ar frys, ac a'i goſododd ef yn ei fonwes: Eithr pwy a all fynegi mor llawen oedd y Gwr hwn, pan y cafodd e ei blyg-lyfr drachefn? Canys y llyfr ymma oedd ſiccrwydd ei fywyd ef, a'i ſiccrwydd ef ynghylch ei dderbyniad i mewn ir * porthladd dymunol (ſef ir Nefoedd) Am hynny efe a'i goſododd ef i gadw yn ei fonwes, ac a ddiolchodd i Dduw am gyfarwyddo ei lygaid ef at y man, lle yr oedd y llyfr yn gorwedd. A gwedi hynny, dan lawenhau,

† Camman

* Hafan, neu lê, i longau i aros ynthe mewn dicgelwch.

hau ac wylo, efe a aeth ym-mlaen yn ei ffordd. Eithr o mor fuan y cerddodd efe i fynu ar hyd y rhan ddiweddaf o'r Bryn! Etto cyn iddo fyned i fynu, fe fachludodd yr Haul ar Griſtion; *a hyn a wnaeth iddo alw ei gwſc ofer, iw gôf drachefn. Ac fo a ddechreuodd eilchwaith gwyno wrtho ei hun fal hyn.* O tydi Gwſc pechadurus! Mor debygol yw hi, i noſſi arnafi yn fy nhaith o'th achos di! Rhaid i mi rodio heb yr * Haul; a Thywyllwch a orchguddia fy llwybr i! Ac o'th-blegit ti (o fy nghwſc pechadurus) fe orfydd arnafi glywed rhuad creaduriaid blin! *Yn awr hefyd fo a gofiodd y ſtori a ddywedaſai* Anhyderus *ac* Ofnog *wrtho ef, y modd y dychrynwyd hwynt-hwy wrth weled y Llewod. Yna y dywedodd Criſtion wrtho ei hun drachefn; y mae 'r Bwyſtfilod hyn yn rhodio oddiamgylch yn y nôs, i geiſio yſclyfaeth; ac os cyfarfyddant a mi yn y tywyllwch, pa fodd y gyrraf hwynt ymmaith! Pa fodd y diangaf rhag cael fy llarpio ganthynt? Fal hyn yr aeth e rhagddo yn ffordd: Eithr tra yr ydoedd efe yn galaru oblegid ei gam-ymddygiad anhappus, fo a dderchafodd ei lygaid; ac a ganfu yno, yn ymyl y ffordd o'i flaen ef,* * Balâs *gwŷch iawn, ac enw 'r* Palâs *oedd* Frydferth.

* *Fe guddia Duw ei wyneb oddiwrth ei bobl, pan y cyſcant ac y byddant eſcculus yng-hylch ei iechydwriaeth.*

* *Llys Brenhinol.*

Felly

Felly mi ai gwelais ef yn bryſſio, ac yn myned rhagddo, mal os byddai poſſibl y gallai efe gael lletty yno : Eithr cyn iddo fyned yn-nepell, fo a ddaeth i le cûl iawn, yr hwn oedd ynghylch tair yſtang oddiwrth Babell y † Porthor ; a chan edrych yn ofalus o'i flaen wrth gerdded, efe a ganfu ddau lew yn y ffordd. Yn awr eb efe, mi a welaf y peryglon a yrraſant *Anhyderus* ac *Ofnog* i ddychwelyd yn *ôl* ; (yr oedd † y llewod wedi eu cadwyno, ond nid oedd e yn gweled y cadwyni) yna efe a ofnodd, ac a fwriadodd ddychwelyd yn ol, megis y gwnaethant hwythau ; canys yr oedd efe yn meddwl, nad oedd dim ond marwolaeth o'i flaen ef : Eithr y *Porthor* (enw yr hwn yw *Gwiliadwrus Mar.* 13. 34.) wrth weled *Chriſtion* yn ymattal rhag myned ymlaen, mal pe buaſai ar feddwl troi yn ei wrthol, a waeddodd arno ef, gan ddywedyd ; A wyt ti mor wan-galon a hynny ? Nac ofna y Llewod ; canys y maent wedi eu cadwyno, a chwedi * eu cyfleu yn y mann yna, i brofi ffydd lle y mae hi, ac i ddat guddio y rhai ffydd hebddi : Cadw di dy hunan ynghanol y llwybr, ac ni bydd niweid i ti. *2 Pet.* 2. 4.

† *Vn yn cadw'r drws.*

† *Y Cythreuliaid.*

‖ *Sef, Pregethwr yr efengyl.*

* *Eu gojod.*

Yna mi a'i gwelais ef yn myned ymmlaen

mlaen, dan grynu rhag ofn y llewod: Eithr trwy ymgadw yn ôl ‖ hyfforddiad y *Dryſor*, eſe a'i clybu hwynt yn vnic yn rhuo, ond ni wnaethant hwy ddim niwed iddo: Yna efe a gurodd ei ddwylo ynghyd, ac a acth rhagddo, hyd oni ddaeth ef a ſefyll o flaen y Porth, lle yr oedd y *Porthor* yn aros. Yna y dywedodd *Criſtion* wrtho, Syr, Pa Dŷ yw hwn? A allafi gael letty ymma heno? A'r *Porthor* a attebodd, y Tŷ hwn a adeiladwyd gan Arglwydd y Bryn, er mwyn † adfywio a diogelu Pererinion. Y *Porthor* hefyd a ofynnodd i *Griſtion*, o ba le yr wyt ti 'n dyfod? Ac i ba le yr wyt ti 'n myned?

‖ *Cyfarwyddiad.*

† *Cyffurc.*

Criſ. *Dyfod yr wyfi o Ddinas Deſtryw, ac yr wyfi 'n myned tua mynydd Sion: Eithr oblegit bod yr Haul wedi machludo, yr wyf yn dymuno cael letty ymma dros noſwaith.*

Porthor. Pa beth yw eich Enw chwi?

Criſ. *Fy Enw i* * *yr-wan yw* Criſtion; *eithr fy Enw i ar y cyntaf oedd* Di-ras: *Yr wyfi yn vn o* † *lîn* Japheth, *yr hwn a ynnill Duw i breſwylio ym mhebyll* Sem, *Gen.* 9. 27.

* *Yr awron.*

† *Hiliogaeth.*

Porth. Pa fodd y digwyddodd, eich bod chwi yn dyfod cyn hwyred; y mae 'r Haul wedi machludo?

Criſ. Myfi a fuaſwn yma 'n gynt; *eithr*

eithr ys truan o Ddyn ydwyf! Mi a gyſcais dan y llwyn ſy'n ſefyll ar yſtlys y Bryn: Nage mi a fuaſwn yma er hynny yn gynt o lawer, ‖ *oni buaſai i mi golli fy ſiccrwydd wrth gyſcu*, a dyfod hebddo ef hyd at ael y Bryn. Ac yna wedi ymofyn am dano, ac heb ei gael ef, ſe orfu i mi gyda gofyd calon droi 'n ôl ir lle y cyſcaſwn i yntho, lle y cefais ief: Ond o'r diwedd yr wyfi wedi dyfod yma.

‖ *Y mae y rhai graſol yn colli eu ſiccrwydd ynghyſch eu iechydwriaeth, a pheth o'i golwg hefyd ar addewidion Duw am Drugaredd, pan y maent hwy yn dyfod i ſod yn gyſclyd yn eu heneidiau, ac yn eſceulus i wneuthur ewyllys Duw, gan ymogwyddo i roddi bodlonrhwydd idd eu nattur llygredig ei hun, fal y gallwn ni weled wrth ſiampl Dafyd*, Pſal. 51. 11, 12.

Porthor. Wele, mi a alwaf ar un o Langceſi y lle yma, yr hon, (os bydd hi bodlon i'ch ymadroddion) a'ch dwg chwi i mewn at y Teulu, yn ôl defod y Tŷ. Ar hynny fe a ganodd y *Porthor* glôch; ac wrth ei ſwn hi, fe ddaeth Llangces ſobr brydferth allan ir Drws (a'i henw hi oedd Pwyllog) ac a ofynnodd, pa ham yr oeddid yn galw arni hi? A'r *Porthor* a attebodd, y Gwr hwn ſydd yn ymdeithio o *Ddinas Deſtryw i Fynydd Sion*; Eithr gan ei fod e'n ddeffygiol, ai bod hi gwedi noſſi arno, eſe a ofynnodd i mi, a allai ſo gaellletty yma dros nôs: Felly myfi a

ddywedais wrtho, y gelwn i arnat ti, yr hon a elli, ar ôl ymddiddan ag ef wneuthur fal y byddo da yn dy olwg, yn ol Defod y Tŷ.

Hithau || a wenodd ar *Griſtion*, ond yr oedd y Dwr yn ſefyll yn ei llygaid hi: A chwedi ſefyll ychydig heb * ynganyd vn gair, hi a ddywedodd, myfi a alwaf allan ddau neu dri † yn rhagor o'm Teulu. Felly hi a redodd i ddrws y Tŷ, ac a alwodd am *Ddoethineb*, *Duwioldeb*, *a Chariad* || i ddyfod i maes; y rhai, wedi ymddiddan ag ef ychydig ym-mhellach, a'i harwainiaſant ef i mewn ir Tŷ: A llawer o honynt, gan ei gyfarfod ef wrth drothwy 'r drws, a ddywedaſant wrtho, * *Tyred i mewn tydi fendigedig yr Arglwydd*; Fe adeiladwyd y Tŷ hwn gan Arglwydd y Bryn ir diben yma, ſef, i roeſewi Pererinion yntho. Yna efe a gyfarchodd iddynt, ac a'u canlynodd hwynt ir Tŷ. Ac wedi dyfod i mewn ac eiſtedd i lawr, hwy a roddaſant iddo ryw beth i yfed, ac a gyttunaſant yng-hyd, mai hyd oni byddai ſwpper yn barod, y cai rhai o honynt, er mwyn gwneuthur defnydd da o'r amſer, ymddiddan â *Chriſtion* yn neilltuol yng-hylch pethau crefyddol: A hwy a ordeiniaſant *Doethineb*, *Duwioldeb*, *a Chariad*

|| *A chwarddodd.*

* *Ddywedyd.*

† *Yn ychwaneg.*

|| *I ddyfod allan.*

* *Derbyniad y Pererin i'r Tŷ hwn, ſydd yn dwdi allan dderbyniad y pechadur edifeiriol ir Eglwys weledig ar y Ddaiar, lle y mae ainteithion yſpryd-ol iw cael trwy 'r Gair, a'r Sacramentau, ac eraill o ordeiniadau Duw*

riad i chwedleua ag ef, ac hwy a ddechreuaſant fal hyn.

Duwioldeb. *Pa beth a'ch hannogodd chwi ar y cyntaf i fod yn Bererin? A pha fodd y digwyddodd i chwi ddyfod allan o'ch gwlâd y ffordd yma?*

Criſ. Fo 'm gyrrwyd i allan o wlâd fy 'ngenedigaeth gan ſwn ofnadwy oedd yn fy nghluſtiau, ſef, *bod Deſtryw anocheladwy yn fy nghanlyn*, os trigwn i yn y mann, lle 'r oeddwn. A phan y dychrynwyd fi ag ofn y Deſtryw yma, ac ni wyddwn i, i ba le yr awn; trwy ragluniaeth Duw (fal yr oeddwn yn crynu ac yn wylo) fe ddaeth Gwr attafi, a elwid Efangylwr, ac efe a'm cyfarwyddodd i ir Porth cyfyng; † pe amgen ni chawſwn i gwrdd ag e byth; ac felly fo 'm goſododdi yn y ffordd a'm harweiniodd i yn vnion ir Tŷ hwn.

† *Allan o hynny, nis gallaſwn i ei ffindio eſ allan.*

Duwioldeb. *Eithr oni ddaethochwi heibio i Dŷ y Deonglwr?*

Criſ. Deuthym, ac a welais yno y fath bethau, ac y glŷn eu coffadwriaeth hwy wrthyf tra fyddwyf byw, yn enwedig tri pheth, ſef, *y modd y mae Criſt, er gwneuthur o Satan ei waethaf, yn cynnal gwaith ei râs yng halonnau ei bobl*: *Y modd y Pechodd rhyw wr mor echrydus, hyd onid oedd efe yn gwbl allan o obaith a'm drugaredd Duw*; *Ac*

hefyd Breuddwyd yr hwn a dybiaſai fod Dydd y farn wedi dyfod : Yr oedd ſy nghalon i yn crynu pan yr adroddodd y Gwr ei freuddwyd, etto y mae 'n llawen genif i mi ei glywed ef. Llawer o bethau eraill a welais i ar y ffordd ; ond vn peth oedd fwyaf nodedig, ſef, Pan y gwelais i vn yn crogi ac yn gwaedu ar y Groes, ſe wnaeth yr olwg arno ef i'm Baich i ſyrthio oddiar fy nghefn ; a'r Baich hwnnw a fu yn fatter o flinder mawr im fi, *Zech.* 12. 10. *Zech,* 13. 1.

Doethineb. *Onid ydychwi yn meddwl weithie am y wlâd, o'r hon y daethoch allan ?*

Criſ. Ydwyf, eithr gyd â llawer o gywilydd a ffieidd-dra : Yn wir pettawſwn i yn meddwl (*gydag hyfrydwch*) am y wlâd honno, o'r hon y daethym allan, mi a allaſwn gael * adeg i ddychwelyd yn ôl ; *Eithr yn awr, Gwlâd well yr wyſi yn ei chwennych, hynny ydyw vn nefol,* Heb. 11. 15, 16.

* *Amſer cyfaddas.*

Doeth. *Onid ydychwi etto yn canfod ynoch eich hunan rai o'r pethau, yr oeddech chwi y pryd hynny yn gyneſin â hwynt.*

Criſ. Ydwyf, eithr y mae 'r pethau hynny ynof, yn erbyn fyng 'wyllys yn fawr iawn, yn enwedig fy meddyliau cnawdol,

cnawdol, y rhai oeddynt yn dra hyfryd gennif gynt : Eithr yn awr y mae 'r meddyliau hyn oll yn flinder i mi : A phe gellwn i ddewis yr hyn ſydd dda, myfi a ddewiſwn, nas meddyliwn i y fath feddyliau byth mwyach : Eithr pan fyddwyf yn ewyllyſſio gwneuthur yr hyn ſydd oreu, y mae yr hyn ſydd waethaf yn breſennol gyda mi, *Rhuf.* 7. 21:

Doeth. *Onid ydychwi yn edrych ar y pethau hyn weithiau, mal pettaent wedi eu gorchfygu, y rhai ſy brydiau eraill yn* † *Ben-bleth a blinder i chwi?* † *Ddyryſwch:*

Criſ. Ydwyf, ond nid yw hynny ond yn anfynych iawn : Eithr * oriau eu- * *Awrau o aur.*
raidd yw y rheini im fi, yn y rhai y digwydd i mi gael yr oruchafiaeth ar fy llygredigaethau.

Doeth. *A ellwch chwi goſio, trwy ba foddion, y mae y llygredigaethau blinderus hyn yn cael eu daroſtwng ynoch, mal pettaent wedi eu gorchfygu?*

Criſ. Gallaf, 1. Pan feddyliwyf am yr hyn a welais i ‖ wrth y Groes ; 2. Pan yr edrychwyf † ar fy ſiaced cyfreſtrog (*embroidred*) 3. Pan ddarllenwyf yn * y plyglyfr yr wyf yn ei ddwyn yn fy monwes, 4. A phan fyddo fy meddyliau ynghylch y ‖ lle yr wyf yn myned tuag atto yn ymwreſſogi, ſe

‖ *Criſt yn gwaedu.* † *Cyfiawnder Criſt.* * *Siccrwydd am iechydwriaeth.* ‖ *Y Neſoedd.*

rydd hynny ergyd marwol i'm llygredigaethau.

Doeth. *A pha beth ſy'n peri i chwi fod mor chwannog i fyned i fynydd Sion?*

Criſ. Yr wi'n gobeithio *cael gweled yr hwn a fu farw ar y groes, yn fyw yno*: Ac yr wyf yn gobeithio y rhyddheir fi yno, oddiwrth yr holl wendid, y ſydd yn fy aflonyddu i hyd y dydd hwn. Y maent yn dywedyd hefyd, nad oes dim marwolaeth yno; ac mi a gâf drigo yno gyda 'r fath Gymdeithion, ar y ſydd oreu gennif. Ac i ddywedyd wrthychi y gwir, yr wyf yn caru yr hwn a fu farw ar y groes, am iddo fe fy eſmwythau i o'm Baich, *Luc.* 7, 47. ac y mae * fy afiechyd oddifewn yn ofydus immi; ac yr wyf yn ewyllyſſio bod yn y fann hwnnw, lle na fydd nac afiechyd, na marwolaeth mwyach, a chyda 'r Cymdeithion a fyddant yn llefain yn waſtadol, *Sanct, Sanct, Sanct*, Dat. 21. 4. Eſay 6. 3.

* *Fy llygredigaethau.*

Yna y gofynnodd *Cariad* i *Griſtion*, *A oes i chwi dylwyth? A ydychi yn wr priod?*

Criſ. Y mae gennif Wraig a phedwar o Blant bychain.

Car. *A pha ham na ddygaſoch chwi hwynthwy o hyd gyda chwi?*

Criſ. Ar hynny fe wylodd *Griſtion*, ac

ac a ddywedodd, O mor ewyllysgar yr oeddwn i, iddynt hwy ddyfod gyda Mysi! Ond yr oeddent hwy oll yn gwbl anfoddlon i'm pererindod.

Car. *Eithr chwi a ddylasech ymddiddan â nhwy, a dangos iddynt y perygl o aros yn ôl.*

Cris. Felly y gwneuthym, ac mi a fynegais iddynt hefyd yr hyn a ddangosasai Duw i mi, am Ddinistr ein Dinas ni: *Eithr yr oeddwn i yn ei golwg hwy, fal yn yn * cellweir*, ac ni choelient mo honof, *Gen.* 19. 14. * *Ystlo.*

Car. *A ddarfu i chwi weddio ar Dduw am fendithio eich cynghor iddynt?*

Cris. Do, a hynny gyda gwresogrwydd calon; canys rhaid i chwi feddwl, fod fy ngwraig a'm plant truain yn anwyl iawn gennif.

Car. *Eithr a fynegasoch chwi iddynt hwy eich gofyd eich hûn, a'ch ofn i gael eich dinistrio.*

Cris. Do eilchwaith ac eilchwaith: Ac hwy a allasent ganfod fy ofn i yngwèdd fy wyneb-pryd, yn fy nagrau, ac hefyd yn fy nychryn wrth ystyried y Farn oedd ynghróg vwch ein pennau: Eithr nid oedd y cwbl yn ddigonol iw hynnill hwy i ddyfod gyda mi.

Car. *Eithr pa beth a allent hwy ei ddywedyd trostynt en hunain, am na ddaethant hwy gyda chwi?*

Criſ. Yr oedd fy ngwraig yn ofni colli ei meddiannau, a chariad Dynion y byd preſennol; a'm Plant oeddynt yn ymroddi i ynfyd ddigrifwch ieuenctid: Ac felly hwy a rwyſtrwyd, rhai gan vn peth, a rhai gan beth arall, hyd onis gadawſant hwy myfi * i ſiwrneio, wrthyf fy hunan yn y modd yma.

* *Idithio.*

Car. *Eithr oni ddarfu i chwi ddiwyno ac halogi â'ch ymarweddiad ofer, yr hyn oll a lefaraſoch chwi mewn ffordd o Gyngor, i hannog hwynthwy i ddyfod gyd â chwi?*

Criſ. Mewn gwirionedd ni allafi ganmol fy ymarweddiad: Canys myfi a wn fy mod i 'n llithro mewn llawer o bethau, *Iac.* 3. 2. *Myfi a wn hefyd y dichon Dyn, trwy ei fywyd drwg, ddymchwe'yd mewn ychydig o amſer, yr hyn a oſodo eſe mewn ffordd o Addyſc, Rheſwm, Cynghor a Cheryddd, o flaen pobl i troi nhwy at yr hyn ſydd dda.* Etto mi a allaf ddywedyd hyn, fy mod i yn ofalus iawn, na byddai i mi roddi iddynt * achlyſſur, trwy vn weithred anweddus, i gwneuthur hwynt yn wrthwyneb i ddyfod i bererindod. Ie yn y matter yma, hwy a ddywedent wrthif, fy mod i yn rhy ſanol, ac fy mod i yn gwadu fy hunan (er eu mwyn hwy) o ran rhyw bethau, yn y rhai nid oeddent hwy

* *Achos.*

hwy yn gweled dim drwg ynthynt. Nage yr wyf yn tybied, y gallafi ddywedyd hyn; *o'r 'doedd dim a welsant hwy ynofi yn rhwyſtr iddynt, mai ſy ofn mawr i rhag pechu yn erbyn Duw, a gwneuthur cam â'm Cymmydogion, ydoedd hynny.

* *Os ydoedd.*

Car. *Cain yn wir a gaſáodd ei Frawd, am fod ei weithredoedd ei hun yn ddrwg, a'r eiddo ei Frawd yn dda: Ac os hyn a fu n rhwyſtr ith Wraig ath Blant, ac a wnaeth iddynt ddigio wrthit, y maent trwy hynny yn ymddangos, eu bod yn † anghymmodlon i ddaioni, a thi a waredaiſt dy Enaid oddiwrth ei gwaed hwynt.* 1 Joan. 3. 12. Ezec. 33. 9.

† *Rhai ni ſynnant fod yn heddychol.*

Yn awr, mi a'u gwelais hwy yn eiſtedd fal hyn, gan ymddiddan âi gilydd hyd onid oedd ſwpper yn barod: A chwedi iddynt ei pharottoi hi, hwy a eiſteddaſant i ſwytta: *Ac yr oedd y Bwrdd wedi ei* * *hulio â Phaſcedigion, ac â Gwin, ie gloyw win puredig,* Eſay 25. 6. Mat. 22. 4. A'i holl ymddiddan hwy wrth y Bwrdd oedd ynghylch *Arglwydd y Bryn*, yn enwedig ynghylch yr hyn a wnaeth E, a pha ham y gwnaeth E yr hyn a wnaethpwyd gantho, a pha ham yr adeiladodd eſe y Tŷ hwnnw. Ac wrth yr hyn a lefaraſant hwy, Myfi a wybûm,

* *Llenwi.*

ei fod ef yn Rhyfelwr mawr; ac iddo ef ymladd á'r hwn oedd â nerth Marwolaeth gantho, a'i ddiniſtrio ef, eithr nid heb berygl dirfawr iddo ei hun, yr hyn a wnaeth i mi i garu ef yn fwy. *Heb* 2. 14, 15.

Ac megis y dywedaſant hwy, ac yr wyf finnau yn credu, Efe a gollodd lawer o waed wrth wneuthur hynny. Eithr y peth ſy 'n gogoneddu ei † Râs ef ydyw hyn, ſef, iddo wneuthur y cwbl o wir gariad iw wlâd. Ac heb law hynny, yr oedd yno rai o'r Teuly yn dywedyd, eu bod yn ymddiddan ag ef ar ol ei farwolaeth ar y groes a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw; a hwy a dyſtiolaethaſant, iddynt glywed allan o'i enau ef ei hun, fod gantho gariad mawr tuag at Bererinion truain, hyd onid ellir dywedyd, nad oes gyffelyb iddo iw gael, o'r Dwyrain ir Gorllewin.

† *Efafor.*

Drachefn, hwy a roddaſant enſampl o'r hyn a ddywedaſant; a honno oedd, iddo ef ymddioſc o'i Ogoniant fal y gallai efe wneuthur hyn dros y tlawd; a dywedaſant iddynt hwy ei glywed ef yn dywedyd, *Na phreſwyliai efe ym Mynydd Sion yn vnic, ond y mynnai efe eraill i breſwylio gydag e yno*, Phil. 2. 6, 7, 8. Joan. 17. 24. Ac hwy a fyne-

ſynegaſant ym-mhellach, iddo ef dderchafu llawer o Bererinion i fod yn Dywyſogion, er eu bob nhwy wrth natur wedi eu geni yn dlodion, a'i dechreuad o'r dommen. 1 *Sam.* 2. 8. *Dat.* 1. 6.

Ac fal hyn yr ymddiddanaſant, hyd onid aeth hi 'n llawer o'r nòs; ac wedi iddynt eu gorchymyn eu hunain i gadwriaeth eu Harglwydd, hwy a aethant iw eſmwythdra: A goſodaſant y *Pererin* i orwedd mewn gorvwch yſtafell * chang, ai ffeneſtr yn agored tua chodiad yr Haul (enw'r yſtafell oedd *Tangneddyf*) lle yr hunod hyd y wawrddydd, ac yna efe a ddeffrodd ac a ganodd;

* Hdaeth.

* *Ym mhle yr wyf yn awr yn gorwedd?*
O! dymma ddirfawr gariad rhyfedd,
A Gofal Ieſu Griſt am Ddynion,
Y rhai y ſydd yn Bererinion;
Yn † *rhagddarbod a thoſturio,*
Fal y cawn i fy arbed gantho,
Ac ‖ *anneddu o fewn y gwiw-lwys*
Drothwy neſſaf i Baradwys!

* *Ym mhle.*

† *Rhagbarottoi.*

‖ *Trigo.*

Felly hwy a gyſodaſant oll y borau dranoeth, ac wedi iddynt ymddiddan ynghylch rhyw bethau * yn rhagor, hwy a ddywedaſant wrtho, na chai e ymadaw, hyd oni ddangoſent iddo † *Dlyſau* 'r Tŷ. Ac yna hwy a'i har-

* *Yn ychwaneg.*

† *Pethau rhagorol.*

|| *Llyfr-ystafell.* harwainiasant ef ir || *Study*, lle y gosodasant hwy o'i flaen ef y llyfrau Coffadwriaethau hynaf yn y Byd; yn y rhai y dangosasant hwy iddo ef, yn gyntaf Achau Arglwydd y Bryn, sef, ei fod ef o Dragwyddoldeb yn *Fâb ir Hên Ddihenydd*; a chwedi hynny ei weithredoedd ef, y rhai oeddynt wedi eu yscrifennu yma yn gyflawn gydag enwau llawer cant a gymmerasei efe idd ei wasanaeth; a'r modd y * cyfleuasei efe hwynthwy, yn y cyfryw Breswylfeydd, na allei heneiddra moi † hadfeilio, 2 *Cor.* 5. 1.

* *Gosodasei*

† *Gwaethygu.*

Yna hwy a ddarllenasant iddo ef rai o'r Gweithredoedd anrhydeddus a wnaethai rhai o'i weision ef: Megis y modd *y gorescynnasant Deyrnasoedd, y gwnaethant gyfiawnder, y cawsant addewidion, y cauasant safnau llewod, y diffoddasant* || *angerdd y tân, y diangasant rhag min y cleddyf, y nerthwyd o wendid*, y modd hefyd *y gwnaethpwyd* hwy *yn gryfion mewn rhyfel*, ac *y gyrrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio*, Heb. 11. 33, 34.

|| *Poethfa.*

Wedi hynny hwy a ddarllennasant mewn rhan arall o * lyfrau coffadwriaethau 'r Tŷ; a dangoswyd yno, mor ewyllysgar oedd ei Harglwydd hwynt, i dderbyn iw ffafor, bôb vn, ie pôb vn

* *Records.*

vn, er iddynt gynt amharchi ei Berſon a'i ffyrdd ef, os troent ac os deuent yn awr atto ef, *Joan* 6 37. Yr oedd yma hefyd amryw o Hyſtoriau am lawer o bethau enwog eraill, y rhai a gafodd y *Criſtion* eu gweled oll, ſef, Hyſtoriau hên a newydd, ynghyd â phrophwydoliaethau ynghylch pethau a gyflawnir yn eu hamſer yn † ddilys, er dychryn a * ſyndod i elynion Arglwydd y Bryn, ac er cyſſur a diddanwch i Bererinion. Dranoeth hwy a'i || tywyſaſant ef ir Arf-dy, ac a ddangoſaſant iddo yno bôb math o Arfogaeth, y rhai a barottoiſai eu *Harglwydd* hwynt i *Bererinion*, megis *Cleddyf*, *Tarian*, *Helm*, *Dwyfronneg*, *pob rhyw Weddi*, *ac eſceidiau ni heneiddiant*; Ac yr oedd yno ddigon o honynt, i arfogi cynifer o wyr i waſanaeth eu *Harglwydd*, ac y ſydd o Sêr yn y Nefoedd *Eph.* 6. 14 *&c.*

† *Sicer.*
* *Diſymmwth a brawychus rhyfeddu.*
|| *Arwainiaſant.*

Hwy a ddangoſaſant iddo hefyd rai o'r || Peiriannau, â'r rhai y gwnaethai rhyw wŷr enwog ym-myſc ei weiſion ef ryfeddodau, megis *Gwialen Moſes*, *y Morthwyl a'r Hoel*, â'r rhai y lladdaſai *Jael Siſera*, *y Piſſeran*, *yr vdcyrn*, *a'r Lampau*, â'r rhai y gyrraſai *Gedeon* Fyddinoedd y *Midianiaid* i ffoi, y *Jerthu* ychen â'r hon y lladdaſai *Samgar* chwe-chan-wr, y *Gên Aſſyn* â'r hon y gwnaethai

|| *Offerynnau.*

gwnaethai *Sampſon* Bethau * aruthrol, y *Fon-daſl* a'r *Garreg*, â'r rhai y lladdaſai *Dafydd Goliath o Gath*, A'r *Cleddyf* hefyd, a'r hwn y lladd ei *Harglwydd* hwy *Faby Golledigaeth*, yn y Dydd y cyſodo eſe ir yſclyfaeth. Hwy a ddangoſaſant lawer o Bethau rhagorol i *Griſtion* heb law yr hyn a enwyd, y rhai oedd dda iawn gantho eu gweled, a chwedi hynny hwy a aethant iw gorphwysfa drachefn.

* *Rhyfeddol.*

A chwedi cyfodi yn forau, mewn bwriad i fyned ‖ rhagddo, fe attolygodd y Teuly arno ef, i aros hyd dranoeth; ac yna ebe nhwy, Nyni a ddangoſwn i chwi (os bydd y diwrnod yn eglur) y Mynyddoedd hyfryd, y rhai ebe nhwy a chwanegant at eich cyſur chwi, am fod y mynyddoedd hynny yn nes at y * Porthladd dymunol nà 'r man yr ychi yntho yn breſennol. Felly efe a ‖ gydfyniodd, ac a aroſiodd yno y noſon honno. A'r boreu neſſaf, hwy a aethant ag ef i * Nen y Tŷ, ac a erchaſant iddo edrych tua'r *Dehau*, ac efe a wnaeth felly: Ac wele fo a ganfu ymmhell oddiwrtho wlad dra hyfryd, wedi ei haddu à chocdydd, gwinllanoedd, ffrwythau o bób rhyw, Blodau hefyd a ffynhonnau hyfryd iawn *Eſay* 33. 16, 17. Yna efe a oſynnod enw'r wlàd; a hwythau

† *Ymmiain.*

* *Man lle mae llongau yn ddi ogel.*

‖ *Gyttunodd.*

* *Pen.*

hwythau a'i hattebaſant ef, mai *Tîr Emmanuel* oedd ei henw hi; ac y mae hi, ebe nhwy, mor gyffredin ir holl Bererinion i ddyfod iddi, ac i gael groeſo ynthi, ac ydyw 'r Bryn yma. A phan y delych di i'r wlâd honno, ti a elli ganfod Porth y Ddinas nefol oddiyno, trwy gyfarwyddiad y Bugeiliaid ſy'n byw yn y lle hwnnw.

Yna efe a ymbarottodd † i gychwyn, ac yr oeddynt hwythau yn foddlon i hynny; eithr yn gyntaf ebe nhwy, Awn drachefn ir Arf-dy, ac hwy a wnaethant felly, ac a'i gwiſcaſant ef yno, o wadn y droed hyd y pen, ag Arfau profedig, fal y gallai fo amddiffyn ei hunan, os byddai i neb ‖ ruthro arno yn y ffordd. A chwedi ei Arfo i fal hyn, efe a rodiodd gyda 'i gyfeillion ir Porth, ac a ofynnodd ir *Porthor*, a welſai efe vn *Pererin* yn myned heibio? A'r *Porthor*, a'i attebodd ef, Do.

† *I ddechreu ei ſiwrnai.*

‖ *Goſod arno.*

Cris. *Attolwg a adwaenochi ef ebe* Criſtion?

Portkor. Myfi a ofynnais ei enw ef, ac yntef a ddywedodd wrthyf, * taw *Ffyddlon* oedd ei enw ef.

* *Mai.*

Cris. *O! ebe* Criſtion, *'rwi 'n ei nabod E. y mae fo 'n Cymmydog agos im ſi: Fe ddaeth o'r Dref i'm ganwydi ynthi.*

ynthi. Pa beled yr ydychi yn tybygu y gall efe fod ym-mlaen?

Porth. Y mae fo erbyn hyn wedi myned iſlaw y Bryn.

Criſ. *Wele Borthor anwyl ebe* Criſtion, *yr Arglwydd a fyddo gyda thi, ac a angwanego* * *gynnyrch mawr at dy holl fendithion di, am y caredigrwydd a ddangoſaiſt im ſi.*

* Cynnydd.

Yna y dechreuodd *Criſtion* fyned † rhagddo; eithr *Pwyllog, Duwioldeb, Cariad, a Doethineb* a aethant gydag ef, dan ymddiddan drachefn, ynghylch y matterion y ddarfu iddynt hwy chwedleua o'r blaen am danynt, nes dyfod hyd at * ael y Bryn. Yna ebe *Criſtion*, megis yr oedd yn *anhawdd* eſcyn i fynu, felly hefyd (hyd y gwelaf) y mae 'n *beryglus* i ddeſcyn i wared. Y mae 'r peth felly ebe *Doethineb; canys matter caled ydyw i Ddyn, i fyned i wared i* || *Ddyffryn Daroſtyngiad* (fal yr wyti yn awr yn myned) ac heb gael cwymp ar y ffordd; a thyna 'r rheſwm pa ham yr ydym ni 'n dyfod gyda thi i Droed y Rhyw. Felly efe a ddechreuodd fyned i wared, eithr yn gynnil iawn, er hynny efe a lithrodd vnwaith neu ddwy.

† Ymmlaen.

* Pen arall y bryn.

|| Rhaid i bob Criſtion ddaroſtwng ei hunan o flaen Duw am ei bechodau.

Yna mi a welais y cymdeithion da hynny, yn rhoddi i *Griſtion* (gwedi iddo

iddo ddyfod i wared † o'r Lann) Dorth o fara, Coſtreleid o Wîn, a ſwp o * Reſin, || a chwedyn efe a aeth iw ffordd.

† *O'r Bryn.*

* *Rhoſings*

|| *Ar ôl hynny.*

Eithr yn y *Dyffryn* yma o *Ddaroſtyngiad*, hi ſu 'n galed iawn ar *Griſtion*; canys nid aethai efe yn-nepell ym-mlaen, ond wele fo a ganfu * Ellyll echrydus yn dyfod ar hyd y maes iw gyfarfod ef, a'i enw ef oedd † *Apol-lyon*: A gwnaeth y Drych hwn i *Griſtion* ofni, ac i feddwl yntho ei hunan, || Pun oedd oreu iddo ef, ai dychwelyd yn ei ôl, ai yntau * ſefyll ar ei Dalwrn. Eithr efe a yſtyriodd eilchwaith, nad oedd gantho ddim Arfogaeth iw gefn; ac o herwydd hynny efe a feddyliodd, y gallai ei waith ef yn troi ei gefn tuagat *Apollyon*, roddi iddo fwy o Achlyſſur, iw wanu ef yn hawſach â'i Biccellau; ac am hynny fo a roddes ei frŷd i * anturio, ac i gadw ei ſefyllfa; canys eb efe, pettawn i heb edrych ar ddim amgen na chadw fy einioes, gwell yw i mi ſefyll nâ chilio.

* *Yſpryd drwg.*

† *Diniſtriydd.*

|| *Pa vn.*

* *Aros yn y man lle yr oedd e arno.*

* *Fentro.*

Felly efe a aeth rhagddo, ac † *Apollyon* a gyfarfu ag ef: Yn awr yr oedd yr *Anghenfil* yn ofnadwy yn ei wêdd; canys yr oedd efe wedi ymwiſco â * chenn fal *Pyſcodyn* (y rhai yw ei falchder ef) yr oedd gantho adenydd fal *Draig*,

† *Satan.*

* *Scales rhiſglau.*

a

a Thraed fal traed *Arth*, a *Thân a Mwg* oedd yn dyfod allan o'i fol ef, a'i ſafn oedd fal ſafn *Llew*. A phan neſſâodd efe at *Griſtion*, ſo a edrychodd arno â ‖ chuwch dirmygus, ac a'i holodd ef fal hyn.

‖ *Wyneb-pryd.*

Apol. *O ba le y daethochi, ac i ba le yr ydych yn myned?*

Criſ. Yr wi'n dyfod o *Ddinas Deſtryw*, yr hon yw trigfan pob drygddyn, ac yr wyf yn myned tua *Dinas Sion.*

Apol. *Myfi a wn wrth hyn, mai vn o'm Deiliaid i wyti, canys myfi a biau 'r holl wlâd honno, ac myfi yw ei Thywyſog a'i Duw hi,* 2 Cor. 4. 4. Eph. 2. 2. *Pa fodd gan hynny y rhedaiſti ymmaith oddiwrth dy Frenin? Oni bai fy mod i 'n gobeithio y gwnei di etto i mi fwy o waſanaeth, myfi a'th darawn di yn ebrwydd ag vn dyrnod ir llawr.*

Criſ. Fe a'm ganwyd i yn wir o fewn eich Arglwyddiaeth chwi: Eithr yr oedd eich Gwaſanaeth chwi 'n galed, a'ch cyflog yn gyfryw, nas gallei Ddyn fyw arni; *Canys cyflog pechod yw marwolaeth,* Rhuf. 6. 23. ac am hynny, pan y daethym i beth oedran, myfi a yſtyriais, fal y gwnaeth dynion pwyllog eraill, a ellwni wellhâu fy nghyflwr.

Apol.

Apol. *Nid oes vn Tywyſog a gyll ei deiliaid cyn yſgafned a hyn: Ac myfi a wnaf fyngorau, nas collwyf innau o honot tithe. Eithr gan dy fod ti yn chwyn am dy waſanaeth a'th gyflog; ydd foddlon i fyned yn ôl, ac yr wyfi n addaw yma i roddi i ti ran, o'r pehau goreu y ſydd yn ein gwlâd ni.*

Criſ. Myfi a roddais fy hunan i fod n Waſanaethwr i *Frenin* y *Brenhinodd*, a pha fodd y gallafi gydag oneſtwydd dorri ag efe, i ddychwelyd gyda thi?

Apol. *Tydi a wnaethoſt yn hyn, yn ol y Ddihareb*, Newid Drwg am Waeth: *Eithr y mae 'n arferol, ir rhai ſy'n eu haddef eu hunain eu bod hwynthwy yn Weiſion iddo ef, ar ol ennyd fechan ei adel ef, a dychwelyd attafi: Gwna dithe felly, a bydd pob peth yn dda.*

Criſ. Myfi a roddais iddo ef fy Nghrèd, ac a dyngais y byddwn i vfydd iddo: A pha fodd y gallafi dynnu 'n ôl oddiwrth hyn, heb gael fy ngrhogi fal Bradwr?

Apol. *Tydi a wnaethoſt yr vn peth i minne; ac etto nis craffaf fi ar dy waith di yn gadel fy ngwaſanaeth i, os dychweli di yn awr dracheſn, a myned yn ôl.*

Criſ. Yr hyn a addewais i tydi oedd yn

yn fy ieuengctid ; ac heblaw hynny myfi a wn, y gall y Tywyſog, da faner yr hwn yr wi'n awr yn rhyfela fy rhyddhau i oddiwrth fy rhwymedi gaethau, ie a maddeu i mi hefyd fy 'ngwaith yn ymrwymo, i fod yn wâs i tydi. Ac i ddywedyd y gwir, * *O Apol-lyon*, gwell genifi ei waſanaeth, ei Gyflog, ei Weiſion, ei Lywodraeth, ei Gyfeillach, a'i Wlâd ef, nâ 'r eiddoti : Ac am hynny na themptia mo honofi mwyach i ddychwelyd i'th waſanaeth di ; canys ei Wâs ef wyfi, ac mi a'i canlynaf ef.

* *O Satan y Diniſtriydd.*

† *O Satan gelwyddog oni ddaeth Criſt o'r Nef i waredu ei weiſion oddi tan dyſeddiant di, a thrwy weinidogaeth ei Angelion, oni waredodd e hefyd rai (er nid pawb) o'i bobl, o'th garchara di, megis* Daniel, Petr, *&c.*

Apol. *Yſtyria dracheſn, pan byddi'n Bwyllog o* Griſtion, *pa beth yr wyti yn debig i gyfarfod ag ef yn y ffordd yr wyti yn myned. Dydi a wyddoſt, fod Gweiſion yr hwn yr wyt ti yn awr wedi ei gymeryd yn lle'th Arglwydd, gan mwyaf, yn dyfod i ddiwedd drwg, am eu bod nhwy yn fy ngwrthwynebu i a'm ffyrdd. Pa ſawl un o honynt hwy a roddwyd i farwolaeth gywilyddus ? A lle yr wyti 'n cyfrif ei waſanaeth ef yn well nâ 'r eiddo fi : Gwybydd hyn, † na ddaeth efe erioed etto o'r man y mae fo yntho, i waredu neb o'r rhai a'i gwaſanaetha-ſant ef o'm Dwylo i : Eithr amdanaſi; pa ſawl gwaith, fal y gŵyr y byd yn ddigon da, y gwaredais i, naill ai trwy nerth,*

rth, neu yntau trwy ddichell, y rhai m gwaſanaethaſant i yn ffyddlon, oddi- n ei ddwylo ef a'i eiddo, er iddynt eu l hwynt yn eu rhwydau; ac felly i'th waredaf dithe os mynni.

Criſ. Ei bwrpas ef, trwy beidio yn reſennol, a gwaredu rhai o'i bobl o'th rcharau a'th gadwynau di ydyw, er wyn cael prawf, a ydynt hwy yn ei aru ef, ac a lynant hwy wrtho ef hyd diwedd, *Dat.* 2. 10. Ac am y drwg dihenydd yr wyti yn dywedyd fod hai o honynt yn dyfod iddo, y mae ynny yn dra gogoneddus yn ei golwg wynt; canys nid ydynt hwy yn diſ- wyl nemmawr am warediad preſen- ol; oblegit eu bod yn aros am eu go- oniant; yr hwn a gânt hwy yn ddilys ſwynhau, pan ddelo eu Tywyſog n ei ogoniant gyda ei Angelion gogo- eddus. *Rhuf.* 8. 18. *Col.* 3. 4.

Apol. *Tydi a fuoſt anffyddlon eiſus n ei waſanaeth ef, a pha fodd yr wyti meddwl cael cyflog gantho ef?*

Criſ. Ym-mha beth (o *Apol-lyon*) y um i yn anffyddlon iddo ef?

Apol. *Tydi a wanhe-aiſt yn dy fyne- iad cyntaf allan, pan yr oeddyti ym- ron ſoddi yn y Llyngc-lyn o Anobaith. ydi a amcenaiſt trwy gau foddion, i nddilwytho oddiwrth dy faich, lle dy-*

laſiti

laſiti aros hyd oni buaſai ith Dywyſog gymmeryd ef ymmaith. Ti a gollaiſt * *dlyſſau mewn cwſc pechadurus. Ti fuoſt hefyd o fewn ychydig i ddychwel yn dy wrthol, wrth ganfod y Llew A phan yr wyti'n crybwyll ae yn llefa am dy Daith, a'r hyn a glywaiſt, ac welaiſti, y mae'th Ga'on di yn chwem chu gwâg-ogoniant, yn y cwbl yr wyti ei ddywedyd ac yn ei wneuthur.*

* *Pethau dewiſol.*

Criſ. Y mae hyn oll yn wir, a llaw mwy nag a adroddaiſti; ond y mae *Tywyſog*, yr hwn wyfi yn ei waſanaeth ac yn ei anrhydeddu, yn Drugarog, yn barod i faddeu gwendid ei bob Eithr cofia hyn (*o Gyhuddwr y brody* mai yn dy wlâd di y dyſcais i bechu, yno y ſugnais i bob Drwg i'm calon Ond o'r diwedd mi a riddfannais da lwyth fy mhechodau, gan fod yn ofyd o'i plegid hwynt, a'm *Tywyſog* a fad cuodd i mi 'r cwbl.

Apol. *Ar hyn y llefarodd* Apol-lyo *mewn cynddaredd* † *angerddol, gan da wedyd, yr wyſi 'n Elyn ir Tywyſog ym ac yr wi 'n cajháu ei Berſon, ei dded fau, a'i bobl ef: Ac myſi a ddaeth allan mewn llownfryd i'th wrthwynebu*

† *Poeth.*

Criſ. Apol-lyon, * *Synna pa beth wnelych, canys yr wyſi yn teithio ar br ffordd y Brenin, ſef yn y ffordd o ſanct*

* *Gwilia Gwachel.*

ddrwyd

ddrwydd, *ac am hynny edrych attad dy hunan.* Eſay 35. 8.

Apol. Yna y croes-gammodd *Apol-lyon* tros holl lèd y ffordd, ac a ddywedodd, nid oes arnaſi ofn yn y matter yma: Ymbarottoa i farw; canys mi a dyngais i'm † ffau vffernol, nad ai di † *Ogoſ.* ddim pellach; ac mi a fynnaf weled gwaed dy galon di yn y lle hwn; a chyda hynny efe a daflodd biccell danllyd tuagat ei ddwyfron ef: Ond yr oedd gan *Criſtion Darian yn ei law*, ac efe a amddiffynnodd ei hunan â honno, ac || *Nerthol.* * *Ceſſair.* † *Archo-llwyd.* * *Yn ei ddeall, trwy ei dynnu ef i ryw amryſyſteddau.* † *Yn ei ffydd, (yr hon fal llaw ſy'n dwyn Criſt) trwy ei gwanhau hi.* || *Yn ei ymarweddiad, trwy beri iddo lithro i bechod.* felly ſo a ymgadwodd rhag niwed y pryd hynny, *Eph.* 6. 16. Yna y tynnodd *Criſtion* ei gleddyf allan, canys yr oedd e yn ei gweled hi 'n bryd iddo edrych atto ei hunan; ac *Apol-lyon* ar frŷs a ymoſododd yn || lew yn erbyn ef eilchwaith, gan daflu piccellau cyn amled a'r * cenllyſg tuag atto ef: Ac a'r rhain, er cymmaint a allodd *Criſtion* ei wneuthur, i ymgadw rhagddynt, ſo'i † clwyfwyd ef gan *Apol-lyon*, * yn ei *Ben*, † yn ei *Law*, ac || yn eî *Droed*, yr hyn a wnaeth i *Criſtion* gefnu ychydig: Acam hynny fe a gwympodd *Apol-lyon* arno yn bybyrach neu 'n fwy nerthol: Eithr fe gymmerodd *Criſtion* galon drachefn, ac a'i gwrthwynebodd ef mor wrol ac a gallai. Yr ymladd toſt yma

yma a'barhaodd fwy nâ hanner diwrnod ic hyd onid oedd *Criſtion* ym mron deffygio; canys rhaid i chwi wybod ei fod ef, o achos ei glwyfau, yn myned wannach, wannach.

Apol-lyon ar hyn; wedi cael y fath achlyſſur, a ddaeth neſnes at *Criſtion*; a chan ymryſſon ag ef, a'i taflodd ef i lawr mewn modd echrydus, a chyda hynny y ſyrthiodd cleddyf *Criſtion* allan o'i law ef. Yna ebe *Apol-lyon*. *'r wi'n ſiwr o honoti yn awr*; A chan gwympo arno, efe a'i llethodd ef o fewn ychydig i farwolaeth, hyd oni ddechreuodd *Criſtion* * betruſo am ei fywyd. Eithr fal yr oedd Duw yn mynni; tra yr oedd *Apol-lyon* ar roddi ei ddyrnod diwethaf i lâdd ef, fe a eſtynnodd *Criſtion* ei Law allan † yn egniol, ac a ymaflodd yn ei *Gleddyf*, ac a ddywedodd, *Na lawenycha i'm herbyn O fy Ngelyn! Pan ſyrthiwyf mi a gyfodaf drachefn*, Mich. 7. 8. A chyda hynny efe a roddes frâth angheuol i *Apol-lyon*, yr hwn a wnaeth iddo gefnu, megis vn wedi derbyn ei * glwyf marwol. *Criſtion* wrth weled hynny, a fwrodd arno ef drachefn, gan ddywedyd; Nage, *yn y pethau hyn oll, yr ym ni yn fwy nâ* † *chwncwerwyr, trwy'r hwn a'n carodd ni*; Ac ar hynny *Apol-lyon* fel Draig a dannodd

* *Dowto.*

† *A'i boll grym.*

* *Archoll.*

† *Gorchfygwyr.*

danodd ei adenydd ar llêd, ac a fryſſiodd ymaith, fal na welodd *Criſtion* mo honaw mwyach. *Rhuf.* 8. 37. *Jaco.* 4. 7.

Yn yr ymdrech hwn, ni ddichon calon Dyn feddwl (oni buaſai iddo weled a chlywed fal y gwnaethym i) mor ofnadwy yr oedd *Apol-lyon*, trwy * gydol amſer yr ymdrech, yn bloeddio ac yn rhuo, gan lefaru fal *Draig*: Ac o'r tu arall, pa ochenеidiau a griddfannau oedd yn dyfod allan o galon *Criſtion*: Ni welais i mo honaw ef, trwy gydol yr amſer, yn edrych cymmaint ac vnwaith yn ſiriol, hyd oni wybu ef, iddo glwyfo *Apol-lyon* a'i Gleddyf dau-finiog, *Eph.* 6. 17. *Heb.* 4. 12. Ond gwedi || dirnad hynny, efe a wenodd ac a chwarddodd. * *Holl.* || *Deall.*

A chwedi gorphen yr ymdrech hyn, efe a ddywedodd, Myfi a ddiolchaf yn y lle yma, ir hwn a'm gwaredodd i o ſafn y *Llew*, ac a'm nerthodd i yn erbyn *Apol-lyon*: Ac ar hynny efe a ganodd fal hyn.

*Belzebub, Pen Tywyſog * hyll,*
Yr † anfad Ellyll yma,
(Am ei fod ar feddwl-fryd
|| Ddigyngyd i nifetha)
A'i gyrrai * y maes mewn † llurig gref;
Yntef yn gynddeirioccaf,

* *Oſnadwy.*
† *Trwg yſpryd.*
|| *Ddiymaros.*
* *Allan.*
† *Côt o ddûr.*

Mewn taullyd ac vffernol fodd,
A ‖ chwimwth ruthrodd arnaf.
Ond * *Michael, fendigedig* † *Borth,*
A ddaeth i'm cynnorthwyo:
Ac mi a'i gyrrais (*gwych yw'r wedd*)
A mîn y Clêdd i gilio.
Am hynny bid i mi roi Mawl,
A diolch bythawl iddo,
A bendithio † â llafar lêf
Ei enw ef heb beidio.

‖ *Yn gyfflym.*
* *Criſt.*
† *Helpwr.*
† *Ag vchel,*

Wedi hynny daeth atto ef Law gan ddwyn iddo rai o * ddail Pren y Bywyd: A *Chriſtion* a'u cymmerodd, ac a'u rhoddodd wrth y clwyfau, a gawſai ſo yn yr ymladdfa; ac efe a iachawyd yn ebrwydd, *Dat.* 22. 2. Ac efe a eiſteddodd yno hefyd, i ſwyta Bara, ac i yfed o'r Goſtrel, a roddaſid iddo ychydig o'r blaen: Felly wedi ymadfywio, efe a ymdaclodd i fyned ymmlaen, gan ddwyn ei Gleddyf noeth yn ei Law; canys eb efe, ni wn i nad oes rhyw Elyn arall ger llaw: Eithr ni ruthrodd *Apol-lyon* mwyach arno, trwy 'r holl Ddyffryn yma.

* *Rhinweddau bywiolhatddedigaethau ac Yſpryd Criſt.*

Yn awr * ynghwrr y Dyffryn hwn, yr oedd Dyffryn arall a elwid Dyffryn Cyſcod Angau, ac yr oedd yn rhaid i Griſtion fyned trwyddo, am fod y ffordd ir Ddinas nefol yn myned trwy ei ganol ef. Eithr Lle anghyfanedd

* *Yn ynyl.*

iawn

iawn ydyw 'r Lle hwn, megis yr Anialwch yr aeth yr Iſraeliaid gynt trwyddo, *Jer.* 2. 6. Yn awr hi a ſu gwaeth ar *Griſtion* yn y dyffryn yma nag yn ei ymdrech ag *Apol-lyon.*

Yna mi a welwn, wedi i *Griſtion* ddyſod i Gyffiniau Dyffryn Cyſcod Angeu, ddau wr yn cyfarfod ag ef, Meibion ir rhai a roeſant anglod gynt am wlâd *Canaan*, yn bryſſio i fyned yn ôl, *Num.* 13. 32. wrth y rhai y llefarodd *Griſtion* fal hyn.

Criſ. *I ba le yr ydych chwi yn myned?*

Gwyr. Hwythau a attebaſant, *yn ôl, yn ôl*, ac nyni a fynem i chwithau hefyd wneuthur felly, os yw 'ch einioes na 'ch heddwch yn werthfawr gennych.

Criſ. *Pa beth yw'r matter ebe* Criſtion?

Gwyr. Matter ebe nhwy, yr oeddem ni yn myned fal yr ydych chwithau ar hyd y ffordd yma; ac ni a aethom * mor belled ac y meiddiem: Ac yn wir, pe buaſem yn myned ychydig ym-mhellach, ni allaſem ni byth ddyſod yn ol, ac ni chlywſit ti byth y newyddion yma allan o'n geneuau ni.

* *Cyn.*

Criſ. *Eithr pa beth a welſoch ac y glywſoch chwi ebe* Criſtion?

Gwyr. Nyni a welsom Ddyffryn cyscod Angeu; canys ni a ddaethom o fewn ychydig iddo, ac ir enbydrwydd
† *Hap.* sydd yntho: Eithr trwy † ddamwain da, Nyni a edrychasom o'n blaen, ac a ganfuom y perygl cyn dyfod iddo, *Psal.* 23. 4. *Psal.* 107. 18. Y mae 'r
‖ *Dyffryn.* ‖ Glynn cyn dywylled a'r Pŷg: Nyni
* *Tywyddion drwg.* a welsom yno * Ellyllon a Dreigiau y pwll vffernol: Ac a glywson vdo a chwynofain dibaid yn dyfod o'r Dyffryn hwnnw, megis oddiwrth Ddynion yn gorwedd yn rhwym yno, mewn Heirn a thrueni annrhaethadwy. Ac y mae cymylau tew iawn, y rhai a allant daro dychryn mewn pobl, yn crogi vwch benn y Glynn ymma, ac y mae Angeu hefyd yn lledu ei adenydd trosto ef yn wastadol: Ac i fod yn fyrr, y mae pob
† *Iw ofni.* mymryn o honaw † iw arswydo, gan
* *Afluniaidd. A meer Chaos* ei fod e yn gwbl yn * wrthyn ac yn hagr.

Cris. *Er hyn i gîd ebe* Criſtion, *dymma fy ffordd i tua 'r porthladd dymunol.*

Gwyr. Bydded hi 'n ffordd i tydi, ni ddewiswn ni mo honi yn ffordd i nyni: Felly hwy a ymadawsant: A
* *Ymlaen.* *Chriſtion* a aeth * rhagddo, ond yn wastadol â'i Gleddyf noeth yn ei law, rhag ofn i neb rythro arno.

Wedi hynny *Mi a welais yn fy mreuddwyd,*

ddwyd, ſod ffôs ddwfn iawn ar yr holl yſtlys ddehau ir Dyffryn hwn, ac ir ffôs hon y bu 'r Dâll yn † tywys y Dall ym-mhob oes: Ac ynthi hi y darfu am y ddau mewn modd echrydus, *Mat.* 15. 14. A thracheſn, Wele ar yr ochr aſſwy yr oedd Cors beryglus iawn, ie ir hon os ſyrthiai Gwr da, ni chai e vn gwaelod caled ynthi, iw draed ſefyll arno. Ir Gors honno y ſyrthiodd y *Brenin Dafydd* vnwaith; ac yn ddiammeu ſe ddarfuaſai am dano ef yno, oni buaſai ir hwn ſydd Alluog ei dynnu ef ir Lann. *Pſal.* 69 2. 14. † *Arwain.*

Yr oedd y llwybr hefyd yn y Dyffryn hwn yn gyfyng iawn, ac am hynny y bu hi yn dra chaled ar *Griſtion* yn y lle ymma; oblegit pan y ceiſiai efe yn y tywyllwch ochelyd y ffôs ar y naill law, ſe a fyddai 'n barod i ſyrthio droſodd ir * llaid ar y llaw arall: A phan y ceiſiai efe hefyd ymgadw rhag y llaid, oni byddai ſo yn dra gofalus, efe a fyddai yn barod iawn i ſyrthio ir ffôs. Ac fal hyn yr oedd e'n myned ym-mlaen; ac mi a'i clywais ef yma yn ochneidio yn doſt: Canys heblaw y perygl a grybwyllwyd am dano vchod, yr oedd y llwybr mor dywyll, fal na wyddai ſo yn fynych, pan y codai ſo ei droed i fyned ym-mlaen, ym mha * *Clai.*

le, nac ar ba beth y gosodei efe hi nessaf.

Heblaw hyn, yr oedd safn vffern ynghanol y Dyffryn hwn, ac yr oedd hi hefyd yn agosiawn at sîn y ffordd; a phan y gwybu *Cristion* hynny, efe a ddywedodd, Pa beth a wnafi 'n awr? Ac yr oedd y fflam a'r mwg, a'r Gwrychion, ynghyd a lleisiau * irad ac erchyll yn dyfod allan yn dra mynych, ac yn aml iawn oddi-yno. Ac oblegit nad allai *Cristion* á'i gleddyf wneuthur niweid ir pethau hyn, fal y gwnaethai o'r blaen i *Apol-lyon*, efe a'i dododd e yn ei wain; ac a gymmerodd Arf arall yn ei law, a elwid, *Pob rhyw weddi*, Eph. 6. 18. Ac mi a'i clywn ef yn gweddio, Attolwg *Arglwydd gwared fy enaid*, Psal. 116. 4. Ac er myned o honaw rhagddo yn * llyn dros gryn ennyd, etto yr oedd y fflam yn ymgyrchu tuag atto ef yn wastadol; Ae efe a glywai hefyd leisiau cywnfanus, a thrwst mawr yma a thraw, megis pettaisai rhai yn nessau tuag atto, a hynny dros amryw filltiroedd: A'r olwg echrydus a'r lleisiau ofnadwy yma, a wnaeth iddo ofni, y cai ef ei † larpio yn ddrylliau, neu ei sathru fal dom yn yr heolydd. Ac wedi dyfod i Fann, lle y tybygasai efe, ei fod yn clywed bagad

* *Cwyrfanus ac ofnadwy.*

* *Fal hyn.*

† *Rhwygo,*

bagad o || ellyllon yn dyfod ym-mlaen iw gyfarfod ef, efe a fafodd, ac a ddechreuodd feddwl, pa beth oedd oreu iddo wneuthur. Weithiau yr oedd yn ei fryd ef i droi 'n ol; wedi hynny efe a yſtyriodd, ei fod ef gwedi dyfod ynghylch hanner y ffordd trwy 'r Dyffryn; ac yn ddiweddaf efe a feddyliodd ddarfod iddo eiſus orchfygu llawer o beryglon; ac y gallai yr * enbydrwydd o fyned yn ol fod yn fwy o lawer nag o fyned ym-mlaen; ac ar hynny efe a ymrôdd i fyned rhagddo. Eithr yr oedd yr yſprydion drwg yn dyfod nes-nes, a phan y daethant o fewn y-chydigyn o ffordd atto, efe a waeddodd â llêf vchel iawn, gan ddywedyd; *Myfi a rodiaf yn nerth yr Arglwydd Dduw*; a chyda hynny hwy a droeſant eu cefnau, ac ni ddaethant ym-mhellach.

|| *Yſprydion drwg.*

* *Perygl.*

Fe ddigwyddodd vn peth i *Griſtion*, nad allafi adel heibio heb ei adrodd. Mi a ddeliais ſulw, ei fod e druan Gwr, trwy y gorthrymderau hyn, megis vn yn agos a gwallgofi, oblegit nid adwaenai efe mo'i leferydd ei hun; ac fal hyn y gwybum i hynny: Hwyn gyntaf ac y daeth ef drofodd † yng-hyfeiryd ſafn y llyn, y ſydd yn lloſci a thân a brwmſtan, ſe ddaeth vn o'r yſ-

† *Gyferbyn*

* *Tu hwnt ei gefn ef.* || *Wrthiodd.* prydion drwg * y tu cefn iddo, ac a neſſaodd atto yn araf, ac a || hyrddodd lawer o gableddau blin iw enaid ef, y rhai y dybygaſai *Criſtion*, mai allan o'i galon ei hun yr oeddent hwy yn dyfod. A gwaſgodd hyn arno ef yn fwy mà dim arall, ar a ddigwyddodd iddo o'r blaen, ſef, i feddwl, iddo ef yn awr gablu yr hwn, yr oedd efe yn ei fawr garu yn yr amſer cynt: Etto yr oedd e 'n yſtyried, pe gallaſai efe beidio, ni wnaethaſai fo mo hynny; ond nid oedd gantho fe mo'r doethineb yn * *Gwybod.* awr, nac i gau ei gluſtiau, nac i * ddirnad o ba le yr oedd y cableddau hynny yn † deilliaw.

† *Dyfod.* || *Tros beth amſer.* Wedi i *Griſtion* ymdeithio || cryn ennyd yn y cyflwr anghyfurus hwn, efe a glywodd lyferydd rhyw wr, yr hwn oedd yn myned o'i flaen ef, yn dywedyd fal hyn, *Pe rhodiwn ar hŷd glynn cyſcod Angeu, nid ofnaf niwed, canys yr wyt ti gyda mi.* Pſal. 23. 4. Yna efe a gymmerodd galon a chyſſur; a hynny o herwydd y rheſymmau a ganlynant.

Yn Gyntaf, *Am ei fod ef yn caſclu oddiwrth hynny, fod rhai, ar a oeddynt yn ofni Duw, yn ymdeithio yn y Dyffryn hwn yn gyſtal ac efe i hun.*

Yn Ail, *Am ei fod e 'n deall, fod*

Duw

Duw gyda hwynt (er ei bod nhwy mewn tywyllwch, a chyflwr anghyffurus tros yr amser presennol:) ac onid yw efe gyda minnau hefyd ebe Cristion, *er nad wyfi yn ei weled ef, o achos y rhwyftrau fy ynglŷn wrth y Lle yma?* Job 9. 11.

Yn Drydydd, *Am ei fod yn gobeithio (os gallai fo ei gorddiwes hwy) y cai e gyfeillion ym-mhen ennyd. Felly efe a aeth* * *rhagddo, ac a alwodd ar yr hwn oedd yn myned o'i flaen ef; ond ni wyddai hwnnw pa beth a attebai, am ei fod yn reu hefyd yn tybied ei fod ef wrtho ei hun. A gwawriodd y Dydd ym mhen ychydig* * *gwedyn: Yna y dywedodd* Cristion, *Duw a drôdd gyfcod Angeu yn foreu-ddydd.* Am. 5. 8.

* *Ym-mlaen.*

* *Ar ol hynny.*

A phan ddaeth y Borau, efe a edrychodd yn ei ol; eithr nid o chwant dychwelyd, ond i weled wrth liw Ddydd y peryglon yr aethai efe trwyddynt yn y tywyllwch: Ac wele fo a ganfu 'n eglurach y ffôs oedd ar y naill law, a'r Gors oedd ar y llaw arall; ac hefyd gyfynged oedd y ffordd, yr honfydd yn arwain rhyngthynt trwy 'r Dyffryn: Efe a welodd hefyd yn awr yr yfprydion drwg a dreigiau 'r pwll di-waelod, eithr oll o hirbell; canys ni ddeuent hwy 'n agos gwedi ir Dydd wawrio; etto hwy a amlygwydd iddo

ef, yn ol yr hyn a ſcrifennwyd, *Duw ſy'n datcuddio pethau dyfnion allan o dywyllwch, ac yn dwyn cyſcod Angeu allan i oleuni.* Job 12. 22.

Yn awr yr oedd yn hôff gan *Griſtion* gael o honaw ei waredu oddiwrth holl beryglon ei ffordd * anial; y rhai peryglon, er ei fod yn eu hofni yn fwy o'r blaen, etto yr oedd efe yn eu gweled hwy yn eglurach yn awr, am fod goleuni y Dydd yn eu gwneuthur hwy yn amlwg iddo. Ac ynghylch y pryd hyn y codaſai yr Haul; ac yr oedd hynny yn drugaredd arall i *Griſtion*: Canys rhaid i chwi wybod, mai er bod y rhan gyntaf o Ddyffryn cyſcod Angeu yn enbyd; etto yr oedd yr ail rhan, ir hon yr oedd efe yn myned yn awr (pettai boſſibl) yn enbeittach o lawer; canys o'r man yr oedd efe yn ſefyll arno † yr-wan, hyd at gwrr eithaf y dyffryn, yr oedd yr holl ffordd cyn llawned (mewn rhyw leoedd) o ſaglau, o gynllwynion i dwyllo, ac o rwydau (ac mewn lleoedd eraill) cyn llawned o Byllau a thyllau dyfnion, ac o ſannau yn pwyſo tuag i wared, mal ped fuaſai hi yn dywyll yn awr, megis yr oedd hi pan y dacth e y rhan gyntaf o'r ffordd, pettaiſai gantho ſil o Eneidiau (yng-olwg rheſwm) fo'i collaſai

* *Anghyfawnedd.*

† *Yr awr.*

ſai nhwy cymmain vn. Ond yr oedd yr Haul (megis y dywedais i) yn awr yn codi : Yna y dywedodd *Criſtion*, *Duw a wnaeth iw oleuni lewyrchu ar fy mhen, wrth oleuni yr hwn yr aethym trwy dywyllwch*, Job 29. 3. Ac wrth y goleuni hwn y daeth efe i gwrr eithaf y Dyffryn.

Wedi hynny mi a welais yn fy mreuddwyd, ac wele yn y mann eithaf o'r Dyffryn ymma, yr oedd Gwaed, Eſcyrn, Lludw, ac aelodau cyrph rhyw Ddynion, ie Pererinion (y rhai a aethant y ffordd ymma gynt) yn gorwedd ar wyneb y ddaiar : A thra yr oeddwn i yn meddwl pa beth a allai fod yr achos o hyn, myfi a ganfum ogof ychydig o'm blaen, lle y buaſai *Dau Gawr* yn trigo yn yr hên amſer, trwy awdurdod a chreulondeb pa rai, y rhoddwyd y Dynion hynny i farwolaeth boenfawr. Eithr *Criſtion* a aeth heibio ir lle hwn heb fawr o berygl, yr hyn a fu yn lled-ryfedd gennifi : Eithr myfi a wybum wedi hynny, fod vn o'r Cewri, ſef, * *Pagan* wedi marw er || ys talm : Ac am y llall, ſef, *Mâb y gollediga eth*, er ei fod ef etto 'n fyw, y mae efe er hynny, o achos ei henaint, a'r amryw friwiau diriaid, y gafodd efe o bryd i bryd, mor † gymhercyn, ac

* *Vn nad yw yn proffeſſu y grefydd griſtian ogawl.*

|| *Ys llawer dydd.*

† *Clafyc. a*

ac mor anyſtwyth yn ei gymmhalau, fal na ddichon efe yr awr on wneuthur nemmawr gydag eiſtedd yng-enau ei ogof, gan chwrnu ar y Pererinion a ſyddo yn myned heibio, a chnoi ei ewinedd, am nad yw ef yn gallu dyfod attynt hwy, 2 *Theſſ.* 2. 3.

Yná mi a welwn *Griſtion* yn myned ar hyd ei ffordd; etto wrth ganfod yr hèn wr oedd yn eiſtedd yng-enau 'r Ogof, Ni wyddai ſo pa beth i dybied, yn enwedig am ei fod yn llefaru wrtho (er na allei ddyfod ar ei ol ef) gan ddywedyd, *Ni pheidiwch chwi byth, ac ni wellewchi, hyd oni loſcir* * *rhagor o honoch*: Eithr efe a dawodd a ſon, ac a edrychodd arno ef ag wynebpryd gwrol; ac felly efe a aeth heibio, ac ni chafodd ddim niwed oddiwrtho. Yna y canodd *Criſtion* fal hyn,

Ni allaf ddywedyd llai o'm genau,
Nad cryn-ſyd o ryfeddodau,
Oedd fy achub, a'm gwaredu,
Trwy r gofydiau a'm cyfarfu.
Tra fùm yn y Dyffryn ymma,
* Trwch dywyllwch o'r enbeitta,
Diawlaid, Vffern, Pechod † gwrthyn,
A'm cylchynnai bob * mynydyn.
Pyllau, Rhwydau a Chroglathau,
Oedd yn llawn || *o-bob-tu 'm llwybrau*;

* *Lawtro-edd mwy.*
† *Nad peth mawr*
* *Anafus.*
† *An-hardd.*
* *Rhan o'r awr.*
|| *Oddi amgylch.*

Ys

Ys truan * *mulaidd! fe allaſyd,* * *Cywilyddgar.*
Dal a maglu f'enaid hefyd.
O! bendigaid byth heb derſyn,
A ſo 'r llaw a'm cadwodd rhagddyn:
A chan ſy môd yn ſyw yr awr 'on,
Bid ir *Ieſu* † wiſco 'r Goron. † *Gael y ciôd.*

Ac ſal yr oedd *Criſtion* yn myned * rhagddo, efe a ddaeth i eſcynſa fechan; yr hon a godaſid ir diben hyn, fal y gallei Bererinion ganfod o'i blaen; a wedi dyfod i ſynu yno, ac edrych rhagddo, efe a ganfu *Ffyddlon* o'i flaen ef ar ei daith. Yna *Criſtion* a waeddodd â llêf vchel, *Hai, Hai, Hai-how*, aroſwch, a myfi a ſyddaf Gydymaith i chwi. Ar hynny *Ffyddlon* a edrychodd yn ei ol, a gwaeddodd *Criſtion* arno ef drachefn, gan ddywedyd, *Aroſwch, Aroſwch*, hyd oni ddelwyf i ſynu attoch: Ond *Ffyddlon* a attebodd, *Na wnaf*, yr wyfi 'n rhedeg am fy mywyd, ac y mae *Dialydd* y gwaed yn fy nilyn i. A *Chriſtion* a gyffrowyd ychydig ar hyn; a chan * ymegnio â'i holl nerth, efe a oddiweddodd *Ffyddlon* yn ebrwydd, ac a redodd hefyd yn gynt nag ef, *felly yr olaf a fu flaenaf.* Yna y chwarddodd *Criſtion* yn wag-ogoneddgar, oblegid iddo gael y blaen ar ei Frawd: Eithr heb wilio 'n dda ar ei draed, efe a dramcwyddodd yn ddiſymmwth

* *Ymlam.*

* *Ymorcheſtu.*

ſymmwth ac a ſyrthiodd, ac nis gallei gyfodi drachefn, hyd oni ddaeth *Ffyddlon* i fynu iw gynnorthwyo ef.

Yna mi a'u gwelwn hwy 'n myned ynghyd yn garedig iawn, gan ymddiddan yn hyfryd a'i gilydd am yr holl bethau, a ddigwyddaſai iddynt yn eu Pererindod: A *Chriſtion* a ddechreuodd yn *llyn.

* *Fal hyn.*

Criſ. *Fy anwyl Frawd* Ffyddlon, *y mae 'n llawen gennif, i mi 'ch goddiweddyd chwi, ac fod Duw wedi gydtymheru ein Hyſprydoedd ni yn y fath fodd, fal y gallom rodio ynghyd megis Cymdeithion, yn y llwybr yma yr hwn ſydd mor hyſryd.*

Fyddlon, Gyfaill anwyl, myfi a obeithiais gael eich cymdeithas chwi o'n tref ni o hŷd; eithr chychwi a gawſoch y blaen arnafi; ac am hynny fe orfu i mi ddyfod hyd ymma wrthif fy hunan.

Criſ. *Pa hyd yr aroſaſoch chwi yn* Ninas Deſtryw, *cyn i chwi ddyfod allan ar fy ol i ar eich Pererindod.*

Ffydd. Hyd nad allwn i aros dim yn hwy, canys yr oedd yno Sôn mawr, yn y man gwedi i chwi ymadael â ni, y byddai i'n Dinas ni, ar fyrder gael lloſci â thân o'r Nefoedd hyd y llawr.

Criſ. *A oedd eich Cymydogion chwi*

yn

yn ſiarad felly? Ac a ddaeth neb o honynt hwy allan o'r Ddinas ond chychwi, i ddiangc rhag y pcrygl ymma?

Ffydd. Er bod yno, ac oddi-amgylch mewn lleoedd eraill ſôn mawr, y difethyd ein *Dinas ni* â thân a Brwmſtan oddi vchod; etto nid wyfi 'n tybied, bod ein Dinaſyddion ni yn coelio hynny yn * ddiymmod; canys myfi a glywais rai o honynt (pan yr oeddit yn ſiarad fwyaf am y matter hwn) yn dywedyd yn watwarus amdanochi a'ch taith rhyfygus (canys felly y galwaſant hwy eich pererindod chwi) eithr yr oeddwn i, ac yr wyfi fyth yn credu, mai felly y difethir ein Dinas ni; ac am hynny myfi a ddihangais allan o honi. * *Ddiſigl.*

Criſ. *A glywſochi ddim ſôn am ſy nghymydog* Meddal? *ac os do, pa fodd yr oedd pobl yn ymddwyn eu hunain tuag atto ef?*

Ffy. Myfi a glywais iddo ef eich canlyn chwi, hyd oni ddaeth e i Gors anobaith, yn yr hon y ſyrthiodd efe, (meddai rhai) ond ni fynnai ſo i neb wybod hynny; ond myfi a wn ei fod ef wedi ei ddifwyno yn ddirfawr â dom y gors honno. A chwedi iddo ddychwelyd yn ol, y mae pob math o bobl yn ei watwor ac yn ei ddirmygu ef; a phrin y geſyd neb ef ar waith,

ac

ac y mae fo 'nawr yn ſaith gwaeth nag y bu e erioed o'r blaen.

Criſ. *Eithr pa ham y maent hwy wedi ymoſod yn ei erbyn ef felly, gan eu bod hwythau heſyd yn dibriſio 'r ffordd y trôdd efe oddi arni?*

Ffy. Ow meddant hwy! Crogwch e, Crogwch e, † *Turn-coat* yw e: Ni bu e gywir iw broffeſs: Ie yr wi 'n tybied, fod Gelynion Duw wedi eu goſod ar waith iw * hwttio ef, ac i wneuthur e 'n Ddihareb, am iddo gilio allan o'i ffordd a dychwelyd yn ol i *Ddinas Deſtryw*, Jer. 29. 18, 19.

† *Dyn anwadal.*

* *To hiſs at him, i chwibana am ei ben ef.*

Criſ. *A fu dim ymddiddan rhyngochi ag ef cyn eich dy'od oddi cartref?*

Ffy. Myfi a gyfarfum ag ef vn waith yn yr heol, eithr efe a giliodd ymaith i yſtlys arall yr † yſtryt, fal vn â chywilydd arno am yr hyn a wnaethai; felly nid yngenais i air wrtho.

† *Heol.*

Criſ. *Pan y dechreuais i ſy nhaith, yr oeddwn yn gobeithio 'n dda am y gwr hwnnw; ond yn awr yr wi 'n ofni y derſydd am dano ef yn neſtryw y Ddinas; (yr wyf inne yn ofni hynny ebe ffyddlon, eithr pwy a all rwyſtro yr hyn a fydd?)* Canys digwyddodd iddo ef yn ôl y wir Ddihareb, *Y Ci a ymchwelodd at ei chwdiad ei hun, a'r Hwch wedi ei golchi iw hymdreiglfa yn y dom.* 2 Pet. 2. 22.

2. 22. *Eithr Gymydog* ffyddlon *ebe* Criſtion, *gan adel* Meddal, *Siaradwn am y matterion a berthyn i ni ein hunain yn fwy* † *digyfrwng. Mynegwch i mi gan hynny, pa bethau a ddigwyddaſant i chwi ar y ffordd wrth ddyfod; canys myfi a wn i chwi gyfarfod â rhyw ddrygau; os amgen, gellir ſcrifennu hynny yn lle rhyfeddod.*

† *Immediatly.*

Ffy. Myfi a ymgedwais rhag y Gors, ir hon y fyrthiaſoch chwi iddi, ac a ddaethym i fynu ir Porth, heb gael prawf o'r perygl hwnnw: Eithr myfi a gyfarfum ag vn a elwid * *Drythyll*, yr hon a fu debyg i wneuthur i mi niwed.

* *Anllad, VVantan.*

Criſ. *Da a fu i chwi ddiangc rhag ei rhwyd hi: Y fath vn a honno a fu caled iawn i* Joſeph, *ond ynte a ddihangodd rhagddi, er y bu agos iddo ef a cholli ei fywyd o'i phlegid hi*, Gen. 39. *Eithr pa beth a wnaeth hi i chwi?*

Ffy. Chwi a ryfeddech (oni bai 'ch bod chwi 'n gwybod rhyw beth) pa fath dafod gwenieithus oedd gan † y *Faiden*: Hi a fu caled wrthyf am * wŷro gyda hi, gan addaw i mi bob math o fodlonrhwydd cnawdol, ond nid y bodlonrhwydd y fy 'n tarddu allan o gydwybod dda.

† *Y beth front.*
* *Trei oddiar y ffordd.*

Criſ. *Diolchwch i Ddaw a'ch cadwodd*

wodd chwi rhagddi : Y neb y byddo'r Arglwydd yn ddig wrtho, a ſyrth yn y ffôs honno. Dihar. 22. 14.

Ffy. Nage, ni wn i pa vn a wnaethum i a'i diangc yn gwbl oddiwrthi a'i peidio.

Criſ. *Ow ! Yr wi 'n gobeithio na roddaſoch chwi lê iw ‡ themptaſiwnau hi ?*

‖ *Profedigaethau.*

Ffy. Na ddo i halogi fy hun yn gorphorol gyda hi, canys yr oeddwn yn cofio hèn yſcrifen a welſwn i, yr hon oedd yn dywedyd, *ei thraed hi a ddeſcynnant i Angeu, a'i cherddediad a ſang vffern*, Dihar. 5. 5. Am hynny mi a gauais fy llygaid, rhag ofn cael fy * witſhio gan ei golygon hi, *Job* 31. 1. Yna hi a'm difenwodd i, a minne a aethym i'm ffordd.

* *Llygadtynnu.*

Criſ. *A gyfarfuoch chwi ag vn brofedigaeth arall wrth ddyfod tuag yma ?*

Ffy. Wedi i mi ddyfod i odrau y Bryn a elwid *Anhawſdra*, Myfi a gyfarfum â Gwr oedrannus iawn, yr hwn a ofynnodd i mi, *Pwy 'n oeddwn i, ac i ba le yr oeddwn yn myned ?* A minne a'i hattebais ef, Mai *Pererin* oeddwn i, yn myned tua 'r Ddinas nefol : Yna ebr hèn wr, *yr wyti 'n edrych fal Dyn oneſt ; a fyddi di foddlon i aros gyda mi ; os gwnei di felly, mi a roddaf i*

ti

ti gyflog. Yna mi a ofynnais iddo ei enw, a pha le yr oedd e 'n trigo? Yntef a'm hattebodd i, mai ei enw ef oedd † *Adda y cyntaf*, a'i fod ef yn preſwylio ‖ yn y *Dref* a elwir *Twyll*, *Eph.* 4. 22. *Jer.* 17. 9. Wedi hynny mi a ofynnais iddo, pa beth oedd ei waith ef, a pha gyflog a roddai fo? Yntef a'm hattebodd i, *mai hela am olud, ac am feluſwedd buchedd, ac am bob math o bethau hyfryd a ddichon gyflawni trachwantau 'r cnawd*, oedd ei waith ef, ac yn lle cyflog y cawn i fod yn ctifedd iddo yn y diwedd. Mi a ofynnais iddo ym-mhellach, Pa fath Dŷ yr oedd efe yn ei gadw, a Pha weiſion eraill oedd gantho ef? Ac fo 'm hattebodd i, *fod yn ei Dŷ ef holl ddainteithion y Byd hwn, ac mai y rhai a genhedlaiſei fo ei hun oedd ei weiſion ef.* Yna mi a ofynnais pa ſawl vn o blant oedd gantho? A dyweddod yntef wrthyf, nad oedd gantho ond tair o ferched, ſef, *Chwant* †† *y cnawd*, *Chwant* * *y llygaid*, *a* ‖ *Balchder y Bywyd*, ac y cawn i eu priodi nhwy ill tair os mynnwn, 1 *Joan.* 2. 16. Yna mi a ofynnais iddo. pa hyd y mynnai fo i mi fyw gydag ef? A fe 'm hattebodd i, *cyhyd o amſer ac y byddai fo byw ei hun.*

Wedi clywed hyn, yr oeddwn i ar y

† *Nattur lygredig.*

‖ *Yn y galon dwyllodrus.*

† *Yn ol pleſſerau.*

* *Yn ol cyfoeth.*

‖ *Chwant yn ol ſwyddau a gogoniant daiarol, yr hyn ſydd yn gwneuthur Dynion yn falch.*

y cyntaf yn gogwyddo peth i fyned gyda 'r hên wr, canys yr oedd efe yn dywedyd yn dèg iawn ; ond wrth edrych yn ei dalcen ef, mi a welwn yno yn ſcrifennedig, *Dôd heibio yr hên Ddyn a'i weithredoedd*, Eph. 4, 22. Rhuf. 13. 12.

Yna yr oedd hyn yn rhedeg yn fy meddwl (er tecced oedd ei ciriau ef) y gwerthe ſo myfi yn lle caeth-wâs, os awn iw Dŷ ef i * gyfaneddu : Ac am hynny mi a archais iddo dewi a ſôn, oblegid na ddeuwn i yn agos i Ddrws ei Dŷ ef. A'r hynny ſo 'm difenwodd i, ac a ddywedodd wrthyf, y danfonai efe y cyfryw vn ar fy ol, ac a wnai fy ffordd yn chwerw i'm Henaid i. Yna mi a droais i ymadel ag ef † eithr hwyn gyntaf ac yr ymdroeſym i fyned oddi-yno, mi a'i clywn ef yn ymaflyd ynofi, ac yn rhoddi i mi y fath dynnfa creulon, mewn amcan i'm tynnu 'n ol, hyd oni thybiais iddo gippio ymaith ran o'm cnawd i : A gwnaeth hyn i mi waeddu allan, *Yſ truan o Ddyn wyfi!* Rhuf. 7. 24. Ac ar ol hynny mi a aethym ar hyd fy ffordd tua phen y Bryn ; a chwedi i mi fyned ynghylch hanner y ffordd y fynu, mi a edrychais drach yng-hefn, ac y welwn vn yn dyfod ar fy ol i † yn chwimmwth fal y gwynt ;

* *Drigo.*

† *Yr mae 'r hên natſur lygredig yn goſod yn arw weithie ar y duwiolaf.*

† *Yn gyflym. yn ſuan.*

gwynt; ac ſo 'm goddiweddodd i yn gymmwys, ynghylch y man lle yr oedd llwyn wedi blannu: A chyn gynted ac y darfu iddo fy ngorddiwes i, *nid oedd ei driniaeth ef â'm fi ond gair a dyrnod*; canys ſo 'm curodd i lawr, ac a'm goſododdd i orwedd ar y ddaiar fal Dyn marw: Ond pan ddaethym i ychydig attaf fy hun drachefn, mi a ofynnais iddo, pa ham y gwnaethai ſo felly â mi? Yntef a ddywedodd, o achos fy ngogwyddiad dirgel i || at yr *Adda cyntaf*; a chyda hynny efe a roddodd i mi ddyrnod angheuol arall ar fy nwyfron, ac am bwriodd i lawr ar fy nghefn: Felly mi a orweddais i lawr wrth ei draed ef fal Dyn marw, megis o'r blaen: A phan adfywiais i eilchwaith, mi a leſais arno am drugaredd: Eithr ſo 'm hattebodd i, nas medrai ſo ddangos trugaredd, ac ar hynny efe a'm curodd i lawr drachefn: Ac yn ddiammau ſo 'm lladdaſai i, oni buaſai i vn ddyſod heibio, ac erchi iddo beidio.

|| *I wrando ar brofedigaethau 'r cnawd neu natur lygredig.*

Criſ. *Fwy oedd yr hwn a archodd iddo ef beidio?*

Ffy. Ni adwaenwn i mo honaw ef ar y cyntaf, ond pan yr aethym heibio iddo, mi a ganfûm dyllau yn ei ddwylo ac yn ei yſtlys ef: Yna mi a wybûm mai 'n Harglwydd ni ydoedd efe.

Felly

Felly mi a aethym i ben y Bryn.

Y mae'r Gyfraith yn taro pobl i lawr â'i hargyhoeddiadau, ac a'i bwgythion.

Cris. *Y Gwr hwnnw a'ch goddiweddodd chwi oedd* Moses : *Nid yw efe yn arbed neb ; ac ni feidr efe ddangos trugaredd ir rhai a drosseddant ei gyfraith ef.*

Ffy. Mi a'i hadwaen ef yn ddigon da ; nid y pryd hynny y cyfarfu ef â mi gyntaf : Efe oedd yr hwn a ddaeth attafi, pan yr oeddwn yn trigo 'n ddiofal gartref, ac a ddywedodd wrthyf, * y lloscai fo fy nhŷ am fy mhen os aroswn yno.

**Nid oes dim ond damnedigaeth i ni ddisgwyl am dano am drosseddu cyfraith* Foesen, *nis cael maddeuant pechodau tywy* Iesu Grist.

Cris. *Eithr oni welsochi y Tŷ oedd ar Ben y bryn, yn agos ir Lle yn yr hwn y cyfarfu* Moses *â chwi* ?

Ffy. Do, a'r Llewod hefyd ; ond i'm tŷb i yr oeddent hwy 'n cyscu ; canys ynghylch hanner dydd ydoedd hi : Ac am fod gennif gymaint o'r Dydd o'm blaen, Mi a aethym heibio ir Porthor, ac a ddaethym i wared o'r Bryn.

Cris. *Ond Attolwg, a gyfarfuochi â neb yn Nyffryn Darostyngiad* ?

Ffy. Do, Mi a gyfarfûm â Gwr a elwir *Anfodlonrwydd*, yr hwn a fynnai fy mherswadio i, i ddychwelyd yn ôl drachefn gydag ef, am y rheswm hyn-

ses

ſef, oblegit nad oedd dim *Anrhydedd* iw gael yn y Dyffryn hwnnw: Ac heb law hynny eb efe, os byddwch chwi mor ffol a myned y ffordd honno, chwi a ddigiwch eich holl gyfeillion, megis *Balchder*, *Vchder*, * *Hunan Dŷb*, *Goniant bydol*, gyda llawer eraill. * *Tyb da am dano ei hunan.*

Criſ. *Pa fodd yr attebaſochi ef?*

Ffy. Mi a'i hattebais ef, mai er y gallai y rhai oll a enwaſai fo fy arddel i o ran carennydd (canys fy ngheraint i oeddynt *yn ôl y cnawd*) etto er pan yr aethym i 'n *Bererin*, hwy a'm diarddelaſant i, a minne a'u gwrthodais hwynau: Ac am hynny mi a ddywedais, rad oeddent hwy yn awr ddim mwy i'm fi, nâ phe buaſent erioed heb fod o'm Cenhedl: Ac heb law hynny, mi a ddywedais wrtho, iddo lwyr * gamoſod allan y Dyffryn ymma; *canys o flaen Anrhydedd yr â goſtyngeiddwydd, ond Balchder ſydd yn myned o flaen diniſtr, ac vchder yſpryd o flaen cwymp.* Ac am hynny ebe fi, gwell genni fyned trwy 'r Dyffryn yma, i feddiannu y peth y mae'r doethaf yn ei gyfrif *yn Anrhydedd*, nâ dewis yr hyn yr wyti yn ei gyfrif yn deilwng o'm ſerchiadau. *Dihar.* 15. 33. *Dihar.* 16. 18. * *Gamddſcribo.*

Criſ. *A gyfarfuochi â neb arall yn y Dyffryn hwnnw?*

Ffy.

Ffy. Do, mi a gyfarfum ag vn a elwir *Digwilydd* : Ac efe a lefarodd lawer yn erbyn crefydd, gan ddywedyd, mai peth gwael iawn ydoedd i Ddyn feddwl am grefydd, ac nad oedd cydwybod dyner ond peth anwrol ; ac nad oedd gwilio ar ein geiriau a'n gweithredoedd, fal y bom dan rwymedigaeth i ymgadw oddiwrth y rhyddid gwrol wych, y mae Gwyr calonnog y byd presennol yn ymarfer ag ef, ond gwatworgerdd ir Amseroedd. Efe a ddywedodd hefyd, nad oedd nemmawr o'r rhai *Galluog*, ac o'r rhai *Cyfoethogion*, a'r *Doethion*, o'r vn feddwl â mi ; ac nad oedd neb o honynt hwy ychwaith o'm barn i, nes eu || denu yn gyntaf i fod yn ffoliaid, trwy * anturio 'n ewyllysgar i *golli 'r cwbl ar a feddant, i feddiannu nis gwŷr neb pa beth*, 1 Cor. 1. 26. Pen. 3. 18. Phil. 3. 8. Heb law hynny, efe a osododd ger fy mron i, wael ac issel râdd a chyflwr, y rhai oeddynt yn fwy enwedigol yn *Bererinion*, ym-mhôb oes : Ac fe ddarfu iddo † edliw hefyd im fi eu hanwybodaeth a'i hanneallgarwch hwy, ym mhob math o Ddysceidiaeth naturiol, *Joan.* 7. 48. 49. Ie efe a ddywedodd ym-mhellach, mai matter o gywilydd ydoedd, fod neb yn wylo ac yn galaru dan Bre-

|| *Hudo.*
* *Mentro.*
† *Dannod.*

Bregethiad y Gair, gan ddyfod † gwedyn oddi-yno dan ochneidio a griddfan; mai cwilydd oedd ceisio maddeuant gan Gymmydog am feiau bychain, a thalu adref yr hyn a ladrattwyd neu a gamattaliwyd oddiwrth neb. Dywedodd hefyd, fod Crefydd yn peri i Ddyn ymddieithro oddiwrth y Gwyr mawr, oblegid ychydig o feiau (ir rhai, er eu bod yn feiau annafus, y rhoddes efe enwau teccach) a dywedodd, fod crefydd yn peri i rai arddel a derbyn wyneb Dynion gwael, am eu bod nhwy o'r vn brawdoliaeth grefyddol a nhwythau. Ac onid yw hyn eb efe yn fatter o gywilydd?

† *Wedi hynny.*

Cris. *A pha beth a ddywedasoch chwithau wrtho ef?*

Ffy. Ni wyddwn i pa beth i ddywedyd ar y cyntaf, ie efe a'm cyffrôdd i yn y fath fodd, fal y cododd fy ngwaed yn fy wyneb, a braidd na'm curwyd i ymmaith oddiwrth grefydd, trwy 'r pethau a adroddodd y *Dyn Digwilydd* hwn wrthyf. Eithr o'r diwedd mi a ystyriais, *fod yr hyn sydd vchel gyda Dynion yn ffiaidd ger bron Duw.* Ac mi a feddyliais drachefn, fod y *Dyn Digwilydd hwn*, y fynnai daro cywilydd ynof, i'm hattal i trwy hynny, rhag myned ym-mlaen, i fod

Luc. 16. 15.

yn grefyddol, mi a feddyliais meddafi, fod y Dyn hwn yn mynegi i mi pa beth yw Dynion, ond nad oedd efe yn dywedyd dim wrthyfi, pa beth oedd *Duw* neu *Air*. Ac mi a yſtyriais heblaw hynny, Na fernir ni yn Nydd y Farn i *Farwolaeth* neu *Fywyd*, yn ol Barn yſpryd gwrol-wych y Byd, ond yn ol Doethineb a Chyfraith y Goruchaf. Am hynny ebe fi, yr hyn y mae Duw yn ei ddywedyd ei fod yn oreu, ſydd oreu yn wir, er bod holl Ddynion y byd yn ei erbyn. Yn awr; gan fod Duw yn gwneuthur gwell cyfrif o'r Grefydd a appwyntiodd ef ei hun, ac o Gydwybod dyner, nag yr wyti yn ei wneuthur o honynt *o Ddyn digwilydd*; a chan fod y rhai ſy 'n eu gwneuthur eu hunain yn ffyliaid, er mwyn Teyrnas Nefoedd, yn Ddoethach nâ neb arall ym marn yr Arglwydd; A chan fod y Gwr tlawd, ſy 'n caru *Criſt*, yn gyfoethoccah nâ 'r Gwyr mwyaf yn y byd ſy 'n ei gaſau ef; Dòs ymmaith gau hynny *o Ddyn Digwilydd* oddiwrthif; canys Gelyn wyti i'm iechydwriaeth i. A wrandawafi arnati trwy fod yn wrthwyneb i'm Harglwydd gorvchaf ? Os felly y gwnafi, pa fodd yr edrychaf yn ei wyneb ef, yn ei ddyfodiad ? A Gywilyddiafi yn

yn awr o herwydd ei ffyrdd a'i Weiſion ef? Os felly y gwnâf, pa fodd y gallaſi ddiſgwyl am ei fendith ef? *Mar.* 8. 34. *Mat.* 10. 32. A braidd y gellais i (a'r ymadroddion hyn) yrru ymmaith o'm cyfeillach y * Dihirwr digwilydd hwn, a fynnai weithîo cywilydd ynof, i ymarddel â Duw, a'i ffyrdd; a'i *Bobl.* Ie * fo a huſtyngai, yn fy nghluſtiau, yn dra mynych, amryw o bethau, yn y rhai yr oedd pobl grefyddol yn dangos llawer o wendid ynthynt: Eithr o'r Diwedd mi a ddywedais wrtho ef, na fyddai ei drafferth ef yn y gorchwyl hwn † ragllaw ond gwaith ofer; canys yn y pethau ebe fi yr ych chwi yn eu diyſtyru, yr wyfi 'n gweled y Gogoniant mwyaf. A chwedi gyrru 'r Dyn taerllyd hwn ymmaith; a chael gwared o honaw, myfi a genais fal hyn.

* Drygddyn.

* Aſefavi yn ddiſtaw.

† Ar ol hyn.

Y ‖ *Proſiadau ſy 'n cyfarfod*
Pawb ſy 'n teithio mewn vſydd-dod,
Ir wir Alwad nefol, hyfryd,
Y'nt yn amal ac yn enbyd,
Wedi eu trefnu a'i gweddeiddio,
I'n drwg nattur ſydd yn * effro:
Dawant am ein Pennau Beunydd,
Deuant, Deuant fyth o newydd:
Fal y gallom yn aſlawen,
Naill a'i 'nawr, a'i rhyw bryd amgen,

‖ Temptaſiynau.

* Ar ddihun i mrando ar broſedigaethau.

Trwyddynt gael ein dal a'n gorfod,
Ac o'u plegid cael ein gwrthod.
O gan hynny! Nac anghofied,
Pererinion fod yn gwilied,
I wrthnebu twyll Drwg Ddynion,
Cyn wroled ac y gallon.

Crist. *Y mae 'n ddilys y dylem ni alw ar yr hwn, y fynnei i ni fod yn wrol ar y Ddaiar dros y gwirionedd, am gymmorth i wrthwynebu y cyfryw Ddynion digywilydd, ar a fynnent i ni gywilyddio i ymarddel a'r hyn ſydd dda. Eithr a ddigwyddodd i chwi ddim drwg arall yn y Dyffryn hwnnw?*

Ffy. Na ddo, canys yr oedd yr Haul yn llewyrchu arnaf yn yr holl ran arall o'r ffordd, trwy 'r Dyffryn hwnnw, ac hefyd trwy Ddyffryn cyſgod Angau.

Ac ar ol i *Griſtion* a *Ffyddlon* fyned ym-mlaen oddi-yno, Mi a welwn, yn ſy Mreuddwyd, Wr a elwir *Chwedleugar* yn cyfarfod â nhwy: *Yr oedd eſe yn wr mawr o gorpholaeth, ac yn deccach yr olwg arno o bell nag yn agos, a gofynnodd* Ffyddlon *iddo eſ, y Cyfaill, i ba le yr ewchi? A ydych chwi'n ſiwrneio tua'r wlâd nefol?*

Chwed. Yr wyſi 'n myned tua'r wlâd honno.

Ffy. *Os felly, rwi 'n gobeithio cael eich cyfeillach chi.*

Chwed.

Chwed. Mi a fyddaf o ewyllys fy nghalon yn Gydymmaith i chwi.

Ffy. *Awn ynghyd gan hynny, a threulìwn ein hamſer, mewn ymddiddanion ynghylch rhyw bethau* * *buddiol.* * *Lleſſiol.*

Chwed. Y mae'n dda iawn gennif, i ſiarad à chwi neu à neb arall, am bethau da; ac yr wi 'n llawenychu i mi gyfarfod à rhai, y ſy 'n * tueddu i chwedleua am fatterion creſyddol. Canys i ddywedyd wrthych chwi y gwir, nid oes nemmawr yn gofalu am dreulio ei hamſer fal hyn (wrth ymdeithio) ond dewiſant yn hytrach o lawer ymddiddan am bethau anfuddiol; a bu hyn yn ‖ gythryfwl im fi. † *Inclino, gogwyddo* ‖ *Drwbwl.*

Ffy. *Y mae hynny yn beth iw alaru o'i blegid; canys y mae pethau Duw yn haeddu arferiad ein tafodau am danynt, yma ar y Ddaiar, o flaen dim arall.*

Chwed. Yr wi 'n dra boddlon i chwi, canys y mae 'ch ymadroddion chwi yn llawn o reſwm da: Ac mi a angwanegaf hyn; Pa beth ſy mor hyfryd ac mor fuddiol, ac ymddiddan am Bethau Duw?

Pa beth ſy mor hyfryd? (os ydyw Dyn yn cymmeryd dim hyfrydwch mewn pethau rhyfeddol) Er enſampl, os bydd yn hyfryd gan Ddyn chwedleua am Hiſtori, neu Ddirgeledigaethau

thau mawrion; neu os bydd Dyn yn caru ymddiddan am Wrthiau, Rhyfeddodau, neu Arwyddion; ym mha le y caiff e y pethau hyn wedi eu coffáu cyn hyfrytted, a'i ſcrifennu mor * llunieidded, ac yn yr yſcrythur gyſſegrlân.

* T... d.

Ffy. *Etto wrth ſiarad ynghylch y fath bethau da, ein diben ni y ddylai fod, i dderbyn lleſáad i'n eneidiau oddiwrth y cyfryw ymddiddanion.*

O Brâf Chwedlengar! Dymma ymadroddion teg yn dyſod allan o'th enau rhagorſithiol, di.

Chwed. Dyna 'r hyn a ddywedais i; canys y mae ymddiddanion ynghylch pethau Duw yn dra lleſol, oblegit trwy hynny, ſe ddichon Dyn ddyfod i wybod llawer ynghylch gwagedd pethau daiarol, ac ynghylch godidowgrwydd pethau neſol: Ond yn fwy neilltuol, oddiwrth hyn y gall Dyn ddyſcu; *mor anghenrheidiol yw'r Ailenedigaeth, mor anmigonol yw 'n gweithredoedd goreuni i haeddu Bywyd tragwyddol, a pha'r fath ddiffyg y ſydd arnom am Gyfiawnder* Ieſu Griſt, *i guddio ein noethni yſprydol ni.* Heblaw hynny, trwy hyn y dichon Dyn Ddyſcu pa beth yw *Edifarhau, Credu, Gweddio, Dioddef, dros Griſt*, a chyffelyb bethau eraill: Trwy hyn y dichon Dyn ddyſcu beth yw ſylwedd a nattur Addewidion mawr a chyſſuron yr Efengyl, er comffordd iw

Enaid

Enaid ci hun; a pha fodd hefyd i ymgadw rhag * gau opiniwnau, ac i amddiffyn y Gwirionedd, ac i roi Addyſc ir anwybodus. * *Ffalſt.*

Ffy. *Y mae hyn oll yn wir; ac y mae 'n llawen gennif glywed y pethau hyn oddi wrthych.*

Chwed. Och! Eſceuluſdra pôbl, i ymddiddan am y cyfryw fatterion, y ſydd vn Achos, ſod cyn lleied yn deall yr Angenrheidrwydd ô ffydd, ac o waith grâs yn eu eneidiau, i cymmhwyſo nhw i feddiannu Bywyd tragwyddol: Ac o eiſiau chwedleua am y fath bethau a hyn, y mae pobl yn byw mewn anwybodaeth, gan hyderu ar Weithredoedd y Ddeddf, am gael Teyrnas Nefoedd trwyddynt, er na chair mo honi yn y ffordd honno, mewn modd yn y byd.

Ffy. *Ond trwy 'ch cennad chwi, Rhôdd Duw yw Gwybodaeth nefol o'r pethau hyn; Ac ni all neb eu gwybod hwynt trwy ei dyfalwch ei hun, neu yn vnic trwy ymddiddan am danynt.*

Chwed. Mi a wn hynny yn ddigon da: *Oblegit ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r Nef*: O râs y mae 'r cwbl, ac nid o weithredoedd: Mi a ellwn roddi i chwi gant o Scrythyrau i brwfio hynny.

Ffy. *Am ba beth gan hynny yn neilltuol ebe Ffyddlon, y chwedleuwn ni* * *yrwan?*

* *Yr awron.*

† *Chwedleuwn.*

O Bod i chwedleugar.

Chwed. Mi a † Siaradaf â chwi am y pethau a synnoch: Pa vn bynnag a'i Pethau Nesol, a'i pethau Daiarol; Pethau Moesol ai pethau Efangylol; Pethau Çyssegredig, ai pethau Halogedig; Pethau a Fu, ai pethau a Fydd; Pethau mewn Gwledydd dieithr, ai Pethau yn ein Gwlâd ein hun; Pethau mwy Sylweddol, ai pethau || Gogylchiadol y byddant hwy: Etto rhaid yw gwneuthur y cwbl er adeiladaeth i'n heneidiau.

|| *Circumstantial.*

Ffy. Ffyddlon *wedi clywed hyn a ryfeddodd, a chan droi at* Gristion *(canys yr oedd efe trwy 'r holl amser ymma yn rhodio wrtho ei hun) efe a ddywedodd wrtho ef, ond yn ddistaw: Pa fath Gydymaith da y gawsom ni! Yn ddiau fe fydd y Gwr hwn yn Bererin rhagorol.*

Cris. Ar hynny y gwenodd *Cristion* yn bwyllog, ac a ddywedodd; y Gwr ymma, yr hwn yr ydychi yn ei ganmol, a dwylla á'i dasod vgain o rai sy heb ei adnabod ef.

Ffy *A ydych chwi yn ei adnabod ef?*

Cris. Ydwyf yn well nag y mae e yn ei adnabod ei hun.

Ffy. *Attolwg Pwy ydyw ef?*

Cris.

Criſ. Ei enw ef yw *Chwedleugar*, y mae ſo 'n aros yn ein Dinas ni : Ac oni bai fy mod i 'n yſtyried, fod ein Trêf ni yn fawr iawn, Myfi a ryfeddwn nad yw ef yn adnabyddysi chwithau hefyd.

Ffy. *Mâb i bwy yw ef? Ac ynghy'ch pa fann y mae fo 'n trigo?*

Criſ. Mâb yw ef i vn a elwir *Ymadroddwr-da*, ac yr oedd e 'n trigo yn *Heol y Siarad* : Ond er tecced yw ei dafod ef, nid yw e ond Cydymaith drwg.

Ffy. *Ow! fe dybygid ei fod ef* (o ran crefydd) *yn Ddyn gwych.*

Criſ. Hynny yw gan y rhai ſy heb ei gwbl adnabod ef ; canys oddi-gartref y mae ef yn oreu ; ger llaw gartref y mae fo 'n ddigon ffiaidd. A lle 'r ych chi 'n dywedyd, * taw Dyn gwych yw ef, y mae hynny yn dwyn ar gôf i mi, yr hyn a greffais i arno yng-waith Paentiwr ; y mae 'r Lluniau y mae fo yn ei baentio yn ymddangos yn oreu o bell, ond yn ammhrydferth yn agos. * *Mai.*

Ffy. *Yr wi 'n barod i dybied, nad ych chi ond* † *cellweir, am i chwi* ‖ *wenu.* † *Jeſto.*

Criſ. Na atto Duw i mi gellweir yn y cyfryw fatter a hyn, na cham-achwyn ar neb (er i mi chwerthin am eich † *Chwerthin.*

gwaith chwi yn canmol y Dyn ymma) Myfi a yſpyſaf i chwi ym-mhellach pa fath ŵr ydyw fe. Y mae fo 'n Ddyn ſy am bôb math o gyfeillach, ac am bob math o * ſiarad. Fal y mae fo 'n chwedleua â chwi yn awr, felly y chwedleua efe pan y bo yn y tafarn ym-myſg y Meddwon; a pha ſwyaf o gwrw a fyddo yn ei ben ef, mwyaf oll y fydd y pethau hyn yn ei enau ef: Nid oes gan Grefydd Lê, nac yn ei Galon ef, nac yn ei Dŷ ef, nac yn ei ymarweddiad ef; ond y mae hi 'n ſefyll yn vnic ar ei dafod ef: A'i Grefydd ef yw gwneuthur ſwn am bethau 'r Arglwydd â 'r tafod hwnnw.

* *Ym-chwedleua.*

Ffy. *A ddywedwch chi felly? Yna fe 'm twyllwyd i 'n ddirfawr yn y Gwr ymma.*

† *Sicc.*

Criſ. Twyllwyd chwi! Do yn † ddilys: Cofiwch y Ddihareb: *Dywedant ac nis gwnânt: Ond nid mewn ymadrodd y mae teyrnas Dduw* (yn ſefyll) *eithr mewn gallu, Mat.* 23. 3. 1 *Cor.* 4. 20. Y mae fo 'n chwedleua am *Weddi*, am *Edifeirwch*, am *Ffydd*, ac am yr *Ad-enedigaeth*; eithr nid oes gantho yn ei enaid ei hun brofiad yn y byd o honynt; fo feidr yn vnic chwedleua am danynt. Myfi a fûm yn ei Deulu ef, ac a ddeliais ſulw arno ef

Gartref

Gartref ac oddi Cartref; ac mi a wn, mai gwir ydyw 'r hyn yr wyfi yn ei ddywedyd am dano ef. *Y mae ei Dŷ ef cyn wacced o Grefydd ac yw gwynn wy o flâs.* Nid oes yno na *Gweddi*, nac *Argoel o Edifeirwch* am bechod. Ie *y mae 'r Anifail yn ei Ryw yn gwaſanaethu Duw yn llawer gwell nag efe.* Eſay. 1. 3. Y mae *Crefydd* yn dioddef † *Gogan*, ‖ *Gwarthrydd*, *a Chywilydd* o'i achos ef; ac y mae 'n anhawdd * iddi gael Gair da yn yr holl ran hynny o'r Drêſ, lle y mae ſo yn preſſwylio ynthi, am fod ei ſuchedd ef yn ei diwyno hi, *Rhuf.* 2. 23. 24. Fal hyn y dywed y Bobl gyffredin ſy 'n ei adnabod ef, *Angel Pen ffordd*, *Diawl pen pentan.* Y mae ei Deulu ef wedi cael profiad o hyn oll. Y mae ſo 'n Ddifennwr, ac mor *Anfwyn*, mor * Daeog, ac mor afreſymmol wrth ei Weiſion, fal na wyddant hwy pa fodd i foddloni ef, yn eu Gwaith a'u Gorchwylion, na pha fodd i lefaru wrtho heb gyffroi ei Ddigofaint ef. Y mae'r rhai ſydd yn gwerthu pethau iddo, ac yn prynu pethau gantho yn dywedyd, mai gwaeth yw iddynt farchnatta a maſnach ag efe nag â Thwreod; am fod y rheini yn oneſtach nag efe, yn eu Margennon a'u Haddewidion. Fe dwylla Pawb os di-

† *Anglod.*
‖ *Ammharch.*
* *Sef, i Grefydd.*
* *Garwſarrug.*

chon

chon ef. Ac heblaw hynny, y mae ſo 'n dyſcu ei Feibion i ganlyn ei Lwybrau ef: Ac os cenfydd ef yn neb o'i Blant ddim *ammheuon ynfyd* (canys felly y mae e 'n galw yr ymddangoſiad cyntaf o gydwybod dyner, y ſy yn ei gogwyddo nhwy at oneſtrwydd) ſo a'i geilw hwynt yn ynfydion ac yn ddwl: Ac ni eſyd e vn o honynt, mewn modd yn y byd, i drin llawer o'i fuſneſſon ef, os bydd e 'n deall fod arnynt ofni * ſiommi neb: Ac ni chanmol e vn o honynt yng-wydd craill, os bydd hwnnw 'n † tueddu at oneſtrwydd cyffredinol. O'm rhan i, yr wi 'n tybied iddo ef, trwy ei fuchedd annuwiol, beri i lawer dramgwyddo a ſyrthio, ac ſo a ſydd (oni ragflaena Duw hynny) yn achos o ddeſtryw i laweroedd mwy.

* *Twyllo.*

† *Gogwyddo.*

Ffy. *Wele fy Mrawd yr wyf yn rhwym i'ch coelio chwi; nid yn vnic am eich bod yn dywedyd yr adwaenoch ef, ond heſyd am eich bod chwi fal* Criſtion yn * *datcuddio beth yw 'r Dyn ymma; canys ni allaſi feddwl eich bod chwi 'n dywedyd y pethau hyn o ddrwg ewyllys, ond am fod y peth felly, fal yr ydych chwi 'n dywedyd.*

* *Darg.*

Pe buaſwn i heb ei adnabod e ddim gwell nà chwychwi, mi a allaſwn ond odid fal chwithe dybied, mai Gwr dal rha-

rhagorol ydoedd efe. Ie pe buaſai ſo yn cael yr Anair yma oddiwrthynt hwy yn vnic, y ſydd yn Elynion i Grefydd, mi a * dybygſwn, mai † enllib ydoedd hynny (ſef Anglod y ſydd yn dyfod, yn fynych, yn ddiachos, allan o eneuau y rhai drygionus, ar Enwau Dynion da a'i proffes) eithr yr holl bethau a adroddais i am dano ef, ie, a llawer mwy o rai cynddrwg ac hwyntau, a allaſi o'm gwybodaeth fy hun brofi ei fod ef yn euog o honynt. Heblaw hynny, y mae ar Wyr da gywilydd oi blegid ef; ni allant hwy na i alw ef yn *Frawd* nac yn *Gyfaill*: os enwir ef ym-mhlith y rhai crefyddol y ſydd yn ei adnabod ef, hwy a ‖ wridiant gan gywilydd o'i herwydd ef.

* *Tybygaſwn.*
† *cabled.*
‖ *cochant.*

Ffy. *Myſi a welaf yn awr,* * *taw vn peth yw* Dywedyd, *a pheth arall yw* Gwneuthur: *Ac* † *o hyn i maes, mi a* ‖ *graffaf yn well, ar y* * *gwahaniaeth ſydd rhwng y naill a'r llall.*

* *Mai.*
† *o hyn allan.*
‖ *ddaliaf ſulw.*

Criſt. y maent yn ddau beth yn wir, † ac mor wahanrhedol, yr vn oddiwrth yllall, ac yw 'r Enaid a'r Corph; canys megis nad yw 'r Corph heb yr Enaid, felly hefyd nid yw *dywedyd yn dda,* heb *wneuthur yn dda,* ond Celain farw. Enaid crefydd yw Buchedd Dda. *Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r*

* *rhagoriaeth.*
† *a'r fath wahaniaeth rhyngthynt*

Tâd

Tâd yw hyn, ymweled â'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon, yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y Byd, Jac. 1. 27. Nid yw Meistr *Chwedleugar* yn meddwl am hyn: y mae fo 'n tybiaid, fod gwrando a dywedyd yn ddigon, i wneuthur Dyn yn *Gristion* da, (er nad yw gwrando heb ddwyn ffrwyth ond megis derbyn yr had a hauir) ac fal hyn y mae fo'n twyllo ei enâid ei hun, Nid yw Gwaith Dyn yn chwedleua am Grefydd * yn ddigonol i brofi, fod gantho galon a buchedd ffrwythlon a daionus. Gwybyddwn yn sicer, mai yn ol eu ffrwythau neu Gweithredoedd (ac nid yn ol eu geiriau yn vnic) y bernir Dynion yn Nydd y Farn, *Dat.* 22. 12. *Mat.* 16. 27. Ni fydd cymaint o holiad y pryd hynny, *A ddarfu i chwi gredu a dywedyd yn dda*, ac a fydd, *a ddygasoch chwi ffrwythau da* yn eich buchedd a'ch ymarweddiad. Dymma fydd vn Cwestiwn mawr ar y Dydd hwnnw, † *P'un ai Gwneuthurwyr y Gair, ai ynteu Chwedleuwyr yn vnic am y Gair a fuoch chwi?* Ac yn ol hynny y bernir Dynion. Diwedd y Byd a gyffelybir i'n cynhaiaf ni, ac chwi a wyddoch nad yw Dynion yn y cynhaiaf, yn edrych ar ddim ond ffrwyth (nid am y gall dim fod yn gymeradwy gyda Duw oni bydd e'n tarddu allan o ffydd. *Gal.* 5. 6.) Ond dy-

Jac. 1. 22.

* *i dysliolaetha.*

† *Pa vn*

wedyd yr wyfi hyn, i ddangos i chwi mor afleſol y bydd Proffes Meiſtr *Chwedleugar* yn y Dydd hwnnw, heb ſod yn wneuthurwr y Gair.

Ffydd. *y mae hyn yn dwyn ar gôf i mi y peth a ddywedodd* Moſes *am yr Anifail glân: y mae ef yn gyfryw vn, ar y ſydd yn* *ffforchogi 'r ewin ac yn cnoi ei gîl,* Lev. 11. 3. *Nid yr hwn ſy 'n hollti 'r ewin yn vnic, neu yn cnoi ei gîl yn vnic ſydd lân, ond yr hwn ſy 'n gwneuthur y ddau. Y mae 'r yſcyfarnog yn cnoi ei chîl, ond er hynny y mae hi 'n aflan, am nad yw hi yn hollti yr ewin. Ac mewn gwirionedd y mae Meiſtr* Chwedleugar *yn gyffelib ir yſcyfarnog; y mae fo 'n cnoi 'r cîl, y mae fo 'n ceiſio gwybodaeth trwy fyfyrio ar y* Gair; *ond nid yw ef yn Forchogi 'r ewin, Nid yw ef yn ymado, â ffordd pechaduriaid; ônd megis yr yſcyfarnog, y mae gantho droed Ci neu Arth, ac am hynny y mae fo 'n aflan.* * *hollti.*

Criſ. Myfi a angwanegaf vn peth arall. Y mae *Paul* yn galw Chwedleuwyr mawr (y rhai ſydd heb râs yn eu calonnau) yn *Efydd yn ſeinio, a Symbal yn tingcian*; hynny yw, fal y mae fo yn deonglu y geiriau mewn lle arall, *Pethau di-enaid* ydynt, ſef, yn rhoddi ſain yn vnic, a dim ond hynny: Pethau di-enaid ydynt, hynny yw Dynion ydynt,

ydynt heb wir ffydd a grâs yr Efengyl yn eu calonnau ; a thrwy ganlyniaeth ; y maent yn gyfryw rai;na chyfrifir mo honynt hwy byth yn Nheyrnas Nefoedd, ymmhlith y rhai ſydd yn Blant y Bywyd; er ei bod nhwy 'n *ſeinio wrth Chwedleua*, mal pettai tafodau neu Leſerydd Angelion ganthynt, 1 *Cor.* 13. 12. *Pen.* 14.7.

Ffy. *Y mae ei Gymdeithas ef, yr hyn a fu ar y cyntaf yn fatter o hoffder, yr awron yn fatter o flinder imſi. Pa beth a wnawn ni i gael gwared o honaw ef?*

Criſ. Cymmerwch fy nghyngor i, ac yna (megis yr ydych chwi 'n blino ar ei gymdeithas ef) y blina yntef hefyd yn ebrwydd ar eich cymdeithas chwithau, oddieithr i Dduw droi ei Galon ef. A'm Cynghor i yw hyn ; *Ewch atto, ac ymddiddanwch ag ef* * *yn ddifrifol ynghylch* Grym Crefydd, a *Gofynnwch iddo, A ydyw y peth ymma wedi ei* weithio yn ei Galon ef, ac a ydyw hynny yn ymddangos yn ei Ymarweddiad *ef*.

* *yn ſerious, pryſſur, Prudd.*

Yna yr aeth *Criſtion* drachefn at *Chwedleugar*, ac a ofynodd iddo, pa fodd yr oedd ef?

Chwed. Diolch i chwi, ebe yntef, yr wi 'n * ſiongc. Mi a obeithiais y cawſem ni erbyn hyn lawer mwy o gydymyddiddan.

* *Wych.*

Ffy.

Ffy. *Wele, os mynnwch chi, Nyni a ddechreuwn eilchwaith: A chan eich bod chwi wedi gosod arnafi i ofyn y cweſtiwn, Mi a fyddaf* * *cyn hyfed a gofyn i chwi, Pa fodd y dichon Dyn adnabod, fod Duw wedi gweithio Grâs iachuſol yn ei Galon ef?*

* *Mor cyned.*

Chwed. Mi a welaf wrth hyn, y gorſydd ar ein hymddiddan ni fod ynghylch *Grym Grefydd:* Da iawn yw eich Cweſtiwn; ac yr wi 'n ewyllyſcar i'ch atteb chwi. Ac yn fyrr, fy Atteb i yw hyn. *Yn gyntaf, Lle* * *bo Grâs Duw yn y Galon, y mae hynny yn peri* i Dyn waeddi 'n ddirfawr yn erbyn pechod. Yn Ail ——

* *Byddo.*

Ffy. *Nage, Arafwch; Digon ydyw i ni yſtyried yn peth ar yn-waith:* * *'Rwi 'n tybied y dylaſechi ddywedyd yn hytrach, fod Grâs yn amlygu ei hun, trwy ogwyddo 'r Enaid i ffieiddio ei bechod.*

* *Yr ydwyſi.*

Chwed. Pa ſ wahaniaeth ſy rhwng gwaeddi yn erbyn pechod, a'i ffieiddio ef?

† *Ragoriaeth.*

Ffy. *Ow! Llawer iawn; Fe ddichon Dyn waeddi yn erbyn pechod trwy gyfrwyſtra; ond ni ddichon efe gaſhau pechod, ond trwy rinwedd ddwiol (hynny yw Grâs Duw) y ſydd wrthwyneb iddo. Myfi a glywais lawer yn gwaeddi yn erbyn pechod yn y Pulpyd, y rhai er hynny*

a

a gyd-ddygent ag ef, ac a ymfodlonent
|| *VVrth y ffrwyth yr adnabyddir y pren.* *yntho (|| yr hyn oedd hawdd iw adnabod oddiwrth eu ffrwythau nhw) yn eu calonnau, eu Tai, a'u hymarweddiad. Gwaeddodd* Meiſtres Joſeph *â llêf uchel yn erbyn Pechod, fal ped fuaſei hi yn dra Sanctaidd: Ond er hynny hi a fynnaſei 'n ewyllyſcar fod yn aſlan gydag ef. Y mae rhai yn gwaeddi yn erbyn pechod, megis ac y mae Mam yn gwaeddi yn erbyn ei phlentyn ar ei harffed, gan roddi drwg-enwau ir plentyn, megis* Horſwn neu Hwrli, *a chwedi hynny cwympo i goſleidio a chuſanu 'r Plentyn.*

Chwed. Mi dybygwn eich bod chwi 'n amcanu fy machellu, am dal i mewn rhwyd.

Ffy. *Nac ydwyf yn ddiau: Eithr ceiſio 'rwyfi 'n unig drefnu pob peth yn ei iawn Le. Eithr pa beth ydyw 'r ail arwydd ſydd gennych, trwy yr hwn y mynnech chwi* * *brofi fod Gras yn y Galon.*

* *Prwfio tyſtiolaethu.*

Chwed. Gwybodaeth fawr yn Nirgeledigaethau 'r Efengyl.

Ffy. *Dylaſei 'r Arwydd hwn fod yn gyntaf; ond cyntaf neu olaf, y mae hwn heſyd yn ffals: Canys ſe ddichon Dyn gyrhaeddyd Gwybodaeth, ie llawer o wybodaeth yn Nirgeledigaethau 'r Efengyl, ac etto bod heb râs yn ei Galon. Ie pettai gan Ddyn bob math o wybodaeth,*

bodaeth, efe a ddichon er hynny fod yn Ddyn anrasol, a thrwy ganlyniaeth ymmhell oddiwrth bod yn Blentyn i Dduw, 1 Cor. 13. 2. *Pan gofynnodd Crist iw Ddiscyblion : A ydych chwi 'n gwybod y pethau hyn oll? Hwythau a'i hatebasant ef, ydym : Yntef a ddywedodd wrthynt,* os gwyddoch y pethau hyn, Gwyn eich byd os gwnewch hwynt, Joan. 13. 17. *Nid yw Crist yn dywedyd, fod y fendith yn perthynu ir Sawl sy'n gwybod ewyllys Duw ; ond ir sawl sy'n ei wybod ac yn ei gwneuthur hi : Canys y mae mâth o wybodaeth heb weithredodd da yn ei chanlyn ;* Luc. 12. 47. *Gall fod gan wr gymmaint o wybodaeth ac y sydd gan vn o'r Angelion, ac etto heb fod yn wîr Gristion : Ac am hynny, nid yw Gwybodaeth fawr yn nirgeledigaethau yr Efengyl yn Arwydd didwyll o râs yn y Galon. Y mae Gwybodaeth yn wir yn bodloni siaradwyr ac Ymffrostwyr: Ond byw a gwneuthur yn ôl ein Gwybodaeth ydyw 'r hyn sydd yn rhyngu bódd Duw. Gwir yw, ni ddichon y Galon fod yn dda, eithr y mae hi 'n ddrwg heb wybodaeth :* Dihar 19. 2. *Y mae gan hynny Wybodaeth a Gwybodaeth. Y mae Gwybodaeth yn gyntaf, yr hon sy'n ymfodloni yn vnic i edrych ar bethau, er mwyn deall ei nattur a'i priodolaethau ;*

ac

a gyd-ddygent ag ef, ac a ymfodlonent yntho (‖ yr hyn oedd hawdd iw adnabod oddiwrth eu ffrwythau nhw) yn eu calonnau, eu Tai, a u hymarweddiad. Gwaeddodd Meistres Joseph *â llêf vchel yn erbyn Pechod, fal ped fuasei hi yn dra Sanctaidd: Ond er hynny hi a fynnasei 'n ewyllyscar fod yn aflan gydag ef. Y mae rhai yn gwaeddi yn erbyn pechod, megis ac y mae Mam yn gwaeddi yn erbyn ei phlentyn ar ei harffed, gan roddi drwg-enwau ir plentyn, megis* Horswn neu Hwrli, *a chwedi hynny cwympo i gofleidio a chusanu 'r Plentyn.*

‖ *VVrth y ffrwyth yr adnabyddir y pren.*

Chwed. Mi dybygwn eich bod chwi 'n amcanu fy machellu, am dal i mewn rhwyd.

Ffy. *Nac ydwyf yn ddiau: Eithr ceisio 'rwyfi 'n vnig drefnu pob peth yn ei iawn Le. Eithr pa beth ydyw 'r ail arwydd sydd gennych, trwy yr hwn y mynnech chwi * brofi fod Grâs yn y Galon.*

* *Prwfio tystiolaethu.*

Chwed. Gwybodaeth fawr yn Nirgeledigaethau 'r Efengyl.

Ffy. *Dylasei 'r Arwydd hwn fod yn gyntaf; ond cyntaf neu olaf, y mae hwn hefyd yn ffals: Canys fe ddichon Dyn gyrhaeddyd Gwybodaeth, ie llawer o wybodaeth yn Nirgeledigaethau 'r Efengyl, ac etto bod heb râs yn ei Galon. Ie pettai gan Ddyn bob math o wybodaeth,*

bodaeth, efe a ddichon er hynny fod yn Ddyn anrafol, a thrwy ganlyniaeth ymwhell oddiwrth bod yn Blentyn i Dduw, 1 Cor. 13. 2. *Pan gofynnodd Criſt iw Ddiſcyblion : A ydych chwi'n gwybod y pethau hyn oll ? Hwythau a'i hattebaſant ef, ydym : Yntef a ddywedodd wrthynt,* os gwyddoch y pethau hyn, Gwyn eich byd os gwnewch hwynt, Ioan. 13. 17. *Nid yw Criſt yn dywedyd, fod y fendith yn perthynu ir Sawl ſy'n gwybod ewyllys Duw ; ond ir ſawl ſy'n ei wybod ac yn ei gwneuthur hi : Canys y mae mâth o wybodaeth heb weithredoedd da yn ei chanlyn ;* Luc. 12. 47. *Gall fod gan wr gymmaint o wybodaeth ac y ſydd gan yn o'r Angelion, ac etto heb ſod yn wîr Griſtion : Ac am hynny, nid yw Gwybodaeth ſawr yn nirgeledigaethau yr Efengyl yn Arwydd didwyll o râs yn y Galon. Y mae Gwybodaeth yn wir yn bodloni ſiaradwyr ac Ymffroſtwyr: Ond byw a gwneuthur yn ôl ein Gwybodaeth ydyw'r hyn ſydd yn rhyngu bódd Duw. Gwir yw, ni ddichon y Galon fod yn dda, eithr y mae hi'n ddrwg heb wybodaeth :* Dihar 19. 2. *Y mae gan hynny Wybodaeth a Gwybodaeth. Y mae Gwybodaeth yn gyntaf, yr hon ſy'n ymfodloni yn vnic i edrych ar bethau, er mwyn dea'l ei nattur a'i priodolaethau ;*

ac

ac yn Ail y mae Gwybodaeth yr hon y mae 'r Grâs o ffydd a chariad yng Nghrist wrthi; ac y mae hi 'n gosod Dyn ar wneuthur ewyllys Duw o'r Galon: Y cyntaf o'r rhain a fodlona 'r Chwedleugar, ond ni fodlonir mo'r Gwir Gristion heb yr ail. Gwna i mi ddeall (*ebe Ddaffydd*) a chadwaf dy Gyfraith; ie cadwaf hi â'm holl Galon. *Pſal.* 119. 34.

Chwed. 'R ychi 'n ceisio 'm rhwydo i drachefn: Nid yw hyn er adeiladaeth yn y byd.

Ffy. *Wele, os mynnwch chi, rhoddwch Arwydd arall o'r môdd y mae Grâs yn datcuddio ei hun, lle y mae ef.*

Chwed. Na wnaf, canys mi a wela'f nad allwn ni gyttuno a'i gilydd.

Ffy. *Wele, oni wnewch chwi, a roddwch chi gennad i mi wneuthur hynny.*

Chwed. Gwnewch yn y matter ymma fal y gweloch yn orcu.

Ffy. Y mae Gwaith Grâs yn yr Enaid yn ei ddatcuddio ei hun, naill ai i'r hwn y ſydd yn ei feddiannu ef, neu i erail!.

Ir hwn ſydd â'r Grâs ymma gantho y mae 'n datcuddio ei hun mal hyn. Y mae 'n argyhoeddi Dyn am ei bechod, yn enwedig am lygredigaeth ei nattur, a'r pechod o Anghredinaeth (am ba un y mae 'n gwneled yn eglur y bydd e damnedig,

oddi-

ddi-eithr cael o honaw drugaredd ar law Dduw, trwy ffydd yn Iesu Grist) Joan. 16. 8, 9. Rhuf. 7. 24. Psal. 51. 5. Mar. 16. 16.

Y Golwg a'r ystyriaeth ymma sydd yn gweithio yntho dristwch a chywilydd am uchod, Psal. 38. 18. Jer. 31. 19. Ac rmhellach y mae Iachawdur y Byd wedi ei wneuthur yn gydnabyddus iddo, a'r llwyr-gwbl anghenrheidrwydd hefyd lynu wrtho ef am fywyd; ac o herwyd hynny y mae so 'n newynu ac yn sychedu am Grist; ac ir newyn a'r syched ymma y mae Addewidiou Duw yn perthynu. Gal. 1. 16. Act. 4. 12. Mat. 5. 6. Dat. 22. 16. *Yn awr yn ôl cadernid, neu wendid ei ffydd ef yn ei Achubwr felly y mae ei Lawenydd a'i heddwch ef, a i serch hefyd at Sanctteiddrwydd, a'i ddymuniad i adnabod Crist yn well, ac iw wasanaethu ef yn y Byd presennol. Eithr er fy mod yn dywedyd, fod Gwaith Grâs yn ymddangos mal hyn yn yr Enaid lle 'i bytho; etto ni ddichon yr Enaid cnd yn anfynych iawn farnu, mai Gwaith Grâs ydyw 'r peth y mae so 'n ei gymmeryd tan yr enw hynny: Oblegit ei lygredigaethau weithie, a'i Reswm wedi ei gam arfer ar brydiau eraill, a * nadant iddo iawn farnu ynghylch y matter ymma: Ac am hynny rhaid yw bod Barn bwyllog*

* *Rhwystrant.*

iawn

iawn yn yr hwn ſydd â'r gwaith ymma yntho, cyn y gallo ſe gaſclu 'n ddilys, mai Gwaith Grâs ydyw 'r peth.

Y mae 'r Grâs ymma mewn Dyn yn ymddangos i eraill mal hyn. Yn Gyntaf, Trwy Gyfaddefiad † *prûdd difrifol o'i ffydd yng-Hriſt,* Rhuf. 10. 10. Yn Ail, *Trwy fuchedd gyfattebol ir gyffes honno, gan fod yn ſanctaidd yn ei ymarweddiad, ac yn ei Galon, gan ymdrechu hefyd i wneuthur ei Deulu 'n Sanctaidd* (os bydd gantho Deulu) *yr hyn yn gyffredinol ſy'n dyſcu iddo, i gaſhau pechod o'i Galon, i ffieiddio ei hunan yn y dirgel am dano, ac i ymegnio i ddaroſtwng ef yn ei Deulu; ac i dderchafu Sancteidarwydd yn y Byd; nid trwy ſiarad yn vnic, megis y gwna y Chwedleugar a'r Rhagrithwyr; ond trwy ymddaroſtyngiad beunyddiol, mewn ffydd a chariad i Nerth Gair yr Arglwydd, gan ymorcheſtu byw yn ei ôl ef. Ac yn awr Syr, od oes gennych ddim i ddywedyd yn erbyn yr eglurhád byrr ymma, yng hylch gwaith Grâs yn yr enaid, neu yn erbyn y modd y mae 'n datcuddio ei hunan lle y bytho, Mynegwch i mi hynny; onid e Rhoddwch gennad i mi oſyn i chwi ail gweſtiwn.*

† *Serious, pryſſur.*

Phil. 1. 27. 1 Cor. 6. 11. Mat. 5. 8. Pſal. 101. 6. 7. Rhuf. 7. 15. Job 42. 5. 6.

Chwed. Nage, Nid fy rhan i yn awr ydyw || gwrthddadleu, ond gwrando: moeſwch

|| *Gwrthddywedyd*

moeswch glowed gan hynny eich cwestiwn arall.

Ffy. Fy nghwestiwn i yw hyn. *A oes gennych chwi brofiad ynoch eich hunan o'r rhan gyntaf o'r eglurhad ymma o waith Grâs yn y Galon? &c. a ydyw eich buchedd a'ch ymarweddiad chwi yn tystiolaethu hynny?* (cauys lle bo calon lân, y mae buchedd glân, *Mat.* 12. 35.) *neu ynteu a ydyw 'ch Crefydd chwi yn sefyll yn unic* mewn Geiriau ac ymadroddion, *ac nid mewn* Gweithred a Gwirionedd? *Attolwg os ydychi ar fedr fy atteb i yn y matter ymma,* na ddywedwch ddim *rhagor nag a wyddoch y bydd i'r Gorucha*f *ddywedyd* Amen *gydag ef; na dim hefyd ond y peth a allo eich Cydwybod eich cysiawhau chwi yntho.* Canys nid yr hwn sydd yn ei ganmol ei hun sydd gymmeradwy, ond yr hwn y mae 'r Arglwydd yn ei ganmol, 2 *Cor.* 10 18. *Heblaw hynny, Anwiredd mawr iawn ydyw, i Ddyn ddywedyd, yr ydwyf fal hyn, ac fal hyn pan fyddo ei ymarweddiad a'i holl gymmydogion yn dywedyd mai celwyddog ydyw fo.* * Mwy.

Chwed. Yna y dechreuodd *Chewdleugar* † wridio; ond wedi dyfod o honaw ychydig atto ei hun, efe a attebodd fal hyn. Chwi a ddaethoch yn awr at *Brofiad*, at *Gydwybod*, at *Dduw*, ac * *Gochi, cwilyddio.*

† i

† *i alw arno ef.* † i appelio atto ef am Gyfiawnhaad o'hyn a lefarir: Nid oeddwn i yn diſgwyl am y fath ymddiddanion a hyn: ac nid oes yn fy mrŷd i roddi attebir cyfryw Gweſtiwnau; oblegit nad wyf yn fy nghyfrif fy hun yn rhwym i hynny, oddieithr eich bod chwi yn cymmeryd arnoch fod yn ‖ *Ymholydd*: A phettaech chwi y fâth ŵr, etto mi a ellwn wrthod eich cymmeryd chwi yn Farnwr arnaf: eithr attolwg, a gafi wybod gennych, pa ham yr ydych yn gofyn i mi y cyfryw Gweſtiwnau?

‖ *Catechiſmwr.*

Ffy. *Am fy mòd yn eich gweled chwi yn* * *hylithr i ſiarad; ac oblegit fy mod yn tybied, nad oes dim ynoch ond gwybodaeth yn vnic. Ac i ddywedyd i chwi y cyfan wirioned, Mi a glywais am danoch, mai Gwr ydychi, ac y ſydd a'i Grefydd yn ſefyll yn vnic mewn Geiriau, a bod eich ymarweddiad yn anghyfattebol i'ch proffes.*

* *Parod iawn.*

† *mai.* *Dywedant hefyd* † *taw brycheuyn ydych ym-mhlith Criſtianogion; a bod Crefydd yn dioddef llawer o wradwydd oblegit eich annuwiol ymarweddiad; a bod rhai eiſus wedi tramgwyddo o herwydd eich ffyrdd ddrygionus chwi; a bod bagad etto mewn enbydrwydd, i gael eu cyfyrgolli trwy eich ſiampl ddrwg chwi. Eich* Crefydd *a* Meddwdod *yn y* Tafarn-dy, *a* Chybydd-dod, *ac* Aflendid, *a* Thyngu, *a* Rhegu,

Rhegu, *a dywedyd* Celwydd, *a chadw* Cyfeillach ofer, *&c. a* † *gyd-ſafant gyda chwi. Y mae 'r Ddihareb yn wir am danochi, yr hon a ddywedir am Buttain, ſef,* Ei bod hi 'n Gwilydd ir holl Wragedd, *felly 'r ydych chwithau 'n Gwilydd ir holl* Broffeſſwyr. † A ânt law-law.

Chwed. Gan eich bod cyn barotted i goelio pob chwedl, ac i farnu mor fyrrbwyll, ni allaſi dybied llai, nad rhyw wr * anhywaith pen-drwm ydych, ac anaddas i neb ymddiddan â chwi; ac am hynny byddwch wŷch. * *Chwirw*

Yna y neſſaodd *Criſtion* at *Ffyddlon*, ac a ddywedodd wrtho: fy *Mrawd*! mi a ſynegais i chwi ym-mlaen llaw yr hyn a ganlynai eich ymddiddanion graſol chwi â 'r Dyn yma. Mi a wyddwn yn ddigon da, *na chyttunai eich Geirian chwi a'i Drachwantau ef.* Gwell oedd gantho ymadel â'ch Cyfeillach chwi, nâ gwellhau dim ar ei ſuchedd. Eithr efe a aeth ymaith; Gadewch iddo fyned; nid oes colled i neb ond iddo ef ei hun: Ni † rows e mo'r trwbwl i nyni, i ymadael ag efe yn gyntaf. Os parháa ſo (megis yr wyſi 'n tybied y gwna) yn y cyflwr drwg y mae yntho, ni buaſei ſo ond brycheuyn yn ein cwmpeini; ac medd yr Apoſtol, || *Gochl y rhai ſydd â rhith duwioldeb, eithr wedi* † *Roddes.* ||Gwachul.

gwadu ei grym hi. 2 Tim. 3. 5. 2 Theſ. 3. 6.

Ffy. *Eithr y mae 'n dda gennif, gael o honof yr ychydig ymddiddan yma ag ef. Fe ddaw 'r pethau hyn* * *yſgatfydd iw gôf ef drachefn. Pa* † *wedd bynnag, Myfi a oſodais bethau yn eglur o 'i flaen ef; ac felly 'rwi 'n* || *ddi-euog oddiwrth ei waed ef os bydd e colledig.*

* *nid hwyrach*
† *fodd*
|| *yn lâs*

Criſ. Da iawn y gwnaethoch, gan i chwi yn eich ymddiddan ddangos iddo mor eglur, y drwg gyflwr y mae fo yntho. Nid oes nemawr yn y Dyddiau hyn, mor ffyddlon iw cymmydogion yn y matterion yma: A thyna vn achos pa ham y mae *Crefydd* mor ddrewllyd yn ffroenau llaweroedd: Canys y Siaradwyr ynfyd hyn (*Crefydd* pa rai ſy 'n ſefyll yn vnic ar flaen ei Tafodau, gan fod yn frwnt ac yn ofer yn eu hymarweddiad) ydynt yn peri ir Byd * ſynnu yn y fath fodd, fal na wyddant hwy pa beth i dybied am Ddynion crefyddol, gan fod bagad o 'r gwâg-ſiaradwyr hyn wedi eu derbyn iw cymdeithas hwynt; ac y mae 'r Byd yn meſſur eraill wrth y rhain; ac felly o achos diffeithdra y cyfryw Ddynion || ſwrddanllyd, y mae Crefydd yn cael ei † nyrddo, a 'r rhai diragrith yn cael eu tryſthau. Mi fynwn, pe argyhoeddai pawb hwynthwy, megis y darfu

* *rhyfeddu*
|| *Mawr eu ſiarad.*
† *diwyno.*

darfu i chwi argyhoeddi 'r *Clapci* hwn: canys trwy || ddelio felly â'r fath Ddynion, fe i' gwneid hwy, naill ai 'n fwy cydffurfiol â chrefydd, neu ynte fe fyddai Cyfeillach y Sainct yn rhy * dwym iddynt. Yna y canodd *Ffyddlon* fal hyn.

|| *wneu thur.*

* *boeth*

*Dechreuodd y Chwedleuwr * ſerfyll,*
Ar y cyntaf † ddercha 'i Eſcyll,
Gan ryſygu cwympo a || gorfod
Pawb oi flaen, wrth nerth ei dafod.

* *Anwadal.*
† *derchafu*
|| *gorchjygu.*

Mor * hyawdlaidd y chwedleuodd!
Ond hwy'n gyntaf y dechreuodd
Ffyddlon ſôn, am râs iachuſol,
F'aeth y Cyfaill yn ei wrthol.

* *Ffraeth.*

Fal y † Lloer o'i llawn oleuni,
Sy'n mynd lai lai hyd || ei geni;
Felly hefyd 'r a 'r holl Ddynion,
*Ond ſy'n nabod * Gwaith y Galon.*

† *Lleuad.*
|| *Ei newidiad.*
* *Gwaith*

Ac fel hyn hwy a aethant ym-mlaen dan ſiarad ynghylch y pethau a welſent yn ei Taith; a thrwy hynny, hwy a wnaethant y ffordd honno yn † ddifyr, yr hon yn ddiammeu, heb y cyfryw ymddiddanion, a fuaſei 'n anhyfryd iddynt: canys mewn Anialwch yr oeddent hwy yr holl amſer hyn.

grâs yn yn y Galon

† *hyfryd.*

Yn awr, wedi dyfod o honynt o fewn ychydig allan o'r Anialwch, hwy a ganfuant *Efangylwr* yn eu canlyn hwynt: A chwedi iddo eu gorddiwes, fe a gyfarchodd well iddynt, ac a Ddywedodd

wrthynt, *Tangneddyf* i chwi fy anwyl Garedigion, ac i bawb o'ch Cynnorthwy-wyr.

Crif. a Ffyddlon. *Croeſaw, a chan Croeſaw Garedig* Efangylwr: *wrth weled eich wynebpryd, nid allwn ni lai nâ chofio eich hen garedigrwydd, a'ch* * *llafur diflin er ein Daioni tragwyddol. O mor ddymunol yw'ch Cyfeillach i nyni y Pererinion truain! Ac wedi Mynegi iddo y cwbl oll a ddigwyddaſai iddynt yn ei Taith, a pha ſodd, ac mor anhawſed y daethant hwy ir Lle yr oeddent yn awr yntho, ſe lefarodd* Efangylwr *wrthynt hwy fal hyn; 'Rwi'n llawenychu 'n ddirfawr, nid am i chwi gyfarfod â phrofedigaethau, ond am i chwi eu gorchfygu hwynt; ac hefyd am barháu o honoch i ymdeithio yn y ffordd hon hyd y Dydd preſennol, er bod ynoch lawer o wendid.*

* Pern.

'Rwi 'n dra llawen (meddaf) am y pethau hyn, yn gyſtal er fy mwyn ſy hun, ac er eich mwyn chwithe: Myf
Joan 4. 36. a hauais, a chwithau a fedaſoch; ac y mae 'r dydd yn dyfod, yn yr hwn y caiff y ſawl a hauodd, a'r ſawl a fedod
Gal. 6. 9. gyd-lawenhau (hynny yw os parhewch chi hyd y diwedd yn eich ffordd) cany yn ei iawn bryd y medwch oni ddeffy
1 Cor. 9. 24. 25. giwch. Y mae Coron anllygredig o'ch blaen chwi, *felly rhedwch fel y caffoch*

afael

afael arni. Y mae rhai 'n myned allan i geiſio meddiannu y Goron hon, ac wedi myned ymmhell am dani, y mae arall yn dyfod, ac yn ei dwyn hi oddiarnynt. *Deliwch gan hynny yr hyn ſydd gennych, fel na ddygo neb eich Coron chwi.* Nid ydychi etto allan o gyrhaedd ergydion Satan. *Ni wrthwynebaſoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod,* Heb. 12. 4. Bydded Teyrnas Nefoedd yn waſtadol o flaen eich llygaid; a bydded gennych ffydd gadarn ynghylch y pethau ſydd anweledig. Na choeliwch fod eich hapuſrwydd yn eſyll mewn dim y ſydd tu yma 'r Nefoedd: Ac yn || bendifaddeu, edrychwch yn fanol at eich calonnau eich hunain a'u drachwantau; *canys y maent yn fwy ei gwyll nâ dim, ac yn ddrwg diobaith* Jer. 17. 10. Goſodwch eich wynebau fal * Calleſtr yn eu herbyn: y mae 'r wn ſy 'n *Holl-alluog* yn y Nef ac ar y Ddaiar yn † eich plaid chwi. Criſ. *Yna y diolchodd Criſtion iddo m ei gyngor, gan ddamuno arno (yn ei nw ei hunan a* Ffyddlon) *i hyſſorddi hw ym-mhellach, pa fodd i fyned y han ddiwethaf o'i ffordd; oblegit eb fe, ni a wyddom yn ddilys, mai* Prohwyd *ydych, ac y gellwch chi ragynegi y pethau a ddigwyddant i ni*

Dat. 3. 11.

|| *Bennaf dim.*

* *Flint.*

† *Ar eich ochr.*

* *Cyfarwyddo.*

wrthynt, *Tangneddyf* i chwi fy anwyl Garedigion, ac i bawb o'ch Cynnorthwy-wyr.

Crif. a Ffyddlon. *Croefaw, a chan Croefaw Garedig* Efangylwr: *wrth weled eich wynebpryd, nid allwn ni lai nâ chofio eich hen garedigrwydd, a'ch* * *llafur diflin er ein Daioni tragwyddol. O mor ddymunol yw'ch Cyfeillach i nyni y Pererinion truain! Ac wedi Mynegi iddo y cwbl oll a ddigwyddafai iddynt yn ei Taith, a pha fodd, ac mor anhawfed y daethant hwy ir Lle yr oeddent yn awr yntho, fe iefarodd* Efangylwr *wrthynt hwy fal hyn; 'Rwi'n llawenychu 'n addirfawr, nid am i chwi gyfarfod â phrofedigaethau, ond am i chwi eu gorchfygu hwynt; ac hefyd am barháu o honoch i ymdeithio yn y ffordd hon hyd y Dydd preſennol, er bod ynoch lawer o wendid.*

* *Peen.*

'Rwi 'n dra llawen (meddaf) am y pethau hyn, yn gyſtal er fy mwyn fy hun, ac er eich mwyn chwithe: Myfi a hauais, a chwithau a fedaſoch; ac y mae 'r dydd yn dyfod, yn yr hwn y caiff y ſawl a hauodd, a'r ſawl a fedodd gyd-lawenhau (hynny yw os parhewch chi hyd y diwedd yn eich ffordd) canys yn ei iawn bryd y medwch oni ddeffygiwch. Y mae Coron anllygredig o'ch blaen chwi, *felly rhedwch fel y caffoch*

Joan 4. 36.

Gal. 6. 9.

1 Cor. 9. 24. 25.

afael

aſael arni. Y mae rhai 'n myned allan i geiſio meddiannu y Goron hon, ac wedi myned ymmhell am dani, y mae arall yn dyfod, ac yn ei dwyn hi oddiarnynt. *Deliwch gan hynny yr hyn ſydd* Dat. 3. 11. *gennych, fel na ddygo neb eich Coron chwi.* Nid ydychi etto allan o gyrhaedd ergydion Satan. *Ni wrthwynebaſoch etto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod,* Heb. 12. 4. Bydded Teyrnas Nefoedd yn waſtadol o flaen eich llygaid; a bydded gennych ffydd gadarn ynghylch y pethau ſydd anweledig. Na choeliwch fod eich hapuſrwydd yn ſefyll mewn dim y ſydd tu yma 'r Nefoedd: Ac yn || bendifaddeu, edrychwch || *Benraf dim.* yn fanol at eich calonnau eich hunain a'u trachwantau; *canys y maent yn fwy ei mwyll nâ dim, ac yn ddrwg diobaith* Jer. 17. 10. Goſodwch eich wynebau fal * Calleſtr yn eu herbyn: y mae 'r * *Fflint.* hwn ſy 'n *Holl-alluog* yn y Nef ac ar y Ddaiar yn † eich plaid chwi. † *Ar eich ochr.*

Criſ. *Yna y diolchodd Criſtion iddo am ei gyngor, gan ddamuno arno (yn ei enw ei hunan a* Ffyddlon) *i hyſſorddi* * *Cyfarwyddo.* *nhw ym-mhellach, pa ſodd i fyned y rhan ddiwethaf o'i ffordd; oblegit eb efe, ni a wyddom yn ddilys, mai* Prophwyd *ydych, ac y gellwch chi ragſynegi y pethau a ddigwyddant i ni*

† Ar ol hyn.

† *rag-llaw yn ein Taith, ac hefyd yſpyſſu i ni, pa fodd y gallwn wrthwynebu a gorchfygu y profedigaethau y gyſarfyddwn ag hwynt.*

Efang. Yna ebe *Efangylwr*, fy Mhlant anwyl, Chwi a glywſoch allan o'r yſcrythur, *mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i Deyrnas Dduw*: *Ac hefyd fod rhwymau a blinderau ym-mhob Dinas yn ein haros ni*: Ac am hynny na ddiſgwyliwch fyned ym-mhell ar eich *Pererindod* hebddynt, yn rhyw fodd neu gilydd. Chwi a gowſoch beth tyſtiolaeth am y gwirionedd yma * yn barod; a chwi a gewch anghwaneg ar fyrr: Canys yr ydych yn awr, megis y gwelwch, ar fyned allan o'r Anialwch hwn; ac chwi a ddewch yn ebrwydd i Dref, yr hon a ganfyddwch chi † y boir o'ch blaen: Ac yn y Dref honno y ‖ gwarchaeir chwi'n galed gan elynion, y rhai a ymdrechant à'i holl nerth i'ch llâdd chwi. A byddwch ſicer o hyn, y gorfydd nr vn o honoch, oni orfydd ar y llall, ſelio â'i waed y dyſtiolaeth yr vdych yn ei ddal: *Eithr byddwch ffyddlon hyd Angeu, a'r Brenin a rydd i chwi Goron y bywyd*, Dat. 2. 10. A'r hwn a fyddo marw yno, er y bydd ei farwolaeth ef yn annaturiol, ai boenau ond odid yn ddir-

Act. 14. 22.

Act. 20. 23.

* *Eiſw.*

† *Yn y mann.*

‖ *Amgylchir.*

ddirfawr, a gaiff y goreu er hynny ar ei Gyfaill ; nid yn vnic o herwydd y derbynnir ef yn gyntach ir Ddinas nefol, eithr hefyd oblegit y bydd iddo ddiangc rhag llawer o drueni ac * helbulon, y rhai a ddigwyddant ir llall, cyn ei ddyfod ef i ben ei ſiwrnai. Eithr pan ddeloch ir Dref, a gweled yr hyn oll, a rag-fynegais i chwi yma, wedi ei cyflawni ; yna cofiwch ſi eich Cyfaill ; ac ymwrolwch, *a gorchymmynwch gadwedigaeth eich eneidiau i Dduw, megis i Greawdwr ffyddlon*, gan wneuthur yr hyn ſydd dda yn ei olwg ef, 1 *Pet.* 4. 19.

* *Gofydiau.*

Yna mi a welais yn fy mreuddwyd, hwyn gyntaf ac y daethant allan o'r anialwch, ganfod o honynt Dref ar eu cyfer, a'i Henw hi yw *Gwagedd*, ac ynthi hi y cedwir ffair trwy 'r holl flwyddyn, yr hon a elwir ffair *Gwagedd*, am fod y Dref lle yr ydys yn ei chadw hi yn yſcafnach nâ *Gwagedd* ; ac hefyd am nad yw y cwbl a werthir yno, neu ſy'n dyfod yno, ddim amgen nâ *Gwagedd*, megis y dywedodd y Gwr Doeth, *Gwagedd yw 'r cwbl*, Eſay. 40. 17. Preg. 1. 2.

Nid ffair newydd, ond hèn ffair ydyw hon : Mi a ddangoſaf i chwi ei Dechreuad hi.

Er ys agos i bum mîl o flynyddoedd, yr oedd *Pererinion* yn ymdeithio tua 'r Ddinas nefol ; a *Beelzebub*, *Apol-lyon*, ynghyd a'r Cythreuliaid eraill a wybuant wrth y llwybr a wnaethei y *Pererinion*, fod ei ffordd hwy ir Ddinas nefol yn myned trwy ganol * Tref *Gwagedd* ; ac am hynny hwy a ddychymygasant i godi yma ffair, i barhau trwy gydol y flwyddyn, yn yr hon y gwerthid pob math o *Wagedd*. Am hynny fe werthir ynthi bob rhyw o farsiandiaeth, megis Tai, Tiroedd, Celfyddydau, Swyddau uchel, Anrhydedd, Gwledydd, Teyrnasoedd, Trachwantau, † Trythyllwch o bob math, megis Putteiniad a'i Llatteion, Gwragedd, Gwyr, Plant, Meistred, ‖ Gweinidogion, Bywydau, Gwaed, Cyrph ac Eneidiau pobl, Arian, Aur, Perlau, a pha beth nas cair ar werth yma.

* *Y Byd brawt yma.*

† *Plesserau.*

‖ *Gweision.*

Ac heblaw hynny, cair gweled yn y ffair hon bob amser, * Hudolwyr, Twyllwyr, † Chwaryddion, Ynfydion, Eppaod, Cnafiaid, Rogiaid o bob math ; Lladron, Llofryddion, Godinebwyr, ac Anvdonwyr wedi eu diwyno a gwaed gwirion.

* *Juglers.*

† *Stage-players.*

Ac megis y mae mewn ffeiriau eraill (llai eu ‖ bri) felly hefyd y mae yma amryw * heolydd, tan eu henwau priodol,

‖ *Anrhydedd.*

* *Ystrydoedd.*

odol, lle y gwerthir y cyfryw farſiandiaeth. Y mae yma Heol y *Brittaniaid*, Heol y *Ffrancod*, Heol yr *Italiaid*, Heol yr *Hyſpaenwyr*, a Heol y *Germaniaid*, lle mae amryw fath o wagedd ar werth. Ond megis mewn ffeiriau eraill y mae rhyw bethau yn fwy enwedigol iw cael ar werth, felly Marſiandiaeth *Rhufain* ſy'n cerdded orau yn yffair yma, ond bod y *Brittaniaid*, a rhyw † *Naſiwnau* eraill, yn dibriſſio Marſiandiaeth hynny. † Boboedd.

Yn awr fal y dywedais, y mae 'r ffordd ir Ddinas Nefol yn myned yn vnion trwy 'r Dref hon; A'r neb a fynno fyned ir Ddinas honno, heb fyned trwy 'r Dref yma, *rhaid iddo fyned allan o'r byd*, 1 Cor. 5. 10. Feorfu ar Dywyſog y Tywyſogion, pan yr oedd ef ar y Ddaiar, fyned trwy 'r Dref a'r ffair hon idd ei wlâd ei hun; ac fo'i gwahoddwyd ef gan *Beelzebub* Pen llywodraethwr y ffair, i brynu o'i Wagedd ef: Ie cynnigiodd i wneuthur ef yn Arglwydd y ffair, pe buaſai ef ond yngrymmu iddo, a'i addoli ef wrth fyned trwy 'r Dref. Ac oblegid bod Tywyſog y Tywyſogion yn dra anrhydeddus, dygodd *Belzebub* ef o Heol i Heol, gan ddangos iddo holl Deyrnaſoedd y Byd mewn munyd awr;

|| *Hudo.* fal y gallai ſo (pettaiſai boſſibl) || ddenu 'r Bendigedig hwnnw i brynu peth o'i wagedd ef. Eithr nid oedd gantho ef ddim ſerch at y cyfryw farſiandiaeth, ac am hynny efe a aeth ymaith o'r Dref, heb * wario cymmaint ac vn hatling ar y Gwagedd yma. *Mat.* 4. *Luc.* 4.

* *Treulio.*

Yn awr fal y dywedais i, yr oedd yn rhaid ir *Pererinion* hyn fyned trwy 'r ffair yma: Eithr hwy'n gyntaf ac y daethant yno, ſe gyffrowyd yr holl werin oedd yn y ffair; a'r holl Dref a ymgaſclaſant o'u hamgylch hwynt, fal pettaeſent mewn hwb-hwb; a hynny o herwydd amryw reſymmau.

Yn Gyntaf, *Yr oedd y Pererinion wedi eu dilladu â'r cyfryw wiſcoedd, nad ydoedd gan neb yn y dref a'r ffair honno moi bath: Ac oblegit hynny yr oeddent yn Llygadrythu yn rhyfeddol arnynt. Rhai a ddywedent mai* † Ynfydion *oeddent, Rhai mai* Bedlemaid, *ac eraill a ddywedent, mai* Gwyr o wlâd ddieithr *oeddynt.*

† *Rhai cynddiriog, rhai i mais oi côf.*

Yn Ail, *Megis yr oeddynt yn rhyfeddu wrth weled eu* ſ *Dillad; ſelly hefyd yr oeddynt yn rhyfeddu wrth glywed eu iaith hwynt; canys nid oedd nemmawr yn deall yr hyn a lefarent. Eu iaith hwy ydoedd iaith Gwlâd* Canaan; *ond Gwyr y Byd hwn oedd Pobl y ffair; canys yr oeddent yn tyngu, ac yn rhegu, ac yn offrwm eu heneidiau ir Diawl yn dra mynych: Ac*

* *Eu lyncrwyddiad gweddaidd.*

ſelly

felly o'r naill ben ir ffair ir llall, yr oedd y Pererinion *a'r ſawl oedd yn marchnatta yno, megis* * Barbariaid *y naill ir llall,* 1 Cor. 2. 7, 8.

* â llediaith ganthynt.

Yn Drydydd, *Y Peth mwyaf rhyfeddol gan y Marſiandwyr ydoedd, fod y* Pererinion *yma yn llwyr-ddibriſio eu holl Farſiandaeth hwy: Canys ni wnaent hwy gymmaint ac edrych ar y pethau oedd ar werth yno; ac os gelwid arnynt i brynu dim, hwy a oſodent eu byſſedd yn eu clyſtiau, ac a waeddent,* Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar Wagedd; *ac a edrychent i fynu, gan arwyddoccau trwy hynny, fod y wâr ar Pethau yr oeddent hwy yn ymofyn am danynt, iw cael yn vnic yn y Nefoedd.* Pſal. 119. 37. Phil. 3. 19, 20

Digwyddodd i ryw watwarwr (wrth ddal ſylw ar eu hymddygiad) oſyn iddynt, *pa beth a brynwch chi?* A hwythau yn Sobr iawn a'i hattebaſant eſ, *ein hewyllys ni yw prynu 'r Gwirionedd.* Ac ar hyn y cymmerwyd mwy o * achlyſſur i dirmygu hwynt: Canys rhai yn awr a'u gwatworent, rhai † a'u enllibient, a rhai a annogent eraill i curo nhwy. O'r diwedd, yr oedd yr holl ffair mewn Terfyſc ac hwbwb, hyd onid oedd pob peth allan o Drefn. Yna y mynegwyd y cwbl i Arglwydd y ffair; ac

Dihar 23. 23.

* Achos.

† *A roddent ddryg-air iddynt.*

‖ *Cyffroad.*

ac yntef a ddaeth i wared yn ddioed, ac a erchodd i rai o'i Gyfeillion ffyddlonaf i holi hwynthwy yn fanol, o achos ba rai yr oedd y fath gynnwrf yn yr holl ffair.

Felly fe ddygwyd y Gwyr o flaen y Sawl a appwyntiwyd i * hexamnio nhw; a Gofynnwyd iddynt, o ba le yr oeddent yn dyfod, i ba le yr oeddent yn myned, ac i ba bwrpas y daethant yno yn y fath wiſcoedd anarferol? *Hwythau a'u hattebaſant, mai* Dieithriaid *a* Phererinion *oeddent yn y Byd hwn, a'u bod nhw 'n myned tua ei Gwlâd ei hun, ſef y* Jeruſalem *nefol; ac na roeſent hwy ddim achos, nac i wyr y Dref, nac ir Marſiandwyr ychwaith, i hammharchi ac i * lluddias hwy yn ei ſiwrnai; oddieithr bod hyn yn achos, ſef, pan y gofynnodd vn iddynt pa beth a brynent, atteb o honynt hwythau, mai 'r † Gwir y brynent.*

Eithr ni choeliei y Swyddogion eu bod nhw ddim amgen nâ *Bedlemmaid*, a || Dynion i maes o'i côf, neu ynteu mai pobl oeddynt, ar a ddaethai yn bwrpaſſol, i wneuthur Cynnwrf yn y ffair. Am hynny hwy a guraſant y *Pererinion*, gan eu trybaeddu nhw â dom, ac wedi hynny hwy a'u goſodaſant mewn * Cratſh, mal y byddent yn Ddry-

* *Holi.*

Heb. 11. 13. 14, 16.

* *Rhwyſtro.*

† *Sef Gwirioneddau Duw*

|| *Rhai wedi gwallgoſi.*

* *Carchardy bychan, lle y cauir Scoldiod.*

Ddrychau ir holl *ffair.* Ac yno y buant dros dro (neu ennyd) yn † wrthddrychau i Watwarwyr a Maleuſwyr; ac Arglwydd y ffair oedd yn y cyfamſer yn chwerthin wrth weled eu hammharchi nhw yn y modd yma. Eithr yr oedd y Gwyr yn ammyneddgar iawn, heb roi ſen am ſen, ond o'r gwrthwyneb yr oeddynt yn bendithio, gan roi geiriau da am rai drwg, a pharch am ammarch.

† *Pethau a ſo gerbron llygaid un.*

Ond rhai o'r ffair, wrth graffu yn well ar y Pererinion, ac heb farnu yn fyrr-bywyll am danynt, megis eraill, a ddechreuaſant geryddu a beio 'r Bobl gyffredin, am eu bod nhw 'n waſtadol yn gwneuthur cam â'r Dieithriaid yma, yn y fath fodd ddirmygus : Hwythau yn llidiog a attebaſant y ſawl oedd yn eu ceryddu nhw, gan ddywedyd wrthynt, eu bod nhw cynddrwg a'r Gwyr oedd yn y Carchardy, a'u bod hefyd (mewn pob tybygoliaeth) mewn * Cyngrair ag hwynt, am eu bod yn pledio troſtynt; ac o herwydd hynny, y caent fod yn gyd-gyfrannogion o'u haſlwydd hwynt. *A'r lleill a ddywedaſant, am ddim ar a welſent hwy, fod y Dynion yn llonydd ac yn ſobr, heb chwennych drwg i neb : A bod bagad yn marchnatta yn y ffair, y rhai a haeddent*

* Cyttundeb.

eu

† *Carchar gwddwf.* *eu carcharu, ie a'u goſod yn y* † *Pilwri yn hytrach nâ'r Dieitbriaid yma. A chwedi ymdaeru digon a'i gilydd (a'r* || *Yr holl amſer.* Pererinion *trwy* || *gydol yr amſer yn* * *Dn yn.* * *cario eu hunain yn ddoeth, ac yn bwyllog iawn ger ei bron hwynt) hwy a rythraſant y naill ar y llall, gan guro a chlwyfo yn ei gilydd.*

Yna y dygpwyd y ddau *Bererin* drachefn o flaen y ſwyddogion, iw holi 'n ſanolach; ac achwynwyd arnynt, mai hwynthwy a fu achos o'r Terfyſc diweddar a fuaſai yn y ffair. Ac am hynny, fe'i curwyd hwy yn ddi-drugaredd, a goſodwyd hwy mewn heirn, a dygwyd hwy mewn cadwynau i fynu ac i wared trwy 'r holl ffair, er enſiampl a dychryn i eraill, rhag dywedyd o neb ddim yn eu plaid, neu ymgyfeillachu ac ymgyſſylltu â hwynt. Eithr *Criſtion* a *Ffyddlon* a ddygaſant eu hunain yn ddoethach etto, gan dderbyn y † Am-*march.* † ſarháad a'r dirmyg a gowſont, gyda chymmaint o ammynedd a llarieidd-dra, hyd oni ynnillaſant trwy hynny lawer o bobl y ffair iw plaid, er nad oeddynt ond nifer fechan iw * cyſtadlu á'r lleill. * *Compare.* A gwnaeth hyn ir † Blaid arall gynddeiriogi yn fwy; a dywedaſant wrth † *Party.* y ddau wr, na chai Carchar a Heirn waſanaethu moi trô, ond y caent eu goſod

ſod i farwolaeth am y cynwrf y wnaethant, ac am hudo rhai o'r ffair i fod o'u || hochr hwynt.

|| *Ar ei rhan.*

Yna y danfonwyd hwy dracheſu ir Carchar, hyd oni chymmeryd cwrs ym-mhellach ag hwynt: Ac yn y carchar, fe ddodwyd eu traed hwy yn ſiccr yn y * cyffion.

* *Stocks.*

Ac yno y daeth iw côf hwynt yr hyn a ddywedaſai ei ffrind anwyl *Efangylwr* wrthynt; ac hwy a gadharnhawyd yn fwy yn eu ffyrdd a'u dioddefiadau, gan iddo fe rag-fynegi yr hyn a ddigwyddaſai iddynt. Dechreuaſant hefyd ynawr i gyffuro † yn i gilydd, gan ſarnu, mai 'r hwn a ddioddefau farwolaeth yn gyntaf, y gae'r gorau ar y llall: Ac am hynny yr oedd pob vn yn chwennych yn ei galon, i gael y rhagorfraint hwnnw. Eithr gan eu gorchymyn eu hunain i ddoeth ragluniaeth yr hwn ſy'n llywodraethu pob peth, hwy a ymroeſant gydà llawer o fodlonrwydd i ddwyn eu croes, hyd oni threfnid iddynt rhyw gyflwr arall.

† *Ynaill y llall.*

Yna wedi ordeinio amſer cyfaddas, fe'i dygwyd hwy allan ir * Frawdle, i gael eu barnu gan eu gelynion: Enw 'r Barnwr oedd *Caſáwr pob Daioni.* Eu hyndeitment ydoedd yr vn mewn ſylwedd, er ei fod yn ddau mewn ffurf

* *O flaen gorſeddfaingc y Barnwyr.*

a

a dull. Y matter cynnhwyſedig yntho ydoedd hyn.

Fod y Pererinion yma yn Elynion iw creſſtau a'u marſiandiaeth hwynt ; a gwneuthur o honynt hwy Derfyſc ac ymyſſonau yn y Dref, gan hudo llaweroedd, i dderbyn eu henbyd a'u gau opiniwnau hwynt, mewn matterion crefydd, gan ddiyſtyru a dirmygu cyfraith ei Tywyſog trwy wneuthur felly.

Yna *Ffyddlon* a attebodd troſto ei hun, gan ddywedyd, *Ni wrthwynebais i neb, ond y ſawl oedd yn wrthwyneb ir hwn ſydd uwch nâ'r uchaf ar y Ddaiar ; ac ni wnaethum i ddim Terfyſc, gan fy mod fy hun yn wr heddychlon : Ac am y rhai a ennillwyd i'n * plaid, fe'i ennillwyd hwy trwy yſtyried y gwirionedd a'r diniweidrwydd ſydd ynom ; ac y maent wedi eu troi, yn unic oddiwrth y Gwaeth at y Gwell. Ac am y Brenin yr ydychi 'n Sôn am dano, gan mai* Beelzebub *ydyw fo (ſef Gelyn mawr i'n Harglwydd ni) yr wî 'n ei ddiyſtyru ef a'i holl Angelion.*

* *Ochr, party.*

Yna y † Proclaimwyd, ‖ o'r 'doedd gan neb ddim i ddywedyd, ym-mhlaid ei Harglwydd Frenin *Beelzebub*, yn erbyn y Carcharor wrth y barr, * appyro o honynt ar frŷs, i roddi eu Tyſtiolaeth ir Cwrt ; Ac ar hynny y daeth Tri

† *Cyhoeddwyd.*
‖ *Os ydoedd.*
* *Ymddangos.*

Tri o Dyſtion i mewn, a'u henwau oedd *Cynſigennus*, *Coel-greſyddol*, *ac* † *Efan Llygad y bwyd*: Yna y gofynnwyd iddynt, a adwaenent hwy y Carcharor wrth y barr? A pha beth oedd ganthynt iw ddywedyd yn ei erbyn ef, tros eu Harglwydd Frenin.

† *Pickthank, ſef, Truthiwr neu Wenhieithiwr, a wirio'r hyn a ddywetto arall, bid gwir, bid gelwydd, mewn gobaith i gael groeſo, a bwyd, a chwrw, ac arian, oddiwrth y ſawl y mae 'n tyngu troſto.*

Yna y ſafodd *Cynſigennus* i fynu, ac a ddywedodd fal hyn, Fy Arglwydd Vſtus, myfi a adwaen y Gwr yma er ys * talm o amſer, ac mi a dyſtiolaethaf ar fy llŵ, o flaen yr Orſeddfaingc anrhydeddus hon, ei fod ef——

* *Hîr.*

Barnwr. Arafwch, rhoddwch ei Lŵ iddo ef; Ac wedi gwneuthur ſelly, efe a ddywedodd, nid yw 'r Gwr hwn, er tecced yw ei enw, ond vn o'r Dynion † diffeithaf yn ein Gwlâd: Nid yw e'n gwneuthur prîs yn y byd, nac o'n *Tywyſog* nac o honom ninnau ei *Ddeiliaid* ef, nac o *Gyfreithiau* nac o *Ddefodau*; ond y mae 'n gwneuthur a allo, i lanw pennau pobl â rhai opiniwnau melltigedig, y ſy 'n wrthwyneb i vfydd-dod ir Awdurdodau goruchel; y rhai opiniwnau, y mae efe yn eu alw, yn ‖ wyddorion ffydd a ſancteiddrwydd:

† *Brwntaſ.*

‖ *Pyngciau.*

Ac

Ac yn neilltuol, Myfi a'i clywais ef â'm cluſtiau fy hun yn * taeru, *Fod Criſtianogaeth a Defodau yn † Tref ni, yn gwbl wrthwyneb iw gilydd, ac nas gellir eu * cymmodi hwynt* : A thrwy 'r ymadrod hwn fy *Arglwydd Iuſtus*, y mae fo ar vnwaith yn † condemnio nid yn vnic ein holl weithredoedd canmoladwy ni, eithr ninne hefyd y ſydd yn eu gwneuthur hwynt.

* *Honni.*

† Sef *Tref Gwageda.*

* Hedd-ychu.

† Barnu i vffern.

Barn. *Yna y gofynnodd y* Barnwr *iddo, A oes gennych ddim mwy i ddywedyd?*

Cynſig. Fy Arglwydd, Mi a allwn ddywedyd llawer mwy; eithr ni fynnwn i flino 'r Cwrt; etto os bydd rhaid (wedi ir Gwyr bonheddigon eraill roddi eu tyſtiolaeth i mewn) yn hytrach nag y bo dim yn eiſiau i grogi neu i loſci ef, myfi a helaethaf fy nhyſtiolaeth yn ei erbyn ef. Yna fe archwyd i *Gyngifennus* ſefyll heibio, a galwyd *Coel-greſyddol*, a gorchymynwyd iddo edrych ar y *Carcharor wrth y Barr*; a gofynnwyd iddo, pa beth a allai fo ddywedyd, dros eu Harglwydd Frenin yn ei erbyn ef? A wedi rhoddi ei lŵ iddo, Efe a lefarodd fal hyn.

Coel-gref. *Fy Arglwydd Ieſtus, nid ydwyf hanner gydnabyddus â'r Gwr hwn, ac nid wi'n chwennychu bod yn fwy cyd-*

cydnabyddus ag ef. Er hynny mi a wn hyn, oddiwrth ryw ymddiddan a fu rhyngofi ag yntef y dydd arall, yn y Dref yma, Mai Dyn diriaid a thra pheryglus ydyw fo; *canys myfi a'i clywais ef y pryd hynny yn dywedyd,* Fod ein crefydd ni yn ddrwg, fef yn gyfryw vn, ac nad yw boſſibl i neb * foddhau Duw trwyddi. *Ac oddiwrth yr ymadroddion yma, fy* Arglwydd Iuſtus, *chwi a wyddoch yn ddigon da fod hyn yn canlyn, ſef,* Mai ofer yw 'n haddoliad ni 'n waſtadol, A'n bod ni etto yn ein pechodau, Ac y byddwn ni damnedig yn y Diwedd; *a hyn ſy gennifi i ddywedyd.* * *Fodloni.*

Yna y rhoddwyd * *Efan-llygad y bwyd* iw'lw, ac fe archwyd iddo ddywedyd yr hyn a wyddai, ym mhlaid eu Harglwydd Frenin, yn erbyn y Carcharor wrth y barr. * *Pickthank.*

Efan. Fy *Arglwydd Vſtus*, a chwithau wyr boneddigion oll, Myfi a adwaen y cyfaill yma er ys talm o amſer, *ac a'i clywais ef yn difenwi ein hardderchog Dywyſog Belzebub, ac yn llefaru yn ddirmygus am ei Gyfeillion anrhydeddus ef;* ſef, am yr *Arglwydd* * *Hên-Dyn*, yr *Arglwydd Hyfrydwch Cnawdol*, yr *Arglwydd Gloddeſt*, yr *Arglwydd* trachwantus am *Wàg-ogoniant*, * *Ein nattur lygredig.*

yr

† *Wantarrwydd.* yr hên *Arglwydd* † *Anlladrwydd*, Syr, *Cybydd angawr*, ynghyd a phawb eraill o'n *Pendefigion* ni. Ac efe a ddywedodd ym-mhellach, Pettai bawb o'r vn feddwl ag ef, os byddei boſſibl, na chai vn o'r rhain aros yn hwy yn y Dref ymma. Heb law hynny fy Ar-
* *Ofnodd.* *glwydd Vſtus*, nid * arſwydodd efe i'ch difenwi Chwithau hefyd, yr hwn ſy'n awr wedi ei appwyntio i fod yn *Farnwr* arno ef, gan eich galw chwi
† *Yſcelerddyn.* yn † *Filain annuwiol*, wrth ‖ fytheirio
‖ *Rhoddi allan.* allan lawer o eiriau enllibaidd eraill am danoch chwi, ac am dan y rhan fwyaf o vchelwyr ein Tref ni. Wedi i *Efan*, ddywedyd ei chwedl, fe drodd y *Barnwr* at y Carcharor wrth y barr, gan ddywedyd wrtho. *Tydi 'r Crwydrad, yr Heretic, a'r Traetwr, a glowaiſti*
* *Bradychwr.* *beth a dyſtiolaethodd y Gwyr oneſt hyn i'th erbyn di?*

Ffyddlon. *A gâf i gennad i ddywedyd ychydig droſof ſy hun.*

Barnwr. Syre, Syre, 'rychi 'n haeddu cael eich goſod i farwolaeth, yn
* *Ddiaros* * ddiattreg, yn y mann hyn: Ond
† *Tynerwch.* ctto mal y gallo pawb weled ein † llarieidd-dra ni tuag attoch, moeſwch glowed beth ſydd gennych (y crwy-
‖ *Budr.* dryn ‖ brwnt) i ddywedyd troſoch eich hunan.

Ffydd-

Ffyddlon. 1. Am yr hyn a lefarodd Mr. *Cynfigennus*, 'Rwi 'n atteb; Na ddywedais i ddim ond hyn, ſef, *Fod y Rheolau, y Cyfreithiau, y Defodau, a'r Bobl hynny y ſy'n wrthwyneb i Air Duw, fod y rheini i gyd* (meddafi) *yn wrthwyneb i Griſtianogaeth.* Os dywedais iar fai yn hyn, * 'rwi 'n barod, *ond i chwi ddangos i mi fy nghamſyniad*, i alw 'm geiriau 'n ôl, ac i ddaroſtwng fy hunan yma o'ch blaen chwi oi plegit hwynt. * *Yr wyſi.*

2. Am y peth a dyngodd Mr. *Coelgrefyddol* i'm herbyn, 'rwi 'n atteb, mai hyn yn vnic a ddywedais i, ſef, *Y dylai ein ffydd ni ynghylch y pethau yr ym yn eu gwneuthur, yn Addoliad Duw, fod yn gyfryw vn, ar y ſy wedi ei* † *ſeilio ar Air Duw; canys yno y mae ſe'n datguddio y pethau, y mae fo 'n eu ewyllyſſio i nyni eu cyflawni, yn ei Addoliad ef; a gelwir y ffydd yma yn ffydd* * *ddwyſol, yr hon, heb warant allan o Air Duw, nid all mor bod yn neb. Ac am hynny, os dygir dim i mewn i Addoliad Duw, nad ydyw gyttunol â'r datcuddiad, y ſydd oi ewyllys ef yn yr yſcrythur, nid ellir cyflawni hynny, ond â ffydd ddynol, yr hon nid yw ſuddiol i fywyd tragwyddol.* † *Gofod.* * *Neſol, trwy 'r hon yr ym yn credu, fod ein haddoliad ni yn gymeradwy gyda Duw, gan ei ſod yn orchmynnedig yn ei Air ef.*

3. Am

3. Am yr hyn a dyngodd Mr. *Efan Llygad y Bwyd*, 'rwi 'n atteb (heb ddal ſulw ar ei waith e 'n haeru, fy mod i 'n difenwi *&c.*) *fod* Beelzebub *Tywyſog y Ddinas hon, a'r holl* * *dorf o'i weiſion ef, yn gymhwyſach i fod yn vffern, nag yn y wlâd neu 'r Ddinas yma.* Felly Duw a drugarháo wrth fy enaid i.

* *Tyrſa.*

Yna y dywedodd y Barnwr wrth y Cweſt (y rhai, tros yr holl amſer, a ſafaſant gyferbyn, i wrando ac i ddal ſulw) Chwychwi wyr bonheddigon o'r cweſt a welwch y Gwr yma, o achos pa vn y bu cymmaint o gynnwrf yn ddiweddar yn ein Tref ni: Chwi a glwyſoch pa bethau a dyſtiolaethodd y Gwyr bonheddigion hyn yn ei erbyn ef; ac hefyd ei attebion a'i gyfaddefiad yntef. Arnoch chi yn awr y mae 'n ſefyll, ei fwrw, neu i gadw ef. Ond etto 'rwi 'n gweld hyn yn beth cymmwys, ſef, i'ch haddyſcu chwi, ynghylch nattur ein cyfreithiau ni.

* *Gwâs.*

† *Gwnaethpwyd.*

Yn nyddiau Brenin Pharao (* *Gweinidog i'r Tywyſog* Beelzebub) *y gwnaethpwyd Cyfraith, yn yr hon y gorchymynwyd bwrw plant gwrywaid yr* Iſraeliaid *ir afon, rhag ofn ir rhai oedd o grefydd wrthwyneb idd ei grefydd ef amlhau, a mynd yn drech nag ef.* † *Gwnawd Act hefydd yn nyddiau* Nebuchadnezar

buchadnezar *fawr* (*Gwâs arall i'n Tywyſog ni*) *y byddai i bwy bynnag, ni ſyrthiai i lawr i addoli ei ddelw Aur ef, gael eu bwrw i ffwrn o Dân poeth. Gwnaethpwyd Act hefyd yn nyddiau* Darius, *y byddai ir Sawl a alwai ar vn Duw* (*tros rhyw amſer terfynnedig*) *onid yn vnic arno fe, gael eu taflu i ffau 'r Llewod.* Exod. 1. Dan. 3. Dan. 6. *Yn awr y mae 'r* * *Rhebel yma wedi troſſeddu y cyfreithiau hyn i gyd, nid yn vnic mewn meddwl, eithr hefyd mewn gair a gweithred, yr hyn nis gellir ei oddef mewn modd yn y byd.*

* *Gwrthryſelwr.*

Pharao a wnaeth ei gyfraith, i ragflaenu, ac i * luddias anghydfod a niweid; canys nid oedd vn bai etto yn weledig, fal y mae Beiau 'n weledig yma. Am yr ail a'r drydydd Gyfraith, chwi a glywſoch mal y mae 'r Carcharor yn † dadleu yn eu herbyn, trwy ddywedyd yn erbyn ein crefydd ni: Ac yn awr y mae 'n haeddu marw am y || traeturiaeth y gyffeſſodd efe.

* *Rhwyſtro.*

† *Pledio.*

|| *Treaſon.*

Yna yr ymnailltuodd y Cweſt, a'u henwau ydoedd, Mr. † *Dall*, Mr. *Di-ddaioni*, Mr. *Maleiſus*, Mr. * *Anllad*, Mr. *Ofer-ddyn*, Mr. *Pengaled*, Mr. † *Vchel-Drem*, Mr. *Gelyniaeth* yn erbyn pob daioni, Mr. *Celwyddog*, Mr. *Creulondeb*, Mr. *Caſſáwr y Goleuni*, Mr.

† *Dyn diwybodaeth.*

* *Vn yn ymroddi i buttein-dra.*

† *Balch*) *ei olwg.*

Mr. *Anghymmodlon*; A'r rhain i gyd a roesant ei || ferdid, yn bennodol, yn erbyn y carcharor, yn eu plith eu hunain; a * chwedyn hwy a gyttunasant yn vn fryd, i ddwyn ef i mewn yn euog o farwolaeth o flaen y Barnwr. Ac yn gyntaf yn eu plith eu hunain, ebe Mr. *Dall* y † fforman, *mysi a welaf yn eglur, mai Heretic ydyw 'r Dyn yma. Ymaith â'r cyfryw vn oddiar y Ddaiar* ebe Mr. *Di-ddaioni*. Ie ebe Mr. *Maleisus*, ymaith ag ef; *canys y mae 'n gâs gennif yr oiwg arno*. Ni ellais i erioedd aros mo honaw ebe Mr. *Anllad*; na minne ychwaith ebe Mr. *Ofer-ddyn*, canys fe fyddai bob amser yn beio ac yn condemnio fy ffyrdd i. *Crogwch e, Crogwch e* ebe Mr. *Pengaled*. Nid yw ef ond * yscerbwd salw ebe Mr. *Vchel-drem*. Mae 'nghalon i yn codi yn ei erbyn ef, ebe Mr. *Gelyniaeth* yn erbyn pob daioni. || Dihiryn brwnt yw ef ebe Mr. *Celwyddog*. Mae crogi 'n rhy-dda iddo ebe Mr. *Creulondeb*. Moeswch i ni yn ebrwydd ei ddanfon ef allan o'r byd ebe Mr. *Cassáwr y Goleuni*. Pe rhoddid i mi yr holl fyd, ni ellwn i ymheddychu ag ef, ebe Mr. * *Anghymodlon*: Gadewch i ni gan hynny, yn ebrwydd ei ddwyn ef i mewn yn euog o farwolaeth: Ac felly y gwnaethant. Ac am hynny

|| Barn, *dedryd.*
* Ar ôl *hynny.*
† Blaenor.
* Clain.
|| Cnâf, Rôg.
* Un na feidr fod mewn heddweh â *phobl.* Implacable.

hynny y barnodd y Barnwr, † i garrio ef oddiwrth y Barr, ir Carchar drachefn, ac oddi-yno i Le y coſpedigaeth, i ddioddef y farwolaeth greulonaf, ar a ellid ei ddychymmyg. † *Iddwyn*

Yna hwy a'i dygaſant ef allan, † iw ddihenyddu, yn ol eu cyfraith hwynt: Ac yn gyntaf, hwy a'i ſtangellaſant ac a'u cernodiaſant ef: A * chwedyn, hwy a frathaſant ei gnawd ef â chyllyll, ac a'i llabyddiaſant ef â meini: Ac yn ddiweddaf, wedi ei || wanu ef trwyddo â'u cleddyfau, hwy a'i lloſcaſant ef yn vlw wrth y * dihenydd-bawl. A thymma i chwi ddiwedd *Ffyddlon*: Eithr mi a welais (o'r tu ol ir † fintai, oedd yn breſennol wrth ei loſci ef) Gerbyd a chwpwl o gyffylau yn diſgwyl am dano; ac hwyn gyntaf ac y bu e farw trwy 'r poenau hyn, ſe 'i digwyd ef ir cerbyd; ac yn ddiſymmwth cippiwyd ef i fynu trwy 'r cymylau, gyda Sain vdcorn y ffordd neſſaf ir Ddinas nefol. † *Iw oſod i farwolaeth.* * *Wedi hynny.* || *Brathu.* * *Marwolaeth bawl* † *Dyrſa.*

Ffyddlon, enwog am dduwiol-fryd,
Da mewn Gair, a Gweithred heſyd,
** N'allai Barnwr, Cweſt, na Thyſtion,*
† Wneuthur it ti ddim niweidion.
Ond yn lle d'orchfygu 'n || hyrwydd,
Dangoſaſant gynddeiriogrwydd:
Pan bônt hwy âu henwau 'n feirwon,
* Byddi byth ym-mhlith y bywion.

* *Ni allai.* † *Niweidio ddiſetha dy Enaid.* || *Rhwydd* * *Ti fyddi*

† *Yr amser.*

Eithr hwy a arbedasant Gristion † *y tro yma, gan ei ddanfon ef yn ôl ir Carchar; lle y gadawsant ef dros rhyw ennyd. Ond Duw, yr hwn sy'n goruwchreoli pob peth (gan fod gantho allu i ffrwyno eu cynddaredd hwynt) a wnaeth ffordd iddo ddiangc y pryd hyn, rhag malis ei elynion; Ac felly Fo a aeth ar hyd ei ffordd dan ganu;*

Ffyddlon, cywir a fuost ti,
I'th vnic || Ri rhagorol;
Gyda 'r hwn cai ar ol hyn,
Fawr wynfyd yn dragwyddol:
Pan fyddo 'r Anffydaloniaid,
A'u holl ddigryfwch ofer,
Yn vffern boeth yn vdo 'n rhôst,
Yn ddigon tôst * *eu piner,*
Cân Ffyddlon: Bid ith enw † mâd,
Barch a Pharhád tragwyddol:
Er cael dy lâdd, gwirionedd yw,
Dy fod yn fyw 'n wastadol.

|| *Arglwydd.*

* *Eu piceil, eu cyfwr.*

† *Da.* Mat. 10. 28.

Yn awr mi a welais yn fy Mreuddwyd, nad aethai Cristion ymaith yn vnig wrtho ei hunan; canys yr oedd yno vn a elwid *Gobeithiol*, (calon pa vn a gyfyrddwyd, ac a wnaethpwyd yn obeithiol, trwy ddal sulw ar eiriau ac ymddygiad *Cristion* a *Ffyddlon* dan eu dioddefiadau yn y ffair) yr hwn a lynodd wrth *Gristion*, ac a wnaeth gyfammod brawdol ag ef, gan ddywedyd wrtho,

wrtho, y byddai ſe gydymmaith iddo yn ei ſiwrnai. Fal hyn y bu vn farw iddwyn tyſtiolaeth ir gwirionedd; ac wele vn arall yn cyfodi allan o'i ludw ef, i fôd yn Gyfaill i *Griſtion* yn ei Bererindod. A dywedodd Gobeithiol wrth Griſtion, fod llawer o bobl yn y ffair honno, y rhai mewn amſer oeddent debygol i camlyn hwynt.

Ac hwyn gynted ac y daethont allan or *ffair*, hwy a orddiweſaſant wr, a elwid *Cam-ddibenion*; ac hwy a ofynnaſant iddo, Syr, gŵr o ba wlâd ydych chi? A pha belled yr ydych chi 'n teithio ar hŷd y ffordd hon? Yntef ai hattebodd hwynt, *ei fod e'n dyfod o Dref Teg-ymadrodd, a'i fôd yn myned tua'r Ddinas Nefol*, eithr ni fanegodd iddynt moi enw.

Criſ. *A ddichon dim Da ebe* Griſtion *ddyfod allan o Dref Teg-ymadrodd?* Dihar. 26. 25.

Dichon rwi 'n gobeithio ebe *Cam-ddibenion.*

Criſ. *Attolwg Syr, Beth yw'ch enw chi?*

Cam-ddi. 'Rwi 'n ddieithr i chwi, a chwithe i minne; os ydych yn trafaelu y ffordd hon, fe fydd da iawn gennif gael eich Cwmpeini: Onid ydych, rhaid i mi fôd yn fodlon.

Criſ. *Myfi a glywais ſôn am y Dref*

yma, ſef Teg-ymadrodd, (*ebe* Criſtion) *ac hyd yr wyſi 'n goſio, hwy a ddywedant ei bod hi 'n lle cyſoethog.*

Cam-ddi. Ydyw ar ſy ngair i, ac y mae i mi lawer iawn o geraint cyſoethogion yn byw yno.

Criſ. *Pwy yw'ch Ceraint chwi yno?*

Cam-ddi. Yr holl dref gan mwyaf; ond yn enwedigol, yr Arglwydd * *Chwyl--droi*, yr Arglwydd *Gwaſanaethydd-amſer*, yr Arglwydd *Teg-ymadrodd* (oddiwrth) Henafiaid pa un y cafodd y Dref ei hênw) ac hefyd Mr. *Daſod-Llyfn*, Mr. *Dau-wynebog*, Mr. *Pob-peth*, a *Pherſon* ein Plwyf, Mr. *Dau-daſod* yw fy ewythyr brawd fy Mam; ac i ddywedyd i chwi 'r gwir, 'rwi 'n awr yn wr bonheddig o gymmeriad mawr ac enw'da; er nad oedd fy † Hèn-Daid i ond *Morwr*, yn rhwyfo yn ffordd, ac yn edrych ffordd arall; ac wrth y gelſyddyd honno yr ennilliais inne y rhan fwyaf o'm Golud.

* *Yn yn troi ſal hwyl.*

† *Hendadcu.*

Criſ. *A ydychi 'n ŵr priodol?*

Cam-ddi. Ydwyf, ac y mae fy ngwraig i yn llawn o rinweddau da, a merch ydyw hi, ir *Arglwyddes* † *Pſalmantus*; a chan fod ei thylwyth hi 'n anrhydeddus, hwy a roeſant y cyfryw ddygiad i fynu iddi, fel y meidr hi * garrio ei hunan yn weddaidd, yn gy-

† *Rhagrithiol.*

* *Ymdrwyn.*

ſtal

ſtal o flaen y Tywyſog ac o flaen y cyffredin. *Gwir yw, ſod peth gwahaniaeth mewn creſydd, rhyngom ni a'r gwyr o'r Sect fanolaf, etto nid yw hynny ond mewn dau o byngciau bychain.* Yn Gyntaf, *nid ydym ni yn ymdrechu vn amſer i rwyfo yn erbyn y gwynt ar Llanw.* Yn Ail, *yr ydym ni bob amſer yn dra awyddus i ſod yn grefyddol, pan y bo crefydd yn myned yn ei* † Sandalau *Arian* : *Canys* ; *Da iawn gennym rodio gyda hi yn yr heolydd, os bydd yr haul yn tywynnu arni, a'r bobl yn ei chlodfori.* † *Slippers.*

Yna *Criſtion* a drôdd ychydig o'r nailltu at ei Gyfaill *Gobeithiol*, ac a ddywedodd wrtho, 'rwi 'n tybied mai Meiſtr *Cam-ddibennion* o Dref Tegymadrodd yw'r Dyn hwn ; ac os eſe ydyw 'r Gwr, y mae gennym yn ein cwmpeini cyn benned cnâf, a'r pennaf yn y parthau hyn. *Yna ebe Gobeithiol, gofynnwch iddo beth yw ei enw ef* : *Yn ſiwr mi dybygwn nas dylai fo gwilyddio i ddatcuddio ei enw.* Felly *Criſtion* a aeth atto drachefn, ac a ddywedodd, Syr, yr ydych chi 'n ſiarad † meis un a fai 'n tybied ei ſod e 'n deall rhyw bethau yn well nâ llaweroedd eraill : Ac onid wyf yn eich camgymmeryd, mi dybygwn fy mod yn eich hanner adnabod chwi ; onid Mr. *Cam-ddibenion* * *Dilys.* † *Megis.*

ydyw 'ch enw chi; ac onid ydych yn byw yn nhref *Teg-ymadrodd*?

Cam-Ddi. Nid Camddibenion yw 'm henw i; eithr gwir ydyw, fod rhai o'm Caſeion yn fy llyſenwi felly; ac mae 'n rhaid i mi ymfodloni i ddioddef eu ammharch, megis y dioddefodd gwyr da eraill o m blaen.

Criſ. *A roeſoch chi ddim achos erioed i neb i'ch galw chi wrth yr enw hyn?*

Cam ddi. Na ddo erioed; ond fe gymmerodd pobl achlyſſur, i'm galw i wrth yr enw hynny, am fy mod i yn tueddu yn waſtadol i rodio yn y ffyrdd, yr oedd pobl yn arfer o rodio ynthynt, beth bynnag a fyddent, os Defod a * ffaſhiwn y wlâd oedd hynny: Ac yr oeddwn i 'n † lwccus iawn i ennill yn dda wrth y gwaith yma: Ac os * happiodd i mi gaſclu cyfoeth yn y môdd hyn, rhaid imi eu cyfrif yn fendithion; Eithr na ammharched y maleiſus fi am hyn o beth.

* *Dull.*

† *Happus.*

* *Hawyddodd.*

Criſ. *Yr oeddwn i'n tybied yn wîr mai chwi oedd y gwr y clywais i ſon am dano: Ac i ddywedyd wrthych chi fy meddwl, 'rwi 'n ofni, fod yr enw hwn yn perthynu yn fwy priodol i chwi, nag y mynech i nyni dybied ei fod.*

Cam-ddi. Wele os mynnwch ddychymig pethau felly, ni allaſi wrthych: Ond

Ond ôs byddwch mor fwyn a'm cymeryd i'ch cymdeithas, chwi a'm cewch i yn gydymaith glân.

Cris. *Os dewchi gyda nyni, rhaid i chwi fyned yn erbyn gwynt a Llanw, yr hyn sy'n wrthwyneb i'ch* * *opiniwn chwi: A rhaid i chwi hefyd ymddangos tros Grefydd, pan y bo hi yn eî hên gadachau, yn gystal a phan y bo hi yn ei* * *sandalau arian; ai harddel hi hefyd pan y bytho hi yn rhwym mewn cadwynau, yn gystal a phan y bytho hi'n rhodio 'r heolydd mewn anrhydedd.*

* *Barn.*

* *Slippers.*

Cam-ddi. Nid oes i chwi arglwyddiaethu ar fy Ffydd i: Gadewch fi i'm rhydd-did, a deuaf gyda chwi.

Cris. *Na ddewch gam ym-mhellach gyda ni, onis gwnewch fal yr ym ninne yn gwneuthur.*

Yna ebe *Cam-ddibenion*, ni ymadawaf i byth â'm hên brîf-byngciau a'm pwrpasson, gan eu bod yn ddiniweid ac yn fuddiol: Oni châfi deithio gyda chwi, rhaid i mi fyned wrthyf fy hunan, fal y gwnaethum, cyn eich gorddiwes chwi, nes y delwyf ym mysc rhai, y fydd da ganthynt fy nghwmpeini.

Yn awr mi a welwn (yn fy Mreuddwyd) *Cristion* a *Gobeithiol* yn ei adel ef ar eu hôl: Eithr digwyddodd i vn o honynt edrych drach ei gefn; ac efe

a welai dri o wyr yn dyſod ar ôl Mr. *Cam-ddibenion*: Ac wele, pan y darfu iddynt neſſau atto, ſo a ymgrymmodd iddynt hyd y llawr, a hwythau hefyd a ymgrymmaſant iddo yntef. Henwau'r gwyr oedd Mr. *Cofleidio'r Byd*, Mr. *Llygad-Arian*, a Mr. * *Crintach*, ſef gwyr, y buaſci Mr. *Cam-ddibenion* gynt yn gydnabyddus ag hwynt; canys cyd-yſcolheigion y fuaſent yn ei ieuengctid, ai Meiſtr hwy oedd Mr. *Dalgafael* ar y byd, yn nhref *Câr-elw*, yr hon ſydd Dref farchnad yn *Shîr Trachwant* yn y Gogledd: A'i Hathro a ddyſcodd iddynt y gelfyddyd o * elwa, naill ai trwy drais, twyll, gweniaeth, dywedyd Celwydd, neu yntau trwy wneuthur lliw o grefydd. A'r pedwar Pendefig yma a ddyſcaſant gymmaint o gelfyddyd eu *Hathro*, hyd oni fedrai pob yr vn o honynt gadw yr vn-rhyw yſcol ag yntef.

* *Cadw'r cwd.*

* *Ynnill.*

Ac yn ól iddynt (mal y dywedais) gyfarch gwell iw gilydd, gofynnodd Mr. *Llygad-Arian* i Mr. *Cam-ddibenion*, pwy ydyw 'r rhai accw y ſydd o'n blaen ar y ffordd? Canys yr oedd *Criſtion a Gobeithiol* etto o fewn golwg iddynt.

Cam-ddi. *Dau wr o wlâd bell ydynt, y rhai ſy'n mynd ar bererindod.*

Llygad.

Llygad-Arian. Och! Pa ham nas arofent, fal y cowſem eu cwmpeini da hwy; Canys y maent hwy, a ninne, a chwithe Syr, rwi 'n gobeithio yn mynd ar Bererindod.

Cam-ddi. 'R'ym ni felly yn wîr, ond y mae 'r gwyr accw, y ſydd o'n blaen ni, mor ſtyfnig ac mor anyſtwyth, trwy garu eu opiniwnau eu hunain, gan ddibriſſio opiniwnau rhai eraill, fal bydded gwr mor dduwiol ag y mynno, etto oni bydd e 'n cyttuno ag hwynthwy ymm-hob pwngc, nid ymgyfeillachant hwy ag ef.

Mr. Crintach. *Drwg iawn yw hynny: 'Rym ni 'n darllen am rai ar y ſydd yn rhy Gyfiawn, ac y mae ſtyfnigrwydd y fath wyr yn eu gyrru hwynt, i farnu a chondemnio pawb onid eu hunain. Eithr attolwg, pa fath, a pha ſawl yn oedd y pethau, yr oeddech yn anghyttuno ag hwynthwy yn eu cylch?*

Cam-ddi. Yr oeddent hwy yn ôl eu pengaledrwydd yn barnu, mai eu dyledſwydd hwy ydoedd, *i deithio drwy bob tywydd*, a minne wyf *dros ddiſgwyl am wynt a Llanw.* Y maent hwy am *anturio y cwbl oll ar y feddont *dros* *Ddaw* mewn munud, a minne ydwyf am ddiſgwyl pob odſa i ſiccrhau fy

* Fentro.

Enioes am golud. Y maent hwy am arddel eu crefydd, pe byddei 'r holl fŷd yn eu herbyn; eithr 'rwyf innau dros Grefydd cyn belled, ac y bytho 'r amferoedd, a'm diogelwch fy hun yn rhoddi lle i hynny. Y maent hwy am ymlynu wrth grefydd, pan y bytho hi mewn dirmyg a diyſtyrwch; eithr yr wyf inne am lynu wrthi, pan y bytho hi 'n rhodio yn eu ſandalau auriadd, a'r haul yn llewyrchu arni, a'r holl bobl yn ei chlodfori.

Mr. Cofleido'r Byd. *Mr. Camddibenion, Da iawn y gwneweh chi, os parhewch felly byth; Canys i'm tŷb i y mae 'r Dyn hwnnw yn ynfyd, yr hwn a gyll ei feddiannau, pan y gall eu cadwedwy. Byddwn Ddoeth fal Seirph; Da ſweirio 'r Gwair trà fo'r Haul yn llewyrchu. Chwi a welwch fal y mae'r wenynen yn llechu yn y gaiaf, ac yn † llafurio yn dŵig, pan y gallo hi gael * bŵdd gyda phleſſer. Y mae Duw 'n rhoddi Gaw weithiau, a Thegwch weithiau eraill: Os bydd neb mor ynfyd a myned trwy'r dymheſtl, gadewch iddo fyned; eithr o'n rhan ein hunain, moeſwch i ni fod yn ſodlon i o phwys, hyd oni chaffom y tywydd yn dêg, a'r hîn yn dawel. O'm rhan i, yr wyſi 'n carn 'r Grefydd honno yn oreu, ar a ſafo gyda'r ſiccrwydd mwyaf*

† *Labro, gweithio.*
* *Elfadd.*

mwyaf, y bydd i ni feddiannu y Bendithion a roddes yr Arglwydd inni: Canys ynnae 'n hawdd i ni ddeall, (onid ym ni wedi gwall-gofi) y myn Duw i ni gadw er ei fwyn ef, yr holl bethau daionus, y gowſom oddiwrtho, i'n cynnal ni yn y byd hwn: Abraham *a* Solomon *a ymgyfoethogaſant er eu bod yn Grefyddol. Ac y mae* Eliphaz *yn dywedyd y rhŷdd gwr da aur i gadw fal llwch: Nid felly y dywaid y gwyr o'n blaen, os ydym y Cyfryw rai ac y dywedaſoch chwi eu bod.* Job 22. 24.

Mr. *Crintach.* 'Rw'i 'n meddwl ein bod ni oll wedi cyttuno yn y matter yma, ac am hynny nid oes achos ſiarad ymmhellach am dano.

Mr. Llygad-Arian. *Nid rhaid yn ddiau ddywedyd gair ym-mhellach ynghylch y matter yma; canys yr hwn nid yw'n credu na Scrythur, na Rheſwm (a chwi a welwch fod y ddau ar ein* * *plaid) nid yw hwnnw 'n adnabod ychwaith moi rydd-did, nac yn ceiſio ei ddiogelwch ei hun.* * Ohr troſon.

Mr. *Cam-ddi* Fy Mrodyr, yr ydym ni oll yn awr (fal y gwelwch) yn mynd ar Bererindod; ac o ran dyfyrru 'r amſer yn well, rhowch gennad i mi ofyn i chwi y Cweſtiwn hyn.

† *Bwriwch fod Gweinidog neu Greftwr &c. mewn cyſle a ffordd, i ennill* † Suppoſwch.

ben-

Golud. || *b'ndithion daionus y Bywyd hwn; etto felly, fel na allo mewn modd yn y Byd fod yn gyfrannog o honynt, oddieithr iddo (ar y lleiaf mewn llaw) ymddangos yn dra Zelws a gwresog, tu hwnt i gyffredin arfer y wlâd, mewn rhai Pyngciau crefydd, y rhai nad oedd e erioed o'r blaen yn eu harddel; oni ddichon e ddewis y* * *ffordd yma, er mwyn cael ei ddiben, ac etto bod yn wr oneſt iawn.*

* *Ssf, rhagrithio i ennill cyfoeth.*

Mr. *Llygad-Ar.* 'Rwi'n deall eich meddwl yn eglur; a thrwy genńad y pendefigion yma, myfi a wnâf fy ngoreu i roddi atteb i'ch Cweſtiwn. *Ac yn gyntaf am y Gwr* Eglwyſig *yn bennodol.* * *Bwriwch fod Gweinidog, yr hwn ſydd yn wr gweddol, a chanddo ond Perſonaeth neu Ficceriaeth fechan iawn; ond y mae fo â'i olwg âr vn'a ſo mwy, a braſuch, a chyfoethoccach o lawer, ac yr awrhon mae gantho gyfle iw chael hi; etto felly, ac y rhaid iddo fod yn fwy* † *aſtud i ſtudio, ac i bregethu 'n fynychach, ac yn wreſſoccach: Ac* * *o r bydd Tymmer y bobl yn gofyn iddo newid rhai* || *o'i Wyddorion; o'm rhan i, nid'wyfi 'n gweled Rheſwm yn y byd, na ddichon gwr wneuthur hynny (yn enwedig os bydd gantho alwad ir peth) ie a llawer mwy nâ hyn, ac etto bod yn wr oneſt.* Can's.

* *Suppoſwn.*

† *Dyſal.*

* *Os*

|| *O'r pyngciau y mae 'n ddal.*

1. Y mae ei waith ef yn dymuno Perſoniaeth a ſo mwy yn gyfreithlon (nis gellir gwadu mo hynny) gan ei bod wedi ei goſod o'i flaen ef trwy ragluniaeth; ac am hynny ſo a ddichon ei chymmeryd hi os gall, *heb ofyn yn Cweſtiwn er mwyn cydwybod.*

2. Y mae ei waith e 'n dymuno y Berſoniaeth honno, yn ei wneuthur e'n fwy gofalus i ddilyn ei lyfrau, i fod yn Bregethwr gwreſſoccach, i gynnyddu yn ei ddonniau, ac hefyd i fod yn well gwr; yr hyn oll ſydd gyttûn ag ewyllys Duw.

3. Yn awr am ei waith e 'n * cydymffurfio â Thynmer ei Bobl, trwy ymadel â rhai o'i † Wyddorion iw bodloni hwynt, y mae hynny yn Argoel. 1: *Ei fod e 'n wr a ddichon ymwadu ag ef ei hun.* 2. *Ei fod e o ymddygiad hyfryd ac ennillgar* 3. *Ac o herwydd hynny yn gymmwyſach ir Weinidogaeth.*

* *Cyflunio ei hunan.*

† *Pyngciau creſydd.*

4. 'Rwi'n dal gan hynny, na ddylyd barnu y Gweinidog hwnnw yn wr bydol, yr hwn a newidio Berſoniaeth *fechan* am *un a fo mwy*; eithr yn hytrach, gan ei fod ef trwy hynny gwedi cynyddu yn ei ddonniau a'i || ddiwidrwydd, yn ei weinidogaeth, fe ddylaet ei gyfrif ef yn wr ſy 'n dilyn ei alwad

|| *Dyfalwch.*

alwad yn well, ac yn vn a wnaeth ddefnydd da, o'r achlyſſur a'r odfa a roddwyd yn ei law ef i wneuthur daioni.

|| *Yr awron.* Ac || yr-wan i roddi atteb ir ail ran o'ch Cweſtiwn, ſef, ynghylch y Crefftwr.

* *Suppoſwch.* * Bwriwch, nad oes gan Grefftwr ond ychydig i gynnal ei hun yn y Byd; eithr trwy ddyfod i broffeſſu crefydd, fo a ddichon gael odfa i wellhau ei gyflwr; naill a'i trwy gael gwraig gyfoethog, neu yntau trwy ennill mwy a gwell prynwyr idd ei Siop. O'm rhan i, nid wyf yn gweled Rheſwm yn y Byd, nas gellir gwneuthur hyn yn Gyfreithlon. Can's, 1. *Rhinwedd mawr yw bod yn grefyddol, trwy ba fodd bynnag y Delo dyn i fod felly.* 2. *Nid yw'n anghyfreithlon i Geiſio gwraig gyfoethog, neu fwy o Brynwyr i'm Siop.* 3. *Heb law hynny, y mae 'r gwr a ŵyllio 'r pethau hyn, trwy fod yn Grefyddol, yn ynnill yr hyn ſydd dda, oddiwrth y ſawl ſydd dda, trwy ddyfod ei hun i fod yn dda: Felly dymma wraig dda, Prynwyr da, ac Elw da, a'r rhain ei gyd wedi eu hynnill, trwy ddyfod i broffeſſu crefydd, yr hyn ſydd beth da:* * *Lleſiol.* *Ac am hynny, gwaith da a* * *buddiol ydyw bod yn grefyddol, er mwyn ynnill yr holl bethau ymma.*

Wedi i Mr. *Llygad Arian* roddi 'r Atteb

Atteb hwn i Gweſtiwn Mr. *Cam-ddibenion*, hwy a ganmolaſant ei Atteb ef yn ddirſawr, ac a farnaſant, fod y cwbl a lefarodd e yn dra buddiol a iachus. Ac oblegit eu bod nhwy 'n tybied, nad oedd neb a allei ddywedyd dim yn wrthwyneb ir Atteb yma; ac o herwydd fod *Criſtion* a *Gobeithiol* o * hyd galw, hwy a gyttunaſant yn vn fryd, hwyn gynted ac y byddai iddynt eu gorddiwes, i oſod y Cweſtiwn hyn attynt; yn enwedig oblegit iddynt hwy or blaen wrthwynebu Mr. *Cam-ddibenion* yn y matterion yma. Felly hwy a alwaſant ar y Pererinion, a hwythau * a ſafaſant yn yr vn man, hyd oni ddaeth y lleill hyd attynt: Eithr wrth ddyfod tuag attynt, hwy a gyttunaſant, mai nid Mr. *Cam-ddibenion*, ond yr hen ŵr Mr. *Coſleidio'r-byd*, y gai oſyn y Cweſtiwn iddynt, o herwydd eu bod nhwy 'n tybied, y byddent dynnerach wrtho ef, ac nas byddent mor danbaid, ac y buant ychydig or blaen, wrth ymadel â Mr. *Cam-ddibenion*.

* *O fewn clyw.*

* *Sef y Pererinion.*

Felly hwy a ddaethant hyd attynt; ac wedi iddynt gyfarch gwell iw gilydd, Mr. *Coſleidio'r-Byd a oſododd y Cweſtiwn gerbron Criſtion* a'i gydymaith, gan ddymyno arnynt ei atteb os gallent.

Criſ.

Crif. Yna ebe *Criſtion*, fe all baban mewn crefydd atteb deng Mîl o'r fath Gweſtiwnau a'r rhain. Canys gan ei bod hi 'nawr, fal yr oedd hi cynt, yn anghyfreithlon, i ddilyn *Criſt* am y Torthau bara, Pa faint mwy ſſiaidd ydyw ei wneuthur ef a Chrefyd i fod megis * March-cynfas, i ynnill a mwynhau'r Byd? *Ac ni bu nêb ond Cehedloedd, Rhagrithwyr, Diaſlaid, a Swynwyr o'r meddwl hwn.*

Joan 6.

* *March yn trottian i fynu ac i wared.*

1. *Cenhedloedd*, Canys pan ewyllyſiai *Hamor* a *Sichem* gael Merch ac anifeiliaid *Jacob*, a phan y gwelſant, nad oedd mod i yn y byd iw mwynhau hwynt, onid trwy dderbyn yr † Enwaediad; hwy a ddywedaſant wrth eu Cyfeillion; *Os enwaedir ein holl wrwod ni, fal y maent hwy wedi eu hemwaedu, oni fydd eu hanifeiliaid, a'u cyfoeth, a'u holl* * *yſcrubliaid hwynt yn eiddom ni?* Y Ferch a'r Annifeiliaid oedd y cwbl yr oeddynt hwy yn cu ddiſgwyl am dadynt, a'u Crefydd oedd y March-cynfas a arferaſant cu mwynhau hwynt. *Gen.* 34.

† *Arwydd o grefydd yr Iſraeliaid.*

* *Anifeiliaid gwaith.*

2. *Y Phariſæaid rhagrithiol* oeddynt hefyd o'r Grefydd yma, canys tan rith hîr weddio, eu diben hwy oedd; i lwyr fwytta tai gwragedd gweddwon: ac am hynny y bygwthiodd Criſt nhw, a

damnedigaeth

damnedigaeth mwy echrydus, nâ damnedigaeth troſſeddŵyr eraill. *Luc.* 20. 47.

3. Yr oedd *Judas* y *Cythrael* hefyd o'r Grefydd yma: 'roedd e'n Grefyddol er mwyn y * Gôd; gan obeithio, y gallai fo trwy hynny feddianu yr arian oedd yn y pwrs: eithr efe a gyſrgollwyd, ac a fwriwyd ymaith, ac yr oedd e 'n wîr fab y golledigaeth. * *Pwrs.*

4. *Simon* y Swynwr oedd hefyd o'r Grefydd yma, Canys efe a fynnai gael yr Yſpryd glân fal 'y gallai wneuthur elw o honaw, a'i farn o Enau *Petr* oedd yn ól hynny. *Act.* 8. 18. 19. 20. 21.

5. *Ac nis gallaſi dybied llai, nas gwerth hwnnw ei Grefydd am y byd, yr hwn a'i proffeſſodd hi er mwyn y byd.* Canys cyn ſiccred ac yr oedd *Syddas* yn amcanu ynnill arian trwy fod yn Grefyddol, mor ſiccr y gwerthodd Efe grefydd ai Feiſtr am arian. Ac i roddi atteb i'ch Cweſtiwn, gwybyddwch hyn, pe dywedwn i ie gyda chwi yn y matter yma, mai da y gellit ſy ngalw i, megis y gellir galw pob vn o honoch chwithe, yn * *Bagan*, yn *Rhagrithwr*, *ac yn Gythrael*, y rhai y bydd eu † cyflog yn ól eu gweithredoedd. * *Vn o'r cenhedloedd.* † *Coſp.*

Yna hwy a ſafaſant yn || ſynn, gan lygadrythu y naill ar y llall; ac nid allent || *Megis rhai ymmron gwallgofi.*

allent hwy roddi atteb yn y byd i Gri-ſtion ynghylch y peth yma. *Gobeithiol* hefyd a ymfodlonodd yn yr hyn a le-farodd Criſtion wrthynt; ac felly y bu diſtawrwydd mawr yn eu plith hwy. Ar hyn, Mr. *Cam-ddibenion* a'i *Gyfeillion* a ſafaſant yn ôl, fal y gallai *Criſtion* a *Gobeithiol* gael y blaen arnynt, am eu bod yn chwennychu cael gwared o'u cwmpeini. Yna ebe *Criſtion* wrth ei gyfaill, oni all y gwyr hyn *ſefyll o flaen barn Dynion, pa fodd y ſafant hwy dan farn Duw?* Ac os ydynt yn fudion, pan eu teimler gan leſtri pridd, pa beth a wnant, pan y ceryddir hwynt gan flam-mau o Dan * yſſol?

* *Yn diſa.*

Yna *Criſtion* a *Gobeithiol* a'u blaenaſant hwy drachefn, nes iddynt ddyfod i waſtadedd hyfryd, yr hwn a elwid *Eſmwythdra:* ac hwy a deithiaſant yno, gyda bodlonrwydd mawr: ac am nad oedd y Gwaſtadedd yma ond bychan iawn, hwy a aethant droſto yn ebrwydd. Yn awr yr oedd, ynghwr eithaf y Gwaſtadedd hwn, Fryn bychan, a elwyd *Elw*; ac yn y Bryn hwn yr oedd Mwyn Arian; i weled pa vn y gwyrdroeſei bagad yn yr amſer cynt, wrth fyned heibio; o herwydd bod y cyfryw le-oedd yn an-aml iawn: eithr wrth fyned yn rhy agos at ymmyl y Pwll; y tir gan

gan ei fod yn dwyllodrus oddi tanynt a dorrodd, ac hwyntau a ddifethwyd: ac eraill o honynt a ddaethant ymaith yn anafus, y rhai ni lwyr iachawyd hyd ddydd eu marwolaeth.

Yna y gwelwn yn fy Mreuddwyd, ychydig dros y ffordd, ar gyfer y mwynglawdd Arian, *Ddemas* yn ſefyll fal gwr bonheddig, i alw * fforddolion i droi tuag yno: Ac fe a ddywedodd wrth Griſtion a'i gyfaill; Ho, Trowch yma; ac myfi a ddangoſaf i chwi ryw beth godidawg. * *Traſaelwyr.*

Criſ. *Pa beth ſydd yn y lle yna mor odidawg, ar a allai ein temptio ni, i droi oddiar y ffordd iw weled e?*

Dem. Dymma Fwyn arian, a rhai yn cloddio yntho am Dryſſor: os dewch chi yma; chwi a ellwch ymgyfoethogi wrth ychydig o boen.

Gob. *Ynaebe Gobeithiol, awn i weled y peth yma.*

Criſ. Nag âf ddim ebe Griſtion; myfi glywais ſôn am y lle yma cyn hyn, a pha nifer a ddifethwyd yma; ac heb law hyn, mae'r Tryſſor accw yn fagl ir rhai ſy 'n ei geiſio ef; canys y mae ſo 'n eu rhwyſtro nhw yn eu pererindod. Yna Griſtion a alwodd ar *Ddemas*, gan ddywedyd wrtho, *onid yw 'r lle yna yn beryglus.*

Dem.

Dem. *Nac ydyw yn beryglus iawn, oddieithr ir rhai ſy'n ddiofal : ac wrth ddywedyd hynny efe* * *a wridiodd.*

* *A gochodd.*

Criſ. Yna cbe *Criſtion* wrth *Obeithiol*, moeſwch i ni gadw 'n ffordd, ac nac yſcogwn droedfedd oddiarni.

Gobeith. *Yn ddiau, pan ddelo* Camddibennion *heibio, os gwahoddir efe fal y gwahoddwyd nyni, fe a dry accw.*

Criſ. Diammau yw hynny, canys y mae opiniwnau *Cam-ddibennion* yn ei arwain ef at y cyfryw deganau : a chan punt i geiniog, onis difethir ef.

Dem. *Yna* Demas *a alwodd arnynt drachefn, gan ddywedyd, oni ddewchi droſodd, a gweled yr hyn ſydd yma?*

Criſtion a'i hattebodd ef yn dra ſarrug, gan ddywedyd, *Demas*, yr wyt ti yn Elyn i uniawn ffyrdd yr Arglwydd, wedi 'th † euog-farnu eiſus gan un o || Farnwyr ei Fawrhydi ef ; A pha ham yr wyt ti yn ceiſio 'n * denu ninne i'r vn ddamnedigaeth ? ac heblaw hynny os trown ni fymryn || oddiar y ffordd, fe glyw ein Brenin ni hynny ; ac yna y cawn ni ddioddef cywilydd, lle y gallaſem ſefyll yn ei wydd ef yn hyderus.

† *Condemnio.*

|| *Sef,* Paul.

* *Hudo.*

|| *Y gronyn lleiaf.*

Yna Demas *a waeddodd drachefn arnynt, ac a ddywedodd, mai un oi brawdoliaeth hwy oedd yntef, ac os aroſent ychydig, y deuai fo gydag hwynt.*

Criſ.

Criſ. Yna ebe *Criſtion* onid *Demas* yw dy Enw di?

Dem. Je Demas *yw fy Enw, ac yr wyf yn Fâb i* Abraham.

Criſ. Mi a'th adwaen di: *Gehezi* oedd dy * hen-daid, a *Syddas* oedd dy dâd; a thi a rodiaiſt yn eu llwybrau hwynt: Gwaith y Cythrael yr wyt ti yn ei wneuthur, trwy ymdrechu hudo pobl oddiar ffordd yr Arglwydd. Fe grogwyd dy Dâd di am deyrn-fradwriaeth; ac nid wyt tithe yn haeddu gweil gobrwy. Bydded hysbys it ti, mai, pan ddelom at y Brenin, y gwnawn ef yn gydnabyddus â'th ymddygiad di tuag attom; ac ar ol hynny hwy a aethant iw ffordd.

* *Hendadcu.* 2 Bren. 5. 20.

Erbyn hyn, Mr. Cam-ddibenion ai gyſeillion, oeddynt wedi dyfod drachefn mewn golwg; ac ar yr amnaid gyntaf, hwy a aethant troſodd at *Ddemas*: Yn awr, pu 'n a wnaethant wrth edrych dros ymyl y pwll ai ſyrthio iddo, ai myned i lawr i gloddio 'r mwyn arian, nen ynteu gael o honynt eu tagu gan y tarth, ſy'n arferol i godi or Mannau hynny; nis gwnn i': eithr hyn † a ddelias i ſulw arno, ſef na welſom ni mo honynt mwyach ar y ffordd.

† A *farcais i.*

Yna y daeth y *Pererinion* i ryw Fan, lle 'r oedd *hên Golofn fawr* yn ſefyll ar

ſin

sîn y brîf-ffordd; ac hwy a ryfeddasant yn ddirfawr, wrth weled ei dull a'i gwedd hi: canys yr oedd hi'n ymddangos megis gwraig, wedi ei throi yn * biler. Ac hwy a safasant yno dros dro, gan edrych yn fynych arni: eithr nis gwyddent dros ennyd, pa beth y wnaent o honi: ond o'r diwedd, *Gobeithio* a ganfu beth yn scrifennedig, ar ei phen hi, mewn llaw anarferol: eithr o herwydd ei fod ef yn wr anllythrennog, fo a alwodd ar *Gristion* atto (canys yr oedd e'n wr dyscedig) i edrych a allai fo † ddirnad yr yscrifen: ac wedi i Gristion gyfylltu y llythrennau ynghyd, fo a ddeallodd, * taw hyn oedd y geiriau; *Cofiwch Wraig Lot.* Ac efe a'u darllenodd hwynt iw gydymaith: yna y gwybuant, mai honno ydoedd y golofn o halen, ir hon y trowyd Gwraig *Lot*, * am edrych drach ei chefn, â chalon drachwantus, am y pethau, a adawsai hi yn ôl yn *Sodom*, pan yr oedd hi'n diangc allan o honi am ei bywyd: A'r Golofn yma a fu achos iddynt hwy ymddiddan fal hyn.

* *Golofn.*

† *Ddeall.*

* *Mai.*

* Gen. 19. 26.

Crif. *Ah! fy nrawd, dymma olwg a welsom mewn amser cyfaddas, ychydig ar ôl i* Ddemas *yn* † *gwawdd ni, i ddyfod i weled y* Bryn, *lle yr oedd y mwyn arian ynthо; a phe buasem ni yn myned*

† *Gwahodd.*

yno

no, fal yr oedd efe yn dymuno, a thithe' fy mrawd yn ewyllyſſio, fe a'n gwnaethid ninne fal y gwnaethpwyd hithe, ar ddim ac y wnn i, yn Ddrych ir rhai a ddeuant ar ein hôl, i edrych arnom.

Gobeith. Mae 'n ediſar gennif, fy mod i mor ynfyd; ac 'rwi 'n rhyfeddu, mad ydwyfi yn awr fal gwraig *Lot*: Canys pa * wahaniaeth ſydd rhwng ei phechod hi ar eiddo finnau? Yn unig hi a edrychod drach ei chefn, a minnau a ewyllyſiais fyned a gweled: Diolch ſy'n ddyledys i Dduw, am fy nghadw i, rhag myned i Fryn yr Arian; a chywilydd i minne, am fod y fath ewyllys erioed yn fy nghalon, i fyned yno.

* *Rageiaeth.*

Criſ. *Cymerwn hyn yn lle rhybydd rhaglaw: Y wraig hon a ddiangodd rhag yn farnedigaeth; canys ni ddeſtryw-wyd mo honi, yn miniſtr* Sodom; *eto difethwyd hi trwy farnedigaeth arall, megis y gwelwn hi yma heddyw, wedi ei throi yn golofn o halen.*

Gobeith. Gwir yw, hi a all fod yn rhybydd ac yn enſampl i ni rhagllaw: Yn rhybydd i ni ochelyd ei phechod, neu yn arwydd or farnedigaeth a ddigwydd, i'r ſawl na chymerant rybydd oddiwrthi. Felly *Corah*, *Dathan*, ac *Abiram*, a'r Dengwr a deugain a dau cant, a ddifethwyd yn eu pechod, a wnaed yn ry-

Num. 16.

rybydd neu 'n Enſampl i ni ochelyd eu drwg weithredoedd, hwynt: Eithr 'rwi 'n rhyfeddu 'n ddirfawr, am yn peth † tu hwnt i ddim arall, ſef, pa fodd y gall *Demas* a'i gyfeillion, ſefyll accw mor hyderus, i chwilio am y tryſſor hynny, am ba un y cafodd y wraig yma, (yr hon ni wnaeth ond yn vnig edrych drach ei chefn gan ei ſerchu ef) ei throi yn Golofn o halen, (canys nid ym ni 'n darllen iddi fyned drodfedd oddiar y fforôd,) yn enwedig gan i'r farnedigaeth, a'i goddiweddodd, ei gwneuthur hi yn Enſampl, gyferbyn a'r man, lle maent hwy yn preſſwylio yntho; canys ni allant lai nâi chanfod hi, os derchafant eu golygon i fynu.

† *O flaen.*

Criſ. *Gwîr yw, ei fod e'n beth rhyfeddol, ac y mae'n dangos fod eu calonnau hwy wedi eu caledu yn yſceler yn y Cyflwr hwnnw: ac nis gwn i, i bwy y gellir eu cyffelybu nhw yn well*, nag *ir rhai a fo 'n pigo pockedi ger bron y Barnwr, neu i rai a dorrant Byrſau dan y Crog-pren. Fe ddywedir am bobl Sodom, mai † pechaduriaid dirfawr oeddynt; am eu bod yn bechaduriaid ger bron yr Arglwydd; hynny yw yn ei wŷdd ef, er cymaint o garedigrwydd a ddangoſodd efe tuag attynt; canys yr oedd tîr Sodom y pryd hynny, megis Gardd Eden gynt;*

† Gen. 13. 10, 13

yr

*yr hyn a wnaeth i Dduw fod yn fwy eddigus, a'u * Pla-au hwythau cyn boethed, ac y gallei tân yr Arglwydd o'r nefoedd ei gwneuthur hwynt : Y mae 'n ſefyll gan hynny gyda rheſwm, y bydd i'r cyfryw bobl a hyn, fod yn gyfrannogion o'r barnedigaethau toſtaf ; ſef, y cyfryw bobl, ar y ſydd yn pechu yn ei wŷdd ef ; ac hynny hefyd, mewn dirmyg i'r fath Enſamplau, y rhai ſydd wedi eu goſod yn waſtadol ger bron eu llygaid, iw hattal hwyrhag pechu yn erbyn Duw.* * Barnedigaethau.

Gobeith. Yn ddiammau ti a ddywedaiſt y gwîr ; ond pa fath drugaredd ydyw hyn, nad wyt ti, ac yn enwedig myfi, wedi fy ngweuthur yn Enſampl yn y modd yma ? Y mae 'r matter hyn yn rhodi ini achlyſſur, i fod yn ddiolchgar ir Arglwydd, ac i * arſwydo gar ei fron ef, gan gofio Gwraig *Lot* yn waſtadol. * *Ofni.*

Wedi hynny, mi ai gwelais hwynt yn myned ym-mlaen, hyd oni ddaethant at Afon hyfryd, yr hon a alwei y *Brenin Dafydd* yn Afon Duw : Ond *Joan*, ai geilw hi, Afon dwfr y Bywyd. Yn awr yr oedd ei ffordd hwy yn myned yn union ar hyd glan yr afon. Yma gan hynny yr ymdeithiodd Criſtion a'i Gydymaith gydag hyfrydwch mawr : Ac hwy a yfaſant hefyd o Pſal. 65. 9 Dat. 22. 1. Ezek. 47.

Ddwr yr afon ; yr hwn oedd ddymmunol, am iddo adfywio eu heneidiau deffygiol hwynt : Ac heblaw hynny, yr oedd, ar hyd glan yr Afon yma o bob tu, Goed iraidd, yn dwyn pob math o ffrwythau ; a hwy a fwytaſant o ddail y coed, i ragflaenu glothineb, a chlefydau eraill, y rhai ſy arferol o ddamwain i drafaelwyr, yn ol gwreſogi eu gwaed wrth * drafaelu. Yr oedd hefyd o dautu glan yr afon weirglodd yn llawn o lili ; ac yr oedd hi 'n lâs trwy'r holl ſwyddyn. Yn y weirglodd yma y gorweddaſant ac y cyſcaſant ; canys hwy a allent gyſcu yma mewn diogelwch : A phan y deffroeſant, hwy a fwytaſant dracheſn o ffrwythau 'r coed, ac a yfaſant eilchwaith o ddwr yr afon : Ac wedi hynny, hwy a orweddaſant i lawr i gyſcu dracheſn : Fal hyn y gwnaethant dros amryw ddyddiau a noſweithiau. Yna hwy a ganaſant y gân hon,

**ſiwrneio.*

Pſal. 4. 8.

Gwelwch fal y rhêd yn glau,
Riſcaledd ffrydiau gloywon,
*Wrth fin y ffordd, er mawr * ddidrwch*
Ddiddanwch Pererinion ;
A'r Gweirglodydd tèg eu gwèdd,
A phêr arogledd ganthynt,
Yn rhoddi (trwy ddoeth drefnad Jôn)
Ddi-dwyll ddaintithion iddynt.

† *Griſial, cryſtal.*

* *ddidorr.*

‖ A *gwelwch.*

Yr

Yr hwn a ŵyr rinwedd eu gwŷdd,
*A'r dail, a'r ffrwythydd * ddygant,*
A werth ei feddiant oll yn wir,
I brynu 'r tir lle tyfant.

* a ddygant.

A chwedi myned ychydig ym-mlaen (canys nid oeddynt wedi dyfod etto i ben ei ſiwrnai) hwy a ganfuant, fod yr Afon yn ymadel â'r ffordd dros ennyd; yr hyn a fu yn drwm dros ben ganthynt: Ond etto ni feiddient fyned oddiar y ffordd. Yn awr yr oedd y ffordd yr hon oedd yn myned oddiwrth yr afon, yn arw ac yn gerrigog; ac yr oedd eu Traed hwy 'n ddolurus o herwydd eu Teithiau; *a chyfyng ydoedd ar eneidiau y Pererinion o herwydd y ffordd.* Ac am hynny, yr oeddynt yn waſtadol, wrth fyned ym-mlaen, yn dymuno cael gwell ffordd. Yn awr ychydig oi blaen hwy, yr oedd ar y llaw aſſwy ir ffordd Weirglodd, a chanfa i fyned troſſodd iddi; a'r Weirglodd honno a elwir *Gweirglodd y Traws-Lwybr:* Yna ebe *Criſtion* wrth ei gydymmaith, os 'dyw y Weirglodd hon yn gorwedd o hŷd, ar yſtlys y ffordd, gadewch i ni droi iddi. Yna efe a aeth i ben y ganfa i edrych; ac fe a welai lwybr yn myned o hyd, o'r tu fewn i'r Weirglodd, gydag ymyl y ffordd. Y mae hyn yn ol fy ngwllys i ebe Criſtion;

Num. 21. 4.

Y mae yn brofedigaeth, yn gwneuthur ffordd i brofedigaeth arall.

Gobeithiol fy nghyfaill anwyl, Tyred trosodd yma ; canys dyma'r ffordd esmwytha.

Gobeith. *Eithr pa beth os arwain y llwybr yma ni dros y ffordd?*

Cris. Nid yw hynny 'n debygol ebr llall ; Gwèl fal y mae 'n myned o hŷd gydag ymyl y ffordd. Felly *Gobeithiol*, wedi ei berswadio gan ei Gyfaill, a aeth ar ei ol ef dros y ganfa. Ac wedi iddynt fyned trosodd, a dyfod ir Llwybr, hwy a'i cawsant yn esmwyth iawn iw traed : Ac wrth edrych oi blaen, hwy a ganfuant Wr yn teithio yno megis hwythau (ai enw e oedd *Gwâg-Hyderus*) felly hwy a alwasant arno, ac a ofynnasant iddo ; i ba le yr oedd y ffordd honno 'n myned ? Yntef a ddywedodd, tua'r *Porth Nefol*. Gwelwch ebe *Cristion*, oni ddywedais i felly wrthych ? Wrth hyn y gallwch weled ein bod ni ar yr uniawn ffordd : Felly hwy ai canlynasant ef. Eithr hi a hwyrhaodd arnynt yn y man;ac a aeth yn dywyll iawn ; hyd oni chollasant eu golwg ar y gwr, yr hwn a oedd o'u blaen hwynt.

Y mae cristianogion cryfion weithie yn arwain rhai gweinion allan or ffordd.

Gwâg-Hyderus gan hynny, o ddiffig gweled y ffordd o'i flaen, a syrthiodd ar ei ben i bwll dwfn ; yr hwn a gloddiwyd yno o bwrpas, gan Arglwydd y Tiroedd

roedd hynny, i ddal ynfyddion Gwâg-ymffroſtus *yntho*: *A thrwy ei gwymp, eſe a friw-wyd yno yn chwilfriw.*

Yn awr *Criſtion* ai gydymaith ai clwyſant e'n ſyrthio, a hwy a alwaſant arno, i wybod beth oedd y matter; eithr nid attebod efe ddim iddynt; yn unig hwy a'i clywſant e'n griddfan yn y pwll. Yna ebe *Gobeithiol*; ym-mha le yr ydym ni 'nawr? A chyda hynny yr aeth *Criſtion* yn fûd, gan ofni iddo arwain ei gydymaith oddiar y ffordd. Ac yn awr, yr oedd glaw, a * tharanau, a † mellt, a llîf ‖ anguriol yn yr Afon yn eu * brawychu hwynt. Eſay 9. 16.

* *Tryſte.* † *Llyched.* ‖ *Rhyfeddol, Creulon.* * *Dychrynu.* *Gwelwch yma, pa beth ſy'n canlyn gwneuthur cydnabyddiaeth, yn ddiſymmwth a Dieithriaid, fal y gwnaeth y Pererinion hyn â Gwág-Hyderus.*

Yna y griddfannodd Gobeithiol *yntho ei hun, gan ddywedyd, Oh na buaſwn i yn cadw fy ffordd!*

Criſ. Pwy a allai † ddychymmyg, y buaſai y Llwybr yma yn ein harwain ni allan o'r ffordd? † *Tybied.*

Gobeith. *Yr oeddwn ni yn ofni hyn ar y cyntaf; ac oblegit hynny y rhybyddiais i chwi yn addſwyn; myſi a ddywedaſwn fy meddwl yn eglurach, oni buaſai 'ch bod yn hûn nâ myſi.*

Criſ. Fy mrawd anwyl, na ddigia wrthif; y mae 'n ddrwg gennif i mi

dy arwain di allan o'r ffordd, a'th ddwyn di ir fath enbydrwydd mawr: Ardolwyn maddeu immi, canys nid o ddrwg fwriad y gwneuthum i hyn.

Gobeith. *Bydd gomfforddus fy mrawd, canys rwi 'n maddeu itti: Ac yr wyfi 'n credu hefyd, y bydd hyn er daioni inni.*

Crif. Y mae 'n llawen gennif, fod gyda mi Frawd trugarog; ond ni ddylem ni fefyll fal hyn; Edrychwn a allwn ni fyned yn ein hôl.

Gobeith. *Eithr fy Mrawd anwyl gadewch i mi fyned o'ch blaen.*

Crif. Nage, os rhynga bodd i chwi; gadewch i mi fyned ym-mlaenaf; fal os bydd dim perygl, y gallwyfi fod yntho ef yn gyntaf; canys trwy 'm camfynnied i yr aethom ni 'n dau allan o'r ffordd.

Gobeith. *Nage, ebe* Gobeithiol, *ni chewch chwi fyned ym-mlaenaf; canys fe ddichon trwbl eich meddwl eich tynnu chwi dros y ffordd drachefn.* Yna, er mawr gyffur iddynt, hwy a glywfant leferydd vn yn dywedyd wrthynt, *gofod dy galon tua'r brif-ffordd; y ffordd yr aethoft dychwel.* Erbyn hyn yr oedd y dyfroedd wedi codi yn vchel; ac o herwydd hynny, yr oedd y ffordd i fyned yn ol yn enbyd iawn *(yna mi a feddyliais, mai hawfach ydyw myned allan o'r*

Jer. 31. 21.

o'r ffordd pan y byddom arni, nâ dyfod iddi, pan y bo 'm ni allan o honi) etto hwy a anturiaſant fyned yn ol ; eithr yr oedd hi cyn dywlled, a'r llîf cyn ucheled, fal y buant agos a boddi, ddeng-waith wrth ddychwelyd.

Methaſant y noſon honno, er cymaint eu hymgais, ddyfod yn ôl at y ganfa. Ond o'r diwedd, wedi cael ychydig o waſcod, hwy a eiſteddaſant i lawr, hyd oni wawriodd y dydd : Eithr gan eu bod yn ddeffigiol, hwy a gyſcaſant yno. Yn awr yr oedd o ſewn ychydig i'r mann lle yr oeddent yn gorwedd *Gaſtell* a elwid *Caſtell* †*Amheuys*. A'r *Cawr Anobaith* oedd Berchennog o honno : Ac ar ei dîr ef yr oeddent hwy yn awr yn cyſcu ; yr hwn wrth rodio yn ol ei arfer, ar y boreu-ddyd, rhyd eu *gaeau, a gaſodd *Criſtion a Gobeithiol* yn cyſcu ar ei Dîr ef. Yna, â lleferydd garw a Sarrug, efe a archodd iddynt †ddihuno ; a gofynnodd hefyd iddynt, gwŷr o ba wlâd oeddynt ? A pha beth yr oeddynt yn eu wneuthur ar ei Dîr ef ? Hwythau a fynegaſant iddo, mai *Pererinion* oeddynt, ac iddynt golli eu ffordd. Yna Ebr *Cawr* wrthynt ; ſe ddarfu i chwi Neithiwr dreſpaſſu arnaſi trwy fathru fy nhîr i a gorwedd arno ; ac am hynny mae 'n

† *Yn llawn ammheuon a dowts.*

* *Maeſydd.*

† *ddeffroi.*

rhaid i chwi ddyfod gyda myfi. Felly fe orfu arnynt fyned gydag ef, o herwydd ei fod e'n drech nâ hwynt : Ac hefyd, nid oedd ganthynt nemmawr i ddywedyd yn ei erbyn ef ; canys yr oeddynt yn gwybod eu bod ar fai. Y *Cawr* gan hynny a'u gyrrodd hwy o'i flaen, ac a'u gosododd yn ei *Gastell*, (*Psal.* 107. 16, 17.) mewn * Daiar-dy Tywyll iawn, yr hwn oedd ffiaidd a drewllyd i ysprydoedd y ddau *Bererin*. Yno y buont yn gorwedd o'r borau ddydd *Mercher*, hyd nôs *Sadwrn*, heb gymaint a thammeid o fara, na defnyn o ddwr, nac un math o oleuni, na dyn na dynes, i ofyn pa fodd yr oeddynt : Yma gan hynny yr oeddent yn ddrwg ei cyflwr, ym-mhell oddiwrth eu carennydd, a'u cyfathrach, a phob máth o gydnabyddiaeth. Yma hefyd y cafodd *Cristion* driftwch dau-ddyblig ; vn am eu bod nhw 'n garcharorion, a'r llall oblegit mai trwy ei gyngor annoeth ef, y dygasid hwynt i'r dyryswch hwn.

* Dwnshwn.

Yn awr yr oedd gan y *Cawr Anobaith* Wraig, a'i henw hi oedd *Anhyderus* ; ac wedi iddo fyned iw wely, efe a fanegodd iddi hi yr hyn oll a wnaethai, sef, iddo ddal dau Garcharwr, a'u taflu nhw iw * *Ddaiardy*, am iddynt drespassu ar ei Dîr ef. Ac efe a ofynnodd

* *Ddwnshwn.*

nodd hefyd iddi, pa beth oedd oreu iddo wneuthur iddynt ym-mhellach. Hithe a ofynnodd pwy oeddent, o ba le yr oeddent yn dyfod, ac i ba le yr oeddynt yn myned? Ac yntef a fynegodd iddi. Yna hi a'i cynghorodd ef, pan gyfodei fo 'r boreu, i Curo nhwy 'n ddi-drugaredd: Felly pan gyfododd efe y boreu drannoeth, fo a gymmerodd lawffon doſt ganghennog o Afallen ſûr, ac a aeth i wared attynt i'r *Daiardy*; ac yno'n gyntaf efe a ddechreuod eu difenwi nhw, megis pet fuaſent Gwn (er na roddaſent hwy erioed iddo ef air anweddus) ac wedi hynny efe a ruthrodd arnynt, ac a'u curodd yn y fath fodd, fal nas gallent na chymmorthwyo eu hunain, nac ymdroi ar y llawr. Wedi iddo wneuthur felly, efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd hwynt yno, i gŷd-gwyno eu gofyd, ac i alarudan eu cyſtydd: Felly hwy a dreuliaſant yr holl Ddiwrnod hwnnw, mewn ocheneidiau a galarnadau chwerwon. Yr ail nos, *Anhyderus* a ymddiddanodd â'i Gwr yn eu cylch drachefn; a chan ddeall eu bod nhw yn fyw etto, hi a'i hannogodd ef i cynghori hwynt, i * wneuthur diwedd o honynt eu hunain: Felly pan ddaeth y boreu, efe a aeth attynt mewn modd ſarrug megis o'r

* Lâdd.

blaen; a chan wybod eu bod nhw yn glwyfus iawn, gan y cleſiau a roddaſei efe iddynt o'r blaen, efe a ddywedodd wrthynt ſal hyn; gan nad oes tybygoliaeth y dewch chi byth allan o'r lle yma, goreu peth y wnewch chi, yw gwneuthur diwedd o honoch eich hunain yn ebrwydd; Naill ai â chyllill, Cebyſtrau, neu â Gwenwyn; Canys pa ham ebe ſe yr ydych chi yn dewis bywyd, gan weled fod cymaint o flinderau ynglŷn wrtho? Eithr hwy a attolygaſant arno ef, eu gollwng hwynt ymaith: A chyda hynny ſo a edrychodd arnynt â golwg erchyll; A chan ruthro arnynt, diammeu, y buaſai ſo ei hun yn gwneuthur diwedd o honynt y pryd hynny, oni buaſai iddo ſyrthio mewn llewyg (Canys yr oedd efe weithie ar dywyd Teſog yn cael ambell * llwgfa) a cholli grym ei law dros amſer. Am hynny efe a aeth ymaith, ac a'u gadawodd hwynt (megis or blaen) i yſtyried pa beth a wnaent. Yna'r Carcharorion a ymgynghoraſant ryngthynt eu hunain, pa un oreu oedd cymmeryd cynghor y *Cawr* ai peidio, ac ſal hyn y dechreuaſant ymddiddan.

* Pwl o'r ſeinte.

Criſ. Fy mrawd, ebe Criſtion, pa beth a wnawn; y mae'r bywyd yr ydym ni 'n byw yma yn druenus iawn:

Om

Om rhan i, nid wyf yn gwybod, pa un oreu yw byw fal hyn, neu yntau gwneuthur diwedd o honom ein hunain yn ebrwydd : *Y mae fy enaid yn dewis ymdagu yn fwy nâ * hoedl*, Job 7. 15. Ac y mae'r bêdd yn fwy esmwyth im si nâ'r daiardy Tomlyd hwn ; a wnawn ni gynghor y *Cawr*, ai nis gwnawn ?

* Bywyd

Gobeith. *Mewn gwirionedd y mae 'n cyflwr presennol yn ofnadwy ; a gwell o lawer a fyddei gennif farw nâ byw fal hyn dros fyth ; ond er hynny ystyriwn, i Arglwydd y wlâd (tua 'r hon yr ydym ni 'n teithio) ddywedyd, Na lâdd, ie na ladd vn arall ; mwy o lawer gan hynny y mae fo 'n † gwarafun i ni dderbyn cynghor y Cawr, sef, i lâdd ein hunain. Heblaw hyn, ni all yr hwn sy 'n llâdd un arall, ond llâdd ei Gorph ef ; eithr y mae 'r hwn a laddo ei hun, yn lladd ei enaid ai gorph ar unwaith : Ac ymmhellach, fy mrawd, yr wyti 'n Sôn am Esmwythdra yn y bêdd ; eithr a anghofiaisti 'r uffern, lle y gorfydd ar y lleiddiaid, yn ddiammeu aros ynthi tros fyth ? Canys ni chaiff vn lleiddiad etifeddu bywyd tragwyddol. Ystyriwn hefyd, nad yw'r holl Gyfraith, ynghylch bywyd a rhydd-did pobl, yn sefyll yn llaw'r* Cawr Anobaith : *Fe ddaliwyd eraill (cyn belled ac yr wyfi 'n deall) yn*

† gwa hardd

* llofryddion Mwrddwyr. Dat. 21. 8. 1 Joan. 3. 15.

ei rwydau ef, yn gyſtal a ninne ; ac etto hwy a ddiangaſant o'i ddwylo ef : Pwy a wyr, na ſymmyd Duw y Cawr hwn, trwy farwolaeth allan o'r byd yma ; neu nad all efe ryw bryd neu gilydd * *ebergoſi cloi y drws arnom ; neu nas dichon efe ar fyrder ſyrthio eilchwaith mewn* † *llewig ger ein bronnau, a cholli grym ei Aelodau : Ac os digwydd y fath beth iddo drachefn ; o'm rhan i, mae yn fy mryd gymeryd calon a bod yn wrol, i broſi â'r eithaf o'm gallu, i ddiangc oddi tan ei law ef. Mi a fûm yn ffôl iawn, nas gwneuthum hynny eiſus : Er hynny fy Mrawd byddwn ammyneddgar, a dioddefwn ychydig : Fe allei y cawn ni ddeallyddol ymwared oddiwrtho mewn amſer ; eithr na laddwn mo'n hunain mewn modd yn y byd. Ac â'r Geiriau kyn y llonyddodd* Gobeithiol *drom galon ei Frawd* Criſtion : *Ac felly hwy a aroſaſant ynghyd, yn y carchar tywyll y diwrnod hwnnw, yn eu cyflwr athriſt a galarus.*

* *Angh-ſio.*

† Eſaiat.

A phan hwyrhaodd hi, fe aeth y Cawr i wared ir Daiardy drachefn, i edrych a oedd ei Garcharorion wedi gwneuthur yn ôl ei Gyngor ef ; ond wedi iddo ddyfod yno, efe a'i cafodd hwynt yn fyw ; ac yn ſiccr dyna'r cwbl : Canys yn awr o eiſiau ymborth, ac o achos y clwy-

dwyfau a gowſont pan y curodd eſe hwynt, braidd yr oedd * ffûn yn ei geneuau: Eithr eſe a'u cafodd (megis y dywedais) yn fyw; ac ar hynny eſe a acth yn gynddeiriog, ac a ddywedodd wrthynt; mai 'n gymmaint ac nad vfyddhaſant iw gynghor eſ, y cai eu cyflwr hwy fod yn waeth, nâ phe buaſent erioed heb ei geni. * *Anadl.*

Ar hyn, hwy a ddychrynaſant yn ddirfawr; ac yr wyf yn tybied i *Griſtion* fyrthio mewn llewyg; eithr pan †y daddebrodd eſe ychydig, hwy a adnewyddaſant eu hymddiddanion ynghylch Cynghor y *Cawr*; ac a ddechreuaſant yſtyried, pa vn oedd oreu iddynt, a'i dilyn ei gyngor eſ a'i peidio. Yr oedd *Criſtion* drachefn am wneuthur yn ôl ei gyngor eſ, eithr *Gobeithiol* eilchwaith a'i gwrthwynebodd fal hyn. † *Ymadfywiodd, megis vn wedi dihuno o'i ſſaint.*

Gobeith. *Fy Mrawd, ebe eſe, onid wyti 'n coſio mor* || *ddewr-wych y buoſti gynt? Method ar* Apol-lyon *dy orchfygu di: Methodd hefyd ar yr holl bethau y welaiſt, y glowaiſt, ac y deimlaiſti yn Nyffryn cyſgod Angeu dy orchfygu di: Pa galedi, dychryn a* * *ſyndod yr aethoſti eiſus trwyddynt; ac a wyti 'nawr mor ofnus? Ti a weli fy môd i yn y carchar gyda thi; yr hwn ydwyf (wrth nattur) yn wannach gwr o lawer nâ thydi:* || *Glew, nerthol.* * *Diſymmwth bod yn agos a dottio.*

thydi : Fe 'm archollwyd gan y Cawr *yma yn gyſtal a thithau ; ſe 'm cadwyd heſyd odaiwrth pob ymborth a lluniaeth yn y byd, ac yr ydwyf yn galarus yma yn y tywyllwch gyda thi : Ardolwyn gâd i ni ſod yn ammyneddgar tros* † *drô bach etto. Cofia fal y chwareaiſti 'r Gwr yn* Ffair Gwagedd, *ac nad oeddyt yn ofni na'r Gadwyn, na'r Carchar, nac vn math o farwolaeth waedlyd ychwaith : Gâd i ni gan hynny (rhag cywilydd, yr hwn nid yw gymheſur gtywed fod Criſtion yn gorwedd tano) ddioddef trwy Ammyneddhyd yr eithaf [illegible]lu*

† *Ychydig o amſer.*

Yn awr wedi 'r nôs ddyfod drachefn, a myned o'r *Cawr* a'i wraig iw gwely, hi a ofynnodd iddo beth a ddaethai o'r Carchororion ; ac a wnaethant hwy yn ol ei gyngor ai peidio : Yntef ai hattebodd hi, mai * dihirwyr pengaled oeddynt ; a gwell oedd ganthynt ddioddef pob màth o galedi, nà difetha eu hunain : Yna ebe hi, cymmer hwynt i foru i ‖ gyntedd y Caſtell, a dangos iddynt Eſcyrn a phenglogau, y rhai a ddifethaiſti eiſus ; a gwna iddynt goelio, y bydd iti cyn pen wythnos eu rhwygo hwyntau 'n † vfflon, fal y rhwygaiſti eu cyfellion oi blaen hwynt.

* *Rogiaid, Cnaſiaid.*

‖ *Cwrt a Green.*

† *Yn ddarnau yn chwilfriw.*

Felly pan ddaeth y boreu, y *Cawr* a aeth attynt drachefn, ac a'u cymmerth i gyn-

i gyntedd y Caſtell; ac a ddangoſodd iddynt yr Eſcyrn a'r penglogau, megis y gorchmynnaſei ei Wraig iddo. Yr oedd y rhain ebe efe 'n Bererinion vn waith fal chwithau; ac fe ddarfu iddynt dreſpaſſu ar fy nhîr i megis y gwnaethoch chwithau; a phan y gwelais i fôd yn dda, mi ai drylliais hwy 'n chwilfriw; a chyn pen deng niwrnod, mi a'ch drylliaf chwithe yn yr vn modd. Ewch i wared i'ch lloches drachefn, a chydâ hynny ſe a'u curodd hwy o hyd, nes iddynt ddyfod iw gwâl: Ac yno y buant yn gorwedd yr holl ddydd Sadwrn, mewn cyflwr gofydus, megis y buaſant o'r blaen. Yn awr gwedi iddi noſſi, a myned o meiſtres *Anhyderus* a'r *Cawr* ei Gwr iw gwely, hwy a ddechreuaſant ymddiddan drachefn ai gilydd, ynghylch y Carcharorion; a rhyfeddu 'n ddirfawr a wnaeth yr hên *Gawr*, ei fod e'n methu, yn gyſtal trwy ei ffynnodiau, a thrwy ei gynghorion eu dwyn hwy i * drangc drwg. Ac ar hynny, ei Wraig a ddywedodd wrtho; 'Rwi'n ofni ebe hi, eu bod nhwy 'n gobeithio y daw rhyw rai iw gwaredu hwynt; neu mae ganthynt ryw offerynnau i agoryd cloion ag hwynthwy, trwy ba foddion y maent yn gobeithio diangc. A wyti 'n dywedyd

**Diwtdd, Marwolaeth.*

thydi : Fe 'm archollwyd gan y Cawr *yma yn gystal a thithau ; fe 'm cadwyd hefyd oddiwrth pob ymborth a lluniaeth yn y byd, ac yr ydwyf yn galaru yma yn y tywyllwch gyda thi : Ardolwyn gad i ni fod yn ammyneddgar tros † drô bach etto. Cofia fal y chwareaisti 'r Gwr yn* Ffair Gwagedd, *ac nad oeddyt yn ofni na'r Gadwyn, na'r Carchar, nac vn math o farwolaeth waedlyd ychwaith : Gâd i ni gan hynny (rhag cywilydd, yr hwn nid yw gymhesur giywed fod Cristion yn gorwedd tano) ddioddef trwy Ammynedd hyd yr eithaf o'n gallu*

† *Ychydig o amser.*

Yn awr wedi 'r nôs ddyfod drachefn, a myned o'r *Cawr* a'i wraig iw gwely, hi a ofynnodd iddo beth a ddaethai o'r Carchororion ; ac a wnaethant hwy yn ol ei gyngor ef ai peidio : Yntef ai hattebodd hi, mai * dihirwyr pengaled oeddynt ; a gwell oedd ganthynt ddioddef pob math o galedi, nà difetha eu hunain : Yna ebe hi, cymmer hwynt i foru i | gyntedd y Castell, a dangos iddynt Escyrn a phenglogau, y rhai a ddifethaisti eisus ; a gwna iddynt goelio, y bydd iti cyn pen wythnos eu rhwygo hwyntau 'n † vfflon, fal y rhwygaisti eu cyfellion oi blaen hwynt.

* *Rogiaid, Cnafiaid.*

| *Cwrt a Green.*

† *Yn ddarnau yn chwilfriw.*

Felly pan ddaeth y boreu, y *Cawr* a aeth attynt drachefn, ac a'u cymmerth i gyn-

i gyntedd y Caſtell; ac a ddangoſodd iddynt yr Eſcyrn a'r penglogau, megis y gorchmynnaſei ei Wraig iddo. Yr oedd y rhain ebe efe 'n Bererinion vn waith fal chwithau; ac fe ddarfu iddynt dreſpaſſu ar fy nhîr i megis y gwnaethoch chwithau; a phan y gwelais i fod yn dda, mi ai drylliais hwy 'n chwilfriw; a chyn pen deng niwrnod, mi a'ch drylliaf chwithe yn yr vn modd. Ewch i wared i'ch lloches drachefn, a chydà hynny fe a'u curodd hwy o hyd, nes iddynt ddyfod iw gwâl: Ac yno y buant yn gorwedd yr holl ddydd Sadwrn, mewn cyflwr gofydus, megis y buaſant o'r blaen. Yn awr gwedi iddi noſſi, a myned o meiſtres *Anhyderus* a'r *Cawr* ei Gwr iw gwely, hwy a ddechreuaſant ymddiddan drachefn ai gilydd, ynghylch y Carcharorion; a thyfeddu 'n ddirfawr a wnaeth yr hên *Gawr*, ei fod e'n methu, yn gyſtal trwy ei ffynnodiau, a thrwy ei gynghorion eu dwyn hwy i * drangc drwg. Ac ar hynny, ei Wraig a ddywedodd wrtho; 'Rwi'n ofni ebe hi, eu bod nhwy 'n gobeithio y daw rhyw rai iw gwaredu hwynt; neu mae ganthynt ryw offerynnau i agoryd cloion ag hwynthwy, trwy ba foddion y maent yn gobeithio diangc. A wyti 'n dywedyd

*Diwedd, Marwolaeth.

wedyd felly fy Anwylyd ebr *Cawr*? myfi a ddyfal chwiliaf eu † poccedi a'u dillad hwynt, y boreu foru, i edrych a oes ganthynt y cyfryw * beiriannau.

† *Coderynau.*

* *Offerynnau.*

Ac wele nôs Sadwrn *ynghylch hanner nôs, hwy a ddechreuaſant weddio; ac a barhaſant mewn gweddi, yn agos hyd y wawrddydd..*

Yn awr ychydig cyn ei bod hi 'n ddydd. *Criſtion* fal un wedi hanner amhwyllo, a waeddodd allan ‖ yn gythryblus fal hyn; *Pa fath* * *ddwlyn (eb efe) ydwyfi, i orwedd yn y môdd yma mewn Daiardy neu ddwnſhwn drewllyd, pan y gallwyf rodio mewn rhydd-did? Y mae gennif* † *agoriad yn fy monwes, a elwir* ‖ Addewid, *yr hon, mae 'n ddiameu gennif, a* * *ddeclu bob clô* ynghaſtell *Amheyus.* Yna ebe *Gobeithiol*, dyma newydd da fy mrawd anwyl: Tynn hi allan 'oth fonwes. a gwnawn brawf o honi: Yna *Criſtion* ai cymmerodd hi allan oi fonwes, ac a ddechreuodd â drws y Dwnſhwn; ac hwyn gynted ac y troes yr agoriad yn y clô f'aeth y † barr yn ôl; a'r ‖ Ddôr a ymagorodd yn ebrwydd; a *Chriſtion* a *Gobeithiol* a ddaethant allan eill dau. Yna y daethant at y drws neſſaf i *gyntedd y Caſtell*, yr hwn hefyd a agorodd Criſtion â'i † allwedd * yn ddiattreg. Wedi hyn-

‖ *Yn llawn trwbwl.*

* *Fſol.*

† *Allwedd*

‖ *Addewidion am drugaredd*

* *Egyr.*

† *Boilt.*

‖ *Drws.*

† *Agoriad*

* *Yn ddioed.*

ny

ny efe a ddaeth at y Porth haiarn, canys yr oedd yn rhaid agor honno hefyd; eithr peth anodd iawn ydoedd agoryd clô y porth yma; etto fe ïi agorwyd ef âr allwedd hyn: A † chwedyn hwy a wthiasant y porth led y pen yn agor, mal y gallent ddiangc ar ffrwst: eithr y porth, wrth ei hagor, a wnaeth y fâth drwst, fal y deffrowyd y *Cawr*: Yna fo a geisiodd gyfodi 'n ddisymmwth i ymlid y carcharorion: Eithr ei Aelodau a ballasant; canys ei * lewygfeydd a'i cymmerasant ef drachefn, fal na allei mewn modd yn y byd fyned ar eu hôl hwynt. Yna hwy a aethant ymaith, ac a ddaethant i brif-ffordd y Brenin: erbyn hynny yr oeddent mewn diogelwch, gan eu bod wedi dyfod allan o Diroedd ac Arglwyddiaeth y *Cawr*.

|| *Anhawdd.* † *Wedi hynny.* * *Pange ffeinte.*

Yn awr wedi iddynt fyned dros y ganfa, hwy a ddechreuasant ddychymig ynddynt eu hunain, pa beth a osodent yma, i rwystro'r fawl a ddeuent ar eu hôl, i ddyfod dan ddwylo'r *Cawr Anobaith*. Ac hwy a gyttunasant gyfodi yno Golofn; ac i || argraphu ar ei hystlys hi yr yscrifen yma: *Dyma'r † ganfa sy'n tywys* i Gastell Amheyus *lle y mae'r* Cawr Anobaith *yn* * *tario, yr hwn sy'n dirmygu Brenin y wlâd nefol, ac yn ceisio befyd difetha y Sanctaidd Bererinion.*

|| *Yscrifennu.* † *Camfa.* * *Trigo.*

Llawer

Llawer gan hynny o'r rhai a'u canlynaſant hwy, a ddarllenaſant, yr yſcrifen- ac a ddihangaſant rhag y perygl yma. Ac ar ôl hynny hwy a ganaſant fal hyn,

Trwy droi o'n Fforddnyni brofaſom
Beth yw rhodio 'n anghyfreithlon:
Gwachled y rhai a'n canlynant,
Wyno a phroſi 'r vn aflwyddiant,
Pan eu delir yn garchorion,
Gan y Cawr a'i wraig echryſlon.

Gwedi hynny hwy a aethant ym-mlaen, hyd oni ddaethant i'r mynyddoedd hyfryd, y rhai a berthynant i Arglwydd y Bryn, am yr hwn y ſoniais i o'r blaen: felly hwy a aethant i ſynu ir mynyddoedd, i weled y Gerddi, a'r Perllannau, a'r Gwinllannodd, a'r Ffynhonnau dyfroedd oedd yno; lle'r yfaſant o'r dwr ac yr ymolchaſant; ac a fwytaſant o'r grawnwin yn rhâd. Yn awr yr oedd ar bennau y Mynyddoedd hyn *Fugeiliaid*, yn porthi eu praidd; ac yr oeddynt yn ſefyll yn agos i fîn y ffordd fawr. Y Pererinion gan hynny a aethant attynt, a chan bwyſo ar eu ffynn (fal y mae'n arferol i *Bererinion* deffygiol, pan y byddant yn ſefyll i ymddiddan â neb ar y ffordd) hwy a ofynnaſant iddynt, *eiddo pwy yw'r Mynyddoedd hyfryd hyn? a phwy a biau'r Defaid ſy'n pori arnynt?*

Bugeiliaid. Y mynyddoedd hyn ydynt

Dir

Dir *Immanuel*, ac y maent hwy yng-
lwg ei Ddinas ef ; ei eiddo ef ydyw
Defaid hefyd ; ac efe a oſododd ei
inioes i lawr droſtynt.

Criſ. *Ai ayma 'r ffordd i'r Ddinas*
ſol?

Bug. Yr ydychi yn gymmwys yn
ich ffordd.

Criſ. *Pabelled ydyw hi oddiyma yno?*

Bug. Rhy bell i neb, ond i'r ſawl ſy
n myned tuag yno mewn gwirionedd.

Criſ. *A ydyw 'r ffordd yn ddiogel,*
neu ynteu'n beryglus?

Bug. Diogel i'r cyfiawn, *ond troſedd-*
wyr a dramgwyddant ynddi, Hoſ. 14. 9.

Criſ. *A oes yn y lle yma lettu ac*
* *ymgeledd i Bererinion llêſc* † *lludde-*
dig îw gael?

* *Swccwr.*
† *Wedi*
blino.

Bug. Fe orchmynnodd Arglwydd y
lle hwn i ni, *nac anghoſiem letteugarwch*;
ac am hynny chwi a ellwch gael rhan
o'r pethau da y ſydd yma. *Heb.* 13. 1, 2.
Mi a welais hefyd yn fy mreuddwyd,
mai pan wybu'r *Bugeiliaid*, mai * ffor-
ddolion oeddynt ; hwythau hefyd a
ofynnaſant Gweſtiwnau iddynt (a'r Pere-
rinion a roddaſant yr vn-rhyw attebion
iddynt hwy, ac a roeſant i eraill) megis,
gwyr o ba wlad ydych? A pha fodd y
daethoch i'r ffordd? A thrwy ba fo-
ddion y darfu i chwi barhau ynthi fal
hyn?

* *Traſaelwyr.*

hyn? Canys nid oes ond ychydig o'r rhai ſy'n dechrau dyfod tuag yma, yn dangos eu hwynebau ar y mynyddoedd hyn: Ond pan clybu y Bugeiliaid eu hattebion hwynt, ſe 'i bodlonwyd hwy 'n fawr; ac hwy a edrychaſant yn gariadus arnynt, ac a ddywedaſant wrthynt, *Croeſaw i'r Mynyddoedd hyfryd.*

† *Gweinidogion yr Eſengyl.*

Ar † Bugeiliaid (meddaf) y rhai a elwid, *Gwybodaeth*, *Profiad*, *Gwiliadwrus*, *Purdeb*, a'u cymmeraſant erbyn eu dwylo, ac a'u harwainaſant hwy iw pebyllau; ac a oſodaſant gar eu bron yr hyn oedd barod ganthynt. Ac hwy a ddywedaſant ym-mhellach wrthynt; nyni a ewyllyſiem i chwi aros gyda ni ychydig o amſer, mal y galloch fod yn gydnabyddus á nyni; ac hefyd, fal y caech ychydig o eſmwythyd a diddanwch, trwy fod yn gyfrannogion o'r pethau daionus, y ſydd iw cael yn yr hyfryd fynyddoedd ymma. A'r Pererinion a ddywedaſant wrthynt, eu bod nhwy 'n fodlon i aros; ac felly hwy a aethant iw gorphwysfa y noſon honno, canys yr oedd hi 'n hwyr iawn.

A'r borau drannoeth mi a glywn y Bugeiliaid yn galw ar *Griſtion* a *Gobeithiol*, i ddyfod gyda nhwy i rodio ar y Mynyddoedd; felly hwy a aethant allan gydag hwynt, ac a rodiaſant ennyd,

yd, ac a ganfuant fod y Tîr yn dra frwythlon ac hyfryd ar bob tu. Yna ebr Bugeiliaid wrth ei gilidd, a gawn ni ddangos rhyw ryfeddodau i'r Pererinion hyn ; ac wedi iddynt gyttuno gwneuthur felly, hwy a'u * tywyſaſant hwynt, yn gyntaf i benn y Bryn a elwid *Cyfeiliorni*, yr hwn oedd yn ſerth iawn, ar yr yſtlys bellaf oddiwrthynt ; i'r Bugeiliaid a archaſant iddynt edrych tua'r * gwared : Felly *Criſtion* a *Goeithiol* a edrychaſant tua'r gwaelod tan y Bryn : Ac hwy a welent, wrth droed y bryn, nifer fawr o ddynion, wedi eu dryllio yn ddarnau, gan gwymp a gawſant yno. Yna ebe *Criſtion*, pa beth yw hyn ? A'r Bugeiliaid a'i hatteba-ſant ; oni chlywſochi Sôn am y rhai a ddadymchwelwyd o ran eu ffydd, trwy goelio athrawiaeth *Hymenæus a Philetus*, *y rhai o ran y gwirionedd a gyfeiliornaſant, gan ddywedyd, ddarfod yr adgyfodiad euſys* (a thrwy ganlyniad eth, na bydd adgyfodiad ir meirw drachefn) A'r Pererinion a ddywedaſant, Do, ni a glywſom Sôn am danynt. Yna ebr *Bugeiliaid* wrthynt, y rhai a welwch chi eu haelodau nhw yn gorwedd yn ddarnau, wrth odrau y Bryn yma, ydyw'r bobl hynny: Ac fo'i gadawyd hwy heb eu claddu hyd y dydd hwn

* *Arwaiſaſant.*

* *Gwaelod.*

1 Tim. 1. 19. 20. 2 Tim. 2. 17. 18.

hwn (fal y gwelwch) er enſampl i eraill i ochelyd na ddringont yn rhy uchel ac na ddelont yn rhy agos i ymylau y mynydd hwn.

Yna mi ai gwelais nhw yn eu harwain hwy, i ben mynydd arall, yr hwn a elwid *Gocheliad*; a'r *Bugeiliaid* a archaſant iddynt edrych ym-mhell oddiwrthynt: Yr hyn pan y gwnaethant, hwy a dybygent, eu bod yn canfod llawer o Ddynion yn rhodio fynu ac i wared ymmyſc y beddau, y rhai oedd yno; ac hwy a ddeallaſant fod y gwŷr yn ddeillion, am eu bod yn tramcwyddo weithie wrth y beddau ac am eu bôd yn methu dyfod allan oddi yno. *Yna ebe Criſtion, pa beth ſydd ni ddeall wrth hyn?*

A'r Bugeiliaid a attebaſant, oni welſochi ganſa, ychydig iſlaw y mynyddoedd hyn, yr hon ſy'n arwain i weirglodd, o'r tu aſſwy i'r ffordd yma? A'r Pererinion a attebaſant, gwelſom. Yna ebr Bugeiliaid; y mae Llwybr yn myned o'r Ganſa honno, yr hon ſy'n

* *Arwain.* * tywys yn gymmwys i *Gaſtell Amheuys*, yn yr hwn y mae'r *Cawr Anobaith* yn trigo: A'r gwyr accw (ſef, y rhai a welwch ymmyſc y Beddau) a fuant yn *Bererinion* fal yr ydychi yn awr, hyd oni ddaethant at y Ganſa honno.

honno. Ac o herwydd bod y iawn ffordd yn arw yn y man hynny, hwy a droesant i'r Weirglodd honno; ac yno y daliwyd hwy gan *Gawr Anobaith*, ac ese a'u carcharodd hwynt, yn ei Gastell: Ac wedi iddo eu cadw nhw, dros dalm o amser, yn ei * Ddaiardy, * *Dwnlhwn.* ese o'r diwedd a dynnodd allan eu llygaid hwy, ac a'u harwainodd i blith y beddau accw; lle y gadawodd ese hwynt i gyrwydro hyd y dŷdd heddyw, fal y cyflawnid ymadrodd y gwr doeth, *Dyn yn myned ar gyfeilorn oddiar ffordd deall, a orphywys ynghynulleidfa y meirw.* Yna *Cristion* a *Gobeithiol* a edrychasant y naill ar y llall, á'r dagrau yn diferu rhyd eu griddiau; er hynny ni ddywedasant hwy ddim wrth y Bugeiliaid. Dihar. 21. 16.

Wedi hynny, mi a welwn y Bugeiliaid yn myned â hwynt i le arall, mewn pant, lle'r oedd Drws yn ochor Bryn; a hwy a agorasant y † ddôr, ac a barasant iddynt edrych i mewn; ac hwy a wnaethant felly; ac wele yr oedd y Lle oddifewn yn dywyll ac yn fwglyd iawn: ac wele hwy a dybygent hefyd, eu bód yn clywed megis swn rhyw Dân, a lleisiau rhai yn dioddef poenau dirfawr, ac eu bod yn arogli arogl brwmstan. Yna ebe *Cristion, pa beth yw hyn?* A'r Bugeiliaid † *Drws.*

liaid a attebaſant, *Traws-lwybr i uffern yw hwn* : dyma'r ffordd y mae Rhagrithwyr yn myned i mewn yno ; yn enwedig, y ſawl ſy'n gwerthu eu genedigaeth fraint gydag *Eſau* ; y rhai a werthant ei Meiſtr gydâ *Saddas* ; y rhai ſy'n cablu'r Eſengyl gydag *Alexander* ; y rhai ſy'n dywedyd celwydd ac yn rhagrithio gydag *Ananias*, a *Saphira* ei Wraig ef.

Yna ebe *Gobeithiol* wrth y Bugeiliaid, *yr wyſi 'n deall fod gan y rhain, ie bob un o honynt liw o Bererindod, megis y mae gennym ninne yr awron ; onid oedd y peth felly ?*

Bug. Oedd yn ddiau, ac hwy a barhaſant felly hefyd yn hîr o amſer.

Gobeith. *Pa belled y gallent hwy (y* * *Yn awr.* *ſydd*yr-wan wedi eu cyfrgolli yn echrydus yn y modd ymma) fyned mewn Pererindod yn yr amſer cynt ?*

Bug. Rhai a aethant ym-mhellach, a rhai ni ddaethant cyn belled a'r mynyddoedd hyn.

Yna eb'r *Pererinion* wrth eu gilydd, *rhaid i ni alw ar yr Hollalluog am nerth.*

Bug. Gwir yw hynny, a rhaid i chwi wneuthur defnydd o honaw hefyd, wedi ei gael ef.

Erbyn hyn yr oedd y Pererinion yn ewyllyſio myned ym-mlaen ; ar Bugeiliaid

liaid oeddent fodlon i hynny : Felly hwy a rodiaſant ynghyd hyd gwrr eithaf y mynyddoedd. Yna ebr *Bugeiliaid* wrth eu gilydd ; gadewch i ni ddangos oddi yma byrth y Ddinas Nefol i'r Pererinion ; os medrant edrych trwy 'n * Drych-olwg ni : A'r Pererinion oeddynt dra bodlon i hynny. Felly hwy a'u cymmeraſant i ben bryn uchel, yr hwn a elwid *Eglur*, ac a roddaſant iddynt y † drych i edrych trwyddo : Yna hwy a brofaſant i edrych trwyddo ; ond wrth atgofio y peth diweddaf a ddangoſaſai y Bugeiliaid iddynt, yr oedd eu dwylo nhwy 'n crynu gan ofn ; ac o herwydd hynny, methodd arnynt edrych yn ddiyſcog trwy 'r Drych ; er hynny yr oeddent yn tybied, eu bod yn gweled rhyw beth tebig i'r porth, ac hefyd peth o ogoniant y lle.

* *Gwydr i edrych trwyddo.*

† *Glaſs.*

Pan yr oeddent ar ymadel, vn o'r *Bugeiliaid* a roddodd iddynt *Yſcrifen o yſbyſrwydd ynghylch eu ffordd* : A'r Llall a archodd iddynt *ochelyd y Dyn gwenhieithus* ; A'r Trydydd a archodd iddynt *ochelyd rhag cyſcu ar y Tîr a reibiwyd* : A'r Pedwerydd a ddywedodd wrthynt, *Duw fo'n rhwydd i chwi.*

Yna mi a welwn y ddau Bererin yn myned i wared o'r Mynyddoedd, ar hyd y

ffordd-fawr tua 'r Ddinas nefol. Yn awr ychydig iſlaw 'r Mynyddoedd yma, ar y llaw aſſwy, yr oedd Gwlâd *Cell-wair* yn ſefyll; ac o'r wlâd hon, yr oedd * wttra gam (ſef lón neu foidir fechan) yn dyfod ir ffordd yr oedd y Pererinion ynthi: Ac yma y cyfarfuant â llangc pert a ffraeth, yr hwn oedd yn teithio o'r wlâd honno, a'i enw ef oedd *Anwybodaeth*. Felly *Criſtion* a ofynnodd iddo, *o ba le yr oedd yn dyfod, ac i ba le yr oedd e yn myned?*

* *Fford.*

Anwybodaeth. Syr ſe 'm ganwyd i yn y wlad accw, ychydig ar y llaw aſſwy; ac yr wyfi 'n myned tua'r Ddinas nefol.

Criſ. *Eithr pa fodd yr ydychi 'n meddwl myned i mewn trwy'r Porth, canys chwi a ellwch gyfarfod â rhyw anhawſder yno?*

Anwyb. Fal y mae pobl dda eraill yn myned cbe yntef.

Criſ. *Eithr pa beth ſydd gennych i ddangos yno, fal y bo iddynt agor y porth i chwi.*

Anwyb. Mi a Wn ewyllys fy Arglwydd, ac a fum yn Fucheddwr da, yr wyf yn Talu i bawb ei eiddo; yr wyfi 'n Gweddio, yn Ymprydio, yn talu fy Negymmau, ac yn rhoddi Elufennau, ac mi a adewais fy Ngwlâd, er

er mwyn y lle yr wyf yn myned iddo.

Criſ. *Eithr ni ddaethoſt ti i mewn trwy'r porth cyfyng, yr hon ſy ym-mhen y ffordd yma: Ond tydi a ddaethoſt i mewn i'r ffordd hon, trwy'r lwybr cam accw; ac am hynny yr wyf yn ofni, pa beth bynnag yr wyt ti'n dybied am danat dy hun; pan ddelo 'r dydd Cyfrif, y rhoddir i'th erbyn, mai lleidr ac yſpeiliwr wyt, yn lle cael myned i mewn i'r Ddinas.*

Anwyb. Foneddigion, yr ydych 'n ddieithriaid im fi, nid adwaen i mo honoch; byddwch ſodlon i ddilyn Crefydd eich Gwlad chwi; a minne a ddilynaf Grefydd fy ngwlâd inne. Yr wyfi 'n gobeithio y bydd pob peth o'r gorau. Ac am y porth y ſoniaſoch am dano, fe ŵyr yr holl fyd, fod honno ym-mhell o 'n gwlad ni: nid wyfi chwaith yn tybied, fod neb yn ein holl barthau ni, yn gwybod y ffordd tuag yno; ac nis gwaeth pu'n ai bod yn ei gwybod hi ai peidio, gan fod gennym (fal y gwelwch) † Wttra lâs hyfryd, yn dyfod o'n Gwlâd ni, i uniawn-gyrchu 'r ffordd yma.

† *Heol, lôn.*

Pan y gwelodd *Criſtion* fod y gwr yn ddoeth yn ei olwg ei hun, efe a ddywedodd wrth *Obeithiol* yn ddiſtaw; *gwell yw 'r gobaith am ffôl nag am dano*

Dihar. 26. 12. Preg. 10. 3.

ef. Ac fo a ddywedodd ym-mhellach, *y ffôl pan rodio ar y ffordd, ſydd â'i Galon yn pallu, ac y mae 'n dywedyd wrth bawb ei fod yn ffôl.* Pa beth a wnawn ni? A ſiaradwn ag ef ym-mhellach? Neu ynteu myned oi flaen ef yn breſennol, i adel iddo fyfyrio ar yr hyn a glywodd eiſus, ac yna ei aros ef drachefn; i edrych a allwn bob yn ychydig wneuthur dim daioni idde ef. 'Rwi 'n tybied ebe *Gobeithiol*, nad yw 'n dda dywedyd y cwbl ar vnwaith wrtho ef, gadewch i ni ei adel e y pryd hyn os mynnwch; a ſiaradwn ag ef yn y mann, fal y bo'n abl derbyn ein haddyſc a'n cynghorion.

Felly hwy a aethant ym-mlaen eill dau, ac *Anwybodaeth* a ddaeth ar eu hôl. Yn awr gwedi iddynt ei ragflaenu ef ychydig, hwy a ddaethant i * Hewlan dywyll iawn, lle y cyfarfuant â Gwr wedi ei rwymo gan ſaith Cythrael, â ſaith o raffau cedyrn; ac yr oeddent yn ei gario ef yn ôl, i'r Drws a welſent ar ochr y Bryn. *Criſtion* yn awr a'i Gyfaill *Gobeithiol* a ddechreuaſant † arſwydo a chrynu 'n ‖ aruthr. Etto fal yr oedd y Cythreuliaid yn dwyn ymaith y Gwr; *Criſtion* a edrychodd yn graff arno, i weled a oedd e yn ei adnabod ef; ac fo a dybiodd, mai yn [illegible]

* *Heol ſechan.* Mat. 12. 45. Dihar. 5. 22.

† *Ofni.*

‖ *Dirfawr*

ydoedd y gwr, yr hwn oedd yn byw yn Nhref *Gwrth-giliad* : Ond ni allai fo weled ei wyneb ef yn amlwg, am ei fod yn goſtwng ei ben i lawr fal lleidr wedi ei ddal : Eithr wedi iddo ſyned heibio, *Gobeithiol* a edrychodd ar ei ôl ef ; ac a ganfu Bapyr ar ei Gefn ef, lle yr oedd yr yſcrifennad hwn ; *Proffeſwr* * *anllad a Gwrthgiliwr damnedig.* Yna y dywedodd *Criſtion* wrth ei gydymaith, yn awr yr wyf yn atgofio yr hyn a fanegwyd i mi, am beth a ddigwyddodd i wr da ynghylch y mann yma ; ei Enw ef oedd *Ychydig ffydd*, eithr gwr da rhinweddol ydoedd efe ; ac yr oedd e'n trigo yn Nhrêf † *Diffuant*. Hyn oedd y matter ; ym mhen y ffordd yma, y mae Heol-fechan, yn dyfod i wared o *Borth-y-ffordd-Lydan*, a elwir *Heol y Dyn-marw* ; ac hi a elwir felly, o achos y || llofruddiaeth a wneir yno yn fynych : A'r gwr yma (yr hwn a elwir *Ychydig ffydd*) oedd yn myned ar Bererindod megis, yr ydym ninne yn awr ; ac fe * happiodd iddo eiſteddi lawr a chyſgu yno. Yn awr fe ddamweiniodd y pryd hynny, i dri o † williaid cryfion ddyfod i wared ar hyd y || lôn, o *Borth y-ffordd-lydan* ; a'u henwau ydoedd *Gwan-galon*, *Gwangred*, ac *Euogrwydd*, (tri brawd)

* *Neu ymadawiad â chreſydd.*

* *Wantan.*

† *Diragrith.*

|| *Lladdiad.*

* *Ddigwyddodd.*

† *Lladron.*

|| *Wttra.*

a phan ganfuant hwy meiſtr *Ychydig-ffydd* yn gorwedd yno, hwy a ddaethant atto ar ffrwſt? Yn awr yr oedd y gwr da wedi newydd ddihuno o'i gwſc, a'i frŷd ar gyfodi i fyned iw Daith. Felly hwy a ddaethant oll i fynu atto, a chan fygwyth yn arw, a archaſant iddo ſefyll. Ar hyn, *Ychydig ffydd* a gollodd ei liw, ac a aeth cyn wynned a'r * foled; ac nid oedd yntho na chalon i ymladd, na gallu i ffoi. Yna ebe *Gwangalon* † delifrwch eich pwrs; eithr ni fryſſiodd efe i wneuthur felly (canys yr oedd yn * anodd gantho golli ei Arian,) *Gwangrêd* gan hynny a redodd i fynu atto, a chan wthio ei law iw bocced e, fo a dynnodd allan ‖ byrſed o Arian. Yna efe a waeddodd yn groch, Lladron, Lladron. Ar hynny, *Euogrwydd* a darawodd *Ychydig ffydd* ar draws ei ben à llawffon fawr, yr hon oedd gantho yn ei law; ac ar ffonnod honno, fo a'i bwriodd yn ei hŷd ar y llawr; ile y bu e'n gwaedu, ai waed yn ffrydio fal un a fai 'n gwaedu hyd Angeu; A'r lladron yn y cyfamſer yn ſefyll * yn ei ymyl ef: Ond o'r diwedd, hwy a glowent megis trwſt rhai yn dyfod i wared ar hyd y ffordd, a chan ofni mai vn *Grâs-Mawr* ydoedd, yr hwn ſy'n trigo yn Nhrêf *Hyfder-dda*, hwy

* *Lliain an ben gwraig.*
† *Rhowch i mi.*
* *Anhawdd.*
‖ *Gôd. Y mae Gwangalondid, a Gwangred, ac Euogrwydd am bechod, yn taro Criſtion gwan i lawr.*
* *Wrth ei glûn ef.*

hwy a gymmeraſant y traed, ac a adawſant Ychydig-Ffydd i † ymdaro droſto ei hun fal y gallai. Yn awr ym-mhen ennyd, eſe a ddaeth atto ei hun, a chan gyfodi ar ei draed, eſe a ymdrechodd grippian i fyned ymaith.

† *Ymwneuthur.*

Gobeith. *Eithr a ddygaſant hwy oddiarno gymaint oll ar a feddai?*

Criſ. Na ddo, ni anrheithiaſant hwy 'r † mann lle 'r oedd ei Dlyſau ef; felly eſe a gadwodd y rheini * o hyd; eithr mi a glywais fod yn gyfyng iawn ar y gwr da hwn o herwydd ei golled; canys y Lladron a'i hyſpeiliaſant ef o'i holl arian traul gan mwyaf. Yr hyn a ddihangodd eu dwylo nhwy (fal y dywedais i o'r blaen) oedd ei ‖ dlyſſau ef; ac nid oedd yr ychydig arian oedd gantho, ond prin ddigon i ddwyn ef i ben ei daith; nage (oni cham ddyweſpwyd wrthyfi) ſe orfu iddo gardotta, a hela ei fywyd ar y ffordd honno (canys 'ni allai ſo werthu mo'i Dlyſſau) eithr er cardotta a gwneuthur a allai, eſe a aeth (fal y dywedwn ni) â i gylla yn wâg y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ôl i ben ei ſiwrnai.

† *Sef y grâs oedd yn ei galon ef.*

* *Fyth.*

‖ *Graſuſau.*

1 Pet. 4. 18.

Gob. *Ond rhyfedd yw, na ddygaſent hwy yſcrifen ei ſiccrwydd oddiarno, trwy 'r hon yr oedd e, i gael ei dderbyn i mewn ym mhorth y Ddinas nefol.*

Criſ. Mae hynny yn rhyfeddod; eithr ni chawſant hwy mo'r yſcrifen hynny; er na chollaſant mo honi, trwy vn rhyw gyſrwyſtra o eiddo Mr. *Ychydig-Ffydd*; o herwydd nid oedd gantho ef allu na * meder i guddio dim, gan ei fod mewn ſyndod a braw trwy eu dyfodiad hwy atto: Felly trwy ragluniaeth ddaionus yr Arglwydd, yn fwy nâ thrwy ei ddyſalwch a'i ofal ef, y methaſant gael y peth da hwnnw. 2 *Tim.* 1. 14.

* *Skil.*

Gob. *Eithr yr oedd yn gyſſur mawr iddo, na ddygaſant ei Dlyſſau oddiarno?*

2 Pet. 1. 8, 9.

Criſ. Fe allaſai hynny fod yn gyſſur mawr iddo, pe buaſai 'n gwneuthur defnydd o honaw fal y dylaſai; eithr y rhai a adroddaſant wrthyfi yr yſtori yma, a ddywedaſant, na wnaeth efe, ond ychydig ddefnydd o'r peth, yr holl ran arall o'r ffordd; a hynny o herwydd y braw a gawſei fo, pan y dygaſant ymaith ei Arian ef: Gwir ydyw, fo anghofiodd yr hyn a'i cyſſurai fo, y rhan fwyaf o'r ffordd oedd yn ôl o'i daith; ac heblaw hynny, pan digwyddai ar vn amſer iddo ei atgofio, ac y byddei yn dechrau cael Cyſſur oddiwrtho; yna meddyliau newydd yng hylch ei golled am ei Arian, a lyngcai pob math o fyfyrdodau eraill.

Y mae colledion bydol yn rhwyſtro dyn rhyw brydiau, i ddierbyn cyſſuron neſol, y rhai ſy 'n tarddu oddiwrth râs Duw yn y galon.

Gob.

Gob. *Och o druan gwr, nid oedd fôdd nad ydoedd hynny yn diſtwch mawr iddo?*

Criſ. Mae hynny yn ddiammeu; oni buaſai yn driſtwch i nyni, pe gwnaethid â ni megis y gwnaethpwyd ag efe, trwy ei yſpeilio (a'i glwyfo fe hefyd) a hynny mewn lle dieithr, fal yr oedd efe yntho? Rhyfeddod ydyw, na buaſei fo (druan Gwr) yn marw gan ofyd! Myfi a glywais, ei fod ef yn dolefain ac yn cwynfan yn alarus, y rhan fwyaf o'r ffordd gwedi hynny; gan achwyn wrth bawb ac a'i gorddiweſaſant ef, ac wrth y fawl yr oedd yntef yn ei gorddiwes ar y ffordd; gan achwyn (meddafi) ym mha le yr yſpeiliwyd ef; a pha fodd; a phwy oedd y gwyr a wnaethant hynny; a pha beth a gollaſei; a'r modd y clwyfwyd ef; ac mai prin y dihangodd ef yn fyw.

Gob. *Eithr peth rhyfeddol ydyw, na pharodd ei angen iddo ef werthu, neu wyſtlo rhai o'i Dlyſſau, fal y gallai fo ei † ddianghenu ei hun yn ei daith.*

† Bod hebdlodi.

Criſ. Yr wyti 'n ſiarad megis vn o'r ynfydion: Canys am ba beth y gwſtlai fo ei * dlyſſau? Neu i bwy y gwerthai fo hwynt? Nid oeddit yn gwneuthur cyfrif yn y byd o'i Dlyſſau ef, yn

* Raſuſau.

yr holl wlad honno, yn yr hon yr yſpeiliwyd ef ynthi; ac nid oedd arno ef eiſiau dim o'r fath gymmorth, ar a oedd gan bobl y wlad honno, iw † weini iddo. Heb law hynny, pe buaſei ei Dlyſſau ef yn eiſiau wrth Borth y Ddinas nefol, fe'i cauaſid ef allan o'r etifeddiaeth oedd yno (a hynny a wyddai fo yn ddigon da) a gwaeth a fuaſai hynny iddo ef, nag ymddangoſiad a chreulondeb Myrddiwn o ladron.

† *Gwaſanaeth, rhoddi.*

Heb. 12. 16.

Gob. *Pa ham yr wyt mor chwerw ſy Mrawd? Fe werthodd* Eſau *ei enedigaeth fraint, a hynny am phiolaid o Gawl; a'r Enedigaeth honno oedd ei Dlws pennaf ef; ac os gallai efe, pa ham na allai* Ychydig-ffydd *wneuthur felly hefyd?*

Criſ. Gwîr yw, *Eſau* a werthodd ei Enedigaeth fraint; yr hyn beth y mae llawer o rai eraill yn ei wneuthur; a thrwy hynny, y maent yn cau eu hunain allan, oddiwrth feddiannu y fendith bennaf, megis y gwnaeth y * Scerbwd hwnnw. Eithr y mae'n rhaid i chwi wneuthur peth † rhagoriaeth rhwng *Eſau* ac *Ychydig-ffydd*, ac hefyd rhwng eu Cyflyrau hwynt. Genedigaeth *Eſau* oedd Gyſcodawl, ond Tlyſſau *Ychydig-ffydd* nid oeddent felly. Bol *Eſau* oedd ei Dduw, eithr nid felly

* *Y gelain, y drygddyn.*

† *Gwahaniaeth.*

yr

yr oedd Bol *Ychydig-ffydd.* Eiſiau *Eſau* oedd yn ei || flŷs naturiol, ond || *Chwant.*
blŷs *Ychydig-ffydd* nid ydoedd felly. Heblaw hynny, nid oedd *Eſau* 'n edrych am ddim ond am gyflawni ei drachwantau; canys *wele fi 'n myned i farw,* Gen. 25.
ebe fe, *a pha lês a wna 'r Enedigaeth* 32.
fraint hon i mi? Eithr *Ychydig-ffydd* a dybiodd mai rhan o'i etifeddiaeth ef oedd ei ffydd ef, er gwanned yr oedd hi; a thrwy y ffydd honno efe a gadwyd rhag y fath afradlondeb, ac a ddyſcwyd i iawn bryſſio ei Dlyſſau, yn lle ei gwerthu hwynt, megis y gwerthodd *Eſau* ei enedigaeth-fraint. Nid ydych yn ddarllen yn yr yſcrythur, fod gan *Eſau* ffydd yn y meſſur lleiaf: Ac am hynny nid yw'n rhyfedd, lle bo'r Cnawd yn vnic yn dwyn rhwyſc (megis y gwna yn y Dyn hwnnw, lle na bo ffydd iw wrthwynebu ef) os gwerth e ei Enedigaeth-fraint, a'i Enaid, a'r cwbl oll y ſydd gantho, a hynny hefyd i'r Diafol o Uffern; canys y mae 'r cyfryw Ddynion yn debyg ir Aſſyn wyllt, *yr hon wrth ei hachlyſſur* Jer. 2. 24.
nis gellir ei throi ymaith: Felly nhwythau, pan y bont wedi goſod eu brŷd ar gyflawni eu trachwantau, a fynnant y pethau y maent * yn eu * *Chwen-*
blyſio, pa beth bynnag a goſtio iddynt. *nychu.*

Eithr

Eithr Mr. *Ychydig-ffydd* oedd o dymmer arall, yr oedd ei feddwl ef ar bethau nefol : A phethau yſprydol ac oddi vchod oedd ei gynhaliaeth ef. I ba bwrpas gan hynny y gwerthai fo, yr hwn ydoedd o'r cyfryw dymmer, ei Dlyſſau (pe buaſai yno vn ai prynaſai hwynt) i borthi eu drachwantau, â phethau gweigion ? A ddyru Gŵr geiniog i gael llanw ei fola â gwair ? Neu a ellwchi beri i'r † Durtur ymborthi ar *furgyn, megis y gwna'r gigfran ? Ac er y dichon y rhai digrêd wyſtlo, neu werthu 'r hyn oll a feddont, er mwyn cyflawni eu trachwantau cnawdol, a'u hunain hefyd yn lle Gwarthol ; etto ni ddichon y rhai y ſydd ganthynt iſydd (ſef, ffydd † iachuſol) wneuthur felly, er nad yw eu ffydd ond ffydd wann iawn. A thymma dy gam-gymeriad di fy Mrawd.

† *Colomen*
* *Celain, pria.*

† *Yr iſydd ſydd i â iechyd vniaeth yn ei chalyn hi.*

Gob. *'Rwyſi 'n cydnabod hynny ; etto eich gwaith chwi yn troi arnaf mor ſarrug, a fu agos a pheri i mi ddîgio wrthych.*

Criſ. Pa ham ; ni wneuthym i ond dy gyffelybu di i rai o'r adar gwylltion, y rhai a redant yma a thraw ar hyd * lwybrau anhygyrch, â'r pliſc ar eu pennau : Eithr gâd heibio hynny fy mrawd ; ac yſtyria y peth ſydd yn llaw gen-

* *Llwybrau nad ydys yn eu trammwy.*

gennym ; ac fe fydd pob peth o'r gorau ryngoti a myfi.

Gob. *'Rwi 'n credu yn fy nghalon, nad oedd y tri chyfaill hynny ond gŵyr † llyfrion : Pe amgen, a redaſent hwy ymaith dybygechi , fal y gwnaethant, wrth glywed trwſt rhyw vn dyn, yn dyfod yn vnig rhyd y ffordd fawr ? Pa ham na buaſai* Ychydig-ffydd *yn cymeryd gwell calon ? Yr wyfi 'n tybied y gallaſai fo ddal ‖ vn tacc ag hwynthwy, ac * ildo 'r maes iddynt pan y buaſent yn myned yn rhy galed iddo.*

† *Digalon.*

‖ *Vn pwyad neu ymladdſa.*

* *Rhoddi 'r ſudduguoliaeth.*

Criſ. Clywais lawer megis chwithe yn eu barnu nhwy 'n llyfwr ; eithr nid oes ond ychydig, ar a brofaſant y peth felly mewn awr o brofedigaeth. Ac am fod yn fwy gwrol, nid allai *Ychydig-ffydd* fod a'r fath galon a hynny. Ac mi a dybygwn wrthit tithe fy Mrawd, pe buaſiti yn ei Le ef, ni fuaſiti gwell nag yntef ; canys nid ydwyt ti ond tros † vn taro, ac wedi hynny ni wnai di ond ildo. Ac yn ddiammau, gan mae vchder dy feddwl fy'n peri i ti ſiarad yn y modd yma, (am eu bod nhw yn awr ym-mhell oddiwrthym) * pe rhôn iddynt ymddangos i ti, megis y gwnaethant iddo ef, hwy a allent beri i ti newid dy feddyliau.

† *Ychydig o ymladd.*

* *Pe digwyddai.*

Eithr yſtyria drachefn, mae lladron ar

ar gyflog ydynt, yn gwaſanaethu Tywyſog y pwll diwaelod; yr hwn, o'r bydd rhaid, a ddaw ei hun iw cynnorthwyo hwynt, *ai lais ef ſydd fal rhuad Llew*, 1 *Pet.* 5. 8. Mi a fûm fy hun yn y || frwydr yma, fal y bu Mr. *Ychydig ſſydd*, a dychrynllyd iawn oedd y peth yn fy marn i. Y tri dihirin yma a ruthraſant arnaf, a minnau a ddechreuais fal *Criſtion* eu gwrthſefyll hwy; eithr ni wnaethant ond rhoddi vn alw; ai meiſtr a ddaeth ar droad llaw attynt: Yna (megis y mae 'r Ddihareb) y rhoeſwm fy Mywyd er Ceiniog: ond fal yr oedd Duw yn mynni, yr oeddwn wedi fy ngwiſco âg Arfogaeth brofedig: Ac etto er fy môd wedi fy arfogi felly, fe fu anhawdd iawn imi ymgadw fy hun fal gwr: Ni ddichon vn Dyn draethu pa fodd y mae arnom yn yr * ormeſt honno, ond y ſawl a fu yn y † frwydr ei hun.

|| *Ymladdfa.*

* *Storm.*

† *Ymladdfa.*

Gob. *Eithr hwy a ffoeſant, pan y tybiaſant fod Gwr a elwir Grâs-mawr ar y ffordd.*

Criſ. Gwir yw, hwynt-hwy a'i Meiſtr hefyd a ffoefant yn fynych, pan yr ymddangoſei *Grâs-Mawr*; ac nid rhyfedd; canys || Rhyſwr pybyr y Brenin yw efe: Eithr rwi 'n tybied y gwnew-

|| *Rhyſelwr grymmus.*

gwnewchi beth gwahaniaeth rhwng *Tchydig-ffydd* a Chawr y Brenin: Nid Gewri y Brenin yw eu holl ddeiliaid ef; ac nis gallant ychwaith, pan y profir hwynt, wneuthyd y fâth waith hynod mewn Rhyfel, ac a ddichon efe ei wneuthur. Ai gwiw coelio, y gallafai rhyw fachgenyn bychan drîn *Goliah* fal y gwnaeth *Dafydd*? Neu fod nerth ŷch mewn Dryw? Y mae rhai yn Gryfion, a rhai 'n weiniaid, y mae rhai a llawer o ffydd ganthynt, ond nid oes ond ychydig gan rai eraill. Vn o'r Gweiniaid oedd y Gwr hwn; ac am hynny y fyrthiodd efe ir clawdd.

Gob. *Mi ddymunafwn, pe buafei Grâs-Mawr yno, er eu mwyn hwy.*

Crif, Pettafai fo yno gallafai gael ei lawn waith; canys rhaid i mi ddywedyd hyn wrthychi, er bod *Grâs-Mawr* yn dra-medrus â'i Arfau, i amddiffyn ei hunan; ac er gwneuthur o honaw lawer; ac er y dichon efe etto wneuthur llawer yn erbyn y gelynion hyn, tra y cadwo efe hwynt wrth flaen ei gleddyf; er hynny, os dichon *Gwangalon*, *Gwangred*, ac *Enogrwydd* ddyfod i mewn atto, a chael gafael arno; deugain i vn oni thrippiant ei fodlau ef: A phan elo Gwr i lawr, pa beth a all efe wneuthur.

Pwy

Pwy bynnag a edrycho 'n graff yn Wyneb *Grâs-Mawr*, fe a gaiff weled y fâth greithiau a thorriadau yno, y rhai a wiriant yr hyn y lefarais i am dano. Ie, mi a glywais vnwaith iddo ddywedyd (a hynny pan yr oedd ef yn y frwydr, iddo ddywedyd meddafi) yr *wi'n ofni*, y collaf i fy mywyd : Pa fodd y gwnaeth y * dihirwyr cyndyn yma, a'u cyfeillion i *Ddafydd* riddfan, galaru a rhuo ? Ie, fe orfu i *Hezekiah* a *Heman* hefyd, er eu bod yn Gewri yn eu dyddiau, ymdrechu 'n galed, pan y rhythrodd y rhain arnynt ? Ac er hynny i gyd, hwy a gawfant eu trybaeddu 'n dda ganthynt. Pedr a chwennychodd, ar amfer, brofi beth a allai fo ei wneuthur : Ond er bod rhai yn dywedyd am dano, mai efe oedd Tywyfog yr Apoftolion, etto 'r gwyr hyn ai triniafant ef felly, fal y parafant iddo o'r diwedd ofni morwynig wael.

* *Drwg-ddynion.*

Heblaw hyn, y mae eu † Brenhin hwy'n barod wrth eu chwibanniad : Nid yw e vn amfer allan o glyw iddynt ; ac os ar ryw achlyffur y digwydda gael o honynt y gwaethaf (os bydd poffibl) efe a ddaw ei hun i mewn, i cynnorthwyo hwynt : Ac am dano ef y gellir dywedyd, mewn rhan yr hyn a ddywedir am y *Lefiathan* ; *Cleddyf yr hwn ai tarawo*

† *Belzebub.*

tarawo ni ddeil; y wayw-ffon, y biccell, na'r llurig; efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phrês fel pren pwdr. Ni phâr ſaeth iddo ffoi; Cerrig taſl a droed iddo yn ſoſl. Piccellau a gyfriſir fel ſoflyn, ac efe a chwardd wrth yſcwyd Gwayw-ffon. Pa beth a all gwr wneuthur yn y cyflwr hwn? Gwîr yw, pettai gan wr Farch *Job* bob amſer, a medr a grymmuſder i farchogaeth ef, fo a allai wneuthur pethau * nodedig: *Canys ei Wddf ſydd wedi ei wiſco a † Tharan; ni ddychryna ef fel ceiliog y rhedyn: Dychryn ydyw ardderchawgrwydd ei ffroen ef. Ei draed ef a gloddiant yn y Dyffryn; ac efe a lawenycha yn ei gryfdwr; ac efe a â allan i gyfarfod Arfau; efe a ddiyſtyra ‖ arſwyd; ac ni ddychryna fe; ac ni ddychwel yn ei ôl rhag y Cleddyf. Y cawell ſaethau a dryſtia yn ei erbyn ef; y ddiſclair wayw-ffon ar Darian. Efe a lwngc y Ddaiar gan greulondeb a chynddared; ac ni chrêd e mai llais yr Vdcorn yw. Efe a ddywed ym-mhlith yr Vdcyrn, ha, ha, ac a aroglą ryfel o bell, * Twrf Tywyſogion a'r bloeddio.*

Job 41. 26.

* Hynod.

Job 39. 19.

† Tryſte.

‖ Ofn.

* Swn.

Ond am y fâth wyr traed a thi a minne, na fydded i ni byth ddymmno cyfarfod â Gelyn, nac ymffroſtio (fal pe gallem ni wneuthur yn well) pan glywom

i eraill gael eu maeddu; nac ymfalchio wrth feddwl am ein gwroldeb ein hunain; canys y cyfryw rai yn fynychaf a orchfygir pan brofir hwynt. Y mae 'r *Apoſtol* Pedr yn enſampl yn y matter yma, am yr hwn y crybwyllais i o'r blaen; eſe a † ſwagrau, ie, a pha beth nis gwnai? Efe a wnai, (megis yr oedd ei galon dwyllodrus yn ei annog ef i ddywedyd) fwy nâ neb, ac a ſaſai gyda'i feiſtr pan y gadawai pawb ef: Eithr pwy a gaſodd y fath ffwyl, a phwy a orchſygwyd gan y dihirwyr hyn, ſal y gorchfygwyd ef?

† A *arferai eiriau uchel.*

Nyni a ddylaem gan hynny gyflawni dau ddyledſwydd, pan y clywom wneuthur y fath antheithiadau ar ffordd fawr y Brenhin. *Yn Gyntaf*, arfogi ein hunain, pan yr elom allan ynghylch ein gorchwylion; a bôd yn ſiwr i *gymmeryd ein Tarian gydâ ni*; canys dymma 'r achos, (ſef, am ei fod heb y Darian hon) pa ham y methodd yr hwn a oſododd mor gefnog ar *Leviathan*, ei orchfygu ef; canys mewn gwirionedd, os bydd honno 'n eiſiau, nis ofna fe mo honom ni. Am hynny y dywedodd yr hwn oedd fedrus, *Vwch law pob dim, cymmerwch darian y ffydd, âr hwn y geltwch ddiffoddi holl Biccellau tanllyd y fall*, Eph. 6. 16.

Da

Da fyddai, i ni hefyd alw ar y * Brenhin am gynnorthwy ; ie, ar iddo ddyfod ei hun gyda ni : Canys dyna 'r peth a wnaeth i *Ddafydd* orfoleddu, pan yr oedd efe yn Nyffryn Cyſcod Angau ; a gwell oedd gan *Foeſen* farw yn y fann lle'r oedd e 'n ſefyll, na myned cymmaint ac vn cam heb ei *Ddduw* gydag ef. O fy mrawd ! Os efe a â gyda ni ; pa raid i ni ofni rhag † Myrddiwn o rai a ymoſodant yn ein herbyn : Ond hebddo ef, y cynnorthwywyr beilchion grynant, ac y ſyrthiant. *Pſal.* 23. 4. *Exod.* 33. 15. *Pſal.* 27. 1, 2, 3. *Job* 9. 13.

* *Seſ, Criſt.*

† *Dengmil.*

O'm rhan i, myfi a fum yn y frwydr hon cyn hyn ; ac er diange o honof yn fyw (trwy ddaioni a gallu yr Hollalluog) etto, nid oes achos gennif i ymffroſtio am fyng-wroldeb. Fe fydd llawen gennif, os ni chyfarfyddaf yn ol hyn, â'r fath ymdriniaeth ; er fy mod yn itybied nad aethom ni etto tu hwnt i bob enbydrwydd. Pa wedd bynnag, gan na ddarfu ir *Llew* na'r *Arth* mo'm difa hyd yn hyn, yr wyf yn gobeithio hefyd, y gwared Duw ni, oddiwrth y Philiſtiad di-enwadedig neſſaf. Yna y canodd *Criſtion* fal hyn.

Ychydig-ffydd, * *ble buoſt di ?*
Ai ynghwmpeini lladron ?

* *Yn mha Le.*

Ai

† *Y drygionus cornwyddllyd.*
* *Tyrſaoedd, llaweroedd.*

Ai felly gwnaeth † yr enwir blâ,
Ai'th bocced yſpeiliaſon ?
Cais gan hynny ychwaneg ffydd,
Os mynni * Dorfydd orfod ;
Fal hyn dros ddengmîl yr âi di,
Onid e mae tri yn ormod.

Felly hwy a aethant ym-mlaen, ac *Anwybodaeth* ai canlynodd : Hyd oni ddaethant lle yr oedd ffordd arall yn dyfod iw ffordd hwynt ; yr hon a ymddangoſai mor vniawn, a'r ffordd oedd ganthynt hwy i fyned rhyd-ddi : ni wyddent hwy yma, p'un or ddwy gymmerent ; canys yr oedd pob vn vnion o'i blaen hwynt ; Ac am hynny hwy a safaſant yma dro i yſtyried : Ac fal yr oeddent yn myſyrio yno hylch y ffordd ; Wele wr o wyneb pryd go-ddû yn dyfod attynt, wedi ei ddilladu â gwiſc wen iawn, ac yn goſyn iddynt, pa ham yr oeddynt yn ſefyll yno ? Hwythau a'i hattebaſant ef, eu bod yn myned tua'r Ddinas neſol, ond nis gwyddent pa vn o'r ddwy ffordd a gymmerent. Dilynwch fi eb'r Gwr, canys yno yr ydwyf innau 'n myned. Felly hwy ai canlynaſant ef, ar hyd y ffordd newydd, yr hon oedd yn arwain ir brif-ffordd : A'r ffordd ymma bob yn ychydig a droodd, ac y droodd, ac a'u harweiniodd hwynt,

oddi-

ddiwrth y Ddinas; yr hon yr oeddent
yn chwennychu myned iddi; hyd onid
oeddent mewn ychydig amſer, wedi
roi eu hwynebau oddiwrthi; er hyn-
y hwy ai canlynaſant ef. Eithr ym
mhen ennyd, ſo ai tywyſodd hwy i
wyd yn ddiarwybod iddynt; yn yr
on y maglwyd hwy eill dau, mal na
wyddent pa beth a wnaent: *Ac ar*
ynny, y wiſc wen a ſyrthiodd oddi am
Gefn y Gwr dû: Yna y gwybuant ym-
ha le yr oeddynt; ac yno y buont
dalm o amſer yn cwyno, ac yn
neidio, canys yr oeddent yn methu
od allan o'r rhwyd.

Criſ. *Yna ebe* Criſtion *wrth ei gydy-*
aith; yn awr yr wyf yn gweled fy
camſynnied. Oni archodd y Bugei-
ail i ni ochelyd y Gwenhieithiwr? Y
mae gennym broſiad yr awrhon, mai
wir a ddywedodd y Gwr doeth, ſef, y
Dyn a ddywedo weniaith wrth ei Gym-
ydog, ſydd yn tannu rhwyd iw draed ef.

Gôb. Hwy a roddaſant i ni hefyd yſ-
criſen o gyfarwyddiad am y ffordd, fal
y gallem ei chadw hi yn ſiccrach: Eithr
fe ddarfu i ni * ebergofi ddarllen yn
honno hefyd, ac nid ymgadwaſom rhag
lwybrau yr yſpeiludd. Yn hyn yr
oedd *Dafydd* yn ddoethach nâ ni; ca-
nys eb efe, *Tu ag at am weithredoedd*

Dihar. 29. 5.

* *Gollwng dros gôf.*

Pſal. 17. 4.

Dy-

† *Y drygionus cornwydllyd.*

* *Tyrfaoedd, llaweroedd.*

Ai felly gwnaeth † yr enwir blâ,
Ai'th bocced yspeiliason ?
Cais gan hynny ychwaneg ffydd,
Os mynni * Dorfydd orfod ;
Fal hyn dros ddengmîl yr âi di,
Onid e mae tri yn ormod.

Felly hwy a aethant ym-mlaen, ac *Anwybodaeth* ai canlynodd : Hyd oni ddaethant lle yr oedd ffordd arall yn dyfod iw ffordd hwynt ; yr hon a ymddangosai mor vniawn, a'r ffordd oedd ganthynt hwy i fyned rhyd-ddi : Ac ni wyddent hwy yma, p'un or ddw[illegible] gymmerent ; canys yr oedd pob vn [illegible] vnion o'i blaen hwynt ; Ac am hynny, hwy a fafasant yma dro i ystyried : Ac fal yr oeddent yn mysyrio yng hylch y ffordd ; Wele wr o wyneb pryd go-ddû yn dyfod attynt, wedi ei ddilladu â gwisc wen iawn, ac yn gosyn iddynt, pa ham yr oeddynt yn sefyll yno ? Hwythau a'i hattebasant ef, eu bod yn myned tua'r Ddinas nefol, ond nis gwyddent pa vn o'r ddwy ffordd a gymmerent. Dilynwch fi eb'r Gwr, canys yno yr ydwyf innau 'n myned. Felly hwy ai canlynasant ef, ar hyd y ffordd newydd, yr hon oedd yn arwain ir brif-ffordd : A'r ffordd ymma bob yn ychydig a droodd, ac y droodd, ac a'u harweiniodd hwynt, oddi-

ddiwrth y Ddinas; yr hon yr oeddent
n chwennychu myned iddi; hyd onid
oeddent mewn ychydig amſer, wedi
roi eu hwynebau oddiwrthi; er hyn-
y hwy ai canlynaſant ef. Eithr ym
nhen ennyd, ſo ai tywyſodd hwy i
wyd yn ddiarwybod iddynt; yn yr
ion y maglwyd hwy cill dau, mal na
wyddent pa beth a wnaent: *Ac ar
ynny, y wiſc wen a ſyrthiodd oddi am
ſefn y Gwr dû:* Yna y gwybuant ym-
nha le yr oeddynt; ac yno y buont
y dalm o amſer yn cwyno, ac yn
eneidio, canys yr oeddent yn methu
yrod allan o'r rhwyd.

Criſ. *Yna ebe* Criſtion *wrth ei gydy-
naith; yn awr yr wyf yn gweled ſy
bamſynnied. Oni archodd y Bugei-
aid i ni ochelyd y Gwenhieithiwr? Y
nae gennym brofiad yr awrhon, mai
wir a ddywedodd y Gwr doeth, ſef, y* Dihar.
Dyn a ddywedo weniaith wrth ei Gym- 29. 5.
ydog, ſydd yn tannu rhwyd iw draed ef.

Gob. Hwy a roddaſant i ni hefyd yſ-
rifen o gyfarwyddiad am y ffordd, fal
y gallem ei chadw hi yn ſiccrach: Eithr
ſe ddarfu i ni * ebergofi ddarllen yn * *Gollwng
nonno hefyd, ac nid ymgadwaſom rhag dros gôf.*
lwybrau yr yſpeiludd. Yn hyn yr
oedd *Dafydd* yn ddoethach na ni; ca-
nys eb efe, *Tu ag at am weithredoedd* Pſal. 17. 4.

Dy-

Dynion, wrth eiriau dy wefusau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yspeiludd. Fal hyn y buant yn cwyno ac yn ymofidio, am eu bod mewn cyflwr truc[illegible] yn y rhwyd. O'r diwedd, hw[illegible] ganfuant wr, mewn gwisc ddisc[illegible] yn dyfod tu ag attynt, â † fflangell[illegible] Gyrd mân yn ei law; ac wedi [illegible] ddyfod attynt, fe ofynnodd idd[illegible] ba le yr oeddynt yn dyfod? A[illegible] beth yr oeddynt yn ei wneuthur [illegible] Hwythau a ddywedasant, ma[illegible]erinion tlodion oeddynt, yn my[illegible] tua *Sion*, eithr wedi eu hudo all[illegible] o'u ffordd gan wr dû, wedi ei ddilladu mewn gwisc wen; yr hwn (ebe nhwy) a archodd i ni ei ganlyn ef; canys yr oedd yntef (meddai fo) yn myned tuag yno hefyd. Yna ebr hwn oedd â'r chwip yn ei law, *Gwenhieithiwr*, ydyw fo, a gau *Apostol*, *yr hwn a ymrithiodd i rith Angel goleuni.* Felly efe a dorrodd y Rhwyd, ac a'u gollyngodd hwynt allan. Yna ebe fe wrthynt hwy, canlynwch fi, fal y gosodwyf chwi ar eich ffordd drachefn; felly efe ai tywysodd yn eu hôl i'r ffordd, yr hon a adawsent hwy i ganlyn y *Gwenhieithiwr.* Yna efe a ofynnodd iddynt, ym mha Le y lletteuasoch neithiwr? Hwythau a attebasant, gydâ'r *Bugeiliaid* ar y

† *Chwip.*

Dihar. 29. 5. Dan. 11. 32. 2Cor. 11. 13. 14,

y mynyddoedd hyfryd. Gofynnodd iddynt ym-mhellach, oni chawſoch gan y Bugeiliaid *yſcrifen o hyſpyſrwydd am ffordd*? Hwythau a attebaſant, cawſom. Eithr ebe efe, pan yr oeddech [illegible] ammheuo ynghylch y ffordd; a ddrychaſoch chi yn yr yſcrifen honno i gael cyfarwyddiad am dani? Na ddo[illegible]hwythau. Paham nas gwnaethoch [illegible] ebe yntef? Ni a anghofiaſom [illegible]euthur hynny ebr *Pererinion.* Yna y g[illegible]nodd efe iddynt ym-mhellach; oni [illegible]ybyddiodd y Bugeiliaid chwi i ochel[illegible]yd y *Gwenhieithiwr*? Do ebe nhw: Eithr nid allem ni dybied, *mai 'r Gwr Tafod-ber ymma ydoedd efe. Rhuf.* 16. 18.

Yna yn ſy Mreuddwyd, mi a glywn yr vn diſclair yn gorchymyn iddynt *orwedd i lawr*; yr hyn pan y gwnaethant, efe ai curodd hwy 'n doſt; i beri iddynt goſio yn well y ffordd dda, yn yr hon y dylaſent rodio ynthi; ac wrth eu ffiangellu hwynt, efe a ddywedodd; *yr wyfi yn argyoeddi, ac yn ceryddu y ſawl yr wyf yn eu caru: Am hynny bydded Zêl gennit, ac edifarhâ.* Ac wedi iddo wneuthur felly, efe a archodd iddynt fyned i'w ffordd; ac i ſod yn fwy gofalus i ddal ſulw rhagllaw, ar *Hyffordd diadan* eraill y *Bugeiliaid. Deut.* 25. 2. *2 Chron.* 6. 26. 27. *Dat.* 3. 19.

Felly

Dynion, wrth eiriau dy wefuſau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yſpeiliadd. Fal hyn y buant yn cwyno ac yn ymoſfidio, am eu bod mewn cyflwr truenus yn y rhwyd. O'r diwedd, hwy ganfuant wr, mewn gwiſc ddiſcla yn dyfod tu ag attynt, a † ſſlangell Gyrd mân yn ei law; ac wedi iddo ddyfod attynt, ſe ofynnodd iddynt, o ba le yr oeddynt yn dyfod? A pha beth yr oeddynt yn ei wneuthur yno? Hwythau a ddywedaſant, mai Pererinion tlodion oeddynt, yn myned tua *Sion*, eithr wedi eu hudo allan o'u ffordd gan yr dû, wedi ei ddilladu mewn gwiſc wen; yr hwn (ebe nhwy) a archodd i ni ei ganlyn ef; canys yr oedd yntef (meddai fo) yn myned tuag yno hefyd. Yna ebr hwn oedd â'r chwip yn ei law, *Gwenhieithiwr*, ydyw fo, a gau *Apoſtol*, *yr hwn a ymrithiodd i rith Angel goleuni.* Felly efe a dorrodd y Rhwyd, ac a'u gollyngodd hwynt allan. Yna ebe ſe wrthynt hwy, canlynwch fi, fal y goſodwyf chwi ar eich ffordd drachefn; felly efe ai tywyſodd yn eu hôl i'r ffordd, yr hon a adawſent hwy i ganlyn y *Gwenhieithiwr.* Yna efe a ofynnodd iddynt, yn mha Le y lletteuaſoch neithiwr? Hwythau a attebaſant, gydâ'r *Bugeiliaid* ar y

† *Chwip.*

Dihar. 28. 5. *Dan.* 11. 32. 2 Cor. 11. 13. 14.

y mynyddoedd hyfryd. Gofynnodd iddynt ym-mhellach, oni chawſoch gan y Bugeiliaid *yſcrifen o hyſpyſrwydd am ffordd*? Hwythau a attebaſant, cawſom. Eithr ebe efe, pan yr oeddech yn ammheuo ynghylch y ffordd; a edrychaſoch chi yn yr yſcrifen honno i gael cyfarwyddiad am dani? Na ddo ebe nhwythau. Paham nas gwnaethoch felly ebe yntef? Ni a anghofiaſom wneuthur hynny ebr *Pererinion*. Yna y gofynnodd efe iddynt ym-mhellach; oni ſybyddiodd y Bugeiliaid chwi i ochelyd y *Gwenhieithiwr*? Do ebe nhw: Eithr nid allem ni dybied, *mai 'r Gwr Tafod-ber ymma ydoedd efe. Rhuf.* 16. 18.

Yna yn ſy Mreuddwyd, mi a glywn yr vn diſclair yn gorchymyn iddynt *orwedd i lawr*; yr hyn pan y gwnaethant, efe ai curodd hwy 'n doſt; i beri iddynt gofio yn well y ffordd dda, yn yr hon y dylaſent rodio ynthi; ac wrth eu fflangellu hwynt, efe a ddywedodd; *yr wyſi yn argyoeddi, ac yn ceryddu y ſawl yr wyf yn eu caru: Am hynny bydded Zêl gennit, ac edifarhâ.* Ac wedi iddo wneuthur felly, efe a archodd iddynt fyned iw ffordd; ac i fod yn fwy gofalus i ddal ſulw rhagllaw, ar *Hyſſorddiadau* eraill y *Bugeiliaid. Deut.* 25. 2. *2 Chron.* 6. 26. 27. *Dat.* 3. 19.

Felly

Felly hwy a ddiolchasant iddo am ei holl garedigrwydd, ac a aethant yn araf, ar hyd y ffordd vnion, dan ganu:

Y sawl sy'n rhodio llwybrau 'r Saint;
Edrychwch faint yw'r archoll,
*A gafodd Pererinion * gwar;*
Am fyned ar gyfyrgoll.

* Mwyn-ion.

Mewn rhwydau, maglau myglyd maeth,
Eu dal yn gaeth a wnaethpwyd;
Am eu gwaith nhw 'n gwrthod gwîr
Gynghorion difyr, dotwyd.

Gwir ydyw, iw gwaredydd pûr;
Eu dwyn o'u cûr a'u cystydd:
*Ond derbyniasant flangell * drwch:*
Am hyn cymerwch rybydd.

* Annedwydd.

Yn awr ym-mhen ennyd, hwy a gansuant (o hirbell) vn yn dyfod yn araf wrtho ei hun, ar hyd y ffordd fawr, iw cyfarfod hwynt. Yna ebe *Cristion* wrth ei gydymaith, Daccw wr, â'i gefn tuâ *Sion*, ac y mae fo 'n dyfod i'n cyfarfod ni.

Gob. *Mi a'i gwelaf ef yn dyfod: Edrychwn attom ein hunain yn awr, rhag iddo yntef fod yn Wenhieithiwr hefyd: Felly efe a ddaeth nes-nes; ac o'r diwedd a ddaeth i fynu attynt (a'i enw ef oedd* * Athyst) *ac efe a ofynnodd iddynt, i ba le yr oeddent yn myned?*

* Dyn nad yw'n credu fod Duw.

Cris. *Yr ydym ni 'n myned ebe nhwythau, i Fynydd* Sion. *Yna y chwarddodd* Athyst *yn groch iawn.* Cris.

Criſ. *Paham yr ydych yn chwerthin ebe* Criſtion?

Athyſt. Yr ydwyf yn chwerthin i weled eich anwybodaeth; ac am i chwi gymmeryd cyn flined ſiwrnai; Pan nad ydychi debig, i gael dim ond eich poen, yn lle'ch † llafur. † *Traſel.*

Criſ. *Pa ham Ddyn? Ai tybied yr wyti, na dderbynir mo honom ir Ddinas nefol?*

Athyſt. Eich derbyn! Nid oes mor cyfryw lè ac yr ydych chwi 'n breuddwydio am dano yn yr holl fyd yma.

Criſ. *Eithr y mae ef yn y byd a ddaw.*

Athyſt. Pan yr oeddwn i gartref yn ſy ngwlad fy hun; Mi a glywais rai yn ſiarad megis yr ydychi yr awr-on, am y cyfryw Ddinas, ac wrth glywed hynny; mi a ymadawais â'm Gwlâd; ac a ſum yn ymofyn am y *Ddinas* hon, ys vgain mlynedd; eithr ni bum i ddim cymhennach; ac ni welais i fwy o honi nâ 'r dydd cyntaf yr aethum allan. Preg. 10. 3.

Criſ. *Nyni a glywſom, ac yr ym ni'n credu fod y cyfryw le iw gael.*

Ath. Oni buaſai i minne gredu hynny, pan yr oeddwn gartref; ni ddaethwn i cyn belled a hyn, i ymofyn am dani: Eithr gan na chefais i 'r fath le (ac etto myfi a'i cawſwn, pettaiſai iw chael; canys mi a aethym i ymofyn

am y Ddinas hon ym-mhellach nâ chwi) yr wyfi'n myned yn ôl drachefn ; ac mi a ymdrechaf i * adfywio fy hun, â'r pethau a fwriais i ymmaith y pryd hynny, mewn Gobaith i fwynhau y pethau, yr ydwyf yn weled yn awr nad ydynt iw cael.

* *Gomfforddi, ffreshân.*

Crif. *Yna ebe Criſtion wrth ei gydymaith Gobeithiol ; a'i gwir yw'r hyn a ddywaid y Gwr yma ?*

Gob. † Gwiliwch, vn o'r gwenhieithwyr ydyw fo ; cofiwch beth a goſtiodd i ni eiſus, am wrando ar y fath gydymmeithion a'r rhain. Pa beth ! Nid oes mor fath le a Mynydd *Sion* ? Oni welſom ni Byrth y Ddinas, oddiar bennau y mynyddoedd hyfryd ? Ac hefyd, onid ydym ni 'n awr i fyw wrth ffydd, ac nid wrth olwg ? Awn rhagom, ebe *Gobeithiol*, rhag i'r Gwr â'r chwip yn gorddiwes ni drachefn.

† *Gochelwch.*

2 Cor. 5. 7.

Chwychwi a ddylaſech ddyſcu 'r wers yma imſi, yr hon a ddyſcaſi yrwan i chwi. *Fy Mâb, paid a gwrando yr addyſc, a bair i ti gyfeiliorni oddiwrth eiriau gwybodaeth.* Fy Mrawd (meddaf) paid a gwrando arno ef, *a chredwn i gadwedigaeth yr Enaid.*

Dihar. 19. 27. Heb. 10. 23.

Criſ. *Fy Mrawd, ni oſynnais i mo'r Gweſtiwn yma i ti, o herwydd fy mod yn ammeu dim o'r gwirionedd, yr hyn yr*

ym

ym ni yn ei gredu, ond i'th brofi di ; ac i gael gweled ffrwyth honeſtrwydd dy galon. Ac am y gwr yma, myfi a wn ei fod ef gwedi ei ddallu gan Dduw 'r byd hwn: Awn rhagom, gan wybod ein bod yn credu 'r gwirionedd, yn yr hwn nid oes gelwydd. 1 Joan 2. 21.

Gob. Yr wyf yn gorfoleddu yn awr, mewn gobaith i feddiannu gogoniant Duw: Felly hwy a droeſant eu ceſnau ar y gwr ; ac yntef a aeth iw ffordd dan chwerthin.

Yna y gwelwn y Pererinion yn myned yn eu blaen, hyd oni ddaethant i ryw wlâd, lle yr oedd yr awel yn naturiol yn peri i ddynion gyſcu ; (yn enwedig os Dieithriaid fyddent :) Ac yma y dechreuodd *Gobeithiol* fod yn farwedd iawn, ac yn drwmluog gan gyſcu ; am hynny ebe fe wrth *Griſtion*, yr wyfi 'n awr mor gyſclyd, fal mai prin yr ydwyf yn gallu cadw fy llygaid yn agored: Gorweddwn yma a chymmerwn hûn.

Criſ. *Na wnawn* (ebe fe) *mewn modd yn y byd, rhag wedi cyſcu na ddeffròm mwyach.*

Gob. Pa ham fy Mrawd, melys yw hûn y Gweithwr, fe allai yr adfywid ni, os cyſgwn ychydigyn.

Criſ. *Onid ydychi 'n cofio i vn o'r*

Bugeiliaid erchi i ni ochelyd rhag y tîr y reibiwyd? Ei feddwl ef, wrth ddywedyd felly ydoedd, am i ni ochelyd Cyſgu; am hynny na chyſcwn fel rhai eraill, eithr gwiliwn a byddwn ſobr. 1 Theſ. 5 6.

Gob. Yr wyf yn cydnabod fy môd i ar fai; a phettaiſwn yma yn vnig, buaſwn debyg i gyſcu hyd Angau. Mi a welaf mai gwîr a ddywedodd y gwr doeth; *gwell yw dau nag vn.* Trugaredd mawr y fu dy gyſeillach di i myſi hyd yn hyn; *a thi a dderbynni wobr am dy lafur.* Preg 4. 9.

Criſ. *Yna ebe* Criſtion, *gadewch i ni ymddiddan ynghylch rhyw beth buddiol, fal y bo i ni trwy hynny gadw ein hunain yn effro.*

Gob. O ewyllys fy nghalon ebr. Ilall,

Criſ. *Pa le y dechreuwn.*

Gob. Dechreuwn os gwelwch fod yn dda, *ynghylch y modd y dechreuodd Duw* * *ddelio â nyni: Eithr ebe* Criſtion, *mi a ganaf i chwi'n gyntaf y gân hon.*

* *Weithio grâs yrom ni.*

Pan fyddo'r duwiol werin,
A chwſc iw tryblio 'n dra-blin;
Gwrandawent yr ymddiddan clau,
Sydd rhwng y ddau Bererin:
A dyſcent gymryd cyffro,
Ai cadw ei hun yn effro;
Rhag cael arnynt ormod gwall,
A bod i'r fall eu twyllo.

Am

Am hyn, i'r Sawl ſy berffaeth,
Cwmpeini 'r Saint ſydd odiaeth;
I gadw eu llygaid rhag cau ynghŷd,
Er gwaetha 'r yſpryd diffaeth.

Criſ. *Yna* Criſtion *a ddechreuodd, ac a ddywedod, myfi a ofynnaf i chwi yn cweſtiwn: Pa fodd y daethochi ar y cyntaf, i feddwl am y pethau, yr ydych chi yn awr yn eu gwneuthur?*

Gob. A'i meddwl yr ydych, pa fodd y daethym i ar y cyntaf, i ymofyn am iechydwriaeth fy Enaid?

Criſ. *Ie, hynny yw ſy meddwl i.*

Gob. Myfi a fum dalm o amſer yn cymmeryd hyfrydwch, yn y pethau a welid, ac a werthyd yn ein *ffair* ni; pethau 'rwyf yn credu yr awrhon (pe buaſwn yn eu canlyn yn waſtadol) a fuaſent yn fy arwain i, i golledigaeth a deſtryw.

Criſ. *Pa bethau oeddent hwy?*

Gob. Holl dryſſorau a chyfoeth y Byd. Ac hefyd mi a gymmerais hyfrydwch mawr, † mewn Cyfeddach, Meddwdod, Tyngu, Rhegu (gan offrwm fy enaid ir Diawl) dywedyd Celwydd, Aflendid, Torri'r Sabbath; A pheth nis gwnawn i, er goſod o honof fy enaid, mewn ſtât o ddamnedigaeth trwy hynny? Eithr deallais o'r diwedd, wrth wrando ac yſtyried geiriau

† *Mewn gormodd o fwytta ac yfed.*

riau Duw, y rhai a glowais i allan o'ch genau chwi, ac hefyd o enau *Ffyddlon* fendigedig, (yr hwn a ddioddefodd farwolaeth yn *ffair Gwagedd*, am ei ffydd ai fuchedd dduwiol,) sef, *mai diwedd y pethau hyn yw marwolaeth: Ac mai oblegid y pethau hyn, y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufydd-dod.*

Rhuf. 6. 21. Eph. 5. 6.

Cris. *A ymroesochi yn ddioed, i dderbyn yr argyoeddiad honno?*

Gob. Na ddo; nid oeddwn yn ewyllysgar yn * ddiattreg, i adnabod y gwenwyn a'r drwg y sydd mewn pechod; nar ddamnedigaeth y sydd yn ei ddilyn ef; eithr pan y dechreuodd fy nghalon grynu dan y gair; mi a ewyllysiwn gau fy llygaid yn erbyn goleuni 'r gair.

* Didarieg.

Cris. *Eithr pa beth oedd yr achos, pa ham yr ymddygasoch fal hyn, tan weithrediadau cyntaf yr yspryd glân ynoch chwi?*

Gob. Yr achosion oeddynt, *yn gyntaf*, am nas gwyddwn i, mai gwaith yspryd Duw oedd yr argyoeddiadau yma: Ac ni wybûm i erioed o'r blaen; mai trwy ddeffroad am bechod, yr oedd Duw yn dechreu gweithio troedigaeth pechadur. *Yn ail*, yr oedd pechod yn felys etto i'm cnawd; ac yr oedd yn anodd gennif ymadel âg ef.

Yn

Yn drydydd, ni wyddwn i, pa fodd yr ymadawn a'm hèn Gyfeillion, gan mor ddymunol yr oedd eu cwmpeini, eu hymadroddion, a'u gweithredoedd gennif. *Yn bedwerydd* yr oedd yr † oriau hynny, yn y rhai yr argyhoeddit fi am fy mhechod, mor gythryblus, ac mor ddychrynllydd im mi, fal na allwn gymmaint a meddwl am danynt, heb ‖ arfwyd yn fy nghalon.

† *Awrau.*

‖ *Ofn.*

Crif. *Mae'n dybygol wrth hynny, eich bod weithie, yn cael efmwythdra, oddiwrth y trwbwl, yr oedd yr argyoeddiadau yma yn ei weithio ynoch.*

Gob. Oeddwn yn ddiau, eithr hwy a ddeuent im côf drachefn; ac yna y byddwn cynddrwg, ie yn waeth fy nghyflwr, nag erioed or blaen.

Crif. *Pà ham beth oedd yn peri i chwi atgofio'ch pechodau drachefn?*

Gob. Llawer o bethau; megis, pan y cyfarfyddwn â gwr duwiol yn y ffordd; yr olwg arno ef (yr hwn oedd wedi troi oddiwrth ei bechodau) oedd yn fy argyoeddi i, yr hwn ni throifwn etto oddiwrthynt. Ac yn neffaf, pan y clywn neb yn darllain y Bibl: Neu pan y clywn fod rhai o'm cymmydogion yn gleifion; neu bod clôch yn canu, am fod rhyw yn wedi marw: Ac hefyd pan y byddwn clâf fy hunan, ac y me-

ddyliwn, y deuai 'r amser, yn yr hwn y gorfyddai arnafi farw megis eraill : Ac yn * bendifaddeu, pan y clywn i am Angeu disyfed, a ddigwyddodd i rai o'm cymmydogion ; ond † tu hwnt i ddim, pan y meddyliwn, y gorfyddai arnaf fy hun ddyfod ir Farn ar fyrder.

* *enwedig.*

† *yn hennaf dim.*

Cris. *Eithr a allechi vn amser, fwrw ymaith Euogrwydd pechod yn hawdd, pan y cymmerai afel arnoch, trwy vn o'r pethau hyn ?*

Gob. Na allwn ; canys y pryd hynny, hwy a wascent yn drymmach ar fy nghydwybod. Ac yna, os meddyliwn am droi yn ôl at fy mhechodau (er fod gennif fwriad i ymadel ag hwynt) fe fyddai hynny boen dau-ddyblig im fi.

Cris. *A pha fodd y gwnaech y pryd hynny ?*

Gob. Mi a feddyliais, fod yn rhaid i mi wellháu fy muchedd ; onid e ebe fi, y mae 'n siccir gennif y byddaf damnedig.

Cris. *Ac a ddarfu i chwi * ymegnio i wellháu eich buchedd ?*

* *Ymdrechu.*

Gob. Do, gan droi nid yn vnig oddiwrth fy mhechodau ; ond hefyd, oddiwrth pob cwmpeini annuwiol a drygionus : Ac mi a ymroddais i gyflawni dyledswyddau crefyddol ; megis gwedio, darllain, galaru am fy mhechodau, dywe-

dywedyd y Gwîr wrth fy nghymydogion &c. dymma 'r pethau y wnenthum, a llawer eraill, gormodd i hadrodd yn y mann yma.

Criſ. *A oeddych chi 'n tybied, eich bod weithian mewn cyflwr daionus?*

Gob. Oeddwn dros ennyd; eithr o'r diwedd, daeth goſyd ar † fy ngwartha bendramwngl dracheſn; a hynny wedi i mi wellhâu fy muchedd. † *ar ſynhraws.*

Criſ. *Pa fodd y digwyddodd hynny, gan eich bod yn awr wedi adnewyddu eich buchedd.*

Gob. Yr oedd amryw o bethau yn peri ir goſyd hwnnw ddyfod arnaf dracheſn; yn enwedig y cyfryw ymadroddion a'r rhain; *Ein holl gyfiawnderau ydynt megis brattiau budron: Ni chyfiawnheir vn cnawd trwy weithredoedd y ddeddf: Wedi i chwi wneuthur y cwbl oll, ac y orchymmynnwyd i chwi, dywedwch, Gweiſion anſuddiol ydym*; yng-hyd a llawer mwy o'r cyfryw ymadroddion. Ac oddiwrth hynny, yr oeddwn yn ymreſymmu ynof fy hun fal hyn: *Os ydyw fy holl gyfiawnderau i fal brattiau budron, os ni chyfiawnheir vn cnawd trwy weithredoedd y Ddeddf; ac os nad ydym ond gweiſion anſuddiol wedi i ni wneuthur y cwbl oll, ac a orchymmynnwyd; yna ſolineb mawr yw ceiſio 'r Neſoedd* Eſay 64. 6. Rhuf. 3. 20. Luc. 17. 10.

trwy weithredoedd y Ddeddf. Mi a feddyliais hefyd ym-mhellach fal hyn. Os â gwr mewn Dyled i ſioppwr gant o bynnau; a thalu am yr hyn oll a elo ganddo o'r ſiop yn ol hynny; etto er hynny i gyd, os bydd ei hên ddyled yn aros ar y Llyfr yn waſtadol, heb ei groeſi, ſe ddichon y ſioppwr gwyno arno am ei hèn ddyled, ai fwrw yngharchar hyd oni thalo ef y dyled hynny.

Criſ. *Wele, pa ddefnydd a wnaethoch o'r pethau hyn?*

Gob. Mi a feddyliais ynof fy hun fal hyn; myfi, trwy fy mhechodau, a redais ar yſcôr ym-mhell yn Llyfr Duw; ac nad oedd fy ngwellhâd preſennol yn talu mo'r Dyled hwnnw: Ac am hynny y Dylwn i feddwl yn waſtadol (dan fy holl gyfnewidiadau) pa fodd y rhyddheit fi, oddiwrth y ddamnedigaeth, oedd ddyledus im fi am fy nhroſſeddiadau o'r blaen.

Criſ. *Defnydd da ydoedd hynny, ardolwyn ewch rhagoch.*

Gob. Peth arall am blinodd, er pan ddechreuais yn hwyr wellháu fy mrychedd ydoedd hyn: Sef, pan edrychwyf yn fanol ar y pethau goreu yr ydwyf yn eu gwneuthur yr-wan; yr wyf yn canfod pechod yn waſtadol (ie pechodau newydd) ynghymyſc â'm gweithredoedd

thredoedd goreu ; hyd onid ydwyf yn hyrwymyn awr i ſarnu (er fy holl Feddyliau anghall a balch, am danaf fy hun a'm Dyledſwyddau o'r blaen) ddarfod i mi droſſeddu digon, wrth geiſio cyflawni vn dyledſwydd, i beri 'm danfon i Uffern, ped fuaſai fy muchedd i gynt yn ddifeius.

Criſ. *A pha beth gwedyn a wnaethoch ?*

Gob. Nis gwyddwn pa beth a wnawn, hyd oni adroddais fy meddwl wrth Ffyddlon ; canys yr oeddem ni yn gydnabyddus iawn ai gilydd. Ac efe a ddywedodd wrthif ; oddieithr i mi gael Cyſiawnder vn na phechaſai erioed ; nas gallai na'r eiddof fy hun, na chyfiawnderau 'r holl fyd mo 'm hachub.

Criſ. *A oeddechi 'n tybied ei fod e 'n dywedyd gwîr?*

Gob. Ped fuaſai 'n dywedyd felly wrthif, pan yr oeddwn yn ymhyfrydu, ac yn ymfodloni yngwellháad fy muchedd ; mi a'i galwaſwn ef yn ynfyd am ei * drafel ; eithr yn awr, gan fy mód yn gweled fy ngwendid fy hun, a'r pechodau, fy 'n glynu wrth fy nyledſwyddau goreu, fe orfydd i mi fod o'r vn meddwl ac yntef. * *Ei waith.*

Criſ. *Eithr a oeddechi yn tybied (pan y dywedodd efe gyntaf hynny wrthych) fod*

fod y fath wr iw gael; am yr hwn y gellid dywedyd yn hyf, na wnaeth e Bechod erioed?*

* *Eon,*

Gob. Y mae 'n rhaid i mi gyfaddef, fod yn go-ryfedd gennif glowed y geiriau hyn ar y cyntaf; eithr yn ól ymddiddan âg ef ym-mhellach, a chael a honof ychydig anghwaneg o'i gyfeilach, fo a roddes i mi gyflawn fodlonrwydd am y peth.

Crif. *A ofynnafochi iddo ef pwy ydoedd y gwr hwn; a pha fodd y caechi eich cyfiawnhau trwyddo ef?*

Gob. Do, ac efe a ddywedodd, mai'r *Arglwydd Jefu* ydoedd, yr hwn fy'n eiftedd ar ddeheulaw y Goruchaf. Ac fal hyn, eb efe, y cyfiawnheir chwi trwyddo ef; fef trwy ymddiried yn yr hyn a wnaeth ef yn nyddiau ei gnawdoliaeth, a'r hyn a ddioddefod e pan ynghrog ar bren. Mi a ofynnais iddo ym mhellach, pa fodd y gallai cyfiawnder y gwr hwn † fod yn effeithiawl, i gyfiawnhau vn arall ger bron Duw? ac fo a ddywedodd, mai y Duw hollalluog ydoedd efe; ac iddo wneuthur yr hyn a wnaeth, a marw hefyd, nid trofto ei hun, ond trofofi; ac y cyfrifyd ei vfydd-dod ef, a'i haeddedigaethau i myfi, os credwn i yntho.

Heb. 10. Rhuf. 4. Col. 1. 2 Pet. 1.

† *Fod a'r fath rym a rhinwedd yntho.*

Crif. *A pha beth a wnaethoch* gwedyn?*

* *Wedi hynny.*

Gob. Eithr myfi a wrth-ddyw[illegible] nas gallwn i gredu fod Crift yn ewyllyigar i'm achub.

Crif.

Cris. *Pa beth a ddywedodd Efyddlon am hynny?*

Gob. Efe a archodd i mi fyned atto, a'i phrofi, pa vn a wnai ef, am hachub i ai peidio. Yna minne ai hattebais, mai rhyfyg ydoedd hynny. Yntef a ddywedodd nage; canys fe'th wahoddwyd i ddyfod atto. Yna fe a roddodd i mi lyfr o ‖ argraphiad *Jeſu* ei hun; i'm hannog i ddyfod atto yn *hyfach. Ac efe a ddywedodd am y *Llyfr* hwnnw, fod pob jot a thitl o honaw ef, yn fwy parhaus a ſafadwy nâ'r Nefoedd a'r Ddaiar, *Mat.* 24. 35. Yna mi a ofynnais iddo, pa beth a wnawn pan ddelwn atto? yntef a ddywedodd wrthyf, fod yn rhâid i mi ymbil (ar ſy ngliniau, â'm holl Galon, ac am holl Enaid) ar y Tâd, am ei ddatcuddio ef i mi. Wedi hynny mi a ofynnais iddo ym-mhellach; ym-mha Le y gellwn i gael cyfarfod ag ef? Ac yntef a'm hattebodd; Dôs, a thi a gai ei gyfarfod ef, ar orſeddfa o drugaredd; lle y mae'n eiſtedd trwy'r holl flwyddyn, i roddi gollyngdod a maddeuant i'r ſawl a ddeuant atto. Minne a ddywedais, nas gwyddwn i pa beth i ddywedyd wrtho, pan y delwn atto. Yna eb efe, dywed wrtho i'r pwrpas hyn. *Duw bydd drugarog wrthif Bechadur*; *a phâr*

* *Trio.*

Mat. 11. 28.

‖ *Yſcrifenniad.*

* *conach.*

Pſal. 95. 6.

Jer. 29. 13.

Exod. 25. 22.

i mi

i mi adnabod Jeſu Griſt, a chredu yntho: Canys mi a welaf, pettaiſai ei Gyfiawnder ef heb fod, ac oni bydd gennif ime ffydd i gredu y cyfiawnheir fi, trwy ei gyfiawnder ef, ddarfod am danaf yn dragywydd: Arglwydd mi a glowais dy fod di yn Dduw trugarog, ac i ti ordeinio dy Fab Jeſu Griſt i fod yn Jachawdwr y Byd: ac ym-mhellach, dy fod di yn ewyllysgar i roddi ef, i fod yn Achubwr, i'r fath Bechadur truan ac ydwyfi (ac yn wir yr wyfi yn Bechadur mawr) Cymmer gan hynny Aaglwydd yr odfa hon, a gogonedda dy rás ynghadwedigaeth fy Enaid i, trwy dy fab Jeſu Griſt. Amen.

Criſ. A wnaethochi fal y gorchymynnwyd i chwi?

Gob. *Do dracheſn, a thrachefn.*

Criſ. A ddarfu i Dduw ddatcuddio ei Fab i chwi?

Gob. *Na ddo, y tro cyntaf, na'r ail, na'r trydydd, na'r bedwarydd, na'r bymmed, nac etto ar y chweched waith.*

Criſ. Pa beth a wnaethoch ar ôl hynny?

Gob. *Pa beth a wneuthym? nis gwyddwn i pa beth a wnawn.*

Criſ. Oni feddyliaſochi roddi heibio gweddio?

Gob. *Do ganoedd o weithian.*

Criſ. A pha ham nas gwnaethoch felly.

Gob.

Gob. *Am fy mod yn credu mai gwîr oedd yr hyn a ddywedpwyd wrthif; ſef, heb gyſiawnder Criſt nas gallai'r holl fyd fy achub i: Ac am hynny mi a feddyliais ynof fy hunan; os rhoddaf heibio weddio, marw fyddaf; ac nis gallaſi ond marw, os gweddiaf O flaen gorſeddfaingc y Gras. Ac ar hynny fe ddaeth y geiriau hyn im côf;* os crys y weledigaeth, diſgwyl am dani; canys gan ddyfod y daw, ac nid oeda. *Felly mi a ddyfal barhèais yn Gweddio, hyd oni ddat-cuddiodd Duw ei Fab im fi.* Hab. 2. 3.

Criſ. *A pha fodd y datcuddiodd Duw ef i chwi?*

Gob. Ni welais i mo honaw ef â'm llygaid corphorol, ond a golwg o ffydd; (gan fod a llygaid fy meddwl wedi eu goleuo) ac fel hyn y bu. Yr oeddwn ar Ddiwrnod yn athryſt iawn (i'm tyb i yn dryſtach nag y bum i vn amſer om heinioes) a'r tryſtwch hwn a ddaeth arnaf, wrth weled o newydd fawredd a ffieidd-dra fy mhechodau: A phan nad oeddwn y pryd hynny yn diſgwyl am ddim, ond am Uffern, a damnedigaeth tragwyddol i'm henaid; mi a dybiais yn ddiſymmwth, weled o hnof yr Arglwydd, yn edrych i lawr o'r Nefoedd arnaf, ac yn dywedyd wrthif, *crêd yn yr Arglwydd Jeſu, a chadwedig fyddi.* Eph. 1. 18. Act. 16. 30, 31.

Eithr

Eithr myfi a attebais, Arglwydd, yr wyf yn Bechadur, oh yn Bechadur mawr dros ben: Yntef a attebodd, *digon i ti fy ngrâs i.* Yna y dywedais inne, Arglwydd pa beth yw Credu? A gwedi hynny y deallais i, oddiwrth yr ymadrodd yma (*yr hwn fy'n dyfod attafi ni newyna: a'r hwn fy'n credu ynofi ni fycheda vn amfer*) mai'r un peth yw credu Yn-Ghrift a dyfod atto; a bod yr hwn fydd yn dyfod atto, hynny yw, y fy'n fychedu yn ei Galon, yn ôl Jechydwriaeth trwy Grift, fod hwnnw (meddafi) yn credu yntho mewn gwirionedd. Yna, a'r dwfr yn feſyll yn fy llygaid, mi a ofynnais iddo ymmhellach; *Arglwydd*, a ddichon y fath Bechadur mawr ac a wyfi, gael ei dderbyn genyt, a bod yn gadwedig trwy ddot? Ac yntef a attebodd, *Yr hwn a ddel attafi, nis bwriaf ef allan ddim.* Yna mi a ddywedais; eithr pa fodd Arglwydd y mae 'n rhaid i mi dy yſtyried di, wrth ddyfod attad; fal y byddo fy ffydd wedi * ei chyfleu yn vnion arnati? Yna efe a ddywedodd, *Criſt Jeſu a ddaeth i'r Byd i gadw pechaduriaid. Criſt yw diwedd y Ddeddf er cyfiawnder i bob vn fy 'n Credu. Efe a draddodwyd tros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni. Efe a'n carodd*

Joan. 6. 35.

Joan. 6. 37.

* ei gofod

1 Tim. 1. 15.

Rhuf. 10. 4.

Rhuf. 4. 25.

*carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau, yn ei waed ei hun. Efe yw y cyfryngwr rhwng Duw a ni. Y mae ef yn byw bob amſer i * erfyn troſom ni.* Oddiwrth yr hyn oll y ceſclais, y byddai rhaid i mi ddiſgwyl am gyfiawnder yn unic yn ei Berſon ef, ac am iawn tros fy mhechodau trwy ei waed ef, ac nid trwy ddim arall: Ac mi a geſclais ym-mhellach, bod yr hyn a wnaeth e mewn vſydd dod i gyfraith ei Dâd, a'i ddaroſtyngiad ef i ddiodef coſpedigaethau, am waith rhai yn troſſeddu 'r gyfraith honno (fod hyn oll meddafi) wedi ei wneuthur, nid troſto ei hun; ond tros y ſawl a'i derbyniai ef yn lle Jachawdwr iddynt, ac a fyddai diolchgar iddo. Ac yn awr yr oedd fy nghalon yn llawn o lawenydd, fy llygaid yn llawn o ddagrau, ac yr oedd gennif ſerchiadau rhyfeddol, tuagat Enw, a Phobl, a Ffyrdd yr Arglwydd Jeſu Griſt.

Dat. 1. 5. 1 Tim. 2. 5. Heb. 7. 24, 25. * *weddio.*

Criſ. *Dyma Ddatcuddiad o Griſt i'ch Enaid mewn gwirioned: eithr dywedwch i mi yn fwy neilltuol, pa beth a weithiodd hyn ar eich * yſpryd chwi.*

Gob. Fe wnaeth hyn i mi weled fod yr † holl fyd, er ei holl ‖ gyfiawnderau, mewn ſtâd o ddamnedigaeth: Fe wnaeth i mi weled, er fod Duw 'r Tâd yn gyfiawn, y dichon efe, er hynny i gyd,

† *enaid.* † *ſef, y Byd o'r annuwiolion.* ‖ *Sef, eu cyfiawnderau ei hunain.*

gyd, gyfiawnhau y pechadur a ddêl atto. Fe wnaeth hyn i mi gywilyddio yn ddirfawr am frynti fy muchedd cynt; ac fe'm gwradwyddwyd i'n ddirfawr, wrth feddwl faint oedd fy hèn Anwybodaeth; canys ni feddyliodd fy nghalon i erioed o'r blaen, fod Jefu Grift mor brydferth, a mod i yn fefyll (fal y mae pawb eraill) mewn diffig o honaw, im glanhau, a'm cyfiawnhau, a'm cadw rhag uffern, ac i roi i mi fywyd tragwyddol. Fe wnaeth hyn i mi garu buchedd fanctaidd, ac i hiraethu, am wneuthur rhyw beth, er Anrhydedd a gogoniant i Enw'r Arglwydd Jefu. Je yr wyfi'n tybied yn awr, pe bai-boffibl fod genniſi Fil o Alwyni o waed yn fy nghorph, y gallwn i gôlli pob * diferyn o honaw, er mwyn yr Arglwydd Jefu.

* *dafn.*

Yna y gwelwn (yn fy Mreuddwyd) *Gobeithioi* yn edrych drach ei gefn, ac efe a ganfu y Gwr a elwid *Anwybodaeth* (yr hwn a adawfent ar eu hol,) yn eu canlyn hwynt. *Gwelwch*, eb efe wrth *Griftion*, fal y mae y glàs-langc accw yn loetran ar ein hôl.

Crif. *Je, ie, mi a'i gwelaf e; ond ni waeth gantho fawr am ein cwmpeini ni.*

Gob. Eithr yr ydwyfi'n tybied, na chawfei fo niweid yn y byd, o'n dilyn ni hyd yn hyn.

Crif.

Criſ. *Gwir iawn yw hynny, eithr mi a warantaf i chwi, ei fod e'n weddwl yn amgen.*

Gob. Felly yr wyf inne yn tybied hefyd: ond er hynny gadewch i ni aros am dano ef, Ac felly y gwnaethant. *Yna* Criſtion *a alwodd arno, gan ddywedyd wrtho, Dowch ym-mlaen wr, pa ham yr ydych yn ſefyll ar ôl yn y môdd yna?*

Anwybodaeth. Y mae'n fwy dewiſol gennifi, i rodio wrthif fy hunan, nâ chyda cwmpeini, oni bai fy môd yn caru y cwmpeini hynny, yn well nâ'ch cwmpeini chwi.

Yna ebe, Criſtion *yn ddiſtaw wrth* Gobeithiol; *oni ddywedais i wrthych chi, nad oedd fatter gantho* ef am ein cyfeillach ni? *eithr pa wedd bynnag*, eb efe, *dewch, a ſiaradwn a'i gilydd, i ddifyrru'r amſer yn y lle anghyfannedd hwn.* Yna gan gyfeirio ei ymadrodd at Anwybodaeth, fo a ddywedodd wrtho; *pa fodd yr ydych? pa fodd y mae'r matter yn ſefyll, rhwng Duw a'ch Enaid chi yn awr?*

Anwybod. O'r gorau 'rwyf yn gobeithio; canys yr wyf bob amſer yn llawn o gynhyrfiadau Duwiol, y rhai a redant ar fy meddyliau, i'm cyffuro yn fy nhaith. Dihar. 28. 26.

Criſ. *Attolwg dywedwch i mi, Pa gyn-*

gynhyrfiadau da ydyw'r rheini?

Anwyb. Yr ydwyf yn meddwl am Dduw, ac am y nefoedd.

Crif. *Y mae'r Diaflaid, ac eneidiau'r damnedig, yn gwneuthur hynny hefyd.*

Anwyb. Eithr yr ydwyfi 'n meddwl am danynt, ac yn dymuno cael eu mwynhau hwynt.

Luc. 13. 24. Dihar. 13. 14.

Crif. *Felly y mae llawer yn dymuno, nad ydynt debygol fyth, i ddyfod ir Nefoedd*: Enaid y Diog a ddeifyf ac ni chaiff ddim.

Anwyb. Eithr yr ydwyf yn meddwl am danynt, ac mi a ymadewais â'r cwbl, er mwyn cael eu mwynhau hwynt.

* *dowto*

Crif. *Yr wyf yn* * *ammeu hynny; canys matter caled ydyw ymadel âr cwbl; ie y mae'n beth anhawfach iw wneuthur, nag y mae llawer yn ei dybied. Eithr pa beth y fydd yn dy berfwadio di i goelio, dy fod ti wedi ymadel â'r cwbl, er mwyn Duw a'r Nefoedd?*

Anwyb. Y mae fy nghalon yn tyftiolaethu i mi hynny.

Crif. *Y Gwr doeth a ddywed*, 'y neb a ymddiriedo yn ei Galon ei hun fydd ffôl. *Dihar.* 28 26.

Anwyb. Y mae fo 'n fôn (yn y man hynny) am Gâlon ddrwg; eithr y mae fy nghalon i yn galon dda.

Crif.

Criſ. *Pa fodd y gwyddoſti hynny?*

Anwyb. Am fod fy nghalon yn fy nghyſſuro i, mewn Gobaith y câfi 'r Nefoedd.

Criſ. *Fe ddichon hynny fod trwy dwyll dy galon di; canys fe all calon Dyn ei gyſſuro e, mewn gobaith o ryw beth, na bo gantho ddim Sail i obeithio am Dano.* Jer. 17.9.

Anwyb. Eithr y mae fy nghalon i am buchedd yn gyfattebol iw gilydd, ac am hynny y mae gan fy ngobaith i ſylfaen dda.

Criſ. *Pwy a ddywedodd wrthit ti, fod dy Galon a'th Fuchedd yn cyttuno a'i gilydd?*

Anwyb. Fy nghalon ſy'n dywedyd felly wrthif.

Criſ. *Os gofynnir ith Fam pwy ſy Leidr? Hi a atteb, nid fy mâb i,* (er ei fod e mewn gwirionedd yn Lleidr) *felly os dywaid dy galon di, ei bod hi a'th fuchedd yn cyttuno a'i gilydd; oni bydd Gair Duw yn dwyn yr vn tyſtiolaeth, yn y matter yma, ni thâl tyſtiolaeth dy galon di* * *ffloryn.* * Dim.

Anwyb. Onid ydyw'r Galon honno yn dda, yn yr hon y mae meddyliau da? Ac onid Buchedd dda ydyw'r hon, ſy wedi ei threfnu yn ôl Gorchmynion Duw?

Criſ. *Gwir ydyw,* * *taw calon dda* * mai. ydyw.

† *Aros.*

ydyw 'r galon honno, ym-mha vn y mae meddyliau da yn † *gartrefu; a buchedd dda ydyw 'r ſuchedd honno, y ſydd yn gyfattebol i orchymynion Duw: Eithr vn peth yw bod â'r rhaîn mewn gwirionedd ynom, a pheth arall yw tybied eu bod nhw gennym.*

Anwyb. Erdolwyn pa feddyliau yr ydychi yn eu cyfrif yn feddyliau da? A pha ſuchedd yr ydychi yn ei gyfrif, ei fod yn gyfattebol i Orchymynion Duw?

Criſ. *Y mâe amryw fath o feddyliau da, rhai yn perthyn i ni ein hunain, rhai i Dduw, rhai i Griſt, a rhai i bethau eraill.*

Anwyb. Pa rai yw'r meddyliau Da, y ſydd yn perthyn i ni ein hunain?

Criſ. *Y cyfryw ar y ſydd yn gyttunol â gair Duw.*

Anwyb. Pa bryd y mae 'n meddyliau am danom ein hunain yn gyttunol a Gair Duw.

Criſ. *Pan fyddom yn rhoddi yr vn farn arnom ein hunain, ac y mae'r Gair yn ei roddi. Eithr i wneuthur y peth yn eglurach, y mae Gair Duw yn dywedyd am Ddynion (yn eu cyflwr naturiol) fal hyn*; nid oes neb cyfiawn, nac oes vn: Nid oes vn yn gwneuthur daioni. *Y mae 'r Gair yn dywedyd hefyd*, fod holl feddyl-

Rhuf. 3. 10. 12. Gen. 6. 5. Gen. 8. 21.

ſeddylfryd Calon Dyn yn vnig yn ddrygionus bob amſer: *A thrachefn*, fod Calon Dyn yn ddrygionus o'i ieuengctid. *Yn awr pan fo gennym y cyfryw dŷb a kyn am danom ein hunain* (gan fod a theimlad o hynny, yn ein calonnau) *yna y mae 'n meddyliau 'n dda, o herwydd eu bod yn gyttunol a Gair Duw.*

Anwyb. Ni choeliaf i byth, fod fy nghalon i cynddrwg a hyn.

Criſ. *Am hynny ni bu gennyt erioed yn dy holl fywyd, cymmaint ac vn meddwl da am danat dy hun. Eithr dyro gennad imi ddywedyd hyn wrthyt ym-mhellach: Megis y mae Gair Duw yn rhoddi Barn ar ein calonau; felly hefyd y mae 'r vn Gair yn * paſſio Barn ar ein ffyrdd; a phan y bytho ein barn ni ein hunain ynghylch ein calonnau a'n ffyrdd, yn cyttuno â'r farn y mae Gair Duw yn paſſio arnynt, yna y mae 'r ddau yn dda, am eu bod yn cyttuno â gair Duw.*

* Rhoddi.

Anwyb. Eglurhewch eich meddwl yn well.

Criſ. *Y mae Gair Duw yn mynegi, bod ffyrdd Dyn yn geimion; ac nid yn dda, ond yn * gildyn; a bod dynion (trwy naturiaeth) allan o'r ffordd dda, heb ei hadsabod hi* Dihar. 2. 15. Rhuf. 3. 12. 17. *Yn awr pan bo Dyn, wedi cael prawf o hyn oll yntho ei hunan; a phan*

* Llygredig.

phan y bo 'n oſtyngedig yn barnu fal hyn am dano ei hûn a'i ffyrdd; yna y mae'n * *ſynied yn dda am ei galon a'i ffyrdd; oblegit bod ei farn ef yr awr-on, yn cyttuno â barn Gair yr Arglwydd.*

* *Ynlyried, yn meddwl.*

Anwyb. Pa beth yw meddyliau da am Dduw?

Criſ. *Pan fyddom* (megis y dywedais am danom ein hunain) *yn* ‖ *ſynied am Dduw, yn ol yr hyn y mae ei air yn ei oſod ef allan; hynny yw, pan fyddom yn meddylied am ei* * *hanffod, a'i briodoliaethau ef, megis ein dyſgir gan ei Air; am yr hyn, nis gallaf yn awr draethu yn helaethach: Ond i ddywedyd am dano mewn perthynas i ni ein hunain, y mae gennym, y pryd hynny, dŷb da a chymmwys am Dduw, pan fyddom yn* † *ſynied, ei fod ef yn ein hadnabod ni yn well nag yr ym ni yn adnabod ein hunain; ac y dichon efe weled pechod ynom, y pryd, a'r man, na chanfyddom ni mo honaw ynom ein hunain, a phan yr ydym yn cydnabod, ei fod ef yn gwybod yn meddyliau dirgelaf, a bod ein calonnau, a'u holl ddyfn fwriadau, bob amſer yn noeth ac yn agored iw olygon ef: Ac hefyd pan yr ydym yn tybied, fod ein holl gyſiawnderau ein hunain, yn drewi yn eu ffroenau ef; ac am hynny nas dichon efe* * *aros ein gweled ni, yn ſefyll yn ei wydd*

‖ *Meddwl*

* *Sylwedd*

† *Meddwl.*

wydd ef, pan y bôm yn hyderu ar ein cyfiawnderau ein hunain, ie neu ar ein Dyledſwyddau goreu, am gael iechydwriaeth trwyddynt.

Anwyb. A ydychi 'n tybied fy mod i mor ynfyd, a meddwl, na ddichon Duw weled dim pellach nag y gallafi weled? Neu y Dewn i at Dduw, gan hyderu ar fy Nyledſwyddau fy hun, er † cyſtal y bont hwy? † *Daed.*

Criſ. Pa fodd yr wyt ti 'n ſynied yn y pwngc yma?

Anwyb. *Wele, i fod yn fyrr, yr wyfi 'n meddwl, fod yn rhaid i mi gredu yn-Ghriſt am gyfiawnhâd.*

Criſ. Pa fodd! Tybied yr wyt, fod yn rhaid i ti gredu yn-Ghriſt, cyn gweled o honot ei eiſiau ef? Nid wyti yn gweled ynot, na phechod gwreiddiol, na phechod gweithredol; eithr y mae gennyt y fath dyb da am danat dy hunan, a'th weithredoedd, ar y ſy 'n dangos yn eglur, dy fod ti 'r cyfryw vn, na wybu erioed, fod yn rhaid i ti wrth y cyfiawnder, a gyflawnodd Criſt yn ei Berſon ei hun, i gyfiawnhau pechaduriaid edifeiriol trwyddo ger bron Duw. Pa fodd gan hynny y * llyfaſu di ddywedyd, dy fod ti 'n credu, neu fod yn rhaid i ti gredu yn-Ghriſt. * *Meiaidi.*

Anwyb. *Yr wyfi 'n credu yntho yn dda ddigon er hynny.*

Criſ. *Pa fodd yr wyt 'n credu?*

Anwyb. Yr wyfi 'n credu i Griſt farw dros bechaduriaid; ac y cyfiawnheir fi ger bron Duw oddiwrth y felltith, trwy ei raſol dderbyniad ef o'm hufydd-dod i idd ei Gyfraith: Neu fal hyn. Y mae Criſt yn gwneuthur fy nyledſwyddau crefyddol i, yn gymmeradwy gyda ei Dâd; trwy rinwedd ei haeddedigaethau ei hun, a thyna 'r modd y câf fy nghyfiawnhau.

Criſ. Yr wyf yn atteb i'r gyffes yma o'th ffydd di.

Yn Gyntaf. *Nid yw dy ffydd di ond ffydd* ffugiol; ac nid yw hi 'n gynnwyſedig yn yn rhan o air Duw.*

* *A llaw ffydd garthi.*

Yn Ail. † Gau ffydd yw dy ffydd di, am dy fod ti 'n ymwrthod â chyfiawnhâad trwy 'r cyfiawnder a gyflawnodd Criſt yn ei Berſon ei hun; ac am dy fod ti hefyd, yn diſgwyl am gael dy gyfiawnhau, trwy dy weithredoedd dy hunan.

† *Falſ.*

Yn Drydydd. *Nid yw 'th ffydd di yn gwneuthur Criſt yn Gyfiawnhâwr o'th Berſon, ond o'th weithredoedd di; ac yn gyfiawnhawr o'th Berſon di, er mwyn dy weithredoedd; yr hyn ſydd ffals.*

Yn Bedwerydd. *Am hynny y mae dy ffydd*

ffydd di yn dwyllodrus ; ie y mae hi 'n gyfryw vn, ac a'th âd di dan ddigofaint, yn nydd y Duw Holl-alluog ; canys y mae y wir ffydd, trwy ba vn ein cyfiawnheir, yn peri 'r eneidiau, y ſy'n deimladwy o'u cyflwr colledig trwy 'r Gyfraith, i ffoi am noddfa, at Gyfiawnder Criſt, i gael eu cyfiawnhau trwy hynny (A'r cyfiawnháad yma, nid yw weithred o râs, trwy ba vn y mae Criſt yn gwneuthur dy vfydd-dod di yn gymmeradwy gyda Duw, ir diben hyn ; fal y bo i ti gael dy gyfiawnhau trwy dy vfydd-dod dy hun : Eithr gweithred o râs yw 'r cyfiawnháad hynny ; trwy ba vn, y mae 'r Enaid yn cael ei gyfiawnhau, er mwyn yr vfydd-dod y gyflawnodd Ctiſt yn ei Berſon ei hun, gan wneuthur a dioddef troſom ni, yr hyn oll y mae 'r Gyfraith yn ei ofyn ar ein dwylo ni) *y cyfiawnder hwn (meddaſi) o eiddo Criſt, y mae gwir ffydd yn ei dderbyn ; tan* * *orchudd pa vn y mae 'r enaid yn llechu ; a chwedi ei* † *gyflwyno yn ddiſrycheulyd, yn y cyfiawnder yma, ger bron Duw, y mae 'n cael ei dderbyn yn gymmeradwy gydag ef ; ac yn cael ei waredu oddiwrth ddamnedigaeth tragwyddol.*

‖ *Anddiffynfa.*

* *Aden.*

† *Breſentio.*

Anwyb. Pa beth ! A fynnwchi, i ni ymddiried, yn yr hyn a wnaeth Criſt yn ei berſon ei hun, hebom ni ? Y cy-

fryw dŷb a hon, a ollyngai * awenau ein trachwantau yn rhydd ; ac a oddefai i bob vn, i fyw fal y mynno. Canys ni waeth pa fodd y byddom byw, os cawn ni ein cyfiawnhau trwy gyfiawnder perſonol Criſt, oddiwrth ein holl feiau, ond i ni gredu hynny.

* *Carreion.*

Criſ Anwybodaeth *yw dy enw* ; *ac fal y mae dy enw, felly hefyd y mae dy Ddealltwriaeth* : *A'th attebion di a wiria yr hyn yr wyf yn ei ddywedyd* : *Yr wyt ti yn* Anghydnabyddus *â chyfiawnder Criſt, trwy ba vn ein cyfiawnheir; ac yr wyt ti 'n* Anghydnabyddus *hefyd, ynghylch y modd, i ddiogelhau dy Enaid, trwy ffydd yntho ef, oddiwrth bwyſfawr ddigoſaint Duw. Ie yr wyt ti yn* Anghydnabyddus *â gwîr* * *eſſeithiau bywiol ffydd, yng-hyfiawnder Criſt, ſef, i blygu ac i ynnill y Galon at Dduw yn-Ghriſt, i garu ei Enw, ei Air, eu Ffyrdd a'i bobl ef ; ac nid i ddilyn eu trachwantau eu hunain, ac i fyw fal y mynnon, megis yr wyt ti yn dy Anwybodaeth yn dychymmyg.*

* *Ffrwythau, canlyniaethau.*

Gob: Gofynnwch, a ddatcuddiwyd Criſt erioed iddo o'r Nefoedd ?

Anwyb. Pa beth ? Gwr ydychi am ddatcuddiadau ! Yr wyf yn coelio, nad yw'r hyn a ddywedaſochi ill dau ; a'r hyn y mae pawb eraill o honoch yn ei ddy-

ddywedyd, ynghylch y matter yma, ond ffrwyth eich ynfydrwydd a gwendid eich pennau.

Gob. Pa ham wr! Y mae Criſt mor guddiedig yn Nuw, oddiwrth ddealltwriaeth naturiol yr holl Ddynion cnawdol; fal nas dichon vn Dyn ei adnabod ef iw iechydwriaeth ei hun, oddieithr i Dduw'r Tad ei ddatcuddio ef iddo.

Anwyb. *Hynny yw 'ch ffydd chwi, ac nid fy ffydd i; ac etto nid wyf yn ammeu, nad yw fy ffydd i gyſtal â'ch ffydd chwithau; er nad oes yn fy nghoppa i gynnifer o opiniwnau gwâg, ac y ſydd yn eich pennau chwi.*

Criſ. Rhoddwch gennad i minne i lefaru vn gair: Ni ddylaechi ſiarad mor yſgafn am y pwngc yma; canys hyn a ddywedaf i yn * hyf (megis y dywedodd fy nghydymaith anwyl o'r blaen) na ddichon vn dyn adnabod Ieſu Griſt, oddieithr i'r Tâd ei ddatcuddio ef iddo: Ie, ffydd hefyd (â'r hon y mae'r Enaid yn dal gafael ar Griſt (os gwir ffydd yw hi) a weithir yng-halon Dyn, trwy ryfeddol, a mawr allu Duw; ond yr wi'n † dirnad o *Anghydnabyddus*, na wyddoſti (druan gwr) ddim yn y byd, ynghylch gweithrediad y ffydd yma yn dy enaid dy hun. Deffro gan hynny, a ‖ dwys-

* *Eon.* Mat. 11. 25.

Eph. 1. 18. 19. Eph. 2. 8.

† *Deall.*

‖ *Yſtyria 'n fawr.*

yſtyria dy drueni dy hun; a ffô at yr Arglwydd Ieſu; a thrwy ei gyfiawnder ef, yr hwn yw cyfiawnder Duw (canys y mae fo ei hun yn Dduw) fei'th waredir di rhag damnedigaeth.

* *Mor dyrn.* † *Ymmlaen.*

Anwyb. *Yr ydychi yn cerdded * mor gyflym, fel nad allaſi gyd-gerdded â chwi, ewch † rhagoch; y mae 'n rhaid i mi aros ychydig ar ôl.* Yna y Pererinion, a ganaſant fal hyn.

Anwybodaeth, ow! Pa hyd!
A ſyddi ynſyd eilchwaith?

* *Rhâd.*

*A wrthodi Gyngor * ffri,*
Ai gynnig itti ganwaith?

† *Ynſyd.*

Os gwrthodi, mewn modd † ſynn;
Cydnebydd hyn yn fanwl,

|| *O amſer.* * *Yn ſicer*

Cyn pen || nemmawr, cai 'n * ddinam
Roi cyfrif am y cwbwl.

Mewn pryd ac amſer cofia hyn,
Daroſtwng Ddyn, nac ofna
Gyngor da; os cymri, efo
Ath achub; gwrando arnaf.

Os byddi byw mewn cyflwr caeth,
Mewn Anwybodaeth ryfedd:
Gwybydd hyn, y byddi 'n ſiwr,
Golledwr yn y diwedd.

Yna Criſtion a lefarodd wrth ei gydymaith fal hyn.

Criſ. Tyred ſy nghydymaith *Gobeithiol*, mi a welaf, ſod yn rhaid i ni ymdeithio wrthym ein hunain drachefn.

Felly

Felly mi a welwn *Criſtion* a *Gobeithiol* yn cerdded ym-mlaen yn fuan ; ac *Anwybodaeth* a ddaeth dan grychneitio ar ei hôl : yna ebe *Criſtion* wrth ei gydymaith, *y mae'n ddrwg iawn gennif dros y gwr* † *greſynol yma* ; y mae 'n ddiammeu gennif, y bydd hi caled arno yn y diwedd. † *Tiuenus.*

Gob. Och ! Och ! Y mae llaweroedd o'n Tref ni yn ei Gyflwr ef, ſef, Teuluoedd, ie * Heolydd cyfain, (a rheini (mewn proffeſs ar y lleiaf) yn Bererinion heſyd) ac od oes cynifer yn ein parthau ni ; pa fawl vn (dybygwch chwi) y ſydd yn y man, lle y ganwyd hwn yntho? * *Yrrydoedd.*

Criſ. *Yn wir y mae'r Gair yn dywedyd*, Efe a ddallodd eu llygaid fal na welent, &c. *Eithr yn awr yr ydym ni wrthym ein hunain ; pa beth a feddyliwn ni am y cyfryw Ddynion a hyn ? A ydynt hwy ar ryw amſeroedd, dybygwchi, dan Argyoeddiadau am bechod, a thrwy ganlyniaeth mewn ofn, fod eu cyflwr yn enbydus ?*

Gob. Nage, attebwchi y cweſtiwn hwnnw eich hunan ; canys yr ydychi 'n hûn nâ myfi.

Criſ. *Yr wyf yn atteb gan hynny, eu bod nhwy weithie (im tŷb i) dan argyoeddiadau ac* * *arſwyd ; ond o herwydd* * *Ofn.*

eu bod wrth naturiaeth yn anwybodus, nid ydynt yn deall fod mo'r argyoeddiadau hynny er daioni iddynt; Ac am hynny y maent yn * *ddewr yn ymdrechu i mogu a'u llethu hwynt; ac y maent yn parhau yn rhyfygus, i rodio yn ffyrdd eu calonnau twyllodrus, gan ddywedyd heddwch wrth eu hencidiau eu hunain, yn y cyflwr hwnnw.*

* Neu bold.

Gob. Yr ydwyf yn credu, fod y peth mewn is yr ydych yn dywedyd; ſef, bod † ofn yn gwaſanaethu yn fawr, i weitho (trwy help yſpryd Duw) ddaioni mewn Dynion, ac i cymhwyſo nhw i fyned ar Bererindod, pan y dechreuant ei Taith.

† ſef. ofn parchus.

Criſ. *Diammeu yw hynny, os bydd e fal y dylae fod; canys felly y mae 'r Gair yn dywedyd*; Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd.

Dihar. 9. 10.

Gob. Pa fodd y deallwn ni, beth ydyw gwir ofn yr Arglwydd?

Criſ. *Gwir ofn Duw a adnabyddir, wrth y tri pheth yma.*

Yn Gyntaf, wrth ei ddechreuad, yr hwn ydyw argyoeddiad iachuſol am bechod; ſef, *y cyfryw argyoeddiad, ac y ſy 'n gwaſgu 'n galed ar Ddyn, i ymofyn am iechydwriaeth trwy Griſt, ac nid i gilio oddiwrth Griſt.*

Yn Ail, y mae 'n gyrru 'r Enaid, i ddal gafael yn dynn ar *Griſt* am Jechydwriaeth. *Yn*

Yn Drydydd, Y mae 'n gweithio, ac yn cynnal i fynu (yn yr Enaid) barch mawr tuagat Dduw, a'i Air, ai Ffyrdd, gan gadw yn yr Enaid dynerwch calon, ynghyd a gofal ac arſwyd, rhag troi, oddiwrthynt, ar y llaw ddehau, na'r aſſwy, at ddim, ar a ddichon, 1. *Ddianrhydeddu Duw*, 2. *Dorri heddwch yr Enaid*, 3. Driſthau yr Yſpryd glân; neu 4. Roddi achlyſſur i Elynion yr Arglwydd gablu. *Ruf.* 2. 23. *Pſal* 51.8. Eſ. 63. 10. 2 *Sam.* 12. 14.

Gob. Chwi a ddywedaſoch yn dda; yr wyf yn credu iw'ch ddywedyd y gwîr. A ydym ni yr-wan, yn agos myned tros y Tîr a reibiwyd?

Criſ. *Pa'm yr ydych yn gofyn hynny; a ydychi 'n blino ar yr ymddiddan yma?*

Gob. Nac ydwyf yn wir, eithr dymunwn wybod, ym-mha Le yr ydym ni.

Criſ. *Nid oes gennym yn awr, oddiar dwy Filltir o'r Tîr a reibiwyd, iw fyned troſto: eithr dychwelwn at y matter oedd gennym yn llaw. Nid yw'r Dynion anwybodus yn deall fod yr argyoeddiadau yma, y ſy 'n peri ofn a braw ynthynt (fod y rhain meddaſi) er daioni iddynt; ac am hynny y maent yn ceiſio eu mogu hwynt.*

Gob. *Pa fodd y maent yn ceiſio eu mogu hwynt.*

Criſ. 1. Y maent yn tybygu, mai'r Cythrael ſy'n gweithio 'r dychryniadau hyn ynthynt, (er yn ddiau oddiwrth Dduw y maent) ac o herwydd eu bod nhw'n tybied felly, y maent yn eu gwrthſefyll, megis pethau y ſydd yn rhag-ddarparu eu diniſtr hwynt. 2. Y maent hwy o'r opiniwn yma hefyd, fod y dychryniadau hyn, yn tueddu, i anheithio eu ffydd hwy, (pan nad oes ganthynt, druain gwyr, ffydd yn y byd!) ac am hynny, y maent yn caledu eu calonnau yn eu herbyn hwynt. 3. Heblaw hyn, y maent yn meddwl, na ddylent ofni yn amſer; ac am hynny, gan ddirmygu a thagu y cyfryw ddychryniadau, y maent yn digwyddo i fod, yn bobl rhyfygus, a thra hyderus, er nad oes ganthynt reſwm yn y byd am yr hyder hynny. Ac yn ddiweddaf, y maent yn gweled, fod y dychryniadau hyn yn rhag-ddarparu dwyn oddiarnynt eu gwael ſancteiddrwydd eu hunain; ac am hynny, y maent yn eu gwrthwynebu hwynt, ai holl * Egni.

* *Nerth.*

Gob. *Yr wyf yn gwybod Peth o hyn trwy brofiad; canys cyn i mi fy adnabod fy hun, dyma fal yr oedd hi gyda mi.*

Criſ. *Gadawn yr ymchwedleua hyn, yng hylch ein Cymydog* Anwybodaeth, *ar hyn o bryd; a moeſwch i ni ymddiddan*

am

am ryw Gweſtiwn arall, a ſo buddiol.

Gob. O lwyr ewyllys fy nghalon; ond mae'n rhaid i chwi ddechreu.

Criſ. *Oni adwaenechi, ynghylch deng mhlyned i nawr, ŵr o'ch parthau chwi, a elwid* Amſerol, *yr hwn oedd yn dangos (yngolwg dynion) lawer o Zêl mewn crefydd y pryd hynny?* Mat. 13. 20, 21.

Gob. Ei adnabad ef! oeddwn yn dda ddigon; yr oedd e'n byw yn Nhref *Dirâs*; yr hon ſydd ynghylch dwy Filltir oddiwrth y Dref a elwir *Oneſtrwydd*; ac yr oedd e'n byw y drws neſſaf i vn † *Gwrthgiliwr.* † *Turnback.*

Criſ. *Gwir a ddywedwch chi; yr oeddent hwy eill dau yn byw dan yr vn* * *Tô. Wel, yr oedd y gwr hwnnw (yr amſer hynny) wedi ei ddeffroi yn fawr iawn; canys yr wyf yn credu, iddo gael peth golwg, y pryd hynny, ar ei bechodau, ac ar y gyflog y ſydd ddyledus iddo am danynt.* * crongwyd.

Gob. Yr wyfi o'r vn feddwl a chwithe; canys efe a ddeuai yn fynych attafi (o herwydd nid oedd fy Nhŷ i, oddiar Tair milltir oddiwrtho ef) a'r dwr yn diferu i lawr ar hyd ei ruddiau. Yn wir yr oeddwn i yn toſturio wrtho; ac yr oedd gennif beth gobaith da am dano: ond gan iddo droi ei gefn ar *Grefydd,*

fydd, ni allwn gaſclu oddiwrth hynny, mai nid pob vn ſydd yn dywedyd, *Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i Deyrnas nefoedd.*

Criſ. *Ffe a ddywedodd wrthif vnwaith, ei fod ef yn bwriadu myned ar Bererindod, megis yr ydym ninne yn awr*: eithr yn ddiſymmwth, efe a *gafodd gydnabyddiaeth âg vn Hunan-Gadw*; *ac yna efe a aeth yn ddieithr i mi.*

Gob. Yn awr, gan ein bod ni 'n ſiarad am dano ef, gadewch i ni yſtyried, beth a allai ſod yr achoſion, o'i * ymchweliad dyſmmwyth ef, a llawer eraill o'i fath ef.

* *Cyliad yn ol oddiwrth Grefydd.*

Criſ. *Fe ddichon hynny fod yn ſuddiol iawn, eithr dechreuwch chwi.*

Gob. Y mae (yn fy marn i) bedwar o reſymmau am hynny.

Yn Gyntaf, *Er bod Cydwybodau y cyfryw Ddynion wedi eu deffroi*; *etto er hynny, nid oes dim cyfnewidiad yn eu calonnau nhw*: Ac am hynny, pan y bo grym Euogrwydd eu pechodau wedi ei wiſco ymmaith, oddiar eu cydwybodau; ſe a ddarſu am yr hyn oedd yn eu cyffroi nhw i fod yn grefyddol; ac yna y troant yn naturiol, iw hen ffyrdd lygredig drachefn: Megis y gwelwn ni Ci, pan y bo yr hyn a fwytaodd ef, yn gwaſgu arno; tra y parhao ei gle-

fyd

fyd e, y mae'n chwdu ac yn bwrw'r cwbl i fynu: nid ei fod e'n gwneuthur hynny o'i fodd; ond o herwydd bod y peth a fwytaodd ef, yn gorwedd yn drwm ar ei gylla ef. Eithr pan y gwellháo ef, a phan y clywo ei gylla yn yſgafn ac yn eſmwyth, nid yw e ronyn llai ei awydd, er hyn i gyd, at ei chwdiad; ond y mae 'n troi atto drachefn, ac yn * llyfu'r cwbl i fynu: Ac am hynny, gwîr yw'r hyn ſydd ſcrifennedig, *y ci à ymchwelodd at ei chwdiad ei hun.* Felly y mae 'r peth yn ſefyll gyda'r dynion yma: y maent hwy yn wreſſog am y Nefoedd, yn vnic rhag ofn poenau Uffern: ac megis y bytho eu hyſtyriaeth am Uffern ac ofn damnedigaeth yn oeri, ac yn lleihau: felly y mae eu dymuniadau i'r Nefoedd ac Jechydwriaeth, yn oeri hefyd.

* *llio.*

1 Pet. 2. 22.

Ac fal hyn, pan y darfyddo † am eu harſwyd a'u heuogrwydd, y mae eu dymuniadau yn ol y Nefoedd ac happuſrwydd tragwyddol yn marw hefyd; ac y maent hwy yn dychwelyd, at eu drwg arferion drachefn.

† *Ofn.*

Yr Ail Rheſwn yw hyn. *Mae ſlafaidd yn arglwyddiaethu arnynt.* Yr wyf yn dywedyd yn awr, am eu gwaith yn ofni Dynion: *canys ofn dyn ſydd yn dwyn magl.* Ac am hynny, er eu bod yn

* *Ofn caeth.*

Dihar 29. 25.

yn ymddangos yn fywiog ac yn wreſſog am y Neſoedd, pryd y byddo Tân Uffern o amgylch eu cluſtiau (ſef o herwydd eu bod yn llawn o ddychryniadau oblegit eu pechodau) etto pan êl yr arſwyd hwnnw ychydig heibio, hwy a fyddant o feddwl arall, ſef, † *mai da yw bod yr ddoeth, ac nid rhedeg (am ni wyddant pa beth) i berygl o golli 'r cwbl ar a feddant er mwyn Grefydd*; neu ar y lleiaf i fwrw eu hunain, i ofydiau anocheladwy, ac afreidiol; ac felly y maent yn fyrthio, i ymgyfeillachu âr * byd drachefn.

† *cyfrwyſtra cnawdol yw hyn.*

* *Dynion drwg.*

Yn Drydydd. Y mae 'r cywilydd, fydd ynglyn wrth Grefydd, yn gorwedd, megis maen tramcwydd yn eu ffordd hwynt: y maent hwy yn vchel ac yn Feilchion; ac y mae crefydd yn beth gwael a dirmygus yn eu golwg hwynt: Ac am hynny, pan yr anghofiant boenau Uffern, a'r llîd a fydd; hwy a ddychwelant at eu drwg fucheddau drachefn.

† *Enwirwydd yw 'r rhwyme-digaeth, yr ym ni yn gorwedd tano, i ddioddef cofpedigaethau amſerol a thragwyddol, am ein pechodau.*

Yn Bedwerydd. Y mae myfyrio am † *enwirwydd pechod, a'r cofpedigaethau dychrynllyd, a orfydd ar yr annuwiolion eu dioddef yn vffern, yn flinderus iddynt*: Nid ydynt hwy fodlon i ddwys-yſtyried eu trueni, cyn y delo arnynt: er y gallai yr olwg arno yſcatfydd (pettaint

yn

yn caru 'r olwg honno) beri iddynt ffoi, ir lle y mae'r Cyfiawn yn ffoi iddo, ac yn cael diogelwch: eithr o herwydd eu bod nhw (fal y dywedais i o'r blaen) yn caſáu myfyrdodau am Euogrwydd a dychryn: Am hynny, pan y caffont wared unwaith o'u myfyrdodau a'r braw fy 'n canlyn hynny; ynghylch digofaint Duw, y maent yn ewyllyſgar yn caledu eu calonnau, ac yn dewis y cyfryw ffyrdd a moddion, ac a'u caledo nhw fwyfwy.

Crif. *Yr ydychi yn amcanu 'n agos at y * mark; canys ſylfaen y cwbl yw diffyg cyfnewidiad yn eu dealltwriaeth a'u hewyllys. Ac am hynny, nid ydynt ond megis y lleidr ſy 'n fefyll o flaen y Barnwr; yr hwn ſy 'n crynu ac yn arſwydo yn ddirfawr, ac yn ymddangos fel pettai fo yn edifeiriol o'i galon am ei ddrygioni: eithr nid yw'r cwbl ond rhag ofn y Cebyſtr; ac nid o herwydd ei fod yn caſhau ei ddrwg weithredoedd, megis y mae 'n eglur; oblegit, ôs caiff y gwr hwn ei rydd-did, efe a fydd yn lleidr ac yn Rôg drachefn; eithr pe bai cyfnewidiad graſol yn ei feddwl ai ewyllys ef, fo a fyddai yn amgenach gwr.* * Nôd.

Gob. Yn awr myfi a ddangoſais i chwi yr achoſion o'u hymadawiad â chrefydd: dangoſwch chwithau i minne y dull

y dull neu 'r modd o'u hymadawiad hwynt.

Criſ. *Hynny a wnaf yn ewyllyſgar.*

1. Y maent yn gŵyrdroi eu medyliau, cyn belled ac y gallont, *oddiwrth feddwl* 1. *am Ddduw*, 2. *am Farwolaeth*, *ac* 3. *am y Farn a fydd.*

* *wedi kynny.* 2. * Gwedyn, y maent bob yn ychydig, yn rhoddi heibio Dyledſwyddau neilltuol, megis, *Gweddi ddirgel*, *Ffrwyno eu Trachwantau*, *Gwilio*, *Galaru am Bechod a'r Cyffelyb.*

3. Yna y maent yn ymgadw rhag cwmpeini Criſtianogion bywiog a gwreſog mewn crefydd a duwioldeb.

4. Ar ól hynny, Y maent yn myned yn * ddifraw ac oerllyd ynghylch Dyledſwyddau cyhoeddus, megis, Gwrando, Darllein, Ymddiddanion duwiol, a'r cyfryw. * *Diofal.*

5. Mewn amſer hwya bigant dyllau (megis y dywedwn) ymheiſiau rhai o'r gwyr duwiolaf (a hynny yn fileinig iawn) fal y gallont gael lliw (o herwydd rhyw wendid yr oeddent yn ei weled mewn gwyr da) i daflu Crefydd o'r tu ol iw cefnau.

6. Yna hwy a ddechreuant lynu wrth, ac ymgyfeillachu â Dynion cnawdol, ofer, ac † anllad. † *wantan.*

Gwedi hynny, Hwy a roddant le yn y dirgel;

y dirgel, i ymddiddanion cnawdol a wantan; a hòff iawn a fydd ganthynt, os gallant weled y fath bethau mewn rhai a gyfrifir yn oneſt; fel y gallont ſiarad yn † hyſach am y cyfryw * faſwedd, trwy eu Enſampl hwy.

† *Eonaeh.*
* *Aſlendid*

8. Yna hwy a ddechreuant chwareu â phechodau bychain yn gyhoeddus.

9. Ac yn ddiweddaf, wedi eu caledu, hwy a ymddangoſant yn eu lliw eu hun. Ac yn ôl llithro o honynt fal hyn ir llyngclyn o drueni (oddieithr i ryfeddol râs Duw eu rhagflaenu) fe dderfydd am danynt yn dragywydd, yn eu twyll a'u hudoliaethau eu hunain.

Yn awr mi a welais yn fy mreuddwyd, fod y Pererinion erbyn hyn, wedi myned tros y Tîr a reibiwyd, ac yn dechreu myned i wlad *Beulah*, yr hon ſydd wlâd iachus a hyfryd; ac yr oedd y ffordd yn myned yn vniawn trwyddi; ac yma hwy a gymeraſant eu heſmwythyd tros ryw yſpaid o amſer. Eſay. 62. 4.

Yr oeddent yma yn waſtadol yn clywed yr adar yn canu, ac yn gweled y blodau o ddydd i ddydd yn ymddangos ar y ddaiar; ac yr oeddynt yn clywed llais y * Durtur yn y tîr yma. Yn y wlâd hon hefyd yr oedd yr haul yn tywynnu Nos a Ddydd. Ac erbyn hyn yr oeddent ym-mhell oddiwrth *Ddyſſryn* Caniad. 2. 10, 11, 12.

* *Math a glommin.*

† *Allan.* *ffryn cyſgod angau*; ac hefyd † y maes o gyrraedd y *Cawr Anhaith*; ac ni allent ychwaith gymaint a gweled *Caſtell Amheyus* o'r man hyn'r oeddent hwy yma, wedi dyfod mewn golwg i'r *Ddinas*, yr oeddynt yn myned iddi. Hwy a gyfarfuant yma hefyd, â rhai o drigolion y wlâd: Canys yr oedd y

‖ *Yr Angelion.* ‖ rhai diſclair yn rhodio yn gyffredinol yn y wlad hon, am ei bod hi ar gyffiniau y nefoedd. Yn y wlâd hon hefyd yr

Eſay 62. 5. adnewyddwyd cyfammod rhwng y priod-fab ar Briod-ferch; le â llawenydd priod-fab am y Briod-ferch y llawenychodd eu Duw o'i plegid hwynt.

Nid oedd arnynt eiſiau na Gwîn nac ŷd; canys hwy a gawſant yma ddigonolrwydd, o'r cwbl oll, a fuaſent yn ymofyn am danynt yn eu holl Bererindod. Hwy a glywſant yma * grôch

* *Uchel.* leferydd, yn dyfod allan o'r Ddinas, yn

Eſay. 62. 11, 12. cyhoeddi, *Dywedwch wrth Ferch* Sion, *wele dy Jachawdwr yn dyfod, wele ei gyflog gydag ef: a holl drigolion y wlâd ai galwaſant yn Bobl ſanctaidd, gwarediglon yr Arglwydd.*

Yn awr wrth ymdeithio yn y wlâd hon, hwy a gawſant fwy o ddiddanwch, nag y gowſant mewn Parthau oedd bellach oddiwrth y Deyrnas, i ba vn yr oeddent yn myned; ac fel yr oeddynt

yn

yn neſſau at y Ddinas; yr oedd hi'n ymddangos yn Eglurach iddynt nag o'r blaen; yr oedd hi wedi ei hadeiladu â pherlau ac a meini gwerthfawr: yr oedd ei holl heolydd hi wedi eu palmentu âg Aur; *Criſtion*, wrth weled gogoniant naturiol y Ddinas, a thywyniad Pelydr yr haul arni, a glafychodd o wîr ſerch atti. *Gobeithiol* hefyd a gafodd * fâs neu ddwy o'r vn clefyd; Ac am hynny, y buant yma dros dro yn gorwedd, ac yn gwaeddi allan, yn eu llewygfeydd, *os gwelwch fy anwylyd, mynegwch iddo fy môd yn glâf o gariad.* * *Pwl.*

Eithr gwedi iddynt wellhau a chryſhau ychydig, hwy a aethant iw ffordd; ac a ddaethant yn nes-nes, i fan, lle yr oedd Perllannau, a Gwinllanoedd, a Gerddi, ai Pyrth yn agored tua'r Briffordd. Ynawr, wedi dyfod o honynt i fynu, at y lleoedd yma; wele y Garddwr yn ſefyll ar y ffordd; a'r Pererinion a ofynnaſant iddo; eiddo pwy yw 'r Gwinllanoedd a'r Gerddi hyfryd hyn? Yntef a attebodd, eiddo 'r Brenin ydynt; ac hwy a blanwyd yma; er difyrrwch iddo ei hun, a diddanwch i Bererinion; felly 'r Garddwr ai dugodd hwynt i mewn i'r Gwinllanoedd; ac a archodd iddynt * lonni eu hunain á'r dainteithion oedd yno: efe a ddangoſodd * *adfywio*

ddangosodd iddynt hefyd Rhodfeydd y Brenin, a'r Llwynau, lle yr oedd efe yn hoffi i rodio ynthynt, a thanynt; ac yma yr arosasant ac y cysgasant.

Yr awron, deliais sulw yn fy Mreuddwyd, cu bod nhw 'n siarad mwy trwy eu cwsg y pryd hyn, nag yn amser yn eu holl Daith; ac fal yr oeddwn yn rhyfeddu cu clowed; dywedodd y Garddwr wrthif, pa ham yr wyt ti yn rhyfeddu ynghylch y matter hyn? Y mae † Grawn y gwinllanoedd yma mor felus, fal y parant i wefusau y rhai sydd yn cysgu i lefaru.

† *Ffrwyth y winwydden.*

Felly wedi iddynt ddeffroi, mi a'u gwelwn yn ymdacclu, i fyned tua'r Ddinas nefol. Eithr fal y dywedais i, yr oedd tywyniad yr Haul ar y Ddinas (canys yr oedd hi o Aur pùr) yn ogoneddus dros ben, fal nas gallent etto graffu arni â'u llygaid, ond trwy * Beiriannau a wnaethpwyd i'r † perwyl hwnnw. Felly, fal yr oeddent yn myned ym-mlaen, mi a welwn ddau wr yn cyfarfod â hwynt, mewn gwiscoedd yn disgleirio fal Aur; a'u hwynebau yn llewyrchu fal yr haul.

Dat. 21. 18. 1 Cor. 13. 12.

* *Offerynnau.*

† *Pwrpas, diben.*

Y Gwyr hyn a ofynnasant i'r *Pererinion*, o ba le yr oeddent yn dyfod? A hwy a fynegasant iddynt y gwirionedd. Gofynnasant hefyd, ym-mha

Le

Le y buaſent yn lletteua ? Pa Anhawſter a pheryglon, pa Gyſſuron, a diſyrrwch a gawſant hwy yn eu ffordd ? Hwythau a adroddaſant y cwbl oll wrthynt. Yna ebr Gwyr a gyfarfu â hwynt, nid oes i chwi mwyach ond dau anhawſder i fyned trwyddynt, a * chwedyn yr ychi yn y Ddinas.

* *Ar ôl hynny.*

Yna, Criſtion ai Gydymaith a attolygaſant ar y Gwyr i ddyfod gydag hwynt ; hwythau a'u hattebaſant, y deuent hwy gyda nhw : Eithr ebr Gwyr, y mae 'n rhaid i chwi ennill hynny trwy eich ffydd eich hun. Felly mi a'u gwelwn hwy, yn myned ynghyd, hyd oni ddaethant mewn golwg i'r Porth.

Yn awr mi a welwn ym-mhellach, fod * Afon rhyngthynt â'r porth, heb vn Bont i fyned troſti ; a'r Afon oedd yn ddwfn iawn : A'r *Pererinion*, pan y gwelſant yr Afon yma, a † ſynnaſant yn ddirfawr ; a'r Gwyr a ddaethai gydâ hwynt a ddywedaſant ; Mae 'n rhaid i chwi fyned trwy 'r Afon yma ; onide, ni ellwch chi ddyfod at y Porth.

* *Sef, marwolaeth.*

† *Ryfeddaſant.*

Nid yw nattur yn rhoddi greſſo i Angeu ; er ein bod yn myned troſſodd, o'r byd hwn, trwy farwolaeth i ogoniant.

Yna 'r *Pererinion* a ddechreuaſant ymofyn, a oedd vn fford arall i fyned at y Porth ; hwythau a attebaſant, oes ; ond ni chafodd neb ond dau, ſef *Enoch* ac *Elias* droedio 'r llwybr hwnnw, er pan ſeiliwyd y Byd ; ac ni chaiff neb ie

ei throedio hi, hyd oni ſeinio 'r Vdcorn diweddaf, 1 *Cor.* 15. 51, 52. Yna 'r *Pererinion* (yn enwedig *Criſtion*) a ddechreuaſant ddigalonni yn ddirfawr, gan edrych yma a thraw; eithr ni fedrent gael ffordd yn y byd, i ochelyd yr Afon. Yna hwy a ofynnaſant i'r Gwyr, a oedd yr afon ym-mhob man o'r vn ddyfnder? Nac ydyw ebe nhw; etto ni allent moi cynnorthwyo hwynt yn y matter yma; canys, ebe † nhw, *chwi ai cewch hi yn ddyfnach neu yn faſach, fal y bo'ch yn credu ym Mrenin y lle.*

† *Sef, yr Angelion.*

Yna hwy a ymbaratoiſant i fyned ir Dwfr; a phan yr aethant i mewn iddo, *Criſtion* a ddechreuodd ſoddi; A chan waeddi ar ei gydymaith *Gobeithiol, efe a ddywedodd wrtho, yr wyf yn ſoddi mewn dyfroedd dyfnion; y Tonnau a'r llifeiriant a aethant troſoſi.* Pſal. 42. 7. Pſal. 69. 1, 2, 3.

Yna ebr llall, *bydd gyſſurus fy mrawd*: Myfi a glowaf y gwaelod, ac y mae'n galed ac yn dda. Yna ebe *Criſtion*, ah fy Ffrind! Gofydiau angau am cylchynaſant; ni chafi weled y Tîr ſy'n llifeirio a llaeth a mêl. A chydâ hynny, Tywyllwch mawr a dychryndod a ſyrthiodd ar *Criſtion*, fal nad allai weled yr hyn oedd oi flaen ef: Yma hefyd y pallodd eu ſynhwyrau ef, mewn meſſur

Blinder Criſtion ar awr Angeu.

ſſur mawr ; fal na fedrei gofio, nac ymddiddan yn drefnus, am ddim o'r holl bethau y cawſei efe ei * lonni trwyddynt, yn ei Bererindod: ond cymaint ac a ddywedai efe, ydoedd yn arwyddocau ; ei fod ef mewn Echryd meddwl ac arſwyd calon, rhag iddo foddi yn yr Afon ; ac nas cai efe byth fyned i mewn i'r Porth. Yma hefyd y deallodd y rhai oedd yn ſefyll ger llaw iddo, ei fod ef yn gythryblus yn ei feddwl, o herwydd y pechodau a wnaethai efe, cyn, a chwedi iddo ddechreu ei *Bererindod.* Fe ddaliwyd ſulw hefyd, ei fod ef yn cael ei flino, wrth weled (fal y tybygai fo) † Ellyllon ac *Yſprydion drwg*, fel y gellyd ‖ dirnad yn fynych wrth eu Eiriau ef. *Gobeithiol* gan hynny a gafodd yma ei lawn waith, i gadw pen ei Frawd uwchlaw'r Dwr ; ie weithiau efe a Soddei * yn gwit dan y dwr ; ac ym mhen Ennyd, efe a gyfodei i fynu drachefn yn hanner marw. *Gobeithiol* hefyd a geiſiei ei gyſſuro ef, gan fynegi iddo ; fy mrawd, mi a welaf y Porth, a † Gwyr yn ſefyll wrtho, i'n derbyn ni i mewn : Eithr Criſtion a attebai ; am danochi, am danochi, y maent yn diſgwyl ; canys yr oeddechi yn obeithiol, er pan eich adnabûm chwi : Felly y buoch chwithau, eb efe, wrth

* *Llawenychu.*

† *Goblinod.*
‖ *Deall.*

* *Yn gwbl.*

† *Angelion.*

wrth *Griſtion.* Ah fy mrawd ebe yntef ; diau yw, pe bawn i wir Griſtion, efe a ddeuai *Criſt* yn awr im cynnorthwyo i ; eithr o herwydd fy mhechodau efe am dygodd i'r fagl, ac am gadawodd i ynthi : Yna ebe *Gobeithiol*, fy mrawd, ti a lwyr anghofiaiſt y Teſtyn, lle y dywedir am yr Annuwolion ; *nid oes Rhwymau yn eu marwolaeth, a'i cryfder ſydd heini. Nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill ; ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda Dynion eraill.* Nid yw'r Gofidiau a'r blinderau, yr ydychi 'n myned trwyddynt yn y Dyfroedd yma, yn arwydd yn y byd, fod Duw wedi 'ch gadel chwi ; ond hwy a ddanfonwyd i 'ch profi chwi ; i edrych a gofiwchi y daioni a'r trugareddau, a dderbyniaſoch ar ei law ef eiſus, a byw arno ef yn eich cyfyngderau.

Pſal. 73. 4. 5.

Yna y gwelwn *Criſtion* yn * ſyn feddylgar dros Ennyd : A Gobeithiol a ddywedodd hyn yn ychwaneg wrtho, *Bydd gyſſurus, y mae'r Arglwydd Jeſu yn dy iachau di* : Ar hynny y gwaeddodd Criſtion â llêf uchel ; O myfi a'i gwelaf ef drachefn ! Ac y mae'n dywedyd wrthyf, *pan elych trwy'r Dyfroedd myfi a fyddaf gydâ thi ; a thrwy'r Afonydd fel na lifont troſot*, Eſay 43. 2. Yna hwy a ymwrolaſant eill dau, a'r

* *Rhyfeddol.* Eſay 40. 1, 2.

‖ Ge-

‖ Gelyn gwedi hynny a fu mor llonydd ac mor ddiyſgog a'r garreg, hyd onid aethant troſodd. Yna *Criſtion* a gafodd Dîr caled yn ebrwydd i ſefyll arno; ac ſe ddigwyddodd, nad oedd y rhan arall o'r Afon ond bâs; ac fal hyn yr aethant troſodd. Yn awr ar lan yr Afon o'r tu arall, hwy a ganfuant † y ddau wr mewn gwiſcoedd diſclair drachefn, yn diſgwyl am danynt hwy yno. Hwyn gynted ac y daethant allan o'r afon, hwy a gyfarchaſant well iddynt; gan ddywedyd, *Yſprydion gwaſanaethgar ydym ni, wedi ein danfon i* * *weini er mwyn y rhai a gânt etifeddu Iechydwriaeth*, Heb. 1. 14. Fal hyn yr aethant ynghyd tua'r porth. Yn awr mae'n rhaid i chwi wybod, fod y *Ddinas* yn ſefyll ar fryn vchel; eithr y *Pererinion* a aethant i fynu i'r Bryn hwn yn eſmwyth; am fod † y ddau wr yn eutywys erbyn eu dwylo; ac hwy a adawſent hefyd eu ‖ gwiſcoedd marwol ar eu hôl yn yr Afon; canys er cu bod wedi eu gwiſco à'r dillad hynny, pan yr aethant ir Afon; etto hwy a ddaethant allan o honi hebddynt. Hwy a aethant i fynu gan hynny yn* chwimwth iawn, ac yn † Eſgyd; er bod y ſylfaen, ar yr hon yr oedd y *Ddinas* wedi ei hadeiladu, yn vwch nâ'r Cymylau,

‖ *Sef y cythrael.*

† *Yr Angelion.*

* *Waſanaethu.*

* *Yr Angelion.*

‖ *Eu marwoldeb.*

* *Yn ſuan.*
† *Clai, cyſtym.*

mylau. Hwy a aethant gan hynny trwy Ardaloedd yr awyr, dan ymddiddan yn ddifyr, ac yn gyſſurus; oblegid iddynt ddyfod trwy'r Afon yn ddiberygl, a bod ganthynt y cyfryw gyfeillion gogoneddus i || weini iddynt.

† *Waſanaethu.*

Yr ymddiddan rygthynt â'r rhai diſclair oedd, ynghylch gogoniant y lle: A'r gwŷr a ddywedaſant, fod ei Brydferthwch ai ogoniant yn annrhaethadwy. Yno, ebe nhw, y mae'r Mynydd *Sion*, y *Jeruſalem* nefol: Yno y mae lliaws anneirif o *Angelion*, ac *Yſprydoedd* y rhai Cyfiawn a berffeithiwyd. Yr ydychi yn awr (ebe nhwy) yn myned i *Baradwys* Duw, lle y Cewch weled *Pren* y Bywyd, a bwyta o'i ffrwyth aniflannedig ef: A phan ddelochi yno, fe roddir i chwi *Wiſcoedd Gwynion*; a chwi a gewch gydrodio ac ymddiddan â'r Brenin beunydd; le a hynny dros holl ddyddiau tragwyddoldeb. Ni chewch weled yno mwyach y fath berthau, ac a welſoch, pan yr oeddech yn y parthau iſſaf, yn Ardal y Ddaiar, ſef, *Triſtwch*, *Cleſyd*, *Blinder* a *Marwolaeth*: Canys y pethau cyntaf a aethant heibio. Yr ydychi'n myned yn awr at *Abraham*, *Iſaac*, a *Jacob*, ac at y *Prophwydi*; *y rhai y gymerodd Duw ymaith o flaen y drygſyd oedd*

Heb. 12. 22, 23. 24.

Dat. 2. 7.

Dat. 3. 4.

Dat. 21. 4.

Eſay 57. 1, 2.

oedd i ddyfod; y rhai ydynt yn awr yn gorphwys yn eu ſtafelloedd, pob vn yn rodio yn ei vniondeb. Yna y *Pererinion* a ofynnaſant iddynt; Pa beth a allwn ni ddiſgwyl am dano, a pha beth y ſydd i nyni iw wneuthur yn y Lle ſanctaidd hwnnw? hwythau a attebaſant, yno y derbynniwch ffrywth eich holl lafur; yno y cewch Lawenydd yn lle Triſtwch; yno y medwch yr hyn a hauaſoch, ſef, ffrwyth eich holl *weddiau*, eich *Eluſennau*, eich *Dagrau*, a'ch Dioddefiadau tros y *Brenin* ar hyd y ffordd. Yno y cewch wiſgo Coronau o Aur, a mwynhau tragwyddôl Breſennoldeb y ſanctaidd hwnnw; *canys yno chwi a gewch ei weled ef megis ac y mae.* Yno hefyd y gwaſanaethwch ef yn waſtadol â mawl, llawenydd, a diolchgarwch, yr hwn yr oeddechi 'n chwennychu i waſanaethu yn y Byd; er fod hynny gyda llawer o anhawſder, o herwydd gwendid eich Cnawd. Gal. 6. 7, 8. 1 Joan. 3. 2.

Yno y bydd hôff gan eich llygaid weled, a'ch clyſtiau glywed hyfryd lais yr Holl-alluog. Yno y cewch fwynhau eich Cyfeillion drachefn; y rhai a aethant ir Ddinas o'ch blaen chwi; ac yno y derbyniwch yn roeſawys gyda llawenydd mawr, cynifer vn ac a ddelo ar eich hôl ir lle Sanctaidd hwnnw. Yno

hefyd eich gwiſgir â Gogoniant ac Arddercha-wgrwydd; a chwi a gewch y fath wiſcoedd trwſſiadus, ar a'ch gwna chwi 'n gymmwys i ſarchogaeth gyda Brenin y Gogoniant. A phan y del e gyda ſain Udcorn yn y Cymylau, megis ar adenydd y gwynt; chwi a gewch ddyfod gydag ef; a phan eiſteddo efe ar orſedfa barn, chwi a gewch eiſtedd yn ei ymyl ef; ie a phan y rhoddo efe Farn ar weithredwyr anwiredd, pa vn bynnag ai Angelion, ai Dynion fyddont, chwithau hefyd a gewch roddi eich gair yn ei blaid ef yn y Farn honno; o herwydd eu bod yn elynion iddo ef ac i chwithau hefyd. A phan ddychwelo ir Ddinas, chwithau hefyd a gewch fyned gydag ef, â ſain Udcorn, lle y cewch breſwylio yn dragywydd, yn ei ŵydd ef.

1 Theſſ. 4. Jud. 14. Dan. 7. 9, 10.

1 Cor. 6. 2, 3.

Yn awr tra yr oeddent ſal hyn yn neſſau tua'r Porth, wele liaws o'r llu nefol a ddaeth allan iw Cyfarfod hwynt; wrth ba rai y dywedodd y ddau wr diſclair; dyma'r gwyr a garaſant ein Harglwydd ni pan yr oeddent yn y Byd; ac a ymadawſant â'r cwbl er mwyn ei Enw ſanctaidd ef; ac efe a'n danfonodd ni i'w Cyrchu hwynt; ac nyni a'i dygaſom hwynt hyd yma yn eu Taith ddymunol, ſal y gallont fyned

i mewn,

i mewn, ac edrych yn wyneb eu Prynwr gydâ llawenydd. Yna y llû nefol a floeddiaſant yn gròch, gan ddywedyd, *Bendigedig yw y rhai a elwir i Neithior Swpper yr Oen.* Dat. 19 9.

Daeth allan hefyd ar yr amſer hynny amryw o Vdcanwyr y Brenin, iw cyfarfodd hwynt, wedi eu gwiſgo mewn dillad gwynion diſclair, y rhai â'i peraidd-gerdd a'i hyfryd lais * Soniarus, a wnaethant i'r Nefoedd ddatſeinio. Yr Vdcanwyr hyn a gyfarchaſant well i *Griſtion* a'i *Gdymaith*, ac a ddywedaſant, Croeſo wrthych filoedd o weithiau o'r Byd; a hyn a wnaethant gydâ Bloedd a ſain Vdcyrn. * *Vchel.*

Ar ol hyn, hwy a'u cylchynaſant hwy ar bob tu; rhai a aethant ymmlaen, a rhai yn ôl, rhai ar y llaw ddehau, a rhai ar y llaw aſſwy (megis iw gwarchod a'u cadw nhw, trwy'r parthau vchaf) dan ſeinio yn ddibaid, â phob rhyw felyſ-gerdd hyfryd; hyd oni thybiai 'r ſawl a allai eu gweled hwynt, ddeſcyn o'r Nefoedd ei hun iw cyfarfod hwynt: Ac fal hyn hwy a aethant ym-mlaen ynghyd: Ac fal yr oeddent yn rhodio, yr oedd yr Vdcanwyr yn canu yn fynych, gyda llais llawen ac hyfryd, gan eu hymddwyn eu hunain, yn dirion ac yn garuaidd tuag at *Griſtion* a'i *Frawd*,

gan arwyddocau, trwy eu hymddygiad hyfryd tuag attynt, y Groeſaw oedd iddynt iw Cymdeithas, ac mor llawened y daethent iw cyfarfod hwynt: Ac yn awr yr oedd y ddau wr megis yn y nefoedd, cyn iddynt ddyfod atti; ac yr oeddent yn ymfodloni yn ddirfawr, wrth weled yr anneirif lû o Angelion oddiamgylch; ac wrth wrando ar eu melyſgerdd a'u peraidd gân Soniarus. Erbyn hyn yr oeddent mewn golwg i'r Ddinas; ac hwy a dybygent glowed o honynt yr holl glŷch yn canu, iw groeſawi hwynt yno: Eithr vwchlaw 'r cwbl, yr oedd eu calonnau nhw wedi eu llenwi â llawenydd, pan y meddylient, y caent breſwylio yn y *Ddinas hon*, yn dragwyddol, gydâ'r cyfryw gyſcillion: oh! pa bin yſgrifennu neu Dafod ſydd yn abl * datgan, eu Gogoneddus Lawenydd hwynt yn y matter yma. Ac fal hyn y daethant i fynu at y porth.

* *Goſod allan.*

Yn awr pan ddaethant at y porth, yr oedd yn ſcrifennedig vwch ei ben ef, mewn llythrennau Aur, *Gwyn eu byd y rhai ſy'n gwneuthur eu orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint ym mhren y Bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy 'r pyrth i'r Ddinas.* Dat. 22. 14.

Yna y clywais y Gwyr diſclair, yn erchi iddynt guro wrth y Porth; a phan

phan y gwnaethant felly, rhai o'r Gwyr oddifewn a edrychaſant dros y Porth, ſef, *Enoch*, *Moſes*, ac *Elias*, &c. ac ſe ddywedpwyd wrthynt, dymma *Bererinion* wedi dyfod o Ddinas *Deſtryw*, o herwydd y cariad oedd ganthynt at *Frenin* y lle yma: Ac ar ôl hynny y *Bererinion* a roddaſant i mewn iddynt, bob vn ei * *Certificat*, y rhai a dderbyniaſant yn nechreuad eu Taith: hwythau a'u dygaſant i mewn ac a'u dangoſaſant i'r *Brenin*; ac wedi iddo eu darllain, eſe a ofynnodd pa le y mae'r Gwyr? hwythau a attebaſant y maent yn ſefyll wrth y Porth: Yna'r *Brenin* a orchymynodd agor y Porth, *fel y dêi (ebe ſe) y genhedl gyfiawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd.* Eſay. 26. 2.

* *Dyſtiolaeth.*

Yn awr gwelwn yn ſy Mreuddwyd, y ddau wr yn myned i mewn trwy'r Porth; ac wele hwyn gynted ac yr aethant i mewn, ſe a newidiwyd eu gwèdd, ac ſe 'i gwiſcwyd hwynt â dillad yn diſcleirio fel Aur. Yno hefyd y cyfarfu â hwynt rai, â Thelynau a Choronau ganthynt; y rhai a roddaſant iddynt hwy (y *Telynnau* i ganu mawl â hwynt, a'r *Coronau* yn arwydd o anrhydedd) Yna mi a glowais holl Glych y Ddinas yn canu drachefn o wir lawenydd; a dyweſpwyd wrth y

Pererinion, Ewch i mewn i lawenydd eich Arglwydd. Myfi a glowais hefyd y Gwyr eu hunain, yn canu â lleferydd vchel, gan ddywedyd, *i'r hwn ſydd yn eiſtedd ar yr Orſeddfaingc, ac i'r Oen, y*
Dat. 5.13. *byddo y Fendith, a'r Anrhydedd, a'r Gogoniant, a'r Gallu yn oes oeſoedd.*

Yn awr, cyn gynted ac yr agorwyd y Porth, i ollwng y *Pererinion* i mewn, mi a edrychais ar eu hôl hwynt; ac wele yr oedd y Ddinas yn diſcleirio fel yr *Haul*; yr Heolydd hefyd oeddynt wedi
* *Eu paſio.* * eu palmentu âg Aur, a nifer fawr o wyr yn rhodio ynthi, â Choronau ar eu pennau, a phalmwydd yn eu dwylo, a Thelynnau Aur i ganu mawl â hwynt.

Yr oedd yno rai hefyd âg Adenydd ganthynt; ac yr oeddent yn Atteb y naill y llall, heb orphwys ddydd a nôs
Eſay 6. 2, 3. gan ddywedyd, *Sanct, Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd.* Ac o'r diwedd, hwy a gauaſant y pyrth; a phan y gwelais i hynny, mi a ddymunais fy mod yn eu myſg hwy.

Yn awr fal yr oeddwn yn meddwl ynof fy hun, am yr holl bethau a welſwn, mi a edrychais yn fy ôl, ac a ganfum *Anwybodaeth* yn dyfod i lan yr Afon; eithr efe a ddaeth troſodd yn ebrwydd; oblegid ni chafod efe hanner y rhwyſtr a gawſai y ddau wr arall, wrth ddyfod trwyddi.

trwyddi. Canys fe ddigwyddodd y pryd hynny, fôd yno *Fadwr*, yr hwn a elwid *Gwag-Obaith*, yr hwn a'i dugodd ef trosodd yn ei * Fâd: felly efe a escynnodd i'r Bryn i ddyfod tua 'r Porth fel y lleill; eithr efe a ddaeth wrtho ei hunan; canys ni daeth neb iw gyfarfod ef, gan roddi iddo 'r cyssur lleiaf yn y Byd. A phan ddaeth i fynu at y porth, fe a edrychodd ar yr yscrifen yr hon oedd vwch ben; a chwedyn fo a ddechreuodd guro, gan dybied, y cawsei ei dderbyn i fewn yn † ddiattreg: eithr y gwyr a edrychasei dros y porth, a ofynnasant, o ba le yr oedd e'n dyfod? A pha beth a fynnei? *Yntef a attebodd, mi a fwyteais ac a yfais gyda'r Brenin, ac efe a ddyscodd yn ein Heolydd ni.* Yna hwy a ofynnasant iddo am ei || Certificat, fel y gallent fyned i mewn, ai ddangos i'r *Brenin*. Felly fo a chwiliodd yn ei fonwes, ond ni chafodd efe yr vn. Yna ebe nhwy, A oes un gennych? Eithr nid attebodd e iddynt vn gair. Felly hwy a fynegasant y cwbl i r *Brenin*; eithr efe a neccaodd ddyfod i wared iw weled ef; ond efe a orchymynnodd i'r ddau wr disclair (y rhai a fuasent yn cyfarwyddo ac yn cynnorthwyo *Cristion* a *Gobeithiol* i ddyfod i'r Ddinas) i fyned allan a chymmeryd *Anwybodaeth*, a rhwymo

* *Casan.*

† *Ddiaros.*

Luc. 13. 26, 27.

|| *Distiolaeth.*

Mat. 22. 13.

a rhwymo eu Draed a'i ddwylo, ai ddwyn ymaith. Ac hwy ai cymmeraſant, ac a'i dygaſant ef trwy'r Awyr, i'r Drws a welſwn ar ochor y Bryn, ac ai bwriaſant ef i mewn yno. *Yna mi a welais fod ffordd i Uffern, o Byrth y Nefoedd, yn gyſtal ac o Ddinas Deſtryw.* Felly mi a ddeffroais, ac wele Breuddwyd oedd.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

DIWEDD.

Gweddi wedi ei chaſclu o'r Pſalmau;

1. *Ymbaratoad i weddi.*

ARglwydd clyw fy ngweddi, a gwrando ar fy neiſyfiadau: erglyw fi er mwyn dy wirionedd a'th gyfiawnder. Clyw ô Dduw fy llefain, a gwrando fy ngweddi, *Pſal.* 143. 1. *Pſal.* 61. 1.

2. *Cyffes edifeiriol am bechod.*

Wele mewn anwiredd i'm llunniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf. Drygau anifeiriol a gylchynaſant o'm hamgylch, fy mhechodau a'm daliaſant, fel na allwn edrych i fynu; amlach ydynt nâ gwallt fy mhen; am hynny y pallodd fy nghalon gennif. Yna 'r ymofidiodd fy yſpryd o'm mewn: ac y ſynodd fynghalon ynof. Goſodaiſt fy anwiredd ger dy fron, a'n nirgel bechodau yng-oleuni dy wyneb. Os

creſſi

creffi ar anwireddau Arglwydd: ô Arglwydd pwy a ſaif? *Pſal.* 51. 5. *Pſal.* 40. 12. *Pſal.* 143. 4. *Pſal.* 90. 8. *Pſal.* 130. 3.

3. *Gweddi am faddeuant pechodau.*

Na ddôs i farn Arglwydd a'th wâs, o herwydd ni chyfiawnheir néb byw ger dy fron di. Er mwyn dy enw Arglwydd maddeu di fy anwiredd, canys mawr yw. Pwy a ddeail ei gamweddau? glanhâ fi oddiwrth fy meiau cuddiedig. Attal hefyd dy wâs oddiwrth bechodau rhyfygus, na arglwyddiaethant arnaf: yna i'm perffeithir, ac i'm glanheir oddiwrth anwiredd lawer. *Pſal.* 143. 2. *Pſal.* 25. 11. *Pſal.* 19. 12, 13.

4. *Ffydd am gael heddwch Duw.*

O Arglwydd fy Nuw, lledais fy nwylaw attat: fy enaid fel tîr ſychedig ſydd yn hiraethu am danat. Wele fel y mae llygaid gweiſion ar law eu meiſtred, neu fel y mae llygaid llawforwyn ar law meiſtres; felly y mae fy llygaid i ar yr Arglwydd fy Nuw, hyd oni thrugarhao efe wrthif. Dychwel Arglwydd, gwared fy enaid: iachâ fi er mwyn dy drugaredd. *Pſal.* 143. 6. *Pſal.* 123. 2. *Pſal.* 6. 4.

5. *Ffydd yn ymegnio i orchfygu anobaith.*

Paham i'th ddaroſtyngir fy enaid? a phaham y terfyſci ynof? ymddiried yn Nuw; canys etto y moliannaf ef, ſef, iechydwriaeth fy wyneb a'm Duw. Canys ennyd fechan y bydd yn ei lîd, ac yn ei fodlonrwydd y mae bywyd: tros brydnawn yr erys wylofain, ac erbyn y boreu y bydd gorfoledd. Trugarog a graſlawn yw 'r Arglwydd

Arglwydd: hwyrfrydig i lîd, a mawr o drugarogrwydd. Fel y tosturia tâd wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef. Canys efe a edwyn fy nefnydd i: efe a gofia mai llwch ydwyf fi. *Pſal.* 42. 11, *Pſal.* 30. 5. *Pſal.* 103. 8, 13, 14.

6. *Gweddi am adenedigaeth ac am yr yſpryd glân.*

Crea galon lân ynof ô Dduw, ac adnewydda yſpryd vniawn o'm mewn. Dwg drachefn i i mi orfoledd dy iechydwriaeth; ac â'th hael Yſpryd cynnal fi; a dyſcaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droir attat. *Pſal.* 51. 10, 12.

7. *Gweddi am allu o honom vſyddhau i Dduw yn ein buchedd.*

Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th farnedigaethau bôb amſer. O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau. Mi a rodiaf yn fym-mher ffeithrwydd: gwared fi a thrugarhâ wrthif *Pſal.* 119. 5, 20. *Pſal* 26, 1.

8. *Gweddi am fywyd tragwyddol.*

Cofia fi o Arglwydd yn ôl dy raſlonrwydd i'th bobl, ym-wêl à mi â'th iechydwriaeth: fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion, fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genhedl di: fel y gorfoleddwyf gyd â'th etifeddiaeth. *Pſal.* 106. 4, 5.

9. *Diwedd a Diolch i Dduw.*

Bendigedig a fo Arglwydd Dduw Iſrâel bôb amſer ac yn dragywydd, a dyweded yr holl bobl felly byddo, Amen: molwch yr Arglwydd. *Pſal.* 106. 48.